# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 25/11/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
2. Questions to the Counsel General

3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
3. Questions to the Assembly Commission

4. Cynnig i Ddirymu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015
4. Motion to Annul the Tuberculosis (Wales) (Amendment) Order 2015

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Troseddau Amgylcheddol
5. Welsh Conservatives Debate: Environmental Crime

6. Dadl Plaid Cymru: Economi Gogledd Cymru
6. Plaid Cymru Debate: The North Wales Economy

7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Newid Hinsawdd
7. Welsh Liberal Democrats Debate: Climate Change

8. Cyfnod Pleidleisio
8. Voting Time

9. Dadl Fer: Pentecostiaeth yng Nghymru: Pam Ddylai Cymru Wneud Mwy i Ddathlu ei Threftadaeth Gyfoethog Pentecostaidd
9. Short Debate: Welsh Pentecostalism: Why Wales Should Do More to Celebrate its Rich Pentecostal Heritage


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## 1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

13:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 1, questions to the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1, Andrew R.T. Davies.

Eitem 1, cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Cwestiwn 1, Andrew R.T. Davies.

### Y Seilwaith Trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru

### The Transport Infrastructure of South Wales Central

13:30 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*1. Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cyflwyno i wella'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0641(EST)*

*1. What measures are being introduced by the Minister to improve the transport infrastructure of South Wales Central? OAQ(4)0641(EST)*

13:30 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv Fideo Video

Our measures for improving our transport infrastructure across all parts of Wales are set out in the national transport finance plan, and I updated Members on the plan on 22 September.

Mae ein mesurau ar gyfer gwella ein seilwaith trafnidiaeth ar draws pob rhan o Gymru wedi'u nodi yn y cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol, a rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i'r Aelodau ar 22 Medi.

13:30 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Obviously, South Wales Central has many key assets for public entertainment—the Millennium Stadium being one, SWALEC cricket stadium, and the football. The list is endless, in fairness, to the city of Cardiff. One of the issues that you and other Members are aware of are the transport bottlenecks that hit many people who did try to get into and out of the city of Cardiff during the recent Rugby World Cup. It's critical that, when organisers are looking at Cardiff as a potential host city, they can have confidence that transport will meet the requirements of their needs. What lessons learned do you think your officials have gained in developing a more joined-up approach to dealing with some of these bottlenecks that arrived with us for the world cup?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, mae Canol De Cymru yn meddu ar lawer o asedau allweddol ar gyfer adloniant cyhoeddus—mae Stadiwm y Mileniwm yn un, stadiwm criced SWALEC, a'r pêl-droed. A bod yn deg, mae'r rhestr i ddinas Caerdydd yn ddiddiwedd. Un o'r materion rydych chi a'r Aelodau eraill yn ymwybodol ohono yw'r tagfeydd trafnidiaeth a wynebodd lawer o'r bobl a oedd yn ceisio mynd i mewn ac allan o ddinas Caerdydd yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn ddiweddar. Pan fo trefnwyr yn edrych ar Gaerdydd fel dinas bosibl ar gyfer cynnal digwyddiadau, mae'n allweddol eu bod yn hyderus y bydd trafnidiaeth yn diwallu eu hanghenion. Yn eich tyb chi, pa wersi a ddysgwyd gan eich swyddogion o ran datblygu dull mwy cydlynol o ymdrin â rhai o'r tagfeydd hyn a welwyd adeg cwpan y byd?

13:31 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's important that, when we're marketing Cardiff globally, in terms of events and attractions here, we have traffic management down to a fine art, whether it be road or rail. My officials have been in dialogue, obviously, with the city council, Network Rail, train services, and everything, to see what positive lessons can be learned. A lot of planning did actually go into the Rugby World Cup, but, sometimes, all the planning in the world doesn't lead to the best outcomes. But the lessons that have been learned will be taken on board, and the importance is to have a continuing dialogue, for a long period of time, to ensure that every issue is examined, and every possibility looked at.

Pan fyddwn yn marchnata Caerdydd yn fyd-eang, o ran digwyddiadau ac atyniadau yma, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn meistroli'r grefft o reoli traffig, boed ar y ffyrdd neu ar y rheilffyrdd. Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod Network Rail, y gwasanaethau trên, a phopeth, gyda chyngor y ddinas, wrth gwrs, er mwyn gweld pa wersi cadarnhaol y gellir eu dysgu. Gwnaed llawer o waith cynllunio ar Gwpan Rygbi'r Byd, ond weithiau, nid yw'r holl gynllunio yn y byd yn arwain at y canlyniadau gorau. Ond bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cadw mewn cof, a'r peth pwysig yw cael deialog barhaus, am gyfnod hir o amser, er mwyn sicrhau bod pob mater yn cael ei archwilio, a phob posibilrwydd yn cael ei ystyried.

13:31 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The metro is obviously a major transformational part of the Welsh Government programme in terms of improving transport, and it's certainly of major significance to the Taff-Ely area, as well as the whole of Wales. I'm just wondering whether you might be in a position to actually start more definitively evaluating the opportunities that arise in terms of job creation, apprenticeships, economic opening out and development as a consequence of that, so we can evaluate not just the connectivity, but also the way it could, potentially, transform both socially and economically.

Mae'r metro yn amlwg yn rhan drawsnewidiol bwysig o raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella trafnidiaeth, ac mae'n sicr yn arwyddocaol iawn i ardal Taf-Elái, yn ogystal â Chymru gyfan. Tybed a ydych mewn sefyllfa i gychwyn gwerthuso'r cyfleoedd sy'n codi yn fwy pendant o ran creu swyddi, prentisiaethau, agor yr economi a datblygu o ganlyniad i'r metro, er mwyn i ni allu gwerthuso cysylltedd, yn ogystal â'r ffordd y gallai drawsnewid yn gymdeithasol ac yn economaidd o bosibl.

13:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, obviously, some economic benefits were assessed, I think, back in 2013, when we did the metro impact study. But there will be further work in this area, because it's important for us to look at the benefits on key corridors and around key stations, and, of course, at the environmental and sustainability benefits of the metro system as well.

Ie, yn amlwg, aseswyd rhai manteision economaidd, rwy'n credu, yn ôl yn 2013, pan gyflawnwyd astudiaeth effaith y metro gennym. Ond bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y maes, gan ei bod yn bwysig i ni edrych ar y manteision i goridorau allweddol ac o gwmpas gorsafoedd allweddol, ac wrth gwrs, ar fanteision amgylcheddol a chynaliadwyedd y system metro hefyd.

## Dinas-ranbarth Bae Abertawe

## Swansea Bay City Region

13:32 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith rhanbarth dinas bae Abertawe? OAQ(4)0652(EST)*

*2. Will the Minister provide an update on the work of the Swansea bay city region? OAQ(4)0652(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. The Swansea bay city region board has led important work on regional alignment and collaboration.

Gwnaf. Mae bwrdd dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi arwain gwaith pwysig ar aliniad rhanbarthol a chydweithredu.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Diolch am hynny. Yn Llanelli, rydym yn ffodus o gael pencadlys cynhyrchu cyfryngau rhyngwladol Tinopolis. Mae S4C hefyd yn y broses o symud i ranbarth dinas bae Abertawe—i Gaerfyrddin. Yn wir, mae gennym enw da, cryf yn y cyfryngau digidol yng ngorllewin Cymru. Fodd bynnag, mae mwy y gellir ei wneud i annog twf yn y sector hwn. Pa waith pellach y gall y ddinas-ranbarth a Llywodraeth Cymru ei wneud i atgyfnerthu ac adeiladu ar y llwyddiant hwn er mwyn creu mwy o swyddi yng ngorllewin Cymru?

Thank you for that. In Llanelli, we are fortunate to have the headquarters of Tinopolis international production company. Also, S4C is in the process of moving to the Swansea bay city region, to Carmarthen. Indeed, we have a strong reputation in the digital media in west Wales. However, there is more that can be done to encourage growth in this sector. What further work can the city region and the Welsh Government do to reinforce and build upon this success in order to create more jobs in west Wales?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I obviously took the opportunity last week of meeting Sir Terry Matthews, who, of course, chairs the board. We've got a very innovative partnership with Alcatel-Lucent, investing in a G-fast broadband UK test bed in Swansea. We're also, of course, looking at a regional digital marketing suite, which will be located in the great hall of the new university campus. And Sir Terry is also committed to establishing the Alacrity Foundation model in Swansea bay, supported by a fund, to incubate and launch new high-tech companies in the region.

Yn amlwg, manteisiais ar y cyfle yr wythnos diwethaf i gwrdd â Syr Terry Matthews, sy'n cadeirio'r bwrdd wrth gwrs. Mae gennym bartneriaeth arloesol iawn gyda Alcatel-Lucent, ac yn buddsoddi mewn man profi band eang G-fast ar gyfer y DU yn Abertawe. Rydym hefyd, wrth gwrs, yn ystyried ystafell marchnata digidol ranbarthol, a fydd yn cael ei lleoli yn neuadd fawr campws newydd y brifysgol. Ac mae Syr Terry hefyd wedi ymrwymo i sefydlu model Sefydliad Alacrity ym mae Abertawe, wedi'i gefnogi gan gronfa, i greu a lansio cwmnïau uwch-dechnoleg newydd yn y rhanbarth.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Minister, what assessment have you made of the impact your Government's reorganisation of local government will have on the operation of the Swansea bay city region, and its ability to deliver improvements to the city of Swansea and the wider Swansea bay region?

Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o'r effaith y bydd prosesau ad-drefnu llywodraeth leol eich Llywodraeth yn ei chael ar weithrediad dinas-ranbarth Bae Abertawe, a'i allu i gyflawni gwelliannau i ddinas Abertawe a rhanbarth ehangach Bae Abertawe?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

In the first place, I had some concerns about the ability of the four local authorities to work together on a regional basis when I established the city region. Those thoughts were soon dispelled; the four of them work very well together. And, obviously, the issue of local government reorganisation is a matter for my colleague, the Minister for Public Services.

Yn y lle cyntaf, roedd gennyf rai pryderon ynghylch gallu'r pedwar awdurdod lleol i gydweithio ar sail ranbarthol pan sefydlais y dinas-ranbarth. Cafodd y pryderon hynny eu lleddfu'n fuan; mae'r pedwar ohonynt yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Ac yn amlwg, mater i fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, yw ad-drefnu llywodraeth leol.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister knows I'm very keen on developing the infrastructure within the region and believe that it's highly important to have a well-developed infrastructure in order that people can get around to their different places of work in the region. Can the Minister give an update on rail electrification to Swansea and on any possible improvements to local train services within the region?

Gŵyr y Gweinidog fy mod yn frwd iawn ynglŷn â datblygu'r seilwaith yn y rhanbarth a fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn cael seilwaith wedi'i ddatblygu'n dda fel y gall pobl deithio i'w gwahanol leoliadau gwaith yn y rhanbarth. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe ac unrhyw welliannau posibl i wasanaethau trên lleol yn y rhanbarth?

13:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Improvements to local train services are obviously a matter of budget. We have made various improvements. In terms of electrification, we are very hopeful that the continuing plans for electrification will continue, but I think it's important that, as an Assembly, we make the UK Government understand that we want no delay on these matters. However, we are awaiting a report from Peter Hendy, who will be reporting to the UK Government, and it's important to recognise what happens in terms of that report. But electrification to Swansea is the key for economic development within south Wales and further west.

Mae gwelliannau i wasanaethau trên lleol yn amlwg yn fater sy'n ymwneud â'r gyllideb. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau. O ran trydaneiddio, rydym yn obeithiol iawn y bydd y cynlluniau parhaus ar gyfer trydaneiddio yn parhau, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni fel Cynulliad sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall nad ydym eisiau unrhyw oedi ar y materion hyn. Fodd bynnag, rydym yn aros am adroddiad gan Peter Hendy i Lywodraeth y DU, ac mae'n bwysig cydnabod beth fydd yn digwydd o ran yr adroddiad hwnnw. Ond trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe yw'r allwedd i ddatblygu economaidd yn ne Cymru ac ymhellach i'r gorllewin.

13:35 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, as has been mentioned, Sir Terry Matthews, who is the chair of the city region, said he was disappointed with the economic performance of the area, adding that

Weinidog, yr wythnos diwethaf, fel y crybwyllwyd, dywedodd Syr Terry Matthews, cadeirydd ar y dinas-ranbarth, ei fod yn siomedig ynglŷn â pherfformiad economaidd yr ardal, gan ychwanegu

'it was not good enough, in my world.'

'it was not good enough, in my world.'

Is your appointed chair right in what he says, and how do you plan to address the issues he has highlighted? Will you be looking to areas like Plymouth, which is similar economically to Swansea, to see what lessons can be learnt and to see how we can develop the area to its benefit?

A yw'r cadeirydd a benodwyd gennych yn gywir yn yr hyn y mae'n ei ddweud, a sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion y mae wedi tynnu sylw atynt? A fyddwch yn edrych ar ardaloedd fel Plymouth, sy'n debyg i Abertawe yn economaidd, i weld pa wersi y gellir eu dysgu ac i weld sut y gallwn ddatblygu'r ardal er ei budd ei hun?

13:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's always important to take Sir Terry's remarks in the context they were made. He was very disappointed, but I think, as a proud Welshman, and a graduate of Swansea, he would have liked to have seen lots more development further west. Sir Terry, as chair, of course, is taking the agenda forward, and I have every confidence in what he's doing on it.

Credaf ei bod yn bwysig deall sylwadau Syr Terry bob amser yn y cyd-destun y cawsant eu gwneud. Roedd yn siomedig iawn, ond fel Cymro balch, ac fel un o raddedigion Abertawe, rwy'n credu y byddai wedi hoffi gweld llawer mwy o ddatblygu ymhellach i'r gorllewin. Mae Syr Terry, fel cadeirydd, wrth gwrs, yn bwrw ymlaen â'r agenda, ac mae gennyf bob ffydd yn yr hyn y mae'n ei wneud arni.

13:36 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the big economic drivers that could happen in our region is the tidal lagoon project, which could bring manufacturing and different types of jobs into the economy. Do you share my disappointment that the Chancellor has not taken the opportunity to enhance and say that that lagoon will go forward today, because that has a major impact on our region?

Weinidog, un o'r ysgogwyr economaidd mawr a allai ddigwydd yn ein rhanbarth yw prosiect y morlyn llanw, a allai ddod â gweithgynhyrchu a gwahanol fathau o swyddi i'r economi. A ydych yn rhannu fy siom nad yw'r Canghellor wedi manteisio ar y cyfle i ymhelaethu heddiw a dweud y bydd y morlyn llanw yn digwydd, oherwydd mae hwnnw'n cael effaith fawr ar ein rhanbarth?

13:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that all across the parties here we're very supportive of the tidal lagoon, and this is an issue about the strike price, which does have to be resolved. The important thing to recognise is that it's all very well having photographs taken where the lagoon might go, but the important thing now is to put the financial structures in place that will allow the tidal lagoon to produce energy and also to create jobs within the region.

Credaf fod pawb ar draws y pleidiau yma yn gefnogol iawn i'r morlyn llanw, ac mae hyn yn ymwneud â'r pris streic, sydd angen ei ddatrys. Y peth pwysig i'w gydnabod yw mai hawdd y gellir cael ffotograffau o ble y gellid lleoli'r morlyn, ond y peth pwysig yn awr yw rhoi'r strwythurau ariannol ar waith a fydd yn caniatáu i'r morlyn llanw gynhyrchu ynni yn ogystal â chreu swyddi yn y rhanbarth.

13:36 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, further to Mike Hedges's question about the electrification of the main line, I agree with you that it's absolutely vital to the future economy of Swansea. What meetings have you had with Network Rail, and what is your understanding of the timescale for the completion of this project, assuming that it is going to be fully financed?

Weinidog, i ddilyn cwestiwn Mike Hedges ynglŷn â thrydaneiddio'r brif reilffordd, rwy'n cytuno â chi fod hynny'n gwbl hanfodol i ddyfodol economi Abertawe. Pa gyfarfodydd a gawsoch gyda Network Rail, a beth yw eich dealltwriaeth ynghylch yr amserlen ar gyfer cwblhau'r prosiect hwn, gan dderbyn y bydd yn cael ei gyllido'n llawn?

13:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am waiting to see developments on the various reports that have been undertaken. I have regular meetings with Network Rail and I've made my views quite clear to the new chair of Network Rail on this, and I will have the opportunity of engaging with the appropriate UK Government Minister in the next week or so. I know I speak on behalf of the entire Assembly, Deputy Presiding Officer, in saying that we are all keen to see this project delivered on time, but when you look at some of the delays elsewhere, I can understand why there is worry and concern about it.

Rwy'n aros i weld y datblygiadau yn sgil yr adroddiadau amrywiol a gyflawnwyd. Rwy'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Network Rail ac rwyf wedi dweud fy marn ar hyn yn glir iawn wrth gadeirydd newydd Network Rail, a byddaf yn cael cyfle i ymgysylltu â Gweinidog priodol Llywodraeth y DU yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf. Gwn fy mod yn siarad ar ran y Cynulliad cyfan, Ddirprwy Lywydd, pan ddywedaf ein bod i gyd yn awyddus i weld y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno ar amser, ond pan edrychwch ar rywfaint o'r oedi a fu mewn mannau eraill, gallaf ddeall y gofid a'r pryder ynglŷn â hyn.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople, starting this week with Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

13:37 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'll begin with transport. You may be aware that the Enterprise and Business Committee last week heard evidence from the traffic commissioner for Wales and the west midlands, and he made a very strong safety case for there being a dedicated Wales traffic commissioner, and said that safety standards for bus passengers, and the bus industry, would certainly improve over the medium and longer term. Now, the Conservative UK Government has opposed the Silk commission recommendation to create a Welsh traffic commissioner. I don't believe they considered the evidence, but I think the evidence heard in the committee was very compelling indeed. Will you commit to looking at the traffic commissioner's comments to the committee and sending a report based on them to your counterparts in the UK Government, with a view to moving this agenda forward?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ddechrau gyda thrafnidiaeth. Mae'n bosibl eich bod yn gwybod bod y Pwyllgor Menter a Busnes wedi clywed tystiolaeth yr wythnos diwethaf gan gomisiynydd traffig Cymru a gorllewin canolbarth Lloegr. Cyflwynodd ddadl gref iawn o ran diogelwch dros gael comisiynydd traffig penodol i Gymru, a dywedodd y byddai safonau diogelwch i deithwyr bws, a'r diwydiant bysiau, yn sicr yn gwella dros y tymor canolig a'r tymor hwy. Nawr, mae Llywodraeth Geidwadol y DU wedi gwrthwynebu argymhelliad comisiwn Silk y dylid creu comisiynydd traffig i Gymru. Nid wyf yn credu eu bod wedi ystyried y dystiolaeth, ond rwy'n credu bod y dystiolaeth a glywyd yn y pwyllgor yn gymhellgar iawn yn wir. A wnewch chi ymrwymo i edrych ar sylwadau'r comisiynydd traffig i'r pwyllgor ac anfon adroddiad yn seiliedig arnynt i'ch cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o symud yr agenda hon yn ei blaen?

13:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share the comments that you've made regarding the traffic commissioner and the establishment of an office in Wales. I'd be delighted to look at the evidence provided by the committee and will, of course, take that matter forward at a governmental level.

Rwy'n rhannu'r sylwadau a wnaethoch ynghylch y comisiynydd traffig a sefydlu swyddfa yng Nghymru. Byddai'n bleser gennyf edrych ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan y pwyllgor ac wrth gwrs, byddaf yn symud y mater hwn yn ei flaen ar lefel lywodraethol.

13:38 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. There'll be a Plaid Cymru debate this afternoon on creating a powerhouse for north Wales—an economic powerhouse—and developing a regional economic policy for the north. I know that you support the work led by Plaid Cymru colleagues of mine, but on a cross-party basis across local authorities working together on the economy and transport. Your Government supports the fact that we in Wales, and the north of Wales, could benefit from the new northern powerhouse in England, as I certainly do. The UK Government has a similar view too, but as things stand, of course, we're not going to be linked to that northern powerhouse with an electrified railway. When there was a risk that electrification in south Wales would definitely only go as far as Cardiff, we had a cross-party delegation to Westminster to make the case. There are still questions over that, of course, but at least a commitment came at the time. Could we agree today to accelerate the work towards a similar kind of national cross-party campaign for north Wales electrification as we had for Swansea?

Diolch. Bydd yna ddadl gan Blaid Cymru y prynhawn yma ar greu pwerdy ar gyfer gogledd Cymru—pwerdy economaidd—a datblygu polisi economaidd rhanbarthol ar gyfer y gogledd. Gwn eich bod yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei arwain gan fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru, ond ar sail drawsbleidiol ar draws awdurdodau lleol sy'n cydweithio ar yr economi a thrafnidiaeth. Mae eich Llywodraeth yn cefnogi'r ffaith y gallem ni yng Nghymru, a gogledd Cymru, elwa o'r pwerdy gogleddol newydd yn Lloegr, ac rwy'n bendant yn cefnogi hynny. Mae gan Lywodraeth y DU farn debyg hefyd, ond fel y mae pethau, wrth gwrs, ni cheir rheilffordd wedi'i thrydaneiddio i'n cysylltu â'r pwerdy gogleddol. Pan oedd perygl na fyddai trydaneiddio yn ne Cymru yn mynd ymhellach na Chaerdydd, aeth dirprwyaeth drawsbleidiol i San Steffan i gyflwyno ein hachos. Mae yna gwestiynau ynghylch hynny o hyd, wrth gwrs, ond daeth ymrwymiad ar y pryd o leiaf. A gawn ni gytuno heddiw i gyflymu'r gwaith tuag at ymgyrch drawsbleidiol genedlaethol dros drydaneiddio gogledd Cymru yn debyg i'r un a gawsom ar gyfer Abertawe?

13:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a cross-party campaign already alive and well and kicking in north Wales in terms of the North Wales Economic Ambition Board, ably led by Councillor Dilwyn Roberts from Conway, who has made the case very strategically in terms of what can be delivered. The Government is part and parcel of that. Dilwyn chaired a very successful summit on rail when we brought together English authorities and considered what we can do with the Mersey Dee Alliance and how we can deal with this. I think that that is the bedrock that will allow us to take this consensus forward in the UK.

Mae yna ymgyrch drawsbleidiol fywiog iawn eisoes yn y gogledd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, dan arweiniad medrus y Cynghorydd Dilwyn Roberts o Gonwy, sydd wedi cyflwyno'r achos yn strategol iawn o ran yr hyn y gellir ei gyflawni. Mae'r Llywodraeth yn rhan annatod o hynny. Cadeiriodd Dilwyn uwchgynhadledd lwyddiannus iawn ar y rheilffyrdd pan ddaethom ag awdurdodau Lloegr ynghyd i ystyried beth y gallwn ei wneud gyda Chynghrair Mersi Dyfrdwy a sut y gallwn ymdrin â hyn. Rwy'n credu mai dyna'r sylfaen a fydd yn caniatáu i ni symud y consensws hwn yn ei flaen yn y DU.

13:40 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was at that conference and indeed it was a very positive conference, and I look forward to further thoughts from the Minister on how we here could help that campaign towards electrifying north Wales.

Roeddwn yn y gynhadledd honno ac yn wir roedd yn gynhadledd gadarnhaol iawn, ac edrychaf ymlaen at syniadau pellach gan y Gweinidog ynglŷn â sut y gallem ni yma helpu'r ymgyrch dros drydaneiddio gogledd Cymru.

Finally, this Government has called, we know, for the comprehensive spending review today to make a pledge on a city deal for Cardiff. We obviously all want to see a very strong capital region. But, of course, the lessons from England of what happens when you have too much economic prosperity focused on one corner of the country is equally applicable to Wales today. We want to see the spread of economic prosperity. In the context of a city deal for Cardiff and our hopes for that, what comparable regional policy will you develop for the rest of Wales, which has equal economic ambitions?

Yn olaf, gwyddom fod y Llywodraeth hon wedi galw am gytundeb dinas i Gaerdydd yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant heddiw. Yn amlwg mae pob un ohonom am weld prifddinas-ranbarth cryf iawn. Ond wrth gwrs, mae'r gwersi a ddysgwyd o Loegr o ran yr hyn sy'n digwydd pan fo gormod o ffyniant economaidd wedi'i ganoli mewn un gornel o'r wlad yr un mor berthnasol i Gymru heddiw. Rydym am weld ffyniant economaidd yn cael ei ledaenu. Yng nghyd-destun cytundeb dinas i Gaerdydd a'n gobeithion ar ei gyfer, pa bolisi rhanbarthol tebyg y byddwch chi'n ei ddatblygu ar gyfer gweddill Cymru, sydd ag uchelgeisiau economaidd tebyg?

13:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, there is the establishment of a city region within Swansea. The city region in Swansea itself is looking at whether it could construct a city deal as well, with a lot of private investment being part of that, and not necessarily asking Government to be involved in some of the financial issues. Also, I'm well aware that the economic ambition board in north Wales is looking with interest at developments both in Cardiff and within Swansea, and I remain in dialogue with them.

Yn amlwg, cafodd dinas-ranbarth ei sefydlu yn Abertawe. Mae dinas-ranbarth Abertawe ei hun yn ystyried a allai lunio cytundeb dinas hefyd, gyda llawer o fuddsoddi preifat yn rhan ohono, heb ofyn i'r Llywodraeth fod yn rhan o'r holl faterion ariannol o reidrwydd. Hefyd, rwy'n ymwybodol iawn fod y bwrdd uchelgais economaidd yng ngogledd Cymru yn edrych gyda diddordeb ar ddatblygiadau yng Nghaerdydd ac yn Abertawe, ac rwy'n dal i gynnal deialog â hwy.

13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Conservative spokesperson, William Graham.

Llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, William Graham.

13:42 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, the Heads of the Valleys Development Company aspires to stage the 2017 MotoGP at the Circuit of Wales in Ebbw Vale. That is clearly a major investment not only for the Heads of the Valleys, but also for Wales. In order to retain investor confidence, would the Minister give an undertaking to make a statement to Plenary, when she's able, when all the various complex factors come together?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd yn awyddus i gynnal pencampwriaeth MotoGP 2017 yng Nghylchffordd Cymru yng Nglyn Ebwy. Mae'n amlwg yn fuddsoddiad mawr, nid yn unig i Flaenau'r Cymoedd, ond i Gymru hefyd. Er mwyn cynnal hyder buddsoddwyr, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i wneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn, pan fydd hi'n gallu, pan fydd yr holl ffactorau amrywiol cymhleth yn dod ynghyd?

13:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I have been reviewing with officials the state of play on this particular issue because I know that there is concern across the piece to ensure that this project has legs and is developed because it is a wonderful opportunity for the enterprise zone in terms of what associated businesses could come in on the back of the project.

Ie, rwyf wedi bod yn adolygu'r sefyllfa fel y mae ar y mater penodol hwn gyda swyddogion gan y gwn fod yna awydd cyffredinol i sicrhau y gall y prosiect hwn lwyddo ac y caiff ei ddatblygu am ei fod yn gyfle gwych i'r ardal fenter o ran y busnesau cysylltiedig y gellid eu creu yn ei sgil.

I understand that some hurdles have now been overcome in terms of decisions by a ministerial colleague, and there's then a period of time, of course, for a judicial review. We hope we'll have clarity regarding further issues, I think, in January and February, because it is important that they do get on site and that everything is cleared to ensure that investor confidence. I'd be delighted to update Assembly Members after Christmas.

Rwy'n deall bod rhai rhwystrau wedi cael eu goresgyn erbyn hyn mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed gan gyd-Weinidog, ac mae yna gyfnod o amser wedyn, wrth gwrs, ar gyfer adolygiad barnwrol. Rydym yn gobeithio y byddwn wedi cael eglurhad ynglŷn â materion pellach ym mis Ionawr a mis Chwefror, rwy'n credu, oherwydd mae'n bwysig eu bod yn mynd ar y safle a bod popeth yn cael ei glirio er mwyn sicrhau hyder buddsoddwyr. Byddwn yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad ar ôl y Nadolig.

13:43 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Minister. I have a similar request in terms of the electrification. We all await this report from the chairman of Network Rail. As already commented, it is vitally important for the economic development of south Wales and Wales in general. It's difficult to ask you exactly when you're able to commit to give us a response. But I think it is so important that we have to ask you, once again, if you would give a commitment to make a statement at the earliest possible opportunity.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Mae gennyf gais tebyg o ran trydaneiddio. Mae pob un ohonom yn aros am yr adroddiad gan gadeirydd Network Rail. Fel y dywedwyd eisoes, mae'n hanfodol bwysig i ddatblygiad economaidd de Cymru a Chymru yn gyffredinol. Mae'n anodd gofyn i chi pa bryd yn union y gallwch ymrwymo i roi ymateb i ni. Ond rwy'n credu ei fod mor bwysig fel bod yn rhaid i ni ofyn i chi, unwaith eto, a wnewch chi ymrwymo i wneud datganiad ar y cyfle cyntaf posibl.

13:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We understand that Sir Peter Hendy's review of Network Rail's current control period 5 infrastructure is ready and will be presented, we understand, to the Department for Transport very shortly. I will have the opportunity of hopefully meeting Patrick McLoughlin within the next week or so, and this is one of the issues that I will be discussing with him. As soon as I'm able to share anything with Members in terms of what is happening on this particular issue, I will share it with Members because I recognise that, across the piece, we are all concerned about the future of this project and the timescales that are involved in it.

Rydym yn deall bod adolygiad presennol Syr Peter Hendy o seilwaith cyfnod rheoli 5 Network Rail yn barod ac y bydd yn cael ei gyflwyno, yn ôl yr hyn a ddeallwn, i'r Adran Drafnidiaeth yn fuan iawn. Caf gyfle i gyfarfod â Patrick McLoughlin yr wythnos nesaf gobeithio, ac mae hwn yn un o'r materion y byddaf yn eu trafod gydag ef. Cyn gynted ag y gallaf rannu unrhyw beth gyda'r Aelodau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ar y mater penodol hwn, byddaf yn ei rannu gyda'r Aelodau gan fy mod yn deall fod pawb ohonom yn pryderu am ddyfodol y prosiect hwn a'r amserlenni sydd ynghlwm wrtho.

13:44 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rather similar, if I may, Minister, my last question is regarding the Cardiff capital region, again, in terms of south Wales and south-east Wales, which is a very vital project, again commanding cross-party support. Your Government's position is entirely clear. Do you have an idea when you would hope to have a different response from the United Kingdom Government?

Yn eithaf tebyg, os caf, Weinidog, mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â phrifddinas-ranbarth Caerdydd, unwaith eto, o ran de Cymru a de-ddwyrain Cymru. Mae'n brosiect hanfodol iawn, ac unwaith eto, mae'n denu cefnogaeth drawsbleidiol. Mae safbwynt eich Llywodraeth yn gwbl glir. A oes gennych syniad pa bryd y byddech yn gobeithio cael ymateb gwahanol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig?

13:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague, Jane Hutt, has been dealing with the city deal and, obviously, a tremendous amount of work has gone on on behalf of the local authorities, collaboratively looking at how the deal could be structured. I think they hope that they will get an answer fairly swiftly, but these things do take time, when you look at examples elsewhere, but I know my colleague Jane Hutt will update you as soon as anything's available. The city region board themselves are also anxious to see the outcome of that because of the implications it has on their future working as well.

Mae fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, wedi bod yn ymdrin â'r cytundeb dinas ac yn amlwg, gwnaed llawer iawn o waith ar ran yr awdurdodau lleol, yn edrych ar y cyd ar sut y gellid strwythuro'r cytundeb. Rwy'n credu eu bod yn gobeithio y byddant yn cael ateb yn weddol gyflym, ond mae'r pethau hyn yn cymryd amser, os edrychwch ar enghreifftiau mewn mannau eraill, ond rwy'n gwybod y bydd fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, yn rhoi'r manylion diweddaraf i chi cyn gynted ag y bydd unrhyw beth ar gael. Mae bwrdd y dinas-ranbarth ei hun yn awyddus i weld canlyniad hynny oherwydd y goblygiadau a gaiff ar eu gwaith yn y dyfodol hefyd.

13:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

A llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

13:44 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. How much money is to be cut out of the Business Wales budget for the next financial year?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Faint o arian a gaiff ei dorri o gyllideb Busnes Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf?

13:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have made no further decisions yet. I'm currently considering my budget position. Obviously, there have been some important announcements, perhaps, today, which I haven't caught up with in relation to budgetary matters. I'm absolutely open and honest: I'm working through my BELs as we speak.

Nid wyf wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pellach eto. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried sefyllfa fy nghyllideb. Yn amlwg, cafwyd rhai cyhoeddiadau pwysig heddiw, o bosibl, nad wyf wedi cael cyfle i'w hystyried mewn perthynas â materion y gyllideb. Rwy'n gwbl agored ac onest: y funud hon rwy'n gweithio drwy fy llinellau gwariant yn y gyllideb.

13:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You may well be aware that there are rumours that officials are planning for a 43 per cent cut in funding for Business Wales next year, which is, obviously, a concern, given the fact that the latest business demographics data published yesterday by the Office for National Statistics show that we are still lagging more than 10 per cent behind the UK average in terms of the number of business start-ups being created in Wales. There's also, clearly, the huge and persisting productivity gap between Wales and the rest of the UK. So, can you tell us how you intend to ensure that Wales at least keeps pace with, let alone catches up with, the rest of the UK if cuts are potentially in process?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Efallai eich bod yn ymwybodol fod yna sibrydion fod swyddogion yn cynllunio toriad o 43 y cant yng nghyllid Busnes Cymru y flwyddyn nesaf, sy'n destun pryder, yn amlwg, o ystyried y ffaith fod y data demograffeg busnes diweddaraf a gyhoeddwyd ddoe gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos ein bod 10 y cant a mwy islaw cyfartaledd y DU o ran nifer y busnesau newydd a grëwyd yng Nghymru. Hefyd, yn amlwg, ceir bwlch enfawr parhaus rhwng cynhyrchiant Cymru a gweddill y DU. Felly, a allwch ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu sicrhau bod Cymru o leiaf yn symud yr un mor gyflym, heb sôn am ddal i fyny, â gweddill y DU os oes toriadau ar y gweill o bosibl?

13:46 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One must never believe rumours that might emanate from officials because, in my department, I make the decisions, not officials. Can I make it absolutely clear that I will do the best I can within my budget to protect the expenditure in what I regard as an important area? Any shortfalls we have against the rest the UK, we've got to continue with the work we've put in place to continue. Your leader made some points yesterday on these particular issues as well, and I am concerned to ensure that we keep up the momentum of the good changes we've made.

Ni ddylai neb gredu sibrydion a allai ddod gan swyddogion oherwydd, yn fy adran i, fi sy'n gwneud y penderfyniadau, nid y swyddogion. A gaf fi ddweud yn gwbl glir y byddaf yn gwneud fy ngorau glas o fewn y gyllideb sydd gennyf i ddiogelu gwariant ar yr hyn rwy'n ei ystyried yn faes pwysig? Ni waeth pa ddiffygion sydd gennym o gymharu â gweddill y DU, mae'n rhaid i ni barhau â'r gwaith sydd ar y gweill gennym. Gwnaeth eich arweinydd rai pwyntiau ddoe ar y materion hyn hefyd, ac rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn cynnal momentwm y newidiadau da rydym wedi'u gwneud.

13:46 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that very clear answer, Minister. I'm sure that no-one would even begin to suspect that anyone else is in charge of your department, other than you. [Laughter.] I read with interest, however, the application for the Cardiff capital city deal, and one of the five project themes within that is connectivity, with the Welsh Government committing £580 million to help drive the regeneration of south-east Wales, specifically in terms of that theme. Clearly, this is going to be absolutely key to encouraging businesses to locate premises here in the capital city region, and it's a shame, I think, that, up until this point, the Chancellor has still sidestepped the issue of whether or not that funding is to be forthcoming. I wonder if you can tell us, though, how much of the £580 million offered to the UK Treasury as match funding, in the First Minister's letter to the Chancellor, was funding given to you by the UK Treasury to fund the electrification of the Valleys lines in the first place?

Diolch i chi am eich ateb clir iawn, Weinidog. Rwy'n siŵr na fyddai neb yn amau am eiliad fod unrhyw un ar wahân i chi yn rheoli eich adran. [Chwerthin.] Fodd bynnag, darllenais y cais am gytundeb prifddinas Caerdydd gyda diddordeb, ac un o'r pum thema prosiect yn hwnnw yw cysylltedd, gyda Llywodraeth Cymru yn ymrwymo £580 miliwn i helpu i adfywio de-ddwyrain Cymru, yn nhermau'r thema honno'n benodol. Yn amlwg, mae hyn yn mynd i fod yn gwbl allweddol ar gyfer annog busnesau i leoli safleoedd yma yn y prifddinas-ranbarth, ac rwy'n credu ei bod hi'n drueni fod y Canghellor, hyd yn hyn, wedi parhau i osgoi dweud a fydd yr arian hwn ar gael yn y dyfodol ai peidio. Tybed a allwch ddweud wrthym, fodd bynnag, faint o'r £580 miliwn a gynigiwyd i Drysorlys y DU fel arian cyfatebol yn llythyr Prif Weinidog Cymru i'r Canghellor, a oedd yn gyllid a roddwyd i chi gan Drysorlys y DU i ariannu'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn y lle cyntaf?

13:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The city deal is a matter that's being dealt with financially by the Minister for finance, and she will be best placed to go into the details of the information you are requesting.

Mae'r cytundeb dinas yn fater ariannol sy'n cael ei drin gan y Gweinidog cyllid, a hi fydd yn y sefyllfa orau i drafod manylion y wybodaeth rydych yn gofyn amdani.

## Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

## The Wales and Borders Rail Franchise

13:47 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses a'r amserlenni ar gyfer dyfarnu masnachfraint rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau? OAQ(4)0646(EST)*

*3. Will the Minister provide an update on the process and timescales for awarding the new Wales and Borders rail franchise? OAQ(4)0646(EST)*

13:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The not-for-dividend transport company is currently developing the documentation to support the integrated franchise and infrastructure contract. This will ensure the franchise operates in the interests of the travelling public, driving up service standards and reducing costs.

Ar hyn o bryd, mae'r cwmni trafnidiaeth di-ddifidend yn datblygu'r dogfennau i gefnogi contract y fasnachfraint a seilwaith integredig. Bydd hyn yn sicrhau bod y fasnachfraint yn gweithredu er budd y cyhoedd sy'n teithio, gan godi safonau gwasanaethau a lleihau costau.

13:48 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. I've recently received a number of complaints from constituents about Arriva Trains Wales, particularly about not stopping at platforms, which I know the Minister is looking into. Obviously, the new Wales and borders franchise will be awarded in 2018; how are we going to ensure that the issues that rail passengers experience at the moment can be taken into consideration when that franchise is drawn up?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn ddiweddar, cefais nifer o gwynion gan etholwyr am Trenau Arriva Cymru, yn enwedig am nad yw trenau'n aros wrth blatfformau, a gwn fod y Gweinidog yn edrych ar hynny. Yn amlwg, dyfernir masnachfraint newydd Cymru a'r gororau yn 2018; sut rydym am sicrhau y gellir ystyried y problemau y mae teithwyr rheilffyrdd yn eu profi ar hyn o bryd pan fydd y fasnachfraint yn cael ei llunio?

13:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We've had extensive discussions already with passenger user groups about the issues around the franchise, and we will be consulting with the public prior to finalising the specification for the next Wales and borders rail franchise, because I think public confidence is important in this in terms of what we're doing in the context of franchise negotiations.

Rydym eisoes wedi cael trafodaethau helaeth â grwpiau o deithwyr am y materion sy'n ymwneud â'r fasnachfraint, a byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd cyn cwblhau'r fanyleb ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru a'r gororau, gan y credaf fod hyder y cyhoedd yn bwysig o ran yr hyn a wnawn yng nghyd-destun y trafodaethau ar y fasnachfraint.

13:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would have thought that stopping at platforms was clearly a key issue for the franchise and the new franchise. In terms of the rolling stock itself, to say that the conditions on the current trains—I can see your expression—are not up to scratch would be an understatement, and, on some days, they are plain awful. They certainly weren't designed for a new metro-type network. What are your thoughts, to date, on new rolling stock? Are you considering the pros and cons of brand-new rolling stock, or are you leaning towards reconditioned rolling stock, which many in the industry have said could do the job? Are you confident that the new rolling stock will be there to meet the timescale of a new franchise?

Weinidog, byddwn wedi meddwl bod aros wrth blatfformau yn amlwg yn fater allweddol ar gyfer y fasnachfraint a'r fasnachfraint newydd. O ran y cerbydau eu hunain, ni fyddai dweud nad yw cyflwr y trenau presennol—gallaf weld eich mynegiant—yn cyrraedd y safon yn agos at gyfleu'r gwir sefyllfa, ac ar rai dyddiau, maent yn ofnadwy. Yn sicr ni chawsant eu cynllunio ar gyfer rhwydwaith newydd tebyg i fetro. Beth yw eich barn ar hyn o bryd ynghylch cerbydau newydd? A ydych yn ystyried manteision ac anfanteision cerbydau newydd sbon, neu a ydych yn tueddu at gerbydau wedi'u hadnewyddu, y mae llawer yn y diwydiant wedi dweud y gallent wneud y gwaith? A ydych yn hyderus y bydd y cerbydau newydd ar gael i gyd-fynd ag amserlen y fasnachfraint newydd?

13:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the rolling stock, when you speak to passenger user groups, they want new rolling stock. They want the best that's available and they want to be able to travel in comfort, have a seat and be able to put their luggage in—they want all of that. That is my priority at the moment. Many in the industry have said you can do well on stock that's been refurbished; I'm not certain that that is the case, and it wouldn't be my preference. Therefore, we're looking at those particular options, because I think if we're going into these franchise arrangements, we're looking at what we're doing and we've got to get the best for the travelling public, otherwise we're not going to encourage them to use the trains.

O ran y cerbydau, pan fyddwch yn siarad â grwpiau o deithwyr, maent eisiau cerbydau newydd. Maent am gael y gorau sydd ar gael ac maent yn awyddus i allu teithio'n gysurus, cael sedd a lle i'w bagiau—maent eisiau hynny i gyd. Dyna yw fy mlaenoriaeth ar hyn o bryd. Mae llawer yn y diwydiant wedi dweud y gallwch ymdopi'n dda â stoc wedi'i hadnewyddu; nid wyf yn sicr fod hynny'n wir, ac nid dyna fyddai fy newis i. Felly, rydym yn edrych ar yr opsiynau hynny, oherwydd, os ydym am drafod y trefniadau hyn ar gyfer y fasnachfraint, rydym yn edrych ar yr hyn a wnawn ac mae'n rhaid i ni gael y gorau ar gyfer y cyhoedd sy'n teithio. Fel arall, nid ydym yn mynd i allu eu hannog i ddefnyddio'r trenau.

13:50 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, os ydym am ddenu buddsoddiad i'r fasnachfraint newydd, yn amlwg bydd yn rhaid i ni gadw gafael ar y llwybrau i Fanceinion a Birmingham, o achos hwyrach na fydd y cynnig mor ddeniadol os nad yw'r elw a oedd ar y llwybrau hynny yn rhan o'r fasnachfraint. Mae cytundeb Dydd Gŵyl Dewi yn dweud bod angen mwy o drafodaethau rhwng Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru. A oes yna drafodaethau pellach wedi cymryd lle ac a ydych yn ffyddiog erbyn hyn fod sefyllfa yn mynd i fodoli lle y byddwn yn cadw gafael ar Fanceinion a Birmingham o fewn y fasnachfraint bresennol?

Minister, if we're going to attract investment into the new franchise, then it's obvious that we must keep a hold of the routes to Manchester and Birmingham, because perhaps the offer may not be as attractive if the profit from those routes isn't part of the franchise. The St David's Day agreement states that more discussions are required between the UK Government and the Welsh Government. Have further discussions taken place, and are you now confident that a situation will exist where we will keep hold of the Birmingham and Manchester routes within the current franchise?

13:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I totally concur with your comments about what needs to be kept within the current franchise. Discussions take place at all levels. I'm not certain about outcomes, and I'm not satisfied that I've got to the outcomes that I wish yet.

Cytunaf yn llwyr â'ch sylwadau ar yr hyn sydd angen ei gadw yn y fasnachfraint bresennol. Cynhelir trafodaethau ar bob lefel. Nid wyf yn sicr ynglŷn â'r canlyniadau, ac nid wyf yn fodlon fy mod wedi cael y canlyniadau a ddymunaf eto.

## Economi Gorllewin Cymru

## The Economy in West Wales

13:51 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi gorllewin Cymru? OAQ(4)0644(EST)*

*4. What is the Welsh Government doing to improve the economy in west Wales? OAQ(4)0644(EST)*

**Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella economi gorllewin Cymru? OAQ(4)0639(EST)*

*8. Will the Minister outline what action the Welsh Government is taking to improve the economy of west Wales? OAQ(4)0639(EST)*

13:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, for allowing these questions to be grouped. We are focusing on a range of priorities to facilitate economic growth, which includes support for new and existing businesses, infrastructure improvements, and promoting Wales, of course, as a tourism destination in that area.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, am ganiatáu i'r cwestiynau hyn gael eu grwpio. Rydym yn canolbwyntio ar ystod o flaenoriaethau er mwyn hyrwyddo twf economaidd, sy'n cynnwys cymorth ar gyfer busnesau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod, gwelliannau seilwaith, a hyrwyddo Cymru, wrth gwrs, fel cyrchfan twristiaeth yn yr ardal honno.

13:51 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, during 2014-15, job creation at the Milford Haven enterprise zone slowed significantly from the 2011-14 levels. The slowdown is particularly drastic when compared to the job creation that is going on in some of Wales's other more successful enterprise zones. Are you concerned that such an important outcome of establishing this enterprise zone—that is, the one of job creation—isn't being realised? Are you concerned about the number of companies that are now beginning to go to the wall in the new enterprise zone, and the negative effect on the local economy that this will cause?

Weinidog, yn ystod 2014-15, arafodd lefelau creu swyddi yn ardal fenter Aberdaugleddau yn sylweddol o'u cymharu â lefelau 2011-14. Mae'r arafu hwn yn arbennig o eithafol o'i gymharu â nifer y swyddi a grëir yn rhai o ardaloedd menter eraill mwy llwyddiannus Cymru. A ydych chi'n pryderu nad yw canlyniad mor bwysig yn sgil sefydlu'r ardal fenter—hynny yw, creu swyddi—yn cael ei wireddu? A ydych chi'n pryderu ynghylch nifer y cwmnïau sydd bellach yn methu yn yr ardal fenter newydd, a'r effaith negyddol y bydd hyn yn ei chael ar yr economi leol?

13:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are continuing to work with the Haven enterprise zone and delivery partners to maximise the future economic benefits, and are continuing to support people in employment. Some companies have had individual problems and issues that whether you're an enterprise zone or not wouldn't have helped. However, like you, I do wish them to redouble their efforts in this regard because I think it's important that we look at the opportunities. The expansion plans at South Hook continue to be on hold, and we need to look at those particular issues. Of course, there was hope in terms of the tidal lagoon, whether it wouldn't just be Swansea to be looked at, but also further down in the Haven in terms of what work could arise from that as well. So, we need to look at our efforts there and do further work.

Rydym yn parhau i weithio gydag ardal fenter y Ddau Gleddau a phartneriaid cyflenwi i sicrhau cymaint o fanteision economaidd ag y bo modd ar gyfer y dyfodol, ac yn parhau i gefnogi pobl mewn cyflogaeth. Mae rhai cwmnïau wedi cael problemau unigol na fyddai wedi cael eu datrys pa un a fyddent mewn ardal fenter ai peidio. Fodd bynnag, fel chi, rwy'n dymuno iddynt ddwysáu eu hymdrechion yn hyn o beth gan y credaf ei bod yn bwysig i ni edrych ar y cyfleoedd. Mae'r cynlluniau ehangu yn South Hook yn parhau i fod wedi'u gohirio am y tro, ac mae angen i ni edrych ar y materion penodol hyn. Wrth gwrs, roedd yna obaith o ran y morlyn llanw, nad Abertawe'n unig a gâi ei hystyried, ond hefyd yn is i lawr yn ardal y Ddau Gleddau o ran pa waith a allai godi o hynny hefyd. Felly, mae angen i ni edrych ar ein hymdrechion yno a gwneud gwaith pellach.

13:52 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you are aware, Pembrokeshire has the second-highest proportion of small and medium-sized enterprises in Wales, and there are some concerns that they will not receive the direct support that they so desperately need under the Welsh Government's new business support contract, given that the contract has been awarded out of county. We've been told that, under the new contract, there will be no physical presence in Pembrokeshire to support businesses, and in fact there will be only four business support offices in the whole of Wales. Given the importance of small businesses to the Pembrokeshire economy, can you tell us what the Welsh Government is doing to ensure that businesses in Pembrokeshire will now receive direct face-to-face support, which they will need in the future to improve west Wales's economy?

Weinidog, fel y gwyddoch, Sir Benfro sydd â'r gyfran uchaf ond un o fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, a cheir pryderon na fyddant yn cael y cymorth uniongyrchol y maent eu taer angen o dan gontract cymorth busnes newydd Llywodraeth Cymru, o ystyried bod y contract wedi'i ddyfarnu y tu allan i'r sir. Rydym wedi cael gwybod, o dan y contract newydd, na fydd unrhyw bresenoldeb ffisegol yn Sir Benfro i gefnogi busnesau, ac yn wir, na fydd ond pedair swyddfa cymorth busnes drwy Gymru gyfan. O ystyried pwysigrwydd busnesau bach i economi Sir Benfro, a allwch chi ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd busnesau yn Sir Benfro bellach yn cael y gefnogaeth uniongyrchol wyneb yn wyneb y bydd ei hangen yn y dyfodol i wella economi gorllewin Cymru?

13:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, you are quite right. From January 2016, the Business Wales service will consist of four key administration hubs, meaning that we can minimise overheads, and support will be delivered directly at clients' premises or a series of 35 satellite offices that will exist around Wales. They are planned to be located in Pembrokeshire at Haverfordwest, Pembroke Dock and Milford Haven.

Ie, rydych yn llygad eich lle. O fis Ionawr 2016, bydd gwasanaeth Busnes Cymru yn cynnwys pedair canolfan weinyddol allweddol, sy'n golygu y gallwn leihau costau cyffredinol, a darperir cymorth yn uniongyrchol i safleoedd cleientiaid neu gyfres o 35 is-swyddfa ledled Cymru. Bwriedir eu lleoli yn Sir Benfro yn Hwlffordd, Doc Penfro ac Aberdaugleddau.

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You mentioned in your original reply, Minister, the need to support tourism in west Wales. I'm particularly interested in a project in Laugharne, around the Corran Resort, which is a major infrastructure project and is bringing in private money from outside Wales and not using Government funding. This has currently been before the local authority as a planning application, and I don't expect you to comment on that aspect of it, but the clear recommendation from Natural Resources Wales is that it's called in as a project of national interest anyway. What I'd like to understand from you, Minister, is how you will be working with your colleague the Minister for Natural Resources in determining an application like this, which does have an environmental impact, but is also very big in terms of its tourism impact.

Fe sonioch yn eich ateb gwreiddiol, Weinidog, am yr angen i gefnogi twristiaeth yng ngorllewin Cymru. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn prosiect yn Nhalacharn, ger Gwesty Corran, sy'n brosiect seilwaith mawr ac sy'n dod ag arian preifat i mewn o'r tu allan i Gymru, ac nid yw'n defnyddio cyllid Llywodraeth. Mae'r prosiect gerbron yr awdurdod lleol fel cais cynllunio ar hyn o bryd, ac nid wyf yn disgwyl i chi roi sylwadau ar yr agwedd honno, ond yr argymhelliad clir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yw ei fod yn cael ei alw i mewn fel prosiect o ddiddordeb cenedlaethol beth bynnag. Yr hyn yr hoffwn ei ddeall gennych chi, Weinidog, yw sut y byddwch yn gweithio gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i benderfynu ar gais o'r fath, sydd ag effaith amgylcheddol, ond sydd hefyd yn fawr iawn o ran ei effaith ar dwristiaeth.

13:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I have taken the opportunity of visiting the project, as I know that Angela Burns has raised this issue with me already about the relationship between Natural Resources Wales and what they've said on this issue. It is an issue that I've asked my officials to discuss with the officials in the appropriate Minister's department. There are a number of substantial jobs involved in this discussion, in an area that requires them. It's a beautiful area in terms of tourism, but it's also important that we get the balance right. I think that, from my point of view as an economic development Minister, getting the balance correct is absolutely right when you look at issues around economic development and the opportunity for jobs within areas.

Rwyf wedi manteisio ar y cyfle i ymweld â'r prosiect, gan fy mod yn gwybod bod Angela Burns wedi tynnu fy sylw eisoes at y berthynas rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r hyn y maent wedi'i ddweud ar y mater hwn. Mae'n fater rwyf wedi gofyn i fy swyddogion ei drafod gyda'r swyddogion yn adran y Gweinidog priodol. Mae yna nifer o swyddi sylweddol yn gysylltiedig â'r drafodaeth hon, mewn ardal sydd eu hangen. Mae'n ardal brydferth o ran twristiaeth, ond mae'n bwysig hefyd ein bod yn cael y cydbwysedd cywir. O'm rhan i fel Gweinidog datblygu economaidd, credaf fod cael y cydbwysedd cywir yn hollbwysig pan fyddwch yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â datblygu economaidd a'r cyfle i greu swyddi mewn ardaloedd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:55 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, transport infrastructure is naturally vital to successful business development in west Wales, as elsewhere. In that context, the recent appointment of Alun Griffiths (Contractors) of Abergavenny to take forward the construction of the Carmarthen west link road has been warmly welcomed. Given the importance of the project and the need to minimise disruption during construction, what arrangements will the Welsh Government require of the contractors in terms of staying in touch with local businesses and residents, the many students and staff at the University of Wales Trinity St David and, of course, the nearby Hywel Dda Local Health Board headquarters, so as to keep everybody involved informed about the delivery of the scheme, and so as to minimise short-term impacts on the locality?

Weinidog, mae seilwaith trafnidiaeth yn naturiol yn hanfodol i ddatblygiad busnesau llwyddiannus yng ngorllewin Cymru, fel mewn mannau eraill. Yn y cyd-destun hwnnw, mae penodiad diweddar Alun Griffiths (Contractors) o'r Fenni i fwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu ffordd gyswllt gorllewin Caerfyrddin wedi cael croeso cynnes. O ystyried pwysigrwydd y prosiect a'r angen i leihau'r aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu, pa drefniadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud yn ofynnol gan gontractwyr o ran cadw mewn cysylltiad â busnesau a thrigolion lleol, myfyrwyr niferus a staff Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac wrth gwrs, pencadlys Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda gerllaw, er mwyn sicrhau bod pawb dan sylw yn cael gwybod y manylion diweddaraf am y gwaith o gyflawni'r cynllun, ac er mwyn lleihau effeithiau byrdymor ar yr ardal?

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Can I say that that's an exceptionally valid question, because there's an awful lot of disruption as you try and get the road network correct? Alun Griffiths has an excellent record as a contractor of dealing with us and local people, and we do insist in the department that they have the type of dialogue that you've outlined to ensure that there is minimum impact on the travelling public.

A gaf fi ddweud bod y cwestiwn yn eithriadol o ddilys, gan fod llawer o aflonyddwch yn digwydd wrth i chi geisio cael y rhwydwaith ffyrdd i weithio'n briodol? Mae gan Alun Griffiths hanes rhagorol fel contractwr o ymdrin â ni a phobl leol, ac rydym yn mynnu yn yr adran fod ganddynt y math o ddeialog a ddisgrifiwyd gennych ar gyfer sicrhau bod cyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar y cyhoedd sy'n teithio.

Senedd.tv
Fideo Video

### Polisi y Llywodraeth ar Ardaloedd Menter

### Government Policy on Enterprise Zones

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*5. Pa gynlluniau sydd gan Llywodraeth Cymru i adolygu effeithiolrwydd ei pholisi ar ardaloedd menter? OAQ(4)0637(EST)*

*5. What plans does the Welsh Government have to review the effectiveness of its policy on enterprise zones? OAQ(4)0637(EST)*

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Performance data for the enterprise zones programme are published twice a year. Outputs for the first six months of 2015-16 will be published in the near future. The private-sector-led enterprise zone boards are continually reviewing progress in their areas.

Mae data perfformiad ar gyfer y rhaglen ardaloedd menter yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Bydd allbynnau ar gyfer chwe mis cyntaf 2015-16 yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos. Mae byrddau'r ardaloedd menter dan arweiniad y sector preifat yn adolygu cynnydd yn eu hardaloedd yn barhaus.

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the reply, Minister. Between April 2014 and March 2015, only seven jobs were created by the Ebbw Vale enterprise zone. In contrast, over the same period, Cardiff enterprise zone created 536 jobs—three times the total number of jobs created by Ebbw Vale since it opened for business in 2012. What action does the Minister intend to take to address the serious imbalance of outcomes demonstrated by her current policy on enterprise zones in Wales?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, saith o swyddi'n unig a grëwyd gan ardal fenter Glyn Ebwy. Ar y llaw arall, dros yr un cyfnod, crëwyd 536 o swyddi yn ardal fenter Caerdydd—tair gwaith cyfanswm nifer y swyddi a grëwyd gan ardal fenter Glyn Ebwy ers iddi agor ar gyfer busnes yn 2012. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd difrifol yn y canlyniadau a ddangoswyd yn ei pholisi cyfredol ar ardaloedd menter yng Nghymru?

13:57 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I was only interested in party politics and point scoring, I would have put enterprise zones everywhere where I could have had lots of jobs in because it was a good area. We chose to put enterprise zones in some exceptionally difficult areas, including Ebbw Vale and, of course, Snowdonia, to recognise that we have to do a lot of work in those areas. In terms of selling jobs, there's a lot of work going on—it's rather like a duck paddling under the surface—talking to companies and trying to get investment in. Your colleague William Graham raised the point about the Circuit of Wales, which, certainly if those issues are resolved, will also kick-start not only the Circuit of Wales, but a whole other series of jobs. We're in it for the long haul on this, not the headlines, and you will find from the private sector who are leading it that they feel the same.

Pe na bai gennyf ddiddordeb mewn mwy na gwleidyddiaeth plaid a sgorio pwyntiau, byddwn wedi rhoi ardaloedd menter ym mhob man lle y gallwn fod wedi rhoi llawer o swyddi ynddynt am ei bod yn ardal dda. Fe ddewisom roi ardaloedd menter mewn ardaloedd eithriadol o anodd, gan gynnwys Glyn Ebwy ac wrth gwrs, Eryri, er mwyn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud yn yr ardaloedd hynny. O ran gwerthu swyddi, mae llawer o waith yn digwydd—mae'n debyg i hwyaden yn padlo o dan yr wyneb—yn siarad â chwmnïau a cheisio denu buddsoddiadau. Crybwyllodd eich cyd-Aelod, William Graham, y pwynt am Gylchffordd Cymru, a fydd, yn sicr os caiff y materion hynny eu datrys, yn hwb hefyd, nid yn unig i Gylchffordd Cymru, ond i greu cyfres arall o swyddi. Rydym yn ystyried hwn yn waith hirdymor, nid yn fodd o greu penawdau, a byddwch yn gweld bod y sector preifat sy'n ei arwain yn teimlo yr un fath.

13:58 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae rhan helaeth o Ynys Môn yn ardal fenter, wrth gwrs, ond mae'n berthnasol i'r gogledd-orllewin i gyd. Pa gynnydd sydd wedi digwydd o ran denu cwmnïau i'r ardal honno fel rhan o'r weledigaeth Ynys Ynni?

A large part of Anglesey is an enterprise zone, of course, but it's relevant to the whole of the north-west of Wales. What progress has been made in attracting companies to that area as part of the Energy Island enterprise?

13:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the Energy Island, even though on paper it looks like an easy thing, because you've got nuclear coming in and you've got other things, it's actually quite hard to look at some of the underlying business and attracting. I think, in terms of Ynys Môn, we have a good relationship and dialogue with companies on there. We have a good relationship with the port, which is also important. I think, in terms of what we are doing, we are attracting businesses into Ynys Môn.

Rwy'n credu bod yr Ynys Ynni, er ei fod yn edrych fel peth hawdd ar bapur, oherwydd bod ynni niwclear yn dod i mewn a phethau eraill, mewn gwirionedd mae'n eithaf anodd edrych ar ychydig o'r busnes sylfaenol a'r denu. O ran Ynys Môn, rwy'n credu bod gennym berthynas a deialog dda gyda chwmnïau yno. Mae gennym berthynas dda â'r porthladd, sydd hefyd yn bwysig. Rwy'n credu, o ran yr hyn rydym yn ei wneud, ein bod yn denu busnesau i mewn i Ynys Môn.

### Asiantaethau Cefnffyrdd

### Trunk Road Agencies

13:58 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol asiantaethau cefnffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0650(EST)[W]*

*6. Will the Minister make a statement on the future of trunk road agencies in Wales? OAQ(4)0650(EST)[W]*

13:58

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. Following my review of the trunk road agents last year, 19 planning staff have transferred to the Welsh Government, and we are in the process of implementing challenging cost savings. I am not proposing any further changes to the agent delivery model at this stage.

Gwnaf. Yn dilyn fy adolygiad o'r asiantaethau cefnffyrdd y llynedd, mae 19 o staff cynllunio wedi trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn y broses o weithredu arbedion cost heriol. Nid wyf yn argymell unrhyw newidiadau pellach i'r model darparu asiantaethau ar hyn o bryd.

13:59

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Fel rydych yn ei nodi, mae asiantaeth cefnffyrdd Cymru yn gorff a grëwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn rhan o'r Llywodraeth. Mae swyddogion yn y de a'r gogledd yn cyflawni yr un tasgau o dan yr un amodau gwaith; eto, mae'r taliadau i'r rhai sy'n gweithio ar yr M4 yn uwch na'r taliadau i swyddogion traffig yr A55. A yw'r Gweinidog yn ystyried hon yn sefyllfa o degwch?

As you note, the Wales trunk road agency is a body created by Government and is part of Government. Officials in the north and south carry out the same tasks under the same working conditions; however, the payments to those working on the M4 are higher than those for traffic officers on the A55. Does the Minister believe this to be fair?

13:59

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The issue of potential disparity in pay and conditions was brought to my attention last year. We have overall responsibility for the budget and the procedures in ensuring that services are delivered to the required standard, but pay and conditions are matters for the local authority as employers.

Tynnwyd fy sylw at anghyfartaledd posibl yn y cyflogau a'r amodau y llynedd. Mae gennym gyfrifoldeb cyffredinol am y gyllideb a'r gweithdrefnau o ran sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r safon ofynnol, ond materion ar gyfer yr awdurdod lleol fel cyflogwr yw cyflogau ac amodau.

13:59

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the work being undertaken on the A55, as you know, is resulting in massive delays, bringing transport to a standstill on Monday. Trials of traffic management changes have been called off, yet future works to remove the two roundabouts are estimated to take up to a further two years. Now, whilst we appreciate the need for works, questions must be asked of you and the North and Mid Wales Trunk Road Agency as to how there has been such a lack of communication with road users, the ambulance trust and, in particular, with Arriva Bus Wales, which has been having to deal with the chaos caused whilst running their own public services. How do you intend to address the real concerns that have been raised by practically everybody at the moment about the A55 with your department and the North and Mid Wales Trunk Road Agency?

Weinidog, mae'r gwaith a wneir ar yr A55, fel y gwyddoch, yn arwain at oedi enfawr, gan ddod â thrafnidiaeth i stop ar ddydd Llun. Mae treialon ar newidiadau rheoli traffig wedi cael eu canslo, ac eto amcangyfrifir y bydd gwaith yn y dyfodol i gael gwared ar y ddwy gylchfan yn cymryd hyd at ddwy flynedd arall. Nawr, er ein bod yn gwerthfawrogi'r angen i wneud gwaith, mae'n rhaid gofyn cwestiynau i chi ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru o ran sut y bu'r fath ddiffyg cyfathrebu â defnyddwyr y ffordd, yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac yn arbennig, Bysiau Arriva Cymru, sydd wedi gorfod ymdopi â'r anhrefn a achoswyd tra'n cynnal eu gwasanaethau cyhoeddus eu hunain. Sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon gwirioneddol a leisiwyd am yr A55 gan bron bawb bellach gyda'ch adran ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru?

14:00

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I make it clear that we've tried to do everything that we can to mitigate? We've got to get on with these roadworks, and we've got to make the improvements that are necessary. I will once again ask my director to look at the issues that you have raised with me. I can only say honestly that this work has to be undertaken. There will be some element of delays, but, I have to say, every time I seem to travel the A55, I'm unencumbered by delays.

A gaf fi ddweud yn glir ein bod ni wedi ceisio gwneud popeth y gallwn i liniaru'r sefyllfa? Mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â'r gwaith ffordd, ac mae'n rhaid i ni wneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol. Unwaith eto, byddaf yn gofyn i fy nghyfarwyddwr edrych ar y materion rydych wedi'u dwyn i fy sylw. Ni allaf ond dweud yn onest fod yn rhaid i'r gwaith hwn gael ei wneud. Bydd yna rywfaint o oedi, ond, mae'n rhaid i mi ddweud, bob tro rwy'n teithio ar yr A55, ni chaf fy rhwystro gan unrhyw oedi.

14:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister and her officials in the trunk road agency for her assistance and their assistance on a number of road safety projects on the A483 and the A470? Could she impress upon the officials of the trunk road agency, though, to make good outstanding compensation claims arising out of the development of the new road between Newbridge-on-Wye and Builth Road? We are now coming up against the statute of limitations with regard to compensation claims, and there are still outstanding issues to be resolved. Could I ask her whether she and her officials will look at that so that all claims can be settled forthwith, and that the benefits that the road has brought, which are significant, cannot be overshadowed by these outstanding issues?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog a'i swyddogion yn yr asiantaeth cefnffyrdd am ei chymorth hi a'u cymorth hwy ar nifer o brosiectau diogelwch ffyrdd ar yr A483 a'r A470? A fyddai hi'n gallu pwyso ar swyddogion yr asiantaeth cefnffyrdd, fodd bynnag, i dalu ceisiadau iawndal dyledus sy'n deillio o ddatblygu'r ffordd newydd rhwng Bontnewydd-ar-Wy a Builth Road? Rydym yn awr yn wynebu'r statud cyfyngiadau mewn perthynas â cheisiadau am iawndal, ac mae yna faterion yn dal heb eu datrys. A gaf fi ofyn iddi a wnaiff hi a'i swyddogion edrych ar hynny er mwyn gallu talu pob cais ar unwaith, fel nad yw'r manteision a ddaw yn sgil y ffordd, sy'n sylweddol, yn cael eu bwrw i'r cysgod gan y materion sydd heb eu datrys?

14:01 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll ensure this matter's dealt with by the transport directorate.

Fe wnaf yn siŵr fod y mater hwn yn cael sylw gan y gyfarwyddiaeth drafnidiaeth.

## Y Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Cred

## The Faith Tourism Action Plan

14:02 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at weithredu'r cynllun gweithredu ar dwristiaeth cred? OAQ(4)0638(EST)*

*7. Will the Minister make a statement on progress in relation to the implementation of the faith tourism action plan? OAQ(4)0638(EST)*

14:02 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We're making good progress in delivering the action plan and are seeking year-on-year growth in visits to religious sites in Wales. In 2014, there were 540,000 visits to places of worship in Wales, which generated £175 million of visitor expenditure.

Gwnaf. Rydym yn gwneud cynnydd da ar gyflawni'r cynllun gweithredu ac yn ceisio sicrhau twf o un flwyddyn i'r llall o ran ymweliadau â safleoedd crefyddol yng Nghymru. Yn 2014, cafwyd 540,000 o ymweliadau â mannau addoli yng Nghymru, a gynhyrchodd £175 miliwn o wariant gan ymwelwyr.

14:02 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Deputy Minister. You'll be aware of my keen interest in the faith tourism action plan and its implementation here in Wales. Some elements of the plan required finance in order to get them moving, in particular some of the branding around our religious tourism opportunities here in Wales and the ability to market them to markets overseas, particularly in North America where there are strong links to some of our nonconformist history and denominations. What action are you taking specifically to ensure that the adequate resources are there to deliver all elements of this plan?

Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol o fy niddordeb brwd yn y cynllun gweithredu ar dwristiaeth ffydd a'i weithrediad yma yng Nghymru. Mae angen cyllid ar rai elfennau o'r cynllun er mwyn gallu bwrw ymlaen â hwy, yn enwedig rhywfaint o'r brandio mewn perthynas â'n cyfleoedd twristiaeth grefyddol yma yng Nghymru a'r gallu i'w marchnata i farchnadoedd tramor, yn enwedig yng Ngogledd America lle y ceir cysylltiadau cryf â rhywfaint o'n hanes a'n henwadau anghydffurfiol. Pa gamau penodol rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gyflawni pob elfen o'r cynllun hwn?

14:03 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, there are a number of actions that we've taken. First of all, we've got the nonconformist chapel toolkit, which is being launched for nonconformist chapels to be able to encourage them to open their doors. Only a small number at present open their doors to visitors. The toolkit will assist in more doing so, and that compares to about 60 per cent of churches that open their doors.

Wel, rydym wedi rhoi nifer o gamau ar waith. Yn gyntaf oll, mae gennym becyn cymorth i gapeli anghydffurfiol, sy'n cael ei lansio ar gyfer capeli anghydffurfiol er mwyn eu hannog i agor eu drysau. Nifer fach yn unig ohonynt sy'n agor eu drysau i ymwelwyr ar hyn o bryd. Bydd y pecyn cymorth yn helpu i alluogi rhagor ohonynt i wneud hynny, ac mae hynny'n cymharu â thua 60 y cant o'r eglwysi sy'n agor eu drysau.

In terms of international visitors, 'Explore Wales'—which, as the Member may be aware, is Visit Wales's brochure aimed at international markets—highlighted this year sacred places to visit in south-west Wales, and it's also been complemented by an online video. Furthermore, there's been an audit of the most significant places of worship and sacred places in Wales to visit, which will inform our marketing strategy going forward, and we are going to make that information available to local authorities and to businesses as well.

O ran ymwelwyr rhyngwladol, eleni roedd 'Archwilio Cymru'—sef llyfryn Croeso Cymru sy'n targedu marchnadoedd rhyngwladol, fel y bydd yr Aelod yn gwybod o bosibl—yn tynnu sylw at leoedd sanctaidd i ymweld â hwy yn ne-orllewin Cymru, a cheir fideo ar-lein hefyd i fynd gyda'r llyfryn. Ar ben hynny, cynhaliwyd archwiliad o'r mannau addoli a'r lleoedd cysegredig mwyaf arwyddocaol i ymweld â hwy yng Nghymru i lywio ein strategaeth farchnata wrth i ni symud ymlaen, ac rydym am sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i awdurdodau lleol ac i fusnesau hefyd.

14:03

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Different parts of Wales have different ecclesiastical history. Last week, I visited, in my colleague Julie James's constituency, the NSPCC building, which was the chapel of Christmas Evans, who was one of the great preachers of Welsh history, and that building is visited quite regularly by people from across Britain and the rest of the world. Does the Minister agree with me that the key is ensuring the survival of the major church and chapel buildings—not necessarily the church or the chapel, but ensuring the survival of them as buildings?

Mae gan wahanol rannau o Gymru hanes eglwysig gwahanol. Yr wythnos diwethaf, ymwelais ag adeilad yr NSPCC yn etholaeth fy nghydweithiwr Julie James, sef capel Christmas Evans, a oedd yn un o'r pregethwyr mwyaf yn hanes Cymru, ac mae pobl o bob rhan o Brydain a gweddill y byd yn ymweld yn eithaf rheolaidd â'r adeilad hwnnw. A yw'r Gweinidog yn cytuno mai'r allwedd yw sicrhau goroesiad adeiladau'r prif eglwysi a'r capeli—nid o reidrwydd yr eglwys neu'r capel, ond sicrhau eu bod yn goroesi fel adeiladau?

14:04

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, I very much agree with the Member on this, and that's why the action plan on tourism for places of worship is aligned with the strategic action plan for places of worship, which is led by Cadw. Actually, just this morning, I had the pleasure of joining the Welsh Religious Buildings Trust and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales to view the new online service it has provided right across Wales, which is essentially a virtual museum for people to be able to look at every form of religious building right across the length and breadth of the country.

Yn wir, rwy'n cytuno i raddau helaeth gyda'r Aelod ar hyn, a dyna pam y mae'r cynllun gweithredu ar dwristiaeth mannau addoli yn cyd-fynd â'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer mannau addoli, dan arweiniad Cadw. Mewn gwirionedd, fore heddiw, cefais y pleser o ymuno ag Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i weld y gwasanaeth ar-lein newydd y mae wedi'i ddarparu ledled Cymru, sydd yn ei hanfod yn amgueddfa rithwir i bobl allu edrych ar bob math o adeilad crefyddol ar hyd a lled y wlad.

### Trafnidiaeth yng Nghwm Cynon

### Transport in the Cynon Valley

14:05

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella trafnidiaeth yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0651(EST)*

*9. What action is the Welsh Government taking to improve transport in the Cynon Valley? OAQ(4)0651(EST)*

14:05

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The national transport finance plan, which was published on 16 July, outlines the actions we are, and will be, taking to improve transport across all parts of Wales.

Mae'r cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol, a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf, yn amlinellu'r camau gweithredu rydym, ac y byddwn, yn eu cymryd i wella trafnidiaeth ar draws pob rhan o Gymru.

14:05

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Well, you may be aware that, yesterday, Rhondda Cynon Taf cabinet approved an investment of nearly £2 million in the first phase of developing a cross-Valley link near Mountain Ash in my constituency. By relieving pressure on the A4059, this will be of enormous benefit to the transport infrastructure in Cynon Valley. Will the Welsh Government continue to work with the local authority to make sure that this ambitious project succeeds?

Diolch yn fawr, Weinidog. Wel, efallai y byddwch yn gwybod bod cabinet Rhondda Cynon Taf wedi cymeradwyo buddsoddiad ddoe o bron i £2 filiwn yng ngham cyntaf datblygiad cyswllt ar draws y cwm ger Aberpennar yn fy etholaeth. Drwy leddfu pwysau ar yr A4059, bydd y datblygiad o fudd enfawr i'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghwm Cynon. A fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y prosiect uchelgeisiol hwn yn llwyddo?

14:05 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, my officials are closely working with the council and will continue to work with them as the scheme progresses. I note the financial commitment that was made yesterday by RCT, but it is important to understand what support is expected from the Welsh Government in future years to ensure this important link in the local road network is built.

Bydd, mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r cyngor a byddwn yn parhau i weithio gyda hwy wrth i'r cynllun ddatblygu. Nodaf yr ymrwymiad ariannol a wnaed ddoe gan Rondda Cynon Taf, ond mae'n bwysig deall pa gymorth a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod y cyswllt pwysig hwn yn y rhwydwaith ffyrdd lleol yn cael ei adeiladu.

14:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in Cynon Valley, like many constituencies across South Wales Central, if you travel in the evening, or any time of the day, you find many HGV lorries parked in lay-bys because of the lack of HGV parking and secure overnight provision. I appreciate this isn't a Government role, but Government can work with local authorities to support and maintain some of that provision. What action has the Welsh Government's transport department had in understanding the need, i.e., the amount of demand out there, because, obviously, without good sanitation and security, there's a real risk with these lorries parking on the sides of roads, and it does seem to be getting greater, the demand, not less.

Weinidog, yng Nghwm Cynon, fel llawer o etholaethau ar draws Canol De Cymru, os ydych yn teithio yn y nos, neu ar unrhyw adeg o'r dydd, fe welwch lawer o gerbydau nwyddau trwm wedi parcio mewn cilfannau oherwydd diffyg mannau parcio a darpariaeth mannau diogel i aros dros nos ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Rwy'n sylweddoli nad swyddogaeth i'r Llywodraeth yw hon, ond gall y Llywodraeth weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi a chynnal peth o'r ddarpariaeth hon. Pa gamau y mae adran drafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddeall yr angen, hynny yw, maint y galw sy'n bodoli, oherwydd, yn amlwg, heb lanweithdra a lefel dda o ddiogelwch, mae yna berygl go iawn gyda'r lorïau hyn yn parcio ar ymyl y ffyrdd, ac mae'n ymddangos mai cynyddu y mae'r galw, nid lleihau?

14:06 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm more than happy for my officials to open dialogue on this. We've had very positive discussions, actually, within north Wales about the use of lorry stops, et cetera. I think it is a very valid point you've made, and I will update Members after Christmas on any progress we've undertaken on it.

Rwy'n fwy na pharod i gychwyn trafodaeth gyda fy swyddogion ar hyn. Rydym wedi cael trafodaethau cadarnhaol iawn yng ngogledd Cymru, mewn gwirionedd, ynghylch y defnydd o arosfannau i lorïau, ac yn y blaen. Rwy'n credu eich bod yn gwneud pwynt dilys iawn, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ôl y Nadolig ynglŷn ag unrhyw gynnydd a wnaethom ar hynny.

14:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, transport links across the Valleys are important, particularly when we're developing new services. The specialist and critical care centre in Llanfrechfa Grange will be a great investment in the health service of the Aneurin Bevan area, but we need to ensure that we do have the road links, the public transport links, to ensure that people can access those services, and that people can visit relatives while they're there. Could you ensure that you work with the health Minister to ensure that this infrastructure's in place when the new facility opens?

Weinidog, mae cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y Cymoedd yn bwysig, yn enwedig pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau newydd. Bydd y ganolfan gofal arbenigol a chritigol yn Llanfrechfa yn fuddsoddiad mawr yng ngwasanaeth iechyd ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ond mae angen i ni sicrhau bod gennym y cysylltiadau ffyrdd, y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, i sicrhau y gall pobl gael mynediad at y gwasanaethau hynny, a bod pobl yn gallu ymweld â pherthnasau tra'u bod yno. A allech sicrhau eich bod yn gweithio gyda'r Gweinidog iechyd i sicrhau bod y seilwaith hwn yn ei le pan fydd y cyfleuster newydd yn agor?

14:07 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I can give you my assurance on this. There is excellent joint working between ourselves and the health directorate on transport issues already. This will continue. You make valid points about, when buildings are planned, and when they are being built, it is very important to look at the transport infrastructure as well.

Gallaf, gallaf roi sicrwydd i chi ynglŷn â hyn. Mae cydweithio rhagorol rhyngom ni a'r gyfarwyddiaeth iechyd ar faterion trafnidiaeth eisoes. Bydd hyn yn parhau. Rydych yn gwneud pwyntiau dilys: pan fydd adeiladau yn cael eu cynllunio, a phan fyddant yn cael eu hadeiladu, mae'n bwysig edrych ar y seilwaith trafnidiaeth yn ogystal.

### Seilwaith Ffyrdd yng Ngorllewin Cymru

### Road Infrastructure in West Wales

14:07 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y seilwaith ffyrdd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0645(EST)*

*10. Will the Minister make a statement on road infrastructure in west Wales? OAQ(4)0645(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

The national transport finance plan sets out my proposals for improving road infrastructure in Wales.

Mae'r cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol yn amlinellu fy nghynigion ar gyfer gwella'r seilwaith ffyrdd yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister. It's the A477 again, I'm afraid. I'm sure you won't be surprised by that. First of all, I'd like to thank you for making permanent the signs off the new bypass to Red Roses. I think that will really improve the situation there. However, I would like to draw your attention again to the issues with the Tavernspite turning. I have met the senior members of Dyfed-Powys Police. They do say that people are unable or unused to doing the three-lane driveway or motorway, and, of course, as you know, it's a 90-degree turn—so, you come whizzing down off that incredibly steep hill and you've got someone in front of you doing a 90-degree turn, so they slow down significantly. I do appreciate the commentary from your officials that it does meet national road standards criteria. However, it is incredibly dangerous, and local people tell me again and again of near misses, and I would hate to see one come to pass.

Diolch am hynny, Weinidog. Yr A477 unwaith eto, mae arnaf ofn. Rwy'n siŵr na chewch eich synnu gan hynny. Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i chi am sicrhau bod yr arwyddion oddi ar y ffordd osgoi newydd i Ros-goch yn rhai parhaol. Rwy'n credu y bydd hynny'n sicr o wella'r sefyllfa yno. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw eto at y materion sy'n ymwneud â throad Tafarnspite. Rwyf wedi cyfarfod ag uwch aelodau o Heddlu Dyfed-Powys. Maent yn dweud nad yw pobl yn gallu, neu nad ydynt wedi arfer teithio ar ffordd dair lôn neu draffordd, ac wrth gwrs, fel y gwyddoch, mae'n droad 90 gradd, felly, rydych yn gwibio i lawr y bryn hynod serth hwnnw ac mae rhywun o'ch blaen yn gwneud troad 90 gradd, felly maent yn arafu'n sylweddol. Rwy'n gwerthfawrogi'r sylwadau gan eich swyddogion ei fod yn bodloni meini prawf y safonau ffyrdd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n hynod o beryglus, ac mae pobl leol yn sôn wrthyf dro ar ôl tro am ddamweiniau a fu bron â digwydd, a byddai'n gas gennyf weld un yn digwydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you for the points you've raised with me about the A477. I think we have tried to be helpful where we can in terms of signage and various other things. Bearing in mind the comments you made today, I do have regular meetings with the police and will ask my officials to raise it as a road safety issue with the police to see if there's anything else we could possibly do.

Diolch am y pwyntiau rydych wedi'u dwyn i fy sylw ynglŷn â'r A477. Rwy'n credu ein bod wedi ceisio helpu lle y gallwn o ran arwyddion a gwahanol bethau eraill. O ystyried y sylwadau a wnaethoch heddiw, rwy'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r heddlu a byddaf yn gofyn i fy swyddogion ei ddwyn i sylw'r heddlu fel mater diogelwch ffyrdd i weld a oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Fel ŷch chi'n gwybod, Gweinidog, rwyf wedi gofyn ichi o'r blaen ynglŷn â'r tollau ar bont Cleddau fel rhan o'r ffyrdd yn sir Benfro. Wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus, lle roeddem ni'n trafod gyda nifer o fusnesau lleol, rwyf am ofyn ichi: a ydych chi wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith y tollau ar y busnesau yn yr ardal yna, o gofio bod hon yn doll ar bont sydd yn cyplysu dwy ochr ardal fenter?

As you know, Minister, I've asked you in the past about tolls on the Cleddau bridge, as part of the road network in Pembrokeshire. Having held a successful public meeting, where we held discussions with a number of local businesses, I want to ask you: have you carried out any assessment of the impact of the tolls on businesses in that area, bearing in mind that this is a toll on a bridge that links two sides of an enterprise zone?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I am not aware of anything that's been undertaken in terms of looking at the economics of this and the impact on businesses, but I will check if there's been any work done by the enterprise zone or anyone else and report back to Members.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth sy'n cael ei wneud o ran edrych ar economeg hyn a'r effaith ar fusnesau, ond byddaf yn edrych i weld a oes unrhyw waith wedi'i wneud gan yr ardal fenter neu unrhyw un arall ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 11, William Graham.

Cwestiwn 11, William Graham.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **William Graham** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Sorry, I—[Inaudible.]

Mae'n ddrwg gennyf—[Anghlywadwy.]

*Ni ofynnwyd cwestiwn 11, OAQ(4)0642(EST).*

*Question 11, OAQ(4)0642(EST), not asked.*

14:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Question 12, Llyr Gruffydd.

Cwestiwn 12, Llyr Gruffydd.

**Gwasanaeth Busnes Cymru**

**Gwasanaeth Busnes Cymru**

14:10 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0648(EST)[W]*

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0648(EST)[W]*

14:10 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Business Wales provides businesses and entrepreneurs with access to wide-ranging information and advice. Since its launch in January 2013, it's helped create 9,177 new businesses across Wales, creating over 12,216 jobs and safeguarding a further 3,193.

Diolch. Mae Busnes Cymru yn darparu mynediad at ystod eang o wybodaeth a chyngor i fusnesau ac entrepreneuriaid. Ers ei lansio ym mis Ionawr 2013, mae wedi helpu i greu 9,177 o fusnesau newydd ledled Cymru, gan greu dros 12,216 o swyddi a diogelu 3,193 o swyddi pellach.

14:10 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i chi am eich ateb. Mae llawer iawn o ganmol ar y gwasanaeth fel y mae wedi'i ddarparu hyd yma, ond a gaf i ofyn pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y bydd holl wasanaethau Busnes Cymru ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg o hyn ymlaen—yn enwedig gwasanaeth wyneb yn wyneb gan staff sy'n medru'r Gymraeg—ym mhob rhan o Gymru?

Thank you very much for that response. There's been a great deal of praise for the service as it's been provided to date, but can I ask you what assurances you can give that all of the services of Business Wales will be available through the medium of Welsh from here on in—particularly a face-to-face service from staff who are able to speak Welsh—in all part of Wales?

14:10 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

This issue has actually been raised with me elsewhere about the use of Welsh. Can I make some further inquiries to the service, because I wouldn't want to give an inadequate answer to Members, because I do recognise the importance that we adhere totally to our bilingual policy in terms of access to services?

Crybwyllwyd y mater hwn wrthyf mewn man arall ynghylch y defnydd o'r Gymraeg. A gaf fi wneud ymholiadau pellach i'r gwasanaeth, oherwydd ni fyddwn am roi ateb annigonol i'r Aelodau, gan fy mod yn cydnabod pa mor bwysig yw hi ein bod yn cadw at ein polisi dwyieithog yn llwyr o ran mynediad at wasanaethau?

**Busnesau Twristiaeth**

**Tourism Businesses**

14:11 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau twristiaeth? OAQ(4)0649(EST)[W]*

*13. Will the Minister make a statement on the support available to tourism businesses? OAQ(4)0649(EST)[W]*

14:11 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes. Our tourism strategy sets out our priorities to support the tourism industry, including capital and development funding, along with marketing and promotional opportunities.

Gwnaf. Mae ein strategaeth dwristiaeth yn nodi ein blaenoriaethau i gefnogi'r diwydiant twristiaeth, gan gynnwys cyfalaf a chyllid datblygu, ynghyd â chyfleoedd marchnata a hyrwyddo.

14:11 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae hyd yn oed yr atyniadau twristiaeth gorau—atyniadau rhagorol—angen cymorth weithiau i ddenu rhagor o ymwelwyr. Mae Canolfan y Deyrnas Gopr yn Amlwch yn enghraifft dda o ddatblygiad arbennig o dda sy'n dathlu treftadaeth ddiwydiannol y dref, ond sydd ddim eto, o bosibl, yn taro'r niferoedd o ymwelwyr rydym yn gobeithio eu gweld yn datblygu maes o law. Rŵan, o ystyried nad ydy hi wastad yn bosibl rhoi chwistrelliad o arian cyfalaf neu gymorth ariannol o'r math hwnnw i atyniad, pa fath o gymorth amgen y mae'r Llywodraeth yn gallu ei gynnig o ran ymgynghoriaeth ac ati er mwyn sicrhau bod busnesau ac atyniadau o'r math yna yn cael yr help sydd ei angen arnynt er mwyn iddyn nhw helpu eu hunain?

Even the best tourist attractions—excellent attractions—occasionally need assistance in attracting more visitors. The Copper Kingdom Centre in Amlwch is a good example of an excellent development, celebrating the industrial heritage of the town, but that perhaps isn't yet attracting as many visitors as we would hope to see in future. Now, given that isn't always possible to provide a capital injection or financial support of that kind to a visitor attraction, what kind of alternative support can the Government provide in terms of consultancy and so on in order to ensure that businesses and attractions of that kind get the help that they need to help themselves?

14:12 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is absolutely right. It's not always a question of being able to draw down capital money that's important to a company, but also having the right advice and signposting. So, in addition to undertaking independent quality assessments, we have quality assessment team members who are able to act also as tourism relationship managers, signposting businesses—such as the business identified by the Member—to an array of services and also to an array of specialists.

Mae'r Aelod yn hollol iawn. Nid mater o allu derbyn arian cyfalaf yn unig sy'n bwysig i gwmni: mae cael y cyngor a'r cysylltiadau cywir yn bwysig hefyd. Felly, yn ogystal â chyflawni asesiadau ansawdd annibynnol, mae gennym aelodau tîm asesu ansawdd sy'n gallu gweithredu fel rheolwyr cysylltiadau twristiaeth hefyd, i gyfeirio busnesau—megis y busnes a nododd yr Aelod—at amrywiaeth o wasanaethau, ac at amrywiaeth o arbenigwyr hefyd.

## Cwmnïau Angori

## Anchor Companies

14:12 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar weithio gyda chwmnïau angori yng Nghymru? OAQ(4)0653(EST)*

*14. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy on working with anchor companies in Wales? OAQ(4)0653(EST)*

14:12 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm committed to continuing and strengthening our partnership with all anchor companies and building close relationships at the highest level in Wales and with head offices overseas.

Rwyf wedi ymrwymo i barhau a chryfhau ein partneriaeth gyda phob un o'r cwmnïau angori ac i feithrin cysylltiadau agos ar y lefel uchaf yng Nghymru a chyda phrif swyddfeydd dramor.

14:12 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Tata and steel are still very important in Wales, and I look forward to your visit to Llanwern tomorrow. Would you agree with me that it's very important for Welsh Government to continue to work very closely with Tata, for example on the development of new products, and also on potential new developments on existing sites?

Weinidog, mae Tata a dur yn dal i fod yn bwysig iawn yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at eich ymweliad â Llanwern yfory. A fyddech yn cytuno ei bod yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos iawn gyda Tata, er enghraifft ar ddatblygu cynnyrch newydd, a hefyd ar ddatblygiadau newydd posibl ar safleoedd sy'n bodoli'n barod?

14:13 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I totally concur. We do have an excellent relationship with Tata Steel. It's a very stressful time for everybody within the steel industry. We're awaiting further action, obviously, from the UK Government in terms of what support they might give to steel. So I remain of the view that it seems we can help the banks, but what are we doing about a crucial national industry? It seems to be on hold from elsewhere.

Ydw, rwy'n cytuno'n llwyr. Mae gennym berthynas ardderchog gyda Tata Steel. Mae'n gyfnod anodd iawn ar bawb yn y diwydiant dur. Rydym yn aros am weithredu pellach, yn amlwg, gan Lywodraeth y DU o ran y gefnogaeth y gall ei rhoi i ddur. Felly, rwy'n parhau i fod o'r farn ei bod yn ymddangos y gallwn helpu'r banciau, ond beth rydym yn ei wneud am ddiwydiant cenedlaethol hollbwysig? Mae'n ymddangos fod mannau eraill yn gohirio rhag ei ystyried.

## Gwasanaethau Rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru

## Rail Services in North Wales

14:13

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

*15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at wella gwasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0647(EST)*

*15. Will the Minister provide an update on what progress is being made towards improving rail services in north Wales? OAQ(4)0647(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

We're committed to improving rail services in north Wales to ensure we maximise the economic opportunities for jobs and access to services that transport connectivity—both across Wales and further—can deliver.

Rydym yn ymrwymo i wella gwasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd i greu swyddi a mynediad at wasanaethau y gall cysylltedd trafnidiaeth—ledled Cymru a thu hwnt—ei sicrhau.

Senedd.tv Fideo Video

14:14

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister. You've already alluded to the fact that it is very important for us to have close links with the north-west of England and that one of the key aspects will be the electrification of the north Wales main rail line. The UK Conservative Government continues to show little or no commitment towards achieving that, but you have talked about the enormous amount of work that the north Wales economic ambition board is doing to strengthen the strategic case and the work that the Welsh Government is doing. So, can I ask, Minister, that we in north Wales have regular updates on what progress is being made?

Diolch am hynny, Weinidog. Rydych eisoes wedi cyfeirio at y ffaith ei bod yn bwysig iawn i ni gael cysylltiadau agos â gogledd-orllewin Lloegr ac mai un o'r agweddau allweddol fydd trydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru. Nid yw Llywodraeth Geidwadol y DU yn dangos fawr o ymrwymiad, os o gwbl, i gyflawni hynny o hyd, ond rydych wedi sôn am y gwaith helaeth y mae bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru yn ei wneud i gryfhau'r achos strategol a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Felly, a gaf fi ofyn, Weinidog, am y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i ni yng ngogledd Cymru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud?

Senedd.tv Fideo Video

14:14

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Yes. I think it'll be important for you to have progress. Obviously, in north Wales, the economic ambition board is mapping out the next stages of business cases. We have discussed with the Department for Transport what we need to look at, which are things like optimal services and timetabling, the effect of electrification on the regional economy—we've got to make the case for that—determining the potential effects of improved rail services on indicators around deprivation, which is also an important area, and, determining issues, I think, about rail freight as well to the port of Holyhead. So, all of these, I think, are in the mix, and I'd be more than happy to report in the new year and update Members on any progress on this particular agenda, DPO

Iawn. Rwy'n credu y bydd yn bwysig i chi gael y newyddion diweddaraf am y cynnydd. Yn amlwg, yng ngogledd Cymru, mae'r bwrdd uchelgais economaidd yn mapio camau nesaf achosion busnes. Rydym wedi trafod gyda'r Adran Drafnidiaeth beth sydd angen i ni edrych arno, sef pethau megis gwasanaethau ac amserlennu gorau posibl, effaith trydaneiddio ar yr economi—rhaid i ni ddadlau'r achos dros hynny—pennu effeithiau posibl gwasanaethau rheilffordd gwell ar ddangosyddion sy'n ymwneud ag amddifadedd, sydd hefyd yn faes pwysig, a phennu materion hefyd, rwy'n credu, sy'n ymwneud â chludo nwyddau ar drenau i borthladd Caergybi. Felly, mae pob un o'r rhain, rwy'n credu, yn y gymysgedd, a byddwn yn fwy na pharod i adrodd yn y flwyddyn newydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw gynnydd ar yr agenda hon, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:15

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

# 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

# 2. Questions to the Counsel General

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 2 is questions to the Counsel General. Question 1, Simon Thomas.

Eitem 2 yw cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Cwestiwn 1, Simon Thomas.

### Taliadau Llys a Mynediad i Gyfiawnder

### Court Fees and Access to Justice

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynglŷn ag effaith taliadau llys newydd ar fynediad i gyfiawnder? OAQ(4)0088(CG)[W]*

*1. What discussions has the Counsel General had with members of the legal profession regarding the impact of new court fees on access to justice? OAQ(4)0088(CG)[W]*

14:15 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. The Minister for Public Services is responsible for justice policy in Government. The Government is, however, very concerned about the adverse impact that new court fees and other reforms are having on access to justice.

Prynhawn da, bawb. Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder yn y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth, fodd bynnag, yn bryderus iawn am yr effaith andwyol y mae ffioedd llys newydd a diwygiadau eraill yn ei chael ar fynediad at gyfiawnder.

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb, Gwnsler Cyffredinol. Fel y gwyddoch chi, mae'r ffioedd newydd yma yn amrywio o £150 os ydych yn pledio'n euog ar ddechrau achos llys i £1,000 os ydych yn cael eich canfod yn euog ar ôl achos llys. Mewn sefyllfa lle mae rhywun mewn trallod, gallent, o bosib, edrych ar hwn fel gêm o risg yn hytrach na mater o gyfiawnder, gydag arian yn brin. Felly, gan fod yr Arglwydd Brif Ustus—sy'n Arglwydd Brif Ustus dros Gymru a Lloegr, wrth gwrs—eisoes wedi gofyn, o fewn yr wythnos diwethaf, am adolygiad o'r sefyllfa yma, a bod 50 o ynadon o leiaf wedi ymddiswyddo oherwydd hyn, a oes gan Lywodraeth Cymru farn i fynd gerbron i Michael Gove i ddiddymu'r taliadau hyn, yng Nghymru, o leiaf?

Thank you for that response, Counsel General. As you know, these new court fees range from £150 if you plead guilty at the beginning of a court case to £1000 if you are found guilty after a court case. In a situation where someone is in poverty, they may, possibly, consider this as a game of risk, rather than a matter of justice, if money is short. So, as the Lord Chief Justice—who is the Lord Chief Justice for England and Wales, of course—has already called over the past week for a review of this situation, and 50 magistrates have resigned as a result of that, does the Welsh Government now have a view to put forward to Michael Gove to abolish these fees, in Wales at least?

14:16 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

It's important, I think, to distinguish between court fees, which might be thought by people to relate to the charges imposed on people for accessing the courts in the first place, and charges in the criminal courts system, to which I think you principally refer, which relate to imposing a levy on those convicted of offences to pay, or part-pay, for the system. You're quite right, of course, that there has been a lot of adverse reaction, including in the magistracy, including in the senior judiciary, from the professions, from the Howard League for Penal Reform—and I could go on—to the proposition that those people of very limited means who have been convicted of offences should pay large amounts of money, for them, to help to pay for the whole system. We, as Government, have repeatedly raised concerns about the impact of these proposed changes to the justice system, particularly in relation to those changes, but also generally to court fees. I think we're facing a fourth round of increases to court fees. You may remember that I complained to the Ministry of Justice about the imposition of fees in the employment tribunals. Also, of course, there are matters such as court closures and the ongoing changes to legal aid, all of which bring a relatively bleak picture for the sorts of people about whom you are talking.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig gwahaniaethu rhwng ffioedd llys, y gallai pobl ystyried eu bod yn ymwneud â'r taliadau a godir ar bobl am gael mynediad at y llysoedd yn y lle cyntaf, a thaliadau yn y system llysoedd troseddol, ac rwy'n credu mai at y rheini y cyfeiriwch yn bennaf, sef taliadau sy'n ymwneud â mynnu ardoll gan y rhai a gafwyd yn euog o droseddau i dalu, neu dalu'n rhannol, am y system. Rydych yn hollol gywir, wrth gwrs, fod llawer o adwaith anffafriol wedi bod, gan gynnwys o blith ynadon, yn cynnwys uwch farnwyr, gan y proffesiynau, gan Gynghrair Howard er Diwygio Cosbau—a gallwn barhau—yn erbyn yr argymhelliad y dylai pobl heb fawr o incwm a gafwyd yn euog o droseddau dalu llawer o arian am eu troseddau er mwyn helpu i dalu am y system gyfan. Rydym ni, fel Llywodraeth, wedi mynegi pryder dro ar ôl tro am effaith y newidiadau arfaethedig hyn i'r system gyfiawnder, o ran y newidiadau hynny'n benodol, ond hefyd yn gyffredinol i ffioedd llys. Rwy'n credu ein bod yn wynebu pedwerydd cylch o godiadau i ffioedd llys. Efallai eich bod yn cofio fy mod wedi cwyno wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â gosod ffioedd yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Hefyd, wrth gwrs, ceir materion megis cau llysoedd a'r newidiadau parhaus i gymorth cyfreithiol, a phob un ohonynt yn creu darlun go llwm ar gyfer y math o bobl rydych yn siarad amdanynt.

## Bil Cymru Drafft a Deddfwriaeth Gydraddoldeb

## The Draft Wales Bill and Equality Legislation

14:18

### Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau Bil drafft Cymru ar gyfer deddfwriaeth gydraddoldeb ddatganoledig? OAQ(4)0086(CG)*

*2. What legal advice has the Counsel General provided to the Welsh Government regarding the implications for devolved equality legislation arising from the draft Wales Bill? OAQ(4)0086(CG)*

14:18

### Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

It is not my intention to make any statement about whether I have provided legal advice, or not, on that matter. That reflects the established convention that law officers' advice—not even whether advice has been given or sought on a particular matter—should be disclosed other than in exceptional circumstances.

Nid yw'n fwriad gennyf wneud unrhyw ddatganiad i'r perwyl fy mod wedi rhoi cyngor cyfreithiol ar y mater hwnnw ai peidio. Mae hynny'n adlewyrchu'r confensiwn sefydledig na ddylid datgelu cyngor swyddogion y gyfraith —na hyd yn oed a roddwyd neu a geisiwyd cyngor ar fater penodol—ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

14:18

### Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Counsel General, in the context of the draft Wales Bill, and the representations and discussions that have taken place, of course, there was a general concern that the existing duties of the Welsh Assembly and Welsh Government to promote equality may be detracted from in the way in which the Wales Bill is drafted. Have you had any discussions more generally about this issue, and are these concerns that you also share?

Gwnsler Cyffredinol, yng nghyd-destun Bil drafft Cymru, a'r sylwadau a'r trafodaethau a fu, wrth gwrs, roedd pryder cyffredinol fod y modd y mae Bil drafft Cymru wedi cael ei ddrafftio, o bosibl, yn cyfyngu ar ddyletswyddau presennol Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater hwn yn fwy cyffredinol, ac a ydynt yn bryderon rydych chi hefyd yn eu rhannu?

14:19

### Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

We think it unlikely that the responsibility of Government to promote and encourage equality will be changed in themselves, however, we do think that the provisions proposed in relation to legislative competence in this area do reflect, to use the popular expression, a rowing back on the current competence of this Assembly. The exceptions proposed to the current draft reservation are narrower, we think, than the existing legislative competence under the 2006 Act, and therefore those provisions do give Government, as has been made very clear, grave cause for concern. There are also issues about provisions such as the socioeconomic duty on Government, which are reliant on the Equality Act 2010, and we have concerns as to what the position will be with the Equality Act going forward.

Rydym yn credu ei bod yn annhebygol y bydd cyfrifoldebau'r Llywodraeth i hyrwyddo ac annog cydraddoldeb yn cael eu newid ynddynt eu hunain, ond credwn fod y darpariaethau arfaethedig mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn yn adlewyrchu, a defnyddio'r ymadrodd poblogaidd, cam yn ôl o ran cymhwysedd presennol y Cynulliad hwn. Credwn fod yr eithriadau arfaethedig i'r cymal cadw drafft cyfredol yn fwy cyfyng na'r cymhwysedd deddfwriaethol presennol o dan Ddeddf 2006, ac felly mae'r darpariaethau hynny'n peri pryder mawr i'r Llywodraeth, fel y mynegwyd yn glir iawn. Mae yna faterion yn codi hefyd ynglŷn â darpariaethau megis dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Llywodraeth, sy'n dibynnu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae gennym bryderon ynglŷn â beth fydd y sefyllfa gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb yn y dyfodol.

The general position that the Government has taken is to seek to strengthen and improve protection from discrimination. I know the Member has a particular interest and has reported on issues affecting age discrimination, for example, so that is one aspect. But the Government's position is to do everything it can to strengthen protection from discrimination in the framework that is afforded to it, and afforded to this Assembly. We do see the currently-proposed draft, reflecting the Scottish provisions, as a reduction of the competence of this Assembly, with the knock-on effects that that will undoubtedly have. But, as Members will know, the process is still one, to some extent, we hope, of negotiation and it is the First Minister who leads in relation to those negotiations about the final form of the Wales Bill.

Y safbwynt cyffredinol y mae'r Llywodraeth wedi'i fynegi yw ceisio cryfhau a gwella diogelwch rhag gwahaniaethu. Gwn fod gan yr Aelod ddiddordeb arbennig a'i fod wedi adrodd ar faterion sy'n effeithio ar wahaniaethu ar sail oed, er enghraifft, felly mae honno'n un agwedd. Ond safbwynt y Llywodraeth yw gwneud popeth yn ei gallu i gryfhau diogelwch rhag gwahaniaethu yn y fframwaith a roddir iddi, ac a roddir i'r Cynulliad hwn. Rydym yn gweld y drafft a gynigir ar hyn o bryd, sy'n adlewyrchu darpariaethau'r Alban, fel cyfyngiad ar gymhwysedd y Cynulliad hwn, gyda'r sgil-effeithiau y bydd hynny'n ddi-os yn eu hachosi. Ond fel y gŵyr yr Aelodau, rydym yn gobeithio ei bod i ryw raddau yn parhau i fod yn broses o drafod gyda Phrif Weinidog Cymru sy'n arwain mewn perthynas â'r trafodaethau hynny ar ffurf derfynol Bil Cymru.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

## The Human Rights Act 1998

14:21

### Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa drafodaethau y mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynglŷn â chynigion i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998? OAQ(4)0087(CG)*

*3. What discussions has the Counsel General had with members of the legal profession regarding proposals to abolish the Human Rights Act 1998? OAQ(4)0087(CG)*

14:21

### Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

I’ve had no formal discussions about this matter. Again, these are constitutional matters, as we see it, at least in part, for the First Minister. Insofar as they are matters of justice, they are matters for my colleague, the Minister for Public Services. The Welsh Government’s position, however, is clear, as has been set out regularly by the First Minister, including in the joint statement with the First Minister of Scotland. It is that the Welsh Government resists the repeal of the current Act, and will insist in any event that the rights that people of Wales presently enjoy are not weakened by any proposals to abolish the 1998 Act or replace it with a British Bill of Rights.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ffurfiol ar y mater hwn. Unwaith eto, yn ein barn ni, materion cyfansoddiadol i’r Prif Weinidog yw’r rhain, yn rhannol o leiaf. I’r graddau eu bod yn faterion cyfiawnder, maent yn faterion ar gyfer fy nghydweithiwr, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir, fodd bynnag, fel y mae Prif Weinidog Cymru wedi’i nodi’n rheolaidd, gan gynnwys yn y datganiad ar y cyd gyda Phrif Weinidog yr Alban. Y safbwynt hwnnw yw bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu diddymu’r Ddeddf bresennol, a bydd yn mynnu, beth bynnag a ddigwyddo, na chaiff yr hawliau y mae pobl Cymru yn eu mwynhau ar hyn o bryd eu gwanhau gan unrhyw gynigion i ddiddymu Deddf 1998 na’i disodli gan Fil Hawliau Prydeinig.

14:21

### Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Counsel General. It’s been reported that there is a draft, draft, draft Bill of Rights floating around somewhere or other which the UK Government may seek to introduce, which would actually begin to undermine our association with the European Convention on Human Rights, and may lead to the abolition, of course, of the Human Rights Act. Have any discussions taken place or have any representations been made about the presentation of such a Bill, and is it anticipated that such a Bill would be brought forward in the near future in Westminster? If so, are there concerns or considerations that you would have as Counsel General for such a Bill with regard to the legal status of this Assembly?

Diolch i chi am eich ateb, Gwnsler Cyffredinol. Adroddwyd bod yna ddrafft, drafft, drafft o Fil Hawliau yn hofran o gwmpas yn rhywle neu’i gilydd y gallai Llywodraeth y DU geisio’i gyflwyno, a fyddai’n dechrau tanseilio ein cysylltiad â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn gwirionedd, a gallai arwain at ddiddymu’r Ddeddf Hawliau Dynol wrth gwrs. A gafwyd unrhyw drafodaethau neu a wnaed unrhyw sylwadau ynglŷn â chyflwyno Bil o’r fath, ac a ragwelir y byddai Bil o’r fath yn cael ei gyflwyno yn San Steffan yn y dyfodol agos? Os felly, a oes gennych bryderon neu ystyriaethau fel Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â Bil o’r fath mewn perthynas â statws cyfreithiol y Cynulliad hwn?

14:22 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There have been lots of discussions in lots of places, and I don't think I'm in a position to comment on them. As to concerns, well, of course, one has concerns. It is some time ago now since the commission set up to investigate the question of a UK Bill of Rights visited as part of its travelling roadshow, as it were. I'm keen on reminding people that its remit was to consider the replacement of the Human Rights Act with a Bill of Rights which would build on the rights in the convention. There is no aspect of it in relation to restriction. The result of its findings, of course, was in some quarters thought of as limited, but it advised that there might be a role for further legislation so as to make it clear to people in this country that it was British judges deciding on matters of human rights in a British context, and they expressed this view. My view is that the debate on this is sometimes held on something of a false basis; it seems to be thought that a lot of law comes from Strasbourg and is then applied in this country, whereas, in fact, I think the general view of those who look into these matters is that, if I can put it this way, the Straw/Boateng vision of 'Bringing Rights Home' was realised, and the vast majority of decisions on human rights matters in this country are very much made by British judges applying British values.

Cafwyd llawer o drafodaethau mewn llawer o lefydd, ac nid wyf yn meddwl fy mod mewn sefyllfa i wneud sylwadau arnynt. O ran pryderon, wel wrth gwrs, mae gennyf bryderon. Mae peth amser bellach ers i'r comisiwn a sefydlwyd i ymchwilio i fater Deddf Hawliau Dynol y DU ymweld fel rhan o'i sioe deithiol, fel petai. Rwy'n awyddus i atgoffa pobl mai ei gylch gwaith oedd ystyried disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol gan Fil Hawliau a fyddai'n adeiladu ar yr hawliau yn y confensiwn. Nid oes unrhyw agwedd arno mewn perthynas â chyfyngiad. Mewn rhai mannau, ystyrid bod canlyniad ei ganfyddiadau yn gyfyngedig, ond cynghorodd y gallai fod rôl i ddeddfwriaeth bellach er mwyn ei gwneud yn glir i bobl yn y wlad hon mai barnwyr Prydeinig a benderfynai ar faterion hawliau dynol mewn cyd-destun Prydeinig, a mynegasant y farn hon. Fy marn i yw bod y ddadl ar hyn weithiau'n cael ei chynnal ar sail ffug, mewn ffordd; mae'n ymddangos y credir bod llawer o gyfraith yn dod o Strasbwrg ac yna'n cael ei chymhwyso yn y wlad hon ond mewn gwirionedd, credaf mai barn gyffredinol y rhai sy'n edrych yn fanwl ar y materion hyn, os caf ei roi fel hyn, yw bod gweledigaeth Straw/Boateng ynghylch 'dod â hawliau adref' wedi'i gwireddu, ac yn ddi-os, mai barnwyr Prydeinig yn cymhwyso gwerthoedd Prydeinig sy'n gwneud y mwyafrif helaeth o benderfyniadau ar faterion hawliau dynol yn y wlad hon.

On top of that, of course, again, sometimes people outside the heady world of the law miss these things, but there is a very clear stream now of decisions from the Supreme Court in which it seeks, and has achieved, the regaining, if I can put it that way, of all of human rights as a matter of common law, and not as a matter of reliance upon the convention. In this first instance, the Supreme Court says that courts in this country must look to the rights as protected by the common law, and only, if need be, then look to the convention. So, the Supreme Court has been very clear that it is not—how can I put it—a subsidiary to the decisions coming from Strasbourg. As I understand it, there have been a number of occasions recently where the so-called dialogue between those courts has resulted in the view of the Strasbourg court changing in favour of the view of the Supreme Court of this country.

Ar ben hynny, unwaith eto, weithiau mae pobl y tu allan i fyd cyffrous y gyfraith yn colli'r pethau hyn, ond ceir ffrwd amlwg iawn o benderfyniadau o'r Goruchaf Lys yn awr lle y mae'n ceisio, ac yn llwyddo i ailennill, os caf ei roi felly, yr holl hawliau dynol fel mater o gyfraith gyffredin, ac nid fel mater o ddibynnu ar y confensiwn. Yn y lle cyntaf, dywed y Goruchaf Lys fod yn rhaid i lysoedd yn y wlad hon ystyried yr hawliau a warchodir gan y gyfraith gyffredin, ac yna, os oes angen yn unig, dylent ystyried y confensiwn. Mae'r Goruchaf Lys wedi dweud yn glir iawn nad yw—sut y gallaf ddweud hyn—yn is-gorff i'r penderfyniadau a ddaw o Strasbwrg. Fel rwy'n ei ddeall, bu nifer o achlysuron yn ddiweddar lle y mae'r hyn a elwir yn ddeialog rhwng y llysoedd hynny wedi arwain at farn y llys yn Strasbwrg yn newid o blaid barn Goruchaf Lys y wlad hon.

## Bil Cymru Drafft a Swyddogion y Gyfraith

## The Draft Wales Bill and Law Officers

14:25 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*4. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion eraill y gyfraith am y Bil drafft Cymru? OAQ(4)0085(CG)[W]*

*4. What discussions has the Counsel General held with other Law Officers regarding the draft Wales Bill? OAQ(4)0085(CG)[W]*

14:25 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the Member will not be surprised when I say it's not my intention to make any statement about whether I have spoken with other law officers on this matter or not, reflecting the established convention.

Ni fydd yr Aelod yn synnu pan ddywedaf nad yw'n fwriad gennyf wneud unrhyw ddatganiad ynglŷn ag a wyf wedi siarad â swyddogion y gyfraith eraill ar y mater hwn ai peidio, gan adlewyrchu'r confensiwn sefydledig.

14:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am yr ateb arferol. Serch hynny, mae'n werth gofyn y cwestiwn bob tro, gan ei fod, y tro yma, yn rhoi cyfle imi groesawu'r datganiad heddiw bod refferendwm ar gynnwys treth incwm fel rhan o'r Bil yn cael ei ddiddymu, a bod dim angen hynny. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth positif iawn ac yn cydnabod bod llif datganoli yng Nghymru yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw. Gobeithio, felly, y byddwn yn gweld rhagor o welliannau i'r Bil yng ngoleuni hynny, yn yr un modd, achos mae'n amlwg bod angen gwella sylweddol ar y Bil yma. Yn y cyd-destun yna, ac wrth edrych ar y dystiolaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i roi i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y lle hwn, mae'n amlwg bod consyrn mawr gan y Llywodraeth ynglŷn â'r cannoedd o faterion a gadwyd yn ôl, a bod y rheini wedi'u rhestru yn hirfaith iawn yn y Bil drafft fel y mae. A yw hi'n fwriad gan y Llywodraeth, felly, boed hynny ar sail eich cyngor chi ai peidio, i gyhoeddi rhyw fath o Fil amgen er mwyn hwyluso'r broses o gyrraedd rhywle gwell?

Thank you for your usual answer. However, it is worth while asking the question because, this time, it gives me an opportunity to welcome the statement made today that a referendum on income tax devolution is to be scrapped, and that it is not necessary. I think that's very positive and recognises that the flow of devolution in Wales is moving in that direction. Hopefully, therefore, we will see further amendments to the Bill in light of that, because it is clear that we do need significant improvements to the Bill. In that context, and looking at the evidence that the First Minister has given to the Constitutional and Legislative Affairs Committee in this place, it is clear that there is great concern within Government about the hundreds of reserved matters and that those are listed at length in the draft Bill as it currently stands. Is it the Government's intention, therefore, on the basis of your advice or otherwise, to publish some sort of alternative Bill in order to facilitate the process of reaching a better place?

14:26 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

I'm not in a position to make any statements on my advice or what might be done on the basis of it. I'm also not in a position to answer the last question directly, which I feel is very much a matter for the First Minister.

Nid wyf mewn sefyllfa i wneud unrhyw ddatganiadau ar fy nghyngor neu beth y gellid ei wneud ar ei sail. Nid wyf mewn sefyllfa chwaith i ateb y cwestiwn diwethaf yn uniongyrchol, gan y teimlaf mai mater i'r Prif Weinidog ydyw, yn sicr.

14:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Counsel General.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol.

## 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## 3. Questions to the Assembly Commission

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There have been no questions tabled under item 3.

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau o dan eitem 3.

14:27

## 4. Cynnig i Ddirymu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015

## 4. Motion to Annul the Tuberculosis (Wales) (Amendment) Order 2015

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We move to item 4, which is a motion to annul the Tuberculosis (Wales) (Amendment) Order 2015. I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Symudwn at eitem 4, sef cynnig i ddirymu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y cynnig.

Cynnig NNDM5872 Llyr Gruffydd

Motion NNDM5872 Llyr Gruffydd

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.2:

Yn cytuno bod Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 12 Hydref 2015, yn cael ei ddirymu.

Agrees that the Tuberculosis (Wales) (Amendment) Order 2015, laid before the Assembly on 12 October 2015, be annulled.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:27

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ei gwneud yn gwbl glir nad oes gennyf ddim gwrthwynebiad fel y cyfryw i rannu gwybodaeth am leoliad buchesi sydd wedi'u heintio â TB? Mae yna fuddiannau clir i nifer o randdeiliaid—i ffermwyr fel bod modd iddyn nhw amddiffyn bioddiogelwch eu ffermydd; i filfeddygon hefyd, bydd yn help iddyn nhw adnabod y risg ac i ymateb yn bwrpasol; i arwerthwyr hefyd, o bosibl, yn sicr byddai o fudd i bobl sy'n prynu a gwerthu stoc o safbwynt adnabod statws TB y buchesi hynny maen nhw'n prynu oddi wrthyn nhw. Felly, mi fyddai ganddo gyfraniad i'w wneud wrth geisio cryfhau bioddiogelwch a helpu lleihau'r risg o ymlediad TB.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and may I start by making it entirely clear that I have no opposition as such to sharing information about the location of herds that are infected with TB? There are clear benefits for a number of stakeholders—for farmers so that they can protect the biosecurity of their own farms; for veterinarians, it will be of assistance to them to identify the risk and to respond; and also, for those working within cattle markets and so on, it will certainly be of benefit to those selling stock in identifying the TB status of those herds. So, it would have a contribution to make in strengthening biosecurity and reducing the spread of TB.

Mae'r ddogfen ymgynghorol ddiweddar gan y Llywodraeth yn gosod achos perswadiol iawn dros rannu'r wybodaeth gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, a dyna'r pwynt, wrth gwrs—rhannu'r wybodaeth gyda'r rhanddeiliaid perthnasol. Mi fyddwn yn cefnogi hynny, yn amlwg. Yr hyn sydd ddim yn cael ei wneud, serch hynny, wrth gwrs, yn y ddogfen honno, yw'r achos dros wneud y wybodaeth ar gael i bawb a phopeth. Nid oes esboniad yn y ddogfen ymgynghorol o beth fyddai cyhoeddi mapiau sydd ar gael i'r cyhoedd ehangach yn ei ychwanegu i reolaeth TB. Mae gwybodaeth am achosion o TB, wrth gwrs, yn fater sensitif ac fe ddylai gael ei rannu mewn modd pwrpasol. Heb fod achos yn cael ei wneud i rannu'r wybodaeth y tu hwnt i'r rhai sydd angen gwybod, mae yna gwestiwn yn fy meddwl i dros wneud hynny, yn enwedig gan fod hwn yn bwnc mor sensitif, yn bwnc anodd ac yn bwnc sy'n corddi teimladau cryfion ac sy'n corddi pob math o emosiynau hefyd.

The consultation document recently published by Government does set out a very persuasive case for sharing the information with relevant stakeholders, and that is the point, of course—it is sharing information with relevant stakeholders. I would support that, clearly. But what isn't made, of course, in that document is the case for making that information freely available to all and sundry. There is no explanation in the consultation document of what the publication of maps to the wider public would actually add to the control of TB. Information on TB cases, of course, is a sensitive issue, and it should be shared in a meaningful way. Unless the case is made to share that information beyond those who actually need to know, then there is a question in my mind as to whether that should be done, particularly of course as this is a very sensitive and difficult issue and an issue that engenders strong feelings and all sorts of emotions also.

Mae'r holl drafodaeth hyd yma, hyd y gwelaf, wedi ffocysu ar fanteision rhannu'r wybodaeth â ffermwyr, yn bennaf. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn sôn mai prif ddiben y Gorchymyn fydd gwneud ffermwyr yn ymwybodol pan fydd gan eu cymdogion nhw achos o TB, er mwyn iddynt allu rhoi rhagofalon doeth ar waith wedyn i leihau'r risg i'r gwartheg hynny. Wel, nid oes amheuaeth bod yna fantais yn hynny o beth. Rwy'n cydnabod bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi ffafrio cyhoeddi'r wybodaeth ar-lein, ond rwyf yn teimlo bod hynny wedi cael ei wneud ar sail y dybiaeth mai rhoi'r wybodaeth i'r rhai sydd ei angen ar-lein y byddai'r Llywodraeth yn ei wneud. Roedd cyd-destun y cwestiynau, er enghraifft, yn awgrymu mai cael ei gyhoeddi at ddefnydd ffermwyr. Mae'r cwestiwn cyntaf yn gofyn: 'A ydych chi'n cytuno y dylid cyhoeddi lleoliad y buchesi sydd wedi eu heintio â TB?' Mae cwestiwn 2, wedyn, yn gofyn sut y bydd ffermwyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth yma i warchod eu buchesi, ac yn y blaen.

All of the debate, as far as I can see, has focused on the benefits of sharing the information with farmers, mainly. The consultation document mentioned that the main aim of the Order will be to make farmers aware when neighbouring farms do have cases of TB so that they can put in clear precautions to reduce the risk to their own herd. Well, there's no doubt that there are benefits in that regard. I recognise that most respondents to the consultation have favoured the publication of the information online, but I do feel that that's been made on the basis that the information will be provided to those who need it online. The context of the questions suggested that the information will be published for the use of farmers. The first question asks: do you agree that the location of herds infected with TB should be published? Question 2, then, asks how farmers will use this information to protect their own herds, and so on.

Mae rhai ymatebwyr, wrth gwrs, wedi codi cwestiynau wedyn am yr angen i rannu'r wybodaeth â phawb, ac rwyf wedi derbyn nifer o negeseuon, ac rwy'n siŵr bod nifer ohonom ni fan hyn wedi derbyn negeseuon, gan ffermwyr yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau. Mae yna drafod wedi bod yn y wasg a'r cyfryngau, ac yn sicr ar gyfryngau cymdeithasol hefyd, ynglŷn â goblygiadau rhoi mynediad i'r cyhoedd yn ehangach i fapiau ar-lein.

Some of the respondents, of course, have raised questions on the need to disseminate the information more widely and to share it with everyone, and I've received a number of messages, and I'm sure many other Members have also received messages, from farmers in our constituencies and regions. There has been a discussion in the press and media, and certainly on social media, on the implications of giving the wider public access to these online maps.

Nid oes amheuaeth bod ffermydd sy'n mynd lawr â TB yn medru gadael deiliaid y ffermydd hynny yn fregus, yn emosiynol, yn sicr, ac yn ariannol hefyd, wrth gwrs, gyda'r busnes yn dod o dan bwysau oherwydd cyfyngiadau ac yn y blaen. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r unigolion hynny, yn bosib iawn, yn mynd i fod yn fwy agored i niwed. Mae yna risg y gallai rhywun, neu rywrai, drio cymryd mantais o'r sefyllfa, er enghraifft drwy gynnig cefnogaeth emosiynol, neu gefnogaeth ariannol, efallai, yn fwy penodol, ar sail dwyllodrus. Mae cryn drafod wedi bod yn y Senedd fan hyn, wrth gwrs, ynglŷn â pheryg sgiams a galw oer ac yn y blaen fel bygythiad i bobl fregus. Wel, mae wedi cael ei awgrymu i mi fod hwn, o bosib, yn wahoddiad i'r math yma o arferion i gael eu targedu at bobl sydd yn ffeindio eu hunain mewn sefyllfa lle maen nhw, efallai, yn fwy agored i gael cymryd mantais ohonyn nhw.

There's no doubt that farms struck by TB can leave the owners of those farms vulnerable, emotionally, certainly, and financially also, of course, with the business coming under pressure because of restrictions and so on. Under such circumstances, those individuals will quite possibly be more vulnerable to harm. There is a risk that someone, or some people may take advantage of the situation, for example by offering to provide emotional support, or financial support, perhaps, more specifically, on a fraudulent basis. There has been some discussion in the Senedd here on the risk of scams and cold calling and so on as a threat to vulnerable people. Well, it has been suggested to me that this, quite possibly, is an invitation for these kinds of practices to be targeted at people who find themselves in a situation where they are perhaps more vulnerable to be taken advantage of.

Ymhellach at hynny, wrth gwrs, mae yna rai hefyd wedi amlygu gofidiau am ddiogelwch ffermwyr ar y ffermydd hynny sy'n mynd lawr â TB o gyfeiriad rhai actifyddion mwy eithafol, efallai, o safbwynt lles anifeiliaid. Fe ddywedodd y Dirprwy Weinidog bythefnos yn ôl yn y Siambr fan hyn nad oedd unrhyw achosion wedi eu hadrodd i'r heddlu yn Lloegr, ac nid oes gennyf reswm i amau hynny—mae yna fap ar-lein, wrth gwrs, yn barod yn Lloegr. Ond nid oes rhaid edrych yn bell iawn i weld bod rhai grwpiau o actifyddion wedi amlygu, yn barod, eu bwriad i ddefnyddio'r mapiau yn Lloegr ar gyfer trefnu gwrthdystiadau wedi eu targedu. Yn wir, mi ddywedodd un aelod o Stop the Cull yn ddiweddar y bydd actifyddion yn defnyddio'r wybodaeth i dargedu ffermwyr yn Lloegr. Felly, fel rwy'n ei ddweud, mae'r risg yna oherwydd, wrth gwrs, mae e'n cael ei fynegi yn barod gan griw bychan, rwy'n siŵr, o actifyddion yn y maes yna.

Further to that, of course, some have highlighted concerns about the safety of farms and farmers on those farms that are struck by TB from the direction of some more extreme activists, perhaps, in terms of animal welfare. The Deputy Minister said in the Chamber here that there were no documented cases or cases reported to police in England, and I have no reason to doubt that—there is already an online map in England, of course. But you don't have to look too far to see that some activist groups have already highlighted their intention to use the maps in England to organise targeted protests. Indeed, one member of Stop the Cull said recently that activists will use the information to target farmers in England. So, as I say, the risk is there, because, of course, it is already being expressed by a small group, I'm sure, of activists in that area.

Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn dweud wrthym ni na fydd enwau, cyfeiriadau na rhifau 'county parish holding' yn cael eu cyhoeddi—dim ond lleoliad y buchesi sydd wedi eu heintio, a hynny ar fap. Wel, mater bach yw defnyddio hynny i adnabod y fferm mewn cwestiwn, neu, wrth gwrs, glwstwr o ffermydd a allai fod â gofal am y tir o dan sylw. Ac mae hynny yn ei hunan, wrth gwrs, yn codi cwestiwn pellach yn fy meddwl i, oherwydd, os nad yw'r wybodaeth yn ddigonol i adnabod pa fferm yn union sydd wedi ei heintio, yna, wrth gwrs, mae hynny'n awgrymu ei fod yn tanseilio un o bwrpasau sylfaenol rhannu'r wybodaeth yn y lle cyntaf.

The Deputy Minister has also told us that the names, addresses or county parish holding numbers will not be published, only the location of the herds infected on a map. Well, it's a small matter, then, to use that to identify the farm in question or, of course, a cluster of farms that could be responsible for the land in question. That in itself, of course, raises a further question in my mind, because if the information isn't sufficient to identify exactly which farm is infected, then, of course, that does suggest that it undermines one of the fundamental purposes of sharing the information in the first place.

Pe bai'r wybodaeth, wrth gwrs, yn cael ei rhannu ar wefan sy'n cael ei diogelu â chyfrinair, yna mi fyddai hynny, wrth gwrs, yn mynd beth o'r ffordd, rwy'n meddwl, i dawelu meddyliau pobl. Mae sawl un wedi awgrymu y byddai hynny yn gallu sicrhau mai'r rhai sydd angen y wybodaeth a fyddai'n cael mynediad at y wybodaeth wedyn. Ac mae yna wefannau, wrth gwrs, sydd eisoes yn cael eu rheoli â chyfrinair, ac sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ffermwyr, a byddai modd ystyried eu rhoi nhw i'r defnydd hwnnw. Mae Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein yn un sydd wedi cael ei awgrymu, wrth gwrs.

If the information was shared on a website that was safeguarded by a password, then, of course, that would go some of the way to calm people's fears. Many people have suggested that that would ensure that only those who needed the information would be able to access it. And there are websites, of course, that are already managed with passwords and are password-protected, and are used by farmers, and it would be possible to consider using them to that end. Rural Payments Wales Online is one that has been suggested, of course.

Rwy'n ymwybodol fod y Llywodraeth wedi cael cyngor cyfreithiol ar y Gorchymyn hwn, ac ni fyddwn yn disgwyl dim llai, ond mi fyddwch chi hefyd yn ymwybodol, rwy'n siŵr, fod yna drafod eisoes wedi bod yn Lloegr ar y posibilrwydd o ddod â her i'r mapiau yma, gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llys Ewrop, o dan erthygl 8 yn Neddf Hawliau Dynol 1998, gan fod rhai yn teimlo ei fod e'n amharu yn anghymesur â hawliau ffermwyr i breifatrwydd. Nawr, rydych chi wedi derbyn cyngor cyfreithiol, felly fe wnaf i roi fy ffydd yn hynny, ond, yn amlwg, mae'n bosib y byddai her o'r fath yn cael ei hystyried yng Nghymru.

I'm aware that the Government has received legal advice on this Order and I would expect nothing less, but you'll also be aware, I'm sure, that there has been some discussion already in England on the possibility of bringing a challenge to these maps, with the Information Commissioner and the European Court, under article 8 in the Human Rights Act 1998, because some feel that it disproportionally contravenes farmers' rights to privacy. Now, you have received legal advice, so I will put my faith in that, but, clearly, it's possible that such a challenge could be considered in Wales.

Yn fy marn i, mae geiriad y Gorchymyn yn rhy benagored. Nid yw'n dweud pa wybodaeth sydd i'w chyhoeddi, ac yn fwy penodol, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi ar unrhyw ffurf, sydd yn benagored iawn yn fy marn i. Os yw'r Llywodraeth eisiau fy nghefnogaeth i'r Gorchymyn yma, yna mae'n rhaid i'r Llywodraeth esbonio sut y mae'n mynd i allu defnyddio'r data yma mewn modd gofalus. Rwy'n siŵr, neu rwy'n gobeithio'n fawr, y bydd y Llywodraeth yn deall y consýrn rwy'n ei adlewyrchu fan hyn yn y cynnig yma heddiw. Ac rwy'n awyddus iawn hefyd i ddeall, fel roeddwn yn ei ddweud, sut y bydd y Llywodraeth yn mynd ati i warchod rhag camddefnyddio'r data yma, a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd sensitif a diogel yng Nghymru. Rwy'n meddwl ei bod hi'n gwbl deg i ffermwyr Cymru ddisgwyl hynny. Diolch.

In my opinion the wording of the Order is too open-ended. It doesn't say what information is to be published, and more specifically, it allows Welsh Ministers to publish in any way that they see fit, which is very open-ended in my opinion. If the Government wants my support for this Order, then the Government has to explain how it's going to use these data in a considered and careful way. I'm sure, or I very much hope that the Government will understand the concern that I'm reflecting here in this annulment motion today. I'm also very eager to understand, as I've said, how the Government will actually safeguard from the misuse of these data and ensure that they are used in a sensitive and safe way in Wales. I think it's entirely fair for Welsh farmers to expect that. Thank you.

14:35

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

My view on this issue is certainly that the locations of TB-infected herds should be published. There are good reasons that can be identified for that, as has been detailed by the Plaid spokesperson. But I also think that there is a risk that if this information is publicly and widely available, there are security reasons why this could lead to inappropriate behaviour. Again, I won't repeat what the Plaid spokesperson said; I agree with his concerns in that regard. So, I think what we would like today, Deputy Presiding Officer, is a commitment from the Deputy Minister, and assurances that there is mitigation in place that the unintended consequences of this legislation will be adequately addressed. Perhaps I can specifically ask the Deputy Minister: if any issue arises as a result of this information and data being in the public domain, what will then be the action of the Welsh Government in this case? Will this information then be taken down, and how would that be progressed? I can't, at this point, commit to how the Welsh Conservatives would vote on this issue; I'm particularly interested, of course, in the Deputy Minister's response to the queries this afternoon in order for us then to make a decision on our voting intention.

Fy marn i ar y mater yn sicr yw y dylid cyhoeddi lleoliadau buchesi wedi'u heintio â TB. Gellir rhoi resymau da dros hynny, fel y nododd llefarydd Plaid Cymru. Ond credaf hefyd fod yna risg, os yw'r wybodaeth hon ar gael yn eang i'r cyhoedd, fod rhesymau diogelwch pam y gallai hyn arwain at ymddygiad amhriodol. Unwaith eto, nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedodd llefarydd Plaid; rwy'n cytuno â'i bryderon yn hynny o beth. Felly, rwy'n meddwl mai'r hyn y byddem yn ei hoffi heddiw, Ddirprwy Lywydd, yw ymrwymiad gan y Dirprwy Weinidog, a sicrwydd bod mesurau lliniaru ar waith ar gyfer mynd i'r afael yn ddigonol â chanlyniadau anfwriadol y ddeddfwriaeth hon. Efallai y caf ofyn yn benodol i'r Dirprwy Weinidog: os ceir unrhyw broblem yn sgil y ffaith fod y wybodaeth a'r data yn dod yn gyhoeddus, pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith pe bai hynny'n digwydd? A fydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu'n ôl wedyn, a sut y byddai modd bwrw ymlaen ar hynny? Ar hyn o bryd, ni allaf addo sut y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn pleidleisio ar y mater; mae gennyf ddiddordeb arbennig, wrth gwrs, yn ymateb y Dirprwy Weinidog i'r cwestiynau y prynhawn yma er mwyn i ni benderfynu sut y bwriadwn bleidleisio.

14:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats greatly welcome the opportunity to debate this important issue today, and we will be supporting the motion that has been tabled in the name of Llyr Gruffydd. We strongly support the stated aims of the TB (Wales) (Amendment) Order 2015, namely to improve the sharing of information on instances of TB to help farmers to better manage the risk of TB infection, and to help to control the spread of this pernicious disease. However, we are very sympathetic indeed to the arguments we've hear put forward by Llyr Gruffydd. A positive result for a bovine TB test can be absolutely devastating for a farmer and a farming business, when a herd must be destroyed as a result, and we all well understand that. In our view, making this information publicly available will only exacerbate this distress if it's not handled very carefully indeed. Recently, in this Chamber, my colleague Aled Roberts asked for detail on what would be published on the proposed website. At that stage, the Deputy Minister advised that data that would be published would include the location of the herd on a map, as we've heard, the date that the herd lost its official TB-free status, and the date it regained its officially-bovine-tuberculosis-free status.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r cyfle'n fawr i drafod y mater pwysig hwn heddiw, a byddwn yn cefnogi'r cynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enw Llyr Gruffydd. Rydym yn gadarn ein cefnogaeth i nodau datganedig Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015, sef gwella prosesau rhannu gwybodaeth am achosion o TB i helpu ffermwyr reoli'r risg o haint TB yn well, ac i helpu i reoli lledaeniad y clefyd niweidiol hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydymdeimlo'n gryf â'r dadleuon a glywsom gan Llyr Gruffydd. Gall canlyniad cadarnhaol am brawf TB buchol fod yn gwbl ddinistriol i ffermwr a busnes ffermio, pan fo'n rhaid dinistrio buches o ganlyniad, ac rydym i gyd yn deall hynny. Yn ein barn ni, bydd rhyddhau'r wybodaeth hon yn gyhoeddus yn gwaethygu'r trallod os na chaiff ei drin yn ofalus iawn. Yn ddiweddar, yn y Siambr hon, gofynnodd fy nghyd-Aelod, Aled Roberts, am fanylion ynglŷn â'r hyn a gâi ei gyhoeddi ar y wefan arfaethedig. Ar y cam hwnnw, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r data a gâi ei gyhoeddi yn cynnwys lleoliad y fuches ar fap, fel y clywsom, y dyddiad y collodd y fuches ei statws heb TB swyddogol, a'r dyddiad yr adferwyd ei statws heb TB swyddogol.

Whilst we welcome the fact that names and addressed would not be included, we agree with the arguments that we've already heard that a more sensible approach would be to publish the information in a way that means that it can only be accessed by farmers, such as via a secure log-in or other mechanisms, so that, ultimately, it is only farmers and others who have that information on a need-to-know basis. This would avoid the potential for greater distress and stigma for farmers, and also the worry that the information could be potentially used by certain groups or vigilantes, or other cold callers of the kind that we've heard described, who might seek to harass, abuse or single out farmers who have been blighted with TB in their herds.

Er ein bod yn croesawu'r ffaith na châi enwau a lleoliadau eu cynnwys, cytunwn â'r dadleuon a glywsom eisoes mai ffordd fwy synhwyrol o fynd ati fyddai cyhoeddi'r wybodaeth mewn modd sy'n golygu mai ffermwyr yn unig a gâi fynediad ati, megis drwy fewngofnodi diogel neu systemau eraill, fel mai ffermwyr ac eraill sydd ei hangen yn unig sy'n cael y wybodaeth yn y pen draw. Byddai hyn yn osgoi'r posibilrwydd o greu rhagor o drallod a stigma i ffermwyr, a hefyd y pryder y gallai rhai grwpiau, vigilantes neu alwyr digroeso o'r math a ddisgrifiwyd ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn ceisio cam-drin, aflonyddu neu bigo ar ffermwyr sydd wedi dioddef haint TB yn eu buches.

The Order, as drafted, gives Welsh Ministers the freedom to publish information in any form that the Welsh Ministers would see fit for purpose. Given that the explanatory memorandum states that the aim of this power is to provide farmers with the location of herds affected by TB, the current proposals to make the information more publicly available in any form is indeed, as Llyr Gruffydd has argued, too broad, and the Order, as drafted, too vague. We would urge the Deputy Minister to give serious consideration to a more secure form of publication, and to ensure that this information is only available to those who absolutely need to see it. Until we have these reassurances in place, and until that system is available to us to understand, it is our belief that the Order is premature and that we cannot support it in its current form.

Mae'r Gorchymyn, fel y'i drafftiwyd, yn rhoi'r rhyddid i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth ar unrhyw ffurf y byddai Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn addas at y diben. O ystyried bod y memorandwm esboniadol yn datgan mai nod y pŵer hwn yw darparu lleoliad buchesi a heintiwyd â TB i ffermwyr, mae'r cynigion presennol i ryddhau'r wybodaeth yn fwy cyhoeddus ar unrhyw ffurf, fel y mae Llyr Gruffydd wedi'i ddadlau, yn rhy eang, yn wir, ac mae'r Gorchymyn, fel y'i drafftiwyd, yn rhy amwys. Byddem yn annog y Dirprwy Weinidog i ddwys ystyried cyhoeddi ar ffurf fwy diogel, ac i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn unig i'r rhai sydd â gwir angen ei gweld. Hyd nes y cawn y sicrwydd hwn, a hyd nes y bydd y system honno ar gael i ni ei deall, credwn fod y Gorchymyn yn gynamserol ac na allwn ei gefnogi ar ei ffurf bresennol.

14:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans.

14:39 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you. Good biosecurity and health planning reduce the chances of cattle and other animals becoming infected with TB. One of the ways in which I aim to improve biosecurity is by providing the livestock industry with information about potential TB risks. To support this, in September, I announced that I'd decided to introduce a new power to allow me to publish TB information. When we consulted on this, the vast majority of respondents agreed with the proposal to change the legislation.

Diolch. Mae bioddiogelwch a chynlluniau iechyd da yn lleihau'r perygl y caiff gwartheg ac anifeiliaid eraill eu heintio â TB. Un o'r ffyrdd rwy'n bwriadu gwella bioddiogelwch yw drwy ddarparu gwybodaeth i'r diwydiant da byw am risgiau posibl TB. I gefnogi hyn, ym mis Medi, cyhoeddais fy mod i wedi penderfynu cyflwyno pŵer newydd i fy ngalluogi i gyhoeddi gwybodaeth am TB. Pan gawsom ymgynghoriad ar hyn, cytunodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr â'r cynnig i newid y ddeddfwriaeth.

The new power came into force on 2 November. I intend to use it to support individual businesses by publishing TB information to help the livestock industry and the rural community to prevent the spread of TB. Although it may seem wide-ranging, the power does not override the requirement for any use to be compatible with the Data Protection Act 1998 and the European Convention on human rights. The wording also limits us to only publishing information that's sufficient for the purposes of helping others protect against the spread of TB.

Daeth y pŵer newydd i rym ar 2 Tachwedd. Rwy'n bwriadu ei ddefnyddio i gefnogi busnesau unigol drwy gyhoeddi gwybodaeth am TB i helpu'r diwydiant da byw a'r gymuned wledig er mwyn atal lledaeniad TB. Er y gall ymddangos yn bellgyrhaeddol, nid yw'r pŵer yn dirymu'r gofyniad i unrhyw ddefnydd fod yn gydnaws â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol. Mae'r geiriad hefyd yn ein cyfyngu i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ddigonol i helpu eraill i ddiogelu yn erbyn lledaeniad TB, a dim mwy na hynny.

The most popular suggestion for publishing TB information made by respondents to the consultation was providing TB breakdown information on a map on a website. From next year, under the authority of the revised Tuberculosis (Wales) Order 2015, I intend to publish information on cattle herds affected with TB. Where a herd has TB and lost its TB-free status, a web-based system, called 'information bovine TB', will be used to publish the location of a herd on a map, the date the herd lost its TB-free status and the date the herd regained its TB status is applicable. So, names, addresses and CPH numbers will not be published and it will not be possible to zoom in to a street-level view. I intend to consider whether information on other species could also be published alongside the cattle data in future.

Yr awgrym mwyaf poblogaidd ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth am TB a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd y dylid darparu gwybodaeth am achosion o TB ar fap ar wefan. O'r flwyddyn nesaf, drwy awdurdod y Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2015 diwygiedig, rwy'n bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi gwartheg yr effeithiwyd arnynt gan TB. Lle y bo TB yn y fuches a'i bod wedi colli ei statws heb TB, defnyddir system ar y we, o'r enw 'gwybodaeth am TB mewn gwartheg', i gyhoeddi lleoliad y fuches ar fap, y dyddiad y collodd y fuches ei statws heb TB a'r dyddiad yr adferwyd ei statws heb TB. Felly, ni fydd enwau, cyfeiriadau a rhifau'r daliadau (CPH) yn cael eu cyhoeddi ac ni fydd yn bosibl chwyddo i lefel y stryd. Rwy'n bwriadu ystyried a ellid cyhoeddi gwybodaeth am rywogaethau eraill hefyd ochr yn ochr â data gwartheg yn y dyfodol.

This Government puts the rights of individuals at the heart of everything we do. Whilst there was some disagreement between respondents to the consultation on whether the information should be publicly available or restricted, I have no reason to believe that people will misuse the information.

Mae'r Llywodraeth hon yn gosod hawliau unigolion yn ganolog ym mhopeth a wnawn. Er bod rhywfaint o anghytundeb rhwng ymatebwyr yr ymgynghoriad ynglŷn ag a ddylai'r wybodaeth fod ar gael yn gyhoeddus neu wedi'i chyfyngu, nid oes gennyf reswm dros gredu y bydd pobl yn ei chamddefnyddio.

When a farm goes down with TB, it's a difficult time for the farmer and the family involved. I fully appreciate how traumatic this can be, but having TB does not suggest any unlawful or any unscrupulous activity has taken place, or that these persons are guilty of any wrongdoing. The public understands this and is sympathetic to those farming families that have experienced a TB breakdown.

Pan fydd fferm cael achos o TB, mae'n amser anodd i'r ffermwr a'r teulu dan sylw. Rwy'n deall yn iawn pa mor drawmatig y gall hyn fod, ond nid yw presenoldeb TB yn awgrymu bod unrhyw weithgaredd anghyfreithlon neu ddiegwyddor wedi digwydd, neu fod y bobl hyn yn euog o unrhyw gamwedd. Mae'r cyhoedd yn deall hyn ac yn cydymdeimlo â'r teuluoedd fferm sydd wedi cael profiad o TB.

As speakers have recognised, vets, camelid owners, farm workers, breed and grassland societies, hauliers, milk processors and contractors, and so on, all have a stake in preventing the spread of TB. This information is as useful to them as it is to farmers, as they may have regular contact with farms or with cattle. Having to consider the possible thousands of applications from these individuals to access the website, to confirm they are who they say they are and evaluate their reasons for accessing the information would take up an enormous amount of time and resources and could simply put most people off doing so. This would be counterproductive when there's no evidence to support the assumption that people would use this information to harass farmers.

Fel y mae siaradwyr wedi'i gydnabod, mae gan filfeddygon, perchnogion camelidau, gweithwyr fferm, cymdeithasau bridiau a thir glas, cludwyr, proseswyr llaeth a chontractwyr, ac yn y blaen, i gyd ran i'w chwarae yn y gwaith o atal lledaeniad TB. Mae'r wybodaeth hon yr un mor ddefnyddiol iddynt hwy ag y mae i ffermwyr, gan y gall fod ganddynt gysylltiad rheolaidd â ffermydd neu â gwartheg. Byddai gorfod ystyried y miloedd o geisiadau posibl gan yr unigolion hyn i gael mynediad i'r wefan, er mwyn cadarnhau eu bod yn dweud y gwir am bwy ydynt a gwerthuso eu rhesymau dros weld y wybodaeth, yn galw am lawer iawn o amser ac adnoddau a gallai beri i'r rhan fwyaf o bobl ailystyried gwneud hynny, yn syml iawn. Byddai hyn yn wrthgynhyrchiol pan nad oes tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth y byddai pobl yn defnyddio'r wybodaeth hon i aflonyddu ar ffermwyr.

The website has been available in England since July and there have been no reports to the Department for Environment, Food and Rural Affairs, either directly or via authorities, that the information has been used to intimidate or harass people. DEFRA's security team, which monitors for intimidation of cull-related activities, has also not highlighted any issues. In fact, feedback from users and stakeholders in England has been extremely positive. I will, of course, keep this issue under review. If there is any evidence of misuse of the website or of unintended consequences, I will ensure that a full investigation is undertaken and will of course act appropriately and accordingly in the light of that investigation.

Mae'r wefan wedi bod ar gael yn Lloegr ers mis Gorffennaf ac ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng yr awdurdodau, fod y wybodaeth wedi cael ei defnyddio i ddychryn neu aflonyddu ar bobl. Nid yw tîm diogelwch DEFRA, sy'n monitro bygythiadau mewn perthynas â gweithgareddau'n gysylltiedig â difa, wedi tynnu sylw at unrhyw broblemau chwaith. Yn wir, mae'r adborth gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid yn Lloegr wedi bod yn gadarnhaol iawn. Byddaf yn cadw llygad ar y mater wrth gwrs. Os ceir unrhyw dystiolaeth o gamddefnydd o'r wefan neu o ganlyniadau anfwriadol, byddaf yn sicrhau bod ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal a byddaf yn gweithredu'n briodol ac yn unol â chanfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw.

I'm determined to help eradicate this disease, which has a significant financial and social impact on farmers and the wider rural community in Wales. Eradicating TB will be more difficult to achieve unless the livestock industry receives information that they can act upon by taking precautions to protect against the spread of TB.

Rwy'n benderfynol o helpu i ddileu'r clefyd, sy'n effeithio'n sylweddol ar ffermwyr a'r gymuned wledig ehangach yng Nghymru yn ariannol ac yn gymdeithasol. Bydd ddileu TB yn anos i'w gyflawni, oni bai bod y diwydiant da byw yn cael gwybodaeth y gallant weithredu arni drwy roi camau ar waith i ddiogelu rhag lledaeniad TB.

14:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd to reply.

Llyr Gruffydd i ymateb.

14:44

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank those who took part in this debate? I agree wholeheartedly with the Member for Montgomeryshire when he warned of unintended consequences. I heard what the Minister said about keeping the situation under review and fully investigating, but of course that sometimes means that you are doing so after something has happened, so whilst I'm slightly reassured, maybe it's not enough as far as I'm concerned. To the Liberal Democrat Member for Mid and West Wales, you're perfectly right—the Order gives Welsh Ministers the freedom to publish the information in any form, although the explanatory memorandum is pretty categorical in that it's there to provide information to farmers. So, I do feel that there is an inconsistency there, actually, and that, I think, strengthens my resolve even further.

A gaf fi ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y ddadl hon? Cytunaf yn llwyr â'r Aelod dros Sir Drefaldwyn pan rybuddiodd ynghylch canlyniadau anfwriadol. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am gadw llygad ar y sefyllfa ac ymchwilio'n llawn, ond mae hynny weithiau'n golygu eich bod yn ei wneud ar ôl i rywbeth ddigwydd, felly, er fy mod wedi cael rhywfaint o sicrwydd, efallai nad yw'n ddigon, o'm rhan i. I Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, rydych yn gwbl gywir—mae'r Gorchymyn yn rhoi rhyddid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r wybodaeth ar unrhyw ffurf, er bod y memorandwm esboniadol yn eithaf pendant ei fod yno i ddarparu gwybodaeth i ffermwyr. Felly, teimlaf fod yna anghysondeb, mewn gwirionedd, ac mae hynny'n cadarnhau fy mhenderfyniad hyd yn oed ymhellach.

Now, Deputy Minister, you said that the point is to provide the livestock industry with the information. You've said it yourself again. And again, I would urge you therefore to look at a more targeted way of sharing that information. It's about helping people to protect their stock or their interests against infection, but, of course, by your own admission, you can't identify the farm. So, it rather undermines, in my mind, the whole purpose, really, and there's a big question about whether it achieves your stated aim if you can't even identify the farm, particularly if part of the rationale is that somebody buying livestock is able to identify whether that livestock is coming from somewhere that has a certain status in relation to TB.

Nawr, Ddirprwy Weinidog, fe ddywedoch mai'r pwynt yw darparu'r wybodaeth i'r diwydiant da byw. Rydych wedi'i ddweud eto eich hun. Ac eto, byddwn yn eich annog, felly, i edrych ar fodd o rannu'r wybodaeth drwy ei thargedu'n well. Mae'n ymwneud â helpu pobl i ddiogelu eu stoc neu eu buddiannau rhag haint ond, wrth gwrs, yn ôl eich cyfaddefiad eich hun, ni allwch adnabod y fferm. Felly, yn fy marn i, mewn gwirionedd mae'n tanseilio'r holl bwrpas braidd ac mae yna gwestiwn mawr ynglŷn ag a yw'n cyflawni eich nod datganedig os na allwch adnabod y fferm hyd yn oed, yn enwedig os mai rhan o'r rhesymeg yw bod rhywun sy'n prynu da byw yn gallu gweld a yw'r da byw yn dod o rywle sydd â statws penodol mewn perthynas â TB.

You mentioned that no reports have been made to DEFRA of harassment. No, maybe there haven't been, but you don't have to dig very far. I've read blogs myself where there are clear messages from individuals saying that they will be using the information to target demonstrations. So, it is happening, whether we acknowledge that or not. So, I would urge Members to support the proposal to annul the Order, and I hope that she will do that. Diolch.

Fe sonioch nad yw DEFRA wedi cael unrhyw adroddiadau am aflonyddu. Na, efallai'n wir, ond nid oes rhaid i chi chwilio'n bell iawn. Rwyf wedi darllen blogiau fy hun sy'n cynnwys negeseuon clir gan unigolion yn dweud y byddant yn defnyddio'r wybodaeth i dargedu protestiadau. Felly, mae'n digwydd, pa un a ydym yn cydnabod hynny ai peidio. Byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig i ddirymu'r Gorchymyn, ac yn gobeithio y bydd hi'n gwneud hynny. Diolch.

14:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiririwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair.*

# 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Troseddau Amgylcheddol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 4 yn enw Elin Jones.*

# 5. Welsh Conservatives Debate: Environmental Crime

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and amendment 4 in the name of Elin Jones.*

14:46

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eitem 5 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar droseddau amgylcheddol. Galwaf ar Janet Haworth i wneud y cynnig.

Item 5 is the Welsh Conservative debate on environmental crime. I call on Janet Haworth to move the motion.

Cynnig NDM5888 Paul Davies

Motion NDM5888 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod lefelau sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon a graffiti yn parhau i fod yn bla ar lawer o gymunedau lleol ledled Cymru;

1. Regrets that levels of litter, dog fouling, fly-tipping and graffiti continue to blight many local communities across Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar gynyddu cosbau ar gyfer troseddau amgylcheddol; a

2. Calls on the Welsh Government to work with local authorities to explore increasing penalties for environmental crime.

3. Yn cydnabod y rôl y gall ailgylchu ei chwarae yn y broses o leihau gwastraff a sicrhau cymunedau glanach ledled Cymru ac yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar atebion arloesol i hybu ailgylchu ymhellach.

3. Recognises the role that recycling can play in minimising waste and ensuring cleaner communities across Wales and urges the Welsh Government to explore innovative solutions to further promote recycling.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:46 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. I am delighted to introduce this Welsh Conservative debate today on the environmental crime in Wales. This is an issue where we can make a real difference to people's quality of life and our local communities. No part of Wales is unaffected by the scourge of litter, from our streets to our waterways and our parks. Our motion today focuses on three specific topics. First, it regrets that levels of litter, dog fouling, fly tipping and graffiti—

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Mae'n bleser gennyf gyflwyno dadl y Ceidwadwyr Cymreig heddiw ar droseddu amgylcheddol yng Nghymru. Mae'n fater lle y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd pobl a'n cymunedau lleol. Nid oes unrhyw ran o Gymru nad yw wedi'i heffeithio gan falltod sbwriel, o'n strydoedd i'n dyfrffyrdd a'n parciau. Mae ein cynnig heddiw yn canolbwyntio ar dri phwnc penodol. Yn gyntaf, mae'n gresynu at y ffaith fod lefelau sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon a graffiti—

14:47 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dead animal carcases.

Carcasau anifeiliaid.

14:47 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—continue to blight many communities across Wales. Secondly, the motion calls on the Welsh Government to examine the necessity to work with local authorities to explore increasing penalties for environmental crime. Thirdly, it recognises the role that recycling can play in minimising waste and ensuring cleaner communities across Wales, and urges the Welsh Government to explore innovative solutions to further promote recycling.

[Yn parhau.]—yn parhau i fod yn bla ar lawer o gymunedau ledled Cymru. Yn ail, mae'r cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r angen i weithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar gynyddu cosbau am droseddau amgylcheddol. Yn drydydd, mae'n cydnabod y rôl y gall ailgylchu ei chwarae yn y broses o leihau gwastraff a sicrhau cymunedau glanach ledled Cymru, ac yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar atebion arloesol i hybu ailgylchu ymhellach.

When we talk about environmental crime, I'm thinking here today about low-level petty crime. Some may call it anti-social behaviour, such as dog fouling, littering or graffiti. These are crimes where the police are not going to get involved in the main, but crimes where civil enforcement officers from the local authority can levy on-the-spot fines if they catch the culprits in the act.

Wrth sôn am droseddau amgylcheddol, rwy'n meddwl yma heddiw am fân droseddu ar lefel isel. Efallai y bydd rhai yn ei alw'n ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis cŵn yn baeddu, taflu sbwriel neu graffiti. Troseddau yw'r rhain nad yw'r heddlu'n mynd i ymwneud â hwy ar y cyfan, ond maent yn droseddau lle y gall swyddogion gorfodi sifil o'r awdurdod lleol godi dirwyon yn y fan a'r lle os ydynt yn dal y troseddwyr wrthi.

The Welsh Government, in May 2013, noted the negative impact that increases in environmental crime can have on economic development, particularly when it comes to attracting tourists and inward investment. Would you really want to base your business in a building strewn with graffiti, or would you want to walk around a coast path or beach dodging dog mess? The Welsh Government estimated that close to £70 million is spent in Wales cleaning up environmental crime, all of which is met by the taxpayer. At the moment, there is inconsistency across local authority deterrent schemes throughout Wales. Some councils are tackling this issue well and others are not prioritising this matter. I'm sure some of the contributions from fellow Members will highlight where they have seen good and bad practice taking place. New powers are now available for local authorities following UK-wide legislation introduced through the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014. I urge the Welsh Government community protection notices and public spaces protection orders to be better utilised to protect our environment.

Ym mis Mai 2013, nododd Llywodraeth Cymru yr effaith negyddol y gall cynnydd mewn troseddu amgylcheddol ei chael ar ddatblygu economaidd, yn enwedig o ran denu twristiaid a mewnfuddsoddi. A fyddech chi wir eisiau lleoli eich busnes mewn adeilad sy'n frith o graffiti, neu a fyddech chi eisiau cerdded ar hyd llwybr arfordirol neu draeth gan orfod osgoi camu mewn baw ci? Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod yn agos at £70 miliwn yn cael ei wario yng Nghymru ar lanhau troseddau amgylcheddol, a'r trethdalwyr yn talu am y cyfan. Ar hyn o bryd, ceir anghysondeb rhwng cynlluniau awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfer atal troseddau amgylcheddol. Mae rhai cynghorau yn mynd i'r afael â'r broblem yn dda ac nid yw eraill o'u plith yn rhoi blaenoriaeth iddi. Rwy'n siŵr y bydd rhai o'r cyfraniadau gan gyd-Aelodau yn tynnu sylw at arferion da a drwg a welsant. Mae pwerau newydd ar gael yn awr i awdurdodau lleol yn sgil deddfwriaeth ar draws y DU a gyflwynwyd drwy Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Rwy'n annog defnydd gwell o hysbysiadau amddiffyn cymunedol a gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn gwarchod ein hamgylchedd.

Dog fouling is still one of the more serious issues covered in today's debate and it's not just unpleasant, it represents a serious health risk, especially to children. Freedom of information requests by the Welsh Conservatives have found that some councils have seen increases in complaints about dog fouling. Throughout Wales, the average number of complaints about dog fouling in 2014 was 330, but significant discrepancies exist between councils, with Caerphilly receiving 1,698 complaints and Monmouthshire only 81.

Mae cŵn yn baeddu yn dal i fod yn un o'r materion mwyaf difrifol a drafodir yn y ddadl heddiw ac nid yn unig ei fod yn annymunol, mae'n creu risg difrifol i iechyd, yn enwedig i blant. Mae ceisiadau rhyddid gwybodaeth gan y Ceidwadwyr Cymreig wedi canfod bod rhai cynghorau wedi gweld cynnydd yn y cwynion am gŵn yn baeddu. Ledled Cymru, nifer cyfartalog y cwynion am gŵn yn baeddu yn 2014 oedd 330, ond mae anghysondebau sylweddol yn bodoli rhwng cynghorau, gyda Chaerffili yn derbyn 1,698 o gwynion a Sir Fynwy'n derbyn 81 yn unig.

Littering and fly-tipping are also unsightly, and it is worth noting that smoking-related litter was found on 86 per cent of Wales's streets. Minister, what extra promotion can your Government do to tackle this Wales-wide blight? Instead of producing billboards for the latest Welsh Government policy, could you not focus some of your advertising spend on running a campaign to address this issue?

Mae taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn hyll hefyd, ac mae'n werth nodi bod sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu wedi'i ganfod ar 86 y cant o strydoedd Cymru. Weinidog, pa waith hyrwyddo ychwanegol y gall eich Llywodraeth ei wneud i fynd i'r afael â'r malltod hwn dros Gymru gyfan? Yn hytrach na chynhyrchu hysbysfyrddau ar bolisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru, oni allech gyfeirio rhywfaint o'ch gwariant hysbysebu ar gynnal ymgyrch i fynd i'r afael â'r broblem hon?

Just to touch briefly on graffiti, there is evidence that the presence of graffiti is a major factor in stimulating other anti-social behaviour. There is also a proven link to crime in some graffiti. Earlier this year, Conwy council published a number of graffiti symbols used by criminals to signify messages such as 'family on holiday' to 'older person living alone'. Welsh Government could provide additional resources for rapid removal teams to get rid of these messages before criminals can make use of them. Where this practice has been utilised, it has reduced the incidence of graffiti. It is known that if you tackle this quickly, then it does reduce repeat offending.

I sôn yn fyr am graffiti, ceir tystiolaeth fod presenoldeb graffiti yn ffactor pwysig sy'n ysgogi mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Profwyd bod cysylltiad rhwng rhai achosion o graffiti a throseddu. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Cyngor Conwy nifer o symbolau graffiti a ddefnyddir gan droseddwyr i gyfleu negeseuon yn nodi bod teulu ar wyliau, er enghraifft, neu fod person hŷn yn byw ar ben ei hun. Gallai Llywodraeth Cymru ddarparu adnoddau ychwanegol i dimau glanhau cyflym gael gwared â'r negeseuon cyn i droseddwyr allu gwneud defnydd ohonynt. Lle y gwnaed hyn, gostyngodd nifer yr achosion o graffiti. Mae'n hysbys fod lefelau aildroseddu'n gostwng os ewch i'r afael â hyn yn gyflym.

Looking specifically at north Wales for the period of 2013 to March 2014, Conwy council issued 2,359 fixed-penalty notices for offences including dog fouling and littering, and collected £176,000 in fines. Denbighshire County Council issued 3,168 fixed-penalty notices and collected just over £100,000. But Flintshire County Council issued only 73 fixed-penalty notices, Minister, collecting only £2,875. Digging a bit further down, Conwy and Denbighshire employ an external organisation to undertake their enforcement function; Flintshire has established its own in-house environmental crime team. However, in July 2014, Flintshire increased their team to four officers and then took a more proactive approach to issuing fixed-penalty notices, resulting in 240 fixed-penalty notices being issued to date. So, you are catching up, Minister. Each council has a different way of tackling environmental crime, and we do need to identify best practice to see what is successful. Minister, I would urge you to undertake a study into which councils are excelling in this field and see if their approach can be rolled out across Wales, to include Flintshire of course.

Gan edrych yn benodol ar ogledd Cymru dros y cyfnod rhwng 2013 a mis Mawrth 2014, dosbarthodd Cyngor Conwy 2,359 o hysbysiadau cosb benodedig am droseddau'n cynnwys cŵn yn baeddu a thaflu sbwriel, a chasglodd £176,000 mewn dirwyon. Dosbarthodd Cyngor Sir Ddinbych 3,168 o hysbysiadau cosb benodedig a chasglodd ychydig dros £100,000 mewn dirwyon. Ond 73 yn unig o hysbysiadau cosb benodedig a ddosbarthwyd gan Gyngor Sir y Fflint, Weinidog, a £2,875 yn unig a gasglodd mewn dirwyon. O edrych ychydig yn fanylach, mae Conwy a Sir Ddinbych yn cyflogi sefydliad allanol i gyflawni eu swyddogaeth orfodi; mae Sir y Fflint wedi sefydlu eu tîm troseddu amgylcheddol mewnol eu hunain. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2014, cynyddodd Sir y Fflint eu tîm i bedwar swyddog a mabwysiadodd ddull mwy rhagweithiol o ddosbarthu hysbysiadau cosb benodedig, gan arwain at ddosbarthu 240 o hysbysiadau cosb benodedig hyd yn hyn. Felly, rydych yn dal i fyny, Weinidog. Mae gan bob cyngor ffordd wahanol o fynd i'r afael â throseddu amgylcheddol, ac mae angen i ni dynnu sylw at arfer gorau i weld beth sy'n llwyddiannus. Weinidog, byddwn yn eich annog i gynnal astudiaeth i weld pa gynghorau sy'n rhagori yn y maes hwn ac i weld a ellid cyflwyno eu dull o weithredu ledled Cymru, gan gynnwys Sir y Fflint, wrth gwrs.

I would like to use the second part of my contribution to take a closer look at recycling. Credit where credit is due, the Welsh Government and many local authorities are hitting the ambitious targets set when it comes to recycling. However, there are huge differences between the recycling rates. Denbighshire saw 65.9 per cent of its waste recycled, reused or composted in 2014-15, well above the Wales-wide average of 56.2 per cent. However, Blaenau Gwent only saw figures of 50.3 per cent for the same period. It was disappointing to see, earlier this year, that two Labour-run councils missed their 2015 recycling targets—how sad—and were let off their fines by the Welsh Government. A total of £1.8 million in penalties was waived to these tardy councils. It seems inconsistent to have the ability to levy a fine if a target is missed, but then opt to not do so if it happens to be a Labour-run council. Where is the incentive to comply?

Hoffwn ddefnyddio ail ran fy nghyfraniad i edrych yn fanylach ar ailgylchu. I roi clod lle y mae clod yn ddyledus, mae Llywodraeth Cymru a nifer o awdurdodau lleol yn cyrraedd y targedau uchelgeisiol a osodwyd ar gyfer ailgylchu. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau enfawr rhwng y cyfraddau ailgylchu. Llwyddodd Sir Ddinbych i ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio 65.9 y cant o'i gwastraff yn 2014-15, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd drwy Gymru gyfan o 56.2 y cant. Fodd bynnag, 50.3 y cant yn unig yw'r ffigur ar gyfer Blaenau Gwent dros yr un cyfnod. Yn gynharach eleni, siom oedd gweld bod dau gyngor dan arweiniad Llafur wedi methu â chyrraedd eu targedau ailgylchu ar gyfer 2015—trist iawn—a chawsant eu hesgusodi rhag talu eu dirwyon gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y cynghorau diog hyn hepgoriad rhag talu cyfanswm o £1.8 miliwn mewn cosbau. Mae'n ymddangos yn anghyson fod modd codi dirwy am fethu â chyrraedd targed, ond y gellir dewis peidio â gwneud hynny os yw'n digwydd bod yn gyngor dan arweiniad Llafur. Lle mae'r cymhelliant i gydymffurfio?

Wales leads the UK nations in terms of its recycling rates, and it is also amongst the top nations within Europe, but we cannot afford to be complacent and we need to look at how we can further improve our recycling and ensure that the Welsh public understands the importance of sorting and reducing its waste for the good of our futures.

Mae Cymru'n arwain ymhlith gwledydd y DU o ran ei chyfraddau ailgylchu, ac mae hefyd ymhlith y gwledydd sy'n gwneud orau yn Ewrop, ond ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon ac mae angen i ni edrych ar sut y gallwn wella ein hailgylchu ymhellach a sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn deall pwysigrwydd didoli a lleihau gwastraff er lles ein dyfodol.

Recycling has become part of everyday life for many in Wales. Whilst the diverse geography and socioeconomic nature of Wales can present challenges, it is obvious that huge strides are being taken, and it is something that we can all be rightly proud of. I do repeat calls made last year by the Environment and Sustainability Committee that standardised colours should be introduced across all Welsh local authorities to ensure that Wales-wide messages and education can be introduced to promote recycling.

Mae ailgylchu wedi dod yn rhan o fywyd bob dydd i lawer yng Nghymru. Er y gall natur ddaearyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol Cymru greu heriau, mae'n amlwg fod camau mawr yn cael eu cymryd, ac mae'n rhywbeth y gallwn i gyd fod yn haeddiannol falch ohono. Rwy'n ailadrodd galwadau a wnaed y llynedd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y dylid cyflwyno lliwiau safonol ar draws holl awdurdodau lleol Cymru er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno negeseuon ac addysg drwy Gymru gyfan i hyrwyddo ailgylchu.

Focusing for a minute on the actions of certain local authorities, the new Conservative Member of Parliament for Cardiff North, Craig Williams has led a campaign against the closure of the Wedal Road recycling centre. Run by a Labour Cardiff council, the closure of this site without adequate replacement could lead to a decrease in recycling and an increase in fly-tipping. I ask you to look again at Conway, where the whole business was contracted out. It's very efficiently run and very much embraced and supported by the community. Minister, we need to ensure—

Gan ganolbwyntio am funud ar weithredoedd awdurdodau lleol penodol, mae'r Aelod Seneddol Ceidwadol newydd dros Ogledd Caerdydd, Craig Williams, wedi arwain ymgyrch yn erbyn cau canolfan ailgylchu Ffordd Wedal. Gallai cau'r safle hwn, a reolir gan gyngor Llafur Caerdydd, heb sicrhau safle digonol yn ei le, arwain at ostwng y lefelau ailgylchu a chynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Gofynnaf i chi edrych eto ar Gonwy, lle y rhoddwyd yr holl fater ar gontract allanol. Mae'n cael ei reoli'n effeithlon iawn a'i groesawu a'i gefnogi'n fawr iawn gan y gymuned. Weinidog, mae angen i ni sicrhau—

14:56

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

14:56

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

14:56

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for giving way. Would she accept the dire financial position that Cardiff council is in, which means that it has had to rationalise its services as a result of the actions of her Government in Westminster?

Diolch i'r Aelod am ildio. A fyddai'n derbyn y sefyllfa ariannol enbyd y mae cyngor Caerdydd ynddi, sy'n golygu ei fod wedi gorfod rhesymoli ei wasanaethau o ganlyniad i weithredoedd ei Llywodraeth hi yn San Steffan?

14:56

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do accept what my fellow Member says, because it was the Labour Government that emptied the cookie jar. We are working very hard to try and restore the balance in our economy. [Interruption.]

Ydw, rwy'n derbyn yr hyn y mae fy nghyd-Aelod yn ei ddweud, am mai'r Llywodraeth Lafur a wacaodd y pwrs. Rydym yn gweithio'n galed iawn i geisio adfer y cydbwysedd yn ein heconomi. [Torri ar draws.]

We need to ensure that an effective waste strategy is also put in place rather than barriers put in the way. For the Welsh Government to remain on course to hit its target of 70 per cent recycling rate by 2025, innovative ideas need to be considered. It's not just about hitting a target; it's about respecting and preserving this beautiful country that we live in. This is why the Welsh Conservatives have called for the feasibility of a deposit-return scheme on drinks containers to be trialled across Wales. The Welsh Government has to be ambitious and willing to explore innovative schemes such as these. A Welsh Conservative Government in May would take steps to introduce a pilot scheme here in Wales.

Mae angen i ni sicrhau bod strategaeth wastraff effeithiol yn cael ei rhoi ar waith hefyd yn hytrach na bod rhwystrau'n cael eu rhoi yn y ffordd. Er mwyn i Lywodraeth Cymru aros ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged i sicrhau cyfradd ailgylchu o 70 y cant erbyn 2025, mae angen ystyried syniadau arloesol. Nid yw'n ymwneud yn unig â chyrraedd targed; mae'n ymwneud â pharchu a diogelu'r wlad hardd rydym yn byw ynddi. Dyma pam y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw am dreialu dichonoldeb cynllun dychwelyd blaendal ar gynwysyddion diod ledled Cymru. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn uchelgeisiol ac yn barod i archwilio cynlluniau arloesol fel y rhain. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig ym mis Mai yn rhoi camau ar waith i gyflwyno cynllun peilot yma yng Nghymru.

Similar schemes are operating throughout the world, and there are several options to be considered, but many organisations in the UK, including Friends of the Earth, favour a system based on the installation of reverse vending machines in large retail outlets. Deposit-return schemes require members of the public to pay a deposit upon purchase of a recyclable container, such as plastic, glass, or tin. The deposit is then reclaimed from these vending machines when the item is returned. It has worked in the past. Some of you are old enough to remember collecting bottles and taking them back to get your tuppences. Obviously, we would need to discuss with manufacturers and major retailers how such a scheme could operate, but it could help to facilitate a major cultural shift here in Wales when it comes to recycling.

Mae cynlluniau tebyg yn weithredol ledled y byd, ac mae nifer o opsiynau i'w hystyried, ond mae llawer o sefydliadau yn y DU, gan gynnwys Cyfeillion y Ddaear, yn ffafrio system sy'n seiliedig ar osod peiriannau dychwelyd blaendal mewn siopau manwerthu mawr. Mae cynlluniau dychwelyd blaendal yn galw ar y cyhoedd i dalu blaendal wrth brynu cynhwysydd y gellir ei ailgylchu, megis plastig, gwydr neu dun. Yna, gellir adennill y blaendal o'r peiriannau hyn pan ddychwelir yr eitem. Mae wedi gweithio yn y gorffennol. Mae rhai ohonoch yn ddigon hen i gofio casglu poteli a'u dychwelyd i gael eich dwy geiniog. Yn amlwg, byddai angen i ni drafod gyda gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr mawr sut y gallai cynllun o'r fath weithredu, ond gallai helpu i hyrwyddo newid diwylliannol mawr yma yng Nghymru o ran ailgylchu.

Looking, finally, at the amendments that have been tabled to this motion today, we are planning to support all three tabled by the Lib Dems, as they further highlight some of the issues that we have raised. The Plaid amendment talks about the deposit refund scheme that I have just introduced. Clearly, we would back this amendment, but I need to reiterate the need for a pilot study to be conducted and full consultation with key retailers before a full roll-out. If we're going to do something, we need to make sure that it can work, and we can only do that by consulting with those people we would rely upon to help us implement it.

Gan edrych, yn olaf, ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig hwn heddiw, rydym yn bwriadu cefnogi pob un o'r tri a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, gan eu bod yn tynnu sylw pellach at rai o'r materion a grybwyllwyd gennym. Mae gwelliant Plaid Cymru yn sôn am y cynllun dychwelyd blaendal rwyf newydd ei ddisgrifio. Yn amlwg, byddem yn cefnogi'r gwelliant hwn, ond mae angen i mi ailadrodd yr angen i gynnal astudiaeth beilot ac ymgynghoriad llawn gyda manwerthwyr allweddol cyn ei gyflwyno'n llawn. Os ydym am wneud rhywbeth, mae angen i ni sicrhau y gall weithio, ac ni allwn wneud hynny heb ymgynghori â'r bobl y byddem yn dibynnu arnynt i'n helpu i'w weithredu.

Minister, I hope that you can back our motion today. We welcome the progress that has been made on recycling, but further understand the need to strengthen the process. If we work together, using best practice from around Wales and further afield, we can make Wales an even more pleasant place to live and visit.

Weinidog, rwy'n gobeithio y gallwch gefnogi ein cynnig heddiw. Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed ar ailgylchu, ond yn deall yr angen i gryfhau'r broses hefyd. Os gweithiwn gyda'n gilydd, gan ddefnyddio arfer gorau o bob cwr o Gymru a thu hwnt, gallwn wneud Cymru yn wlad fwy dymunol byth i fyw ynddi ac i ymweld â hi.

15:00

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the four amendments to the motion. I call on William Powell to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn nodi y gall awdurdodau lleol waethygu'r sefyllfa hon drwy godi tâl ar gyfer casglu gwastraff swmpus a chau canolfannau ailgylchu.*

*Notes that local authorities can exacerbate this situation by charging for bulk waste collection and closing recycling centres.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:*

*Insert at end of point 2:*

*'gan gynnwys dirwyon yn y fan a'r lle er mwyn glanhau ein strydoedd a'n ardaloedd gwledig.'*

*'including on the spot fines in order to clean up our streets and countryside.'*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3, cyn 'ymhellach' mewnosod:*

*Insert at end of point 3:*

*', trwsio ac ailddefnyddio.'*

*'repair, and reuse.'*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.*

*Amendments 1, 2 and 3 moved.*

15:00

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. I rise to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts. I very much welcome this debate today. It fits neatly into the green theme of much that's happening in this place this week. Our first amendment today refers to the fact that local authorities can exacerbate many of the blights that the Conservatives refer to by charging for bulk waste collection and closing recycling centres. We've heard exchanges around the Wedal Road centre in Cardiff, which is one example, and also the Potters recycling centre in my own region in Machynlleth, which regrettably closed despite a concerted campaign led by local Liberal Democrats and others with the local authority. We are also seeing a worrying move towards the privatisation and the outsourcing of waste enforcement services. Again, the City of Cardiff Council provides an example in this regard; it was raised last week by my colleague Eluned Parrott. Let us not forget that this is happening in the context of some local authorities across Wales moving to three-weekly bin collections.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. Rwy'n codi i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Croesawaf y ddadl hon yn fawr iawn heddiw. Mae'n cyd-fynd yn daclus â thema werdd llawer o'r hyn sy'n digwydd yn y lle hwn yr wythnos hon. Mae ein gwelliant cyntaf heddiw yn cyfeirio at y ffaith y gall awdurdodau lleol waethygu llawer o'r malltod y mae'r Ceidwadwyr yn cyfeirio ato drwy godi tâl am gasglu gwastraff swmpus a chau canolfannau ailgylchu. Rydym wedi clywed dadleuon ynghylch y ganolfan ar Ffordd Wedal, Caerdydd, sy'n un enghraifft, a hefyd canolfan ailgylchu Potters yn fy rhanbarth i ym Machynlleth, a gaeodd yn anffodus, er gwaethaf ymgyrch gydunol o dan arweiniad Democratiaid Rhyddfrydol lleol ac eraill gyda'r awdurdod lleol. Rydym hefyd yn gweld symud tuag at breifateiddio ac allanoli gwasanaethau gorfodaeth gwastraff, ac mae hynny'n destun pryder. Unwaith eto, mae Cyngor Dinas Caerdydd yn darparu enghraifft yn hyn o beth; fe'i crybwyllwyd yr wythnos diwethaf gan fy nghyd-Aelod, Eluned Parrott. Gadewch i ni beidio ag anghofio bod hyn yn digwydd mewn cyd-destun lle y gwelir rhai awdurdodau lleol ledled Cymru yn symud i gasgliadau bin bob tair wythnos.

Amendment 2 refers to on-the-spot fines in order to clean up our streets and countryside. As has already been mentioned, fly-tipping and illegal dumping cause huge problems, and we would like to see sentences appropriately reflect the economic and environmental damage done, so that waste crime is simply not a financial risk worth taking. As such, the Welsh Liberal Democrats believe that the penalties for fly-tipping should be increased, so that they have real credibility and act as a disincentive to casual fly-tipping on our streets. As well as causing severe damage to the environment and wildlife, illegal waste sites and fly-tipping cost the UK taxpayer a significant amount of money in lost revenue. There should be increased penalties for waste crimes, and we should aim to move from an average fine of £50,000 to £75,000 at a minimum, and to an average sentence of 12 to 18 months. It also needs to be made simpler as to who accepts responsibility for prosecution. The boundary between Natural Resources Wales on the one hand and local authorities can make prosecuting a guilty part more difficult because of the apparent confusion as to who needs to lead.

Mae gwelliant 2 yn cyfeirio at ddirwyo yn y fan a'r lle er mwyn glanhau ein strydoedd a'n cefn gwlad. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae tipio anghyfreithlon a dympio anghyfreithlon yn achosi problemau anferth, a byddem yn hoffi gweld dedfrydau'n adlewyrchu'n briodol y difrod economaidd ac amgylcheddol a wnaed, fel nad yw troseddau gwastraff yn risg ariannol sy'n werth ei mentro. Fel y cyfryw, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylid cynyddu cosbau am dipio anghyfreithlon, fel bod iddynt hygrededd go iawn a'u bod yn gweithredu fel anghymhelliad i dipio anghyfreithlon diofal ar ein strydoedd. Yn ogystal ag achosi niwed difrifol i'r amgylchedd a bywyd gwyllt, mae safleoedd gwastraff anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon yn costio arian sylweddol i drethdalwyr y DU mewn refeniw a gollwyd. Dylai fod cosbau uwch am droseddau gwastraff, a dylem anelu at newid o ddirwy gyfartalog o £50,000 i £75,000 fan lleiaf, ac i ddedfryd gyfartalog o 12 i 18 mis. Hefyd, mae angen symleiddio'r drefn o ran pwy sy'n gyfrifol am erlyn. Gall y ffin rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ar y naill law ac awdurdodau lleol wneud erlyn rhywun euog yn anos oherwydd y dryswch ymddangosiadol ynglŷn â phwy ddylai arwain.

Our third amendment, on repair and reuse, is in line with our own long-established party policy that supports regulation to promote design that both enhances repairability, reuse and recycling, and requires specified products to be sold with parts and labour guarantees for at least five years. Any efforts to improve resource efficiency and to cut waste have to start with the products themselves, minimising the use of resources, improving repairability and recyclability—for instance, products that can be taken apart rather than being factory-sealed—and enhancing quality, so as to challenge the throwaway mentality that is very much the scourge of our society. We also believe that we should work with retailers and manufacturers to minimise packaging waste, to promote the use of recyclable materials, and to explore regulation to require specified large products, such as boilers, to be sold with parts and labour guarantees, thus incentivising the sale of high-quality products that do not routinely break down. Much of this has to happen at an EU level, and we need new EU standards for products and appliances, so that vehicles reduce the lifetime costs of energy, material and water use, and indeed to make reuse and recycling the norm.

Mae ein trydydd gwelliant, ar atgyweirio ac ailddefnyddio, yn cyd-fynd â pholisi hirsefydledig ein plaid sy'n cefnogi rheoleiddio i hyrwyddo dylunio sy'n gwella'r gallu i atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion penodol gael eu gwerthu gyda gwarantau rhannau a llafur am o leiaf bum mlynedd. Rhaid i unrhyw ymdrechion i wella effeithlonrwydd adnoddau ac i leihau gwastraff ddechrau gyda'r cynhyrchion eu hunain, gan leihau'r defnydd o adnoddau, gwella'r gallu i atgyweirio ac ailgylchu—er enghraifft, cynhyrchion y gellir eu tynnu'n ddarnau yn hytrach na'u bod wedi'u selio mewn ffatri—a gwella ansawdd, er mwyn herio'r meddylfryd 'defnyddio a thaflu' sy'n bla yn ein cymdeithas. Rydym hefyd yn credu y dylem weithio gyda manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i leihau gwastraff deunydd pacio, er mwyn hybu'r defnydd o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, ac i archwilio rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchion mawr penodol, megis boeleri, gael eu gwerthu gyda gwarantau rhannau a llafur, gan gymell gwerthu cynhyrchion o ansawdd uchel nad ydynt yn torri fel mater o drefn. Mae'n rhaid i lawer o hyn ddigwydd ar lefel yr UE, ac mae angen safonau newydd gan yr UE ar gyfer cynhyrchion ac offer, fel bod cyfryngau'n lleihau costau oes gyfan y defnydd o ynni, deunyddiau a dŵr, ac i wneud ailddefnyddio ac ailgylchu'n normal.

This also ties in with our long-standing call for a deposit-return scheme, and I very much empathise with the points made by Janet Haworth in proposing the motion today. We shall be supporting the Plaid amendment on this occasion. There are a number of reasons why I am in favour of this scheme, several of which have already been enumerated, and this is important. It would radically reduce the amount of litter on Welsh beaches—20 per cent of which is made up of drinks containers. Recently, the Petitions Committee received a petition on this theme from the Friends of Barry Beaches. Campaigners who have conducted a cost-benefit analysis show that there is really strong support across the UK for trialling such a scheme. I call upon the Minister, as I have done previously as a fellow member of the Corona generation, to give his thoughts on the possibility of reviewing and reintroducing such a scheme here in Wales. I am sure that my colleagues in Plaid Cymru will have more to say about this important topic.

Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'n galwad hirsefydlog am gynllun dychwelyd blaendal, ac rwy'n cydymdeimlo'n fawr iawn â'r pwyntiau a wnaed gan Janet Haworth wrth gynnig y cynnig heddiw. Byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru y tro hwn. Mae nifer o resymau pam rwyf o blaid y cynllun—rhestrwyd nifer ohonynt eisoes—ac mae hyn yn bwysig. Byddai'n lleihau'n helaeth y sbwriel sydd ar draethau Cymru—20 y cant ohono'n cynnwys cynwysyddion diod. Yn ddiweddar, derbyniodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb ar y thema hon gan Gyfeillion Traethau'r Barri. Mae ymgyrchwyr sydd wedi cynnal dadansoddiad cost a budd yn dangos bod cefnogaeth gref ledled y DU i dreialu cynllun o'r fath. Galwaf ar y Gweinidog, fel y gwneuthum o'r blaen fel aelod o genhedlaeth Corona, i roi ei farn ar y posibilrwydd o adolygu ac ailgyflwyno cynllun o'r fath yma yng Nghymru. Rwy'n siŵr y bydd gan fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru fwy i'w ddweud am y pwnc pwysig hwn.

I'm grateful for the support indicated by the Conservatives for our amendments and I look forward to the remainder of this debate this afternoon.

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth a nododd y Ceidwadwyr i'n gwelliannau ac edrychaf ymlaen at weddill y ddadl hon y prynhawn yma.

15:05

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Llyr Gruffydd to move amendment 4, tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion plastig a gwydr a chaniau diod yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to introduce a deposit return scheme for plastic, glass and can drink containers in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliant 4.*

*Amendment 4 moved.*

15:05

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn y 10 mlynedd diwethaf, mae yna welliant sylweddol iawn wedi bod o safbwynt ailgylchu ac atal gwastraff yng Nghymru, ond mae sbwriel, fel mae'r cynnig yn ei awgrymu, yn dal i fod yn gryn dipyn o broblem yn ein cymunedau ni. Nawr, yn 2010, mi gafwyd arolwg o ganfyddiadau pobl Cymru ynglŷn â natur a difrifoldeb y broblem sbwriel, a sbwriel yn gysylltiedig â chludfwyd, 'take-aways', oedd ar frig y rhestr, wrth gwrs, ond mi oedd 68 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo mai caniau a photeli diod oedd y prif gyfranwyr. Mi ges i wybodaeth ddoe yn unig ddiwethaf gan Llangattock Litter Pickers—rwy'n siŵr bod nifer ohonoch chi wedi dod ar eu traws nhw—a oedd yn dweud, ym mis Medi, mi gasglwyd 12.5 sachaid o wastraff; roedd 75 y cant o'r 'volume' a 45 y cant o'r pwysau yn gynwysyddion diodydd, ac felly, mae hynny, rwy'n meddwl, yn tanlinellu'r broblem. Mae 80 miliwn o ganiau bwyd a diod yn dal i gael eu taflu i gladdfeydd sbwriel yn y Deyrnas Unedig yn unig. Felly, tra'n bod ni'n meddwl ein bod ni'n gwneud yn dda, mae yna lawer iawn mwy y gallem ni fod yn ei wneud.

In the past 10 years, there's been very significant improvement in terms of recycling and waste prevention in Wales, but litter, as the motion suggests, is still quite a problem in our communities. Now, in 2010, there was a survey of people's perceptions in Wales as to the nature and gravity of the litter problem, and litter related to take-aways was at the top of the list, of course, but 68 per cent of respondents felt that cans and drink bottles were the main contributors. I received information just yesterday from Llangattock Litter Pickers—I'm sure that many of you will have come across them—that stated that, in September, 12.5 sacks of waste were collected; 75 per cent of the volume and 45 per cent of the weight were drinks containers, and therefore I think that that highlights the problem. Eighty million food and drinks cans are still going into landfill in the UK. So, whilst we think we are doing well, there is far more that we could be doing of course.

Dim ond 50 y cant o boteli plastig sy'n cael eu hailgylchu ar hyn o bryd yng Nghymru, ac os ydym am godi'n gêm i'r lefel nesaf, yna mae angen cynlluniau mwy uchelgeisiol a fydd yn arwain at newidiadau ychydig yn fwy trawsnewidiol. Mi allwn ni hefyd arbed symiau enfawr o arian, wrth gwrs, mewn costau glanhau. Mae Clean Up Britain yn dweud am bob punt sy'n cael ei gwario ar glirio sbwriel, mae cynghorau weithiau yn talu hyd at £10 yn ychwanegol ar gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch trwy orfod gosod conau ac arwyddion, ac yn y blaen.

Only 50 per cent of plastic bottles are recycled at present in Wales, and if we are to raise our game to the next level, then we of course need more ambitious plans that will lead to more transformational change. We can also save huge sums of money in cleaning costs. Clean Up Britain states that for every £1 spent on clearing litter, councils sometimes pay up to an additional £10 on compliance with health and safety requirements, by having to place signs and cones and so on.

Mae yna dystiolaeth eang i gefnogi'r ddadl bod cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal yn arwain at gynydd yn y cyfraddau ailgylchu ac yn achosi lleihad mewn sbwriel. Mi oedd adroddiad a gomisiynwyd gan Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig yn cynnig dadansoddiad manwl o'r costau ac yn dod i'r casgliad y byddai yna fuddion clir yn sgil hynny. Daeth papur gan Gadw Cymru'n Daclus i gasgliad tebyg yn 2006. Rŷm ni'n gwybod bod DEFRA yn Lloegr wedi ystyried argymhellion yr adroddiad gan Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig. Mae Gweinidog Gogledd Iwerddon, wrth gwrs, wedi comisiynu papur opsiynau ar gynlluniau dychwelyd blaendal yno, ac, yn ddiweddar, mi gyhoeddodd yr Alban astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal cenedlaethol, ac rwy'n meddwl bod yr amser wedi dod inni symud i'r cyfeiriad yna hefyd yng Nghymru.

There is widespread evidence to support the argument that a deposit-return programme could actually lead to increases in recycling and a reduction in litter. A report commissioned by the Campaign to Protect Rural England provided a detailed breakdown of the costs and came to the conclusion that there would be clear benefits in light of that. There was a paper from Keep Wales Tidy, which came to a similar conclusion, in 2006. We know that DEFRA in England have considered the recommendations of the report by the Campaign to Protect Rural England. The Minister in Northern Ireland, of course, has commissioned an options paper on a deposit-return scheme there, and, recently, Scotland published a feasibility study on a national deposit-return scheme, and I think that the time has come for us to move in that direction also in Wales.

Mae'r adroddiad gan Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig hefyd yn dweud y byddai cynllun wedi'i seilio ar eu model nhw â'r potensial i greu hyd at 4,300 o swyddi llawn amser, ac felly, wrth gwrs, yn cyfrannu at dwf gwyrdd, hefyd, yma yng Nghymru beth bynnag, pe byddem ni'n mynd ar hyd y trywydd hwnnw.

The report by the Campaign to Protect Rural England does state that a scheme planned on their model would have the potential to create up to 4,300 full-time jobs and, of course, would contribute to green growth, also, here in Wales anyway, if we were to adopt that particular approach.

Mae yna amcangyfrif yn yr Alban fod cynwysyddion diodydd gwerth tua 26—nage; mae'n ddrwg gen i. Mae yna 27,000 o dunelli o sbwriel yn cael eu casglu bob blwyddyn yn yr Alban, ac o'r swm hwnnw, mae yna amcangyfrif y gellid arbed rhyw 5,000 o dunelli fel rhan o'r system dychwelyd blaendal, ac rwy'n sôn yn benodol am wastraff cynwysyddion diodydd yn fanna. Mae sbwriel, wrth gwrs, ym Mhrydain wedi cyrraedd cyfraddau epidemig ac mae'n costio o leiaf £1 biliwn y flwyddyn i'w lanhau, ac mae hyd yn oed y ffigwr yna, mae'n debyg, yn amcangyfrif reit isel. Mae cost sbwriel ar iechyd ac effeithiau cymdeithasol yn yr Alban yn gyfystyr â £53 miliwn, ac mae'r cysylltiadau rhwng ansawdd yr amgylchedd lleol a throseddu, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn gyfystyr â chost ychwanegol o dros £22 miliwn yn ôl un darn o ymchwil.

There is an estimate in Scotland that drinks containers are worth some 26—no; I apologise. There are 27,000 tonnes of waste collected in Scotland and, of that, it is estimated that some 5,000 tonnes could be saved through the deposit-return scheme. I am talking specifically about drinks containers there. Litter of course, in Britain, has reached epidemic levels and costs £1 billion a year to be cleaned, and even that figure is a relatively conservative estimate. The cost of litter in health and in social issues is £53 million in Scotland, and the links between the local environment and anti-social behaviour and crime account for additional costs of over 22 million, according to one piece of research.

Yn 2005, fe ddechreuodd yr Almaen raglen blaendal ar gyfer bron pob math o gynhwysydd diod—rhyw 15 biliwn o gynwysyddion. Ac erbyn hyn, maen nhw'n adennill y cynwysyddion hynny ar gyfradd o 98.5 y cant. Yn 2007, fe ehangodd dinas Ontario yng Nghanada ei rhaglen dychwelyd blaendal o gwrw yn unig i gynnwys gwin a chynwysyddion diodydd alcoholaidd eraill. Heddiw, maen nhw'n adennill ar lefel o 92 y cant. Rwy'n credu, felly, y gallai cynllun dychwelyd blaendal gael effaith sylweddol ar gyfraddau ailgylchu yma yng Nghymru, gan leihau sbwriel a gwella ansawdd yr amgylchedd lleol trwy ychwanegu gwerth at gynwysyddion ailgylchadwy, a thrwy osod cyfrifoldeb ar wneuthurwyr, byddai cynllun dychwelyd blaendal yn gam cyntaf, yn fy marn i, tuag at gyflawni'r newid diwylliannol sy'n angenrheidiol er mwyn inni gael economi gylchog sy'n ffynnu yma yng Nghymru, ac i gyflawni cenedl dim gwastraff. Mi ddylai cynllun o'r fath gael ei weld fel arf i newid agweddau pobl at wastraff a lleihau sbwriel, fel ffordd o ychwanegu gwerth at adnoddau, ac, wrth gwrs, fel buddsoddiad pwysig yn yr economi werdd.

In 2005, Germany started a deposit-return programme for all sorts of drinks containers—some 15 billion containers. They are now recouping those containers at a rate of 98.5 per cent. In 2007, Ontario in Canada expanded its deposit-return scheme from only beer to include wine and other alcoholic drinks, and today they are recouping alcoholic drink containers at a level of 92 per cent. I therefore believe that a deposit-return scheme could have a significant impact on recycling rates in Wales, reducing litter and enhancing the quality of the local environment, by adding value to recyclable containers and by placing a responsibility on producers, then a deposit-return scheme would be a first step in achieving the culture change that's necessary for us to have a circular economy that prospers here in Wales, and to have a waste-free nation. Such a scheme should be seen as a tool for changing people's attitudes to litter and waste and reducing litter, as a way of adding value to our resources, and as an important investment in the green economy.

15:10 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The recent findings of Keep Wales Tidy show that, sadly, littering, dog fouling and graffiti continue to blight many local communities across Wales, and actually cause great concern to many living within our local communities. Environment crime doesn't just look unpleasant; it can also have serious implications for public health, enjoyment of community facilities and economic development, through its impact on tourism and inward investment. Earlier this year, the Marine Conservation Society found that our lovely beaches have the highest litter levels in the UK, with more than two and a half times the average. Every year, thousands of volunteers take part in beach clean schemes—myself included—but we need to see these proactive community-led initiatives supported by real innovative action and enforcement from the Welsh Government and local authorities. The WLGA has highlighted only this week the potential for remarkable results to be achieved when the Welsh Government and local government work together, especially when it comes to waste management. Our debate today calls on the Welsh Government to take this this even further, to work with local authorities to enforce penalties for environmental crime, to cut down on the disgusting crime of fly tipping, and to further explore innovative solutions to promote recycling.

Mae canfyddiadau diweddar Cadwch Gymru'n Daclus yn dangos, yn anffodus, fod taflu sbwriel, cŵn yn baeddu a graffiti yn parhau i fod yn bla ar lawer o gymunedau lleol ledled Cymru, ac yn achosi pryder mawr i lawer o bobl sy'n byw yn ein cymunedau lleol. Mae troseddu amgylcheddol nid yn unig yn edrych yn annymunol; gall hefyd greu goblygiadau difrifol o ran iechyd y cyhoedd, mwynhad pobl o gyfleusterau cymunedol a datblygu economaidd, drwy ei effaith ar dwristiaeth a mewnfuddsoddi. Yn gynharach eleni, canfu'r Gymdeithas Cadwraeth Forol mai ein traethau hyfryd ni sydd â'r lefelau uchaf o sbwriel yn y DU, gyda thros ddwywaith a hanner yn fwy ohono na'r cyfartaledd. Bob blwyddyn, mae miloedd o wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn cynlluniau glanhau traethau—a minnau'n un ohonynt—ond mae angen gweld y mentrau rhagweithiol hyn a arweinir gan y gymuned yn cael eu cefnogi gan weithredu a gorfodaeth arloesol go iawn gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol. Yr wythnos hon, tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sylw at y potensial i gyflawni canlyniadau arwyddocaol pan fo Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig ym maes rheoli gwastraff. Mae ein dadl heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd â hyn ymhellach eto, a gweithio gydag awdurdodau lleol i orfodi cosbau am droseddu amgylcheddol, cyfyngu ar y drosedd ffiaidd o dipio anghyfreithlon, ac i archwilio atebion arloesol i hyrwyddo ailgylchu ymhellach.

15:11 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What's your party's position on the dumping of sheep carcases on land by Conservative councillors and Assembly candidates? Do you think they should be standing for the Assembly? Answer.

Beth yw safbwynt eich plaid ar ddympio carcasau defaid ar dir gan gynghorwyr Ceidwadol ac ymgeiswyr ar gyfer y Cynulliad? A ydych yn credu y dylent fod yn ymgeisio am sedd yn y Cynulliad? Atebwch.

15:12 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm not going to even—. I'm not in the slightest, Peter, with all due respect to you, going to ridicule a serious offence of fly-tipping that takes place in all our communities, and there isn't enough enforcement action.

Nid wyf hyd yn oed am—. Peter, gyda phob parch i chi, nid wyf am un funud yn mynd i fychanu trosedd ddifrifol tipio anghyfreithlon sy'n digwydd ym mhob un o'n cymunedau, ac ni roddir camau gorfodi ar waith yn ddigon aml.

As a result of the UK Government's Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014, local authorities, health boards and registered providers of social housing now have a range of tools at their disposal to utilise in tackling environmental crime. Community protection notices can help to tackle the root cause of environmental crime, such as anti-social drinking in the street and nuisance noisy neighbours. Public status protection orders can be implemented when an activity in a public place has, or is likely to have, a detrimental effect on the quality of life of those living in the locality. The Welsh Government has yet, still, to undertake any assessment of this legislation that is used by local authorities, and I do question why. Is it just another case of lazy Labour?

O ganlyniad i Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 Llywodraeth y DU, bellach mae gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig amrywiaeth o ddulliau at eu defnydd i fynd i'r afael â throseddu amgylcheddol. Gall hysbysiadau amddiffyn cymunedol helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu amgylcheddol, megis yfed gwrthgymdeithasol ar y stryd a niwsans cymdogion swnllyd. Gellir rhoi gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus ar waith pan fo gweithgaredd mewn man cyhoeddus wedi cael, neu'n debygol o gael, effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y bobl sy'n byw'n lleol. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r ddeddfwriaeth hon a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, ac rwy'n cwestiynu pam. A yw'n enghraifft arall o ddiogi Llafur?

In light of the results of the recent Keep Wales Tidy survey, I would certainly urge the Minister to consider an assessment and to work to support councils in using these powers proactively within a preventative framework—'preventative' because there is real money-saving potential here, and not 'reactive', when it's too late. With an annual cost to local authorities of £2 million for fly-tipping, £1 million for graffiti removal, and £70 million overall for environmental crime, there is huge scope for preventative measures to relieve some of the financial pressures faced by our authorities. One such council, leading the way in employing preventative measures, is of course Conservative-led Monmouthshire, where only 81 complaints relating to dog fouling were reported last year, compared to 1,698 in Labour-led Caerphilly.

Yng ngoleuni canlyniadau arolwg diweddar Cadwch Gymru'n Daclus, byddwn yn sicr yn annog y Gweinidog i ystyried asesiad ac i weithio i gynorthwyo cynghorau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn rhagweithiol o fewn fframwaith ataliol—'ataliol' gan fod potensial go iawn yma i arbed arian, ac nid 'adweithiol', pan fo'n rhy hwyr. Gyda chost flynyddol i awdurdodau lleol o £2 filiwn am dipio anghyfreithlon, £1 miliwn i gael gwared ar graffiti, a £70 miliwn yn gyffredinol am droseddau amgylcheddol, mae yna lawer iawn o gyfle i fesurau ataliol leddfu rhywfaint o'r pwysau ariannol y mae ein hawdurdodau yn ei wynebu. Un cyngor o'r fath, sy'n arwain y ffordd ar ddefnyddio mesurau ataliol, yw Sir Fynwy, dan arweiniad y Ceidwadwyr, lle na chofnodwyd ond 81 o gwynion yn unig yn ymwneud â baw cŵn y llynedd, o'i gymharu â 1,698 yng Nghaerffili, dan arweiniad y blaid Lafur.

In terms of recycling, we are seeing huge variations across Wales, with residents in some local authorities left confused by complex systems, such as in Blaenau Gwent, and the general lack of consultation over changes to service provision. Yet, at the same time, councils have escaped huge fines for failing to hit targets. As my colleague has already said—and it needs to be said again—Cardiff council was spared a £800,000 fine—shame—whilst Rhondda Cynon Taf was spared a £580,000 fine. This is simply not on. These inconsistencies are mind-boggling. Whilst it is crucial that we must all work to meet recycling targets, it is for the Welsh Government to lead on this, and working with local authorities and communities on this is essential.

O ran ailgylchu, rydym yn gweld amrywiadau enfawr ledled Cymru, gyda thrigolion mewn rhai awdurdodau lleol wedi'u drysu gan systemau cymhleth, fel ym Mlaenau Gwent, a'r diffyg ymgynghori cyffredinol ynglŷn â newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau. Eto i gyd, ar yr un pryd, mae cynghorau wedi dianc rhag dirwyon enfawr am fethu â chyrraedd targedau. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod eisoes—ac mae angen ei ddweud eto—arbedwyd cyngor Caerdydd rhag talu £800,000 o ddirwy—cywilydd—ac arbedwyd Rhondda Cynon Taf rhag dirwy o £580,000. Nid yw hyn yn iawn o gwbl. Mae'r anghysondeb yn syfrdanol. Er ei bod yn hanfodol i bawb ohonom weithio i gyrraedd targedau ailgylchu, mater i Lywodraeth Cymru yw arwain ar hyn, ac mae gweithio gydag awdurdodau a chymunedau lleol ar hyn yn hanfodol.

So, through innovative solutions and utilising the tools available to us, we have a great opportunity to lead the way here in Wales, to minimise waste and to ensure much cleaner communities across Wales.

Felly, drwy atebion arloesol a defnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni, mae gennym gyfle gwych i arwain yma yng Nghymru, er mwyn lleihau gwastraff ac i sicrhau bod cymunedau'n llawer glanach ledled Cymru.

15:15

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in this debate. I think this is a very important subject and, of course, it is one that impacts so much on our daily lives, because I think the environment that we live in has a profound effect on our wellbeing and on our health. So, these issues, I know, are taken very seriously here in the Assembly and by the Government, because nobody wants to live in a community that is blighted by graffiti, fly-tipping or dog fouling.

Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwy'n credu ei fod yn bwnc pwysig iawn ac mae'n un sy'n cael effaith fawr ar ein bywydau bob dydd, oherwydd credaf fod yr amgylchedd rydym yn byw ynddo yn effeithio'n sylfaenol ar ein lles ac ar ein hiechyd. Felly, rwy'n gwybod bod y Cynulliad a'r Llywodraeth yn ystyried y materion hyn yn rhai difrifol iawn, oherwydd nid oes neb eisiau byw mewn cymuned sy'n cael ei difetha gan graffiti, tipio anghyfreithlon neu gŵn yn baeddu.

If we try to establish who is responsible for all these problems, I think we have to accept that we have to take responsibility as individuals. The public has to learn to change its behaviour. We need our schools to shape behaviour from an early age so that children grow up knowing that this sort of behaviour is not acceptable. And, of course, the statutory bodies have got responsibilities and we need the enforcement tools that have been already mentioned, such as those under the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014.

Os ceisiwn bennu pwy sy'n gyfrifol am yr holl broblemau hyn, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni dderbyn ein cyfrifoldeb fel unigolion. Rhaid i'r cyhoedd ddysgu newid ei ymddygiad. Mae angen i'n hysgolion ddylanwadu ar ymddygiad o oedran cynnar fel bod plant yn tyfu'n oedolion gan wybod nad yw'r math hwn o ymddygiad yn dderbyniol. Ac wrth gwrs, mae gan y cyrff statudol gyfrifoldebau ac mae arnom angen y dulliau gorfodi a grybwyllwyd eisoes, megis y rhai o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

But I do think Government plays a major role in all of this, and I think there has been a great deal of success with the Welsh Labour Government. A previous speaker said, 'why don't we lead the way?'—well, I think we are leading the way. We are leading the way. You've only got to look at the success of the 5p plastic bag levy, which was followed recently by England, where I think we all heard the debate and the concern and, in fact, they came out with a much less effective scheme than ours. But we've had a 71 per cent reduction in the use of plastic bags and I think that is an absolutely tremendous achievement. And, of course, the recycling rates have already been referred to.

Ond rwy'n credu bod y Llywodraeth yn chwarae rhan bwysig yn hyn i gyd, ac rwy'n meddwl bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi cael cryn dipyn o lwyddiant. Dywedodd siaradwr blaenorol, 'pam nad ydym yn arwain?'— wel, rwy'n meddwl ein bod yn arwain. Rydym yn arwain ar hyn. Nid oes ond angen i chi edrych ar lwyddiant yr ardoll o 5c ar fagiau plastig, cam a ddilynwyd yn ddiweddar gan Loegr, lle rwy'n meddwl bod pawb ohonom wedi clywed y ddadl a'r pryder, ac mewn gwirionedd, aethant ati i gyflwyno cynllun llawer llai effeithiol na'r un a weithredir gennym ni. Ond rydym wedi gweld gostyngiad o 71 y cant yn y defnydd o fagiau plastig a chredaf ei fod yn gyflawniad hollol aruthrol. Ac wrth gwrs, cyfeiriwyd eisoes at y cyfraddau ailgylchu.

I'd just like to say a bit about some of the innovative schemes that can help tackle these problems. There is a Cardiff-based organisation called The Boiler House project. This has been responsible for creating art in place of graffiti at various sites across the city. I met the artists behind this scheme because they were based in Llandaff North in my constituency. They've transformed the walls of a disused building in Llandaff North and they held workshops—for young people, young people who are on probation, they'd had youth clubs in there, they'd had school groups in there—and they talked about what you could do instead of graffiti. They tell me actually that they've transformed a lot of sites, including some sites in Caerphilly, in the constituency of my colleague Jeff Cuthbert. Once a wall has been turned into art or murals, it's a fact that there is very little further graffiti or vandalisms.

Hoffwn sôn ychydig am rai o'r cynlluniau arloesol a all helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae yna sefydliad yng Nghaerdydd o'r enw The Boiler House Project. Mae wedi bod yn gyfrifol am greu celfyddyd yn lle graffiti mewn gwahanol fannau ledled y ddinas. Cyfarfûm â'r artistiaid sy'n gyfrifol am y cynllun gan eu bod wedi'u lleoli yn Ystum Taf yn fy etholaeth. Maent wedi trawsnewid waliau adeilad segur yn Ystum Taf a chynnal gweithdai—ar gyfer pobl ifanc, pobl ifanc yn y gwasanaeth prawf, roeddent wedi cael clybiau ieuenctid yno, roeddent wedi cael grwpiau ysgolion yno—a siaradent am yr hyn y gallech ei wneud yn lle graffiti. Mewn gwirionedd, maent yn dweud wrthyf eu bod wedi trawsnewid llawer o safleoedd, gan gynnwys rhai safleoedd yng Nghaerffili, yn etholaeth fy nghyd-Aelod, Jeff Cuthbert. Pan gaiff wal ei throi'n gelf neu'n furlun, mae'n ffaith na cheir fawr o fandaliaeth neu graffiti pellach.

We've got other examples in my constituency in Cardiff North on the Taff Trail. If any of you have cycled along the Taff Trail, you've seen the art in the tunnels as you go under the bridges. And, near my constituency office in Llanishen, an empty shop, the front has been painted as if it was an operating shop, because it used to be a hat shop and it's been restored. That's in an area where there's been quite a bit of antisocial behaviour. It's amazing that, during the time that that has been painted there—I think it's been about three or four years now—there's not been a single bit of vandalism on that shop front. There's nothing on it at all. So, I think there are real ways that we can actually transform the environment. I think it needs to be led by Government, but I think there is a great space for the voluntary bodies who do these great initiatives.

Mae gennym enghreifftiau eraill yn fy etholaeth yng ngogledd Caerdydd ar Daith Taf. Os oes unrhyw un ohonoch wedi beicio ar hyd llwybr Taith Taf, byddwch wedi gweld y gwaith celf yn y twneli wrth i chi fynd o dan y pontydd. A ger fy swyddfa etholaethol yn Llanisien, mae yna siop wag, gyda'r tu blaen wedi'i baentio fel pe bai'n siop weithredol, gan ei bod yn arfer bod yn siop hetiau ac mae wedi'i hadfer. Mae hynny mewn ardal lle y cafwyd cryn dipyn o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ystod yr amser ers i honno gael ei phaentio—rwy'n meddwl bod tua thair neu bedair blynedd bellach—ni welwyd unrhyw fandaliaeth o gwbl ar flaen y siop. Nid oes dim arni o gwbl. Felly, rwy'n meddwl bod yna ffyrdd go iawn y gallwn drawsnewid yr amgylchedd. Credaf fod angen iddo gael ei arwain gan y Llywodraeth, ond rwy'n meddwl bod lle mawr i'r cyrff gwirfoddol sy'n cyflawni'r cynlluniau gwych hyn.

I think it's important that we reuse as much as we possibly can. I had a short debate last week on preventing food waste. I think many of us have been inspired by Hugh Fearnley-Whittingstall's programmes, which I think have been very illuminating. I think we need more schemes to redistribute food, rather than waste it. I feel very strongly that it's very important that we reuse as the next step, rather than throw away and recycle. I'm attracted by the idea of a deposit-return scheme, but I know that possibly we're not at a stage yet to agree to go forward. I've looked at what the Scottish Government has done and, although I'm of the Corona generation, like William Powell referred to, and it'd be nice to think it would be a simple step to bring in a deposit scheme, I do think all the organisations that have looked at it in detail have seen that it is more complicated than we think. I think it probably could be done, but we need to do a lot more research about it. I think that many of the shops would actually be quite resistant, from the correspondence that I've had from the Welsh Retail Consortium and from Asda. But I would like to think that this is something we could move ahead on when we've got the necessary information, because I know it has been done in many places—

Credaf ei bod yn bwysig i ni ailddefnyddio cymaint ag y gallwn. Cefais ddadl fer yr wythnos diwethaf ar atal gwastraff bwyd. Rwy'n meddwl bod llawer ohonom wedi cael ein hysbrydoli gan raglenni Hugh Fearnley-Whittingstall, sydd wedi bod yn ddadlennol iawn, rwy'n credu. Rwy'n meddwl bod angen rhagor o gynlluniau arnom i ailddosbarthu bwyd yn hytrach na'i wastraffu. Rwy'n teimlo'n gryf iawn ei bod yn hynod bwysig i ni ailddefnyddio fel y cam nesaf, yn hytrach na thaflu ac ailgylchu. Rwy'n cael fy nenu gan y syniad o gynllun dychwelyd blaendal, ond gwn nad ydym o bosibl wedi cyrraedd cam eto i allu cytuno i symud ymlaen. Rwyf wedi edrych ar yr hyn y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i wneud ac er fy mod yn perthyn i genhedlaeth Corona, fel y cyfeiriodd William Powell ati, ac y byddai'n braf meddwl y byddai cyflwyno cynllun blaendal yn gam syml, rwy'n meddwl bod yr holl sefydliadau sydd wedi edrych yn fanwl arno wedi gweld ei fod yn fwy cymhleth nag a feddyliwn. Rwy'n credu y gellid ei wneud yn ôl pob tebyg, ond mae angen i ni wneud llawer mwy o ymchwil yn ei gylch. Credaf y byddai llawer o'r siopau'n eithaf gwrthwynebol mewn gwirionedd, o'r ohebiaeth rwyf wedi'i chael gan Gonsortiwm Manwerthu Cymru a chan Asda. Ond byddwn yn hoffi meddwl ei fod yn rhywbeth y gallem ei ddatblygu pan fydd gennym y wybodaeth angenrheidiol, gan fy mod yn gwybod ei fod wedi'i wneud mewn sawl man—

15:20

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Mae'ch amser chi wedi dod i ben.

Thank you. Your time is up.

15:20

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—successfully over the world. Thank you.

[Yn parhau.]—yn llwyddiannus ledled y byd. Diolch.

15:20

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome taking part in this debate today. Issues around litter, fly-tipping, and dog-fouling are issues that fill my own constituency postbag, I have to say, but I want to say a few words, really, in my contribution to the volunteers across Wales who play a massive role in keeping our environment tidy and good for those who want to enjoy our environment. Particularly, I want to pay tribute to a number of issues taking part in my own constituency in this summer. I was pleased to be able to meet with dedicated volunteers who keep my own constituency clean and tidy. It was fantastic that Montgomeryshire, under the leadership of a lady called Sue Newham, who is the local Keep Wales Tidy champion, has now got 50 Keep Wales Tidy litter champions. This is the highest number outside Cardiff, which is a fact, I think, to be celebrated. Of course, more volunteers are always needed, unfortunately.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Mae problemau'n ymwneud â thaflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, a chŵn yn baeddu yn faterion sy'n llenwi fy mag post o'r etholaeth, rhaid i mi ddweud, ond hoffwn ddweud ychydig o eiriau yn fy nghyfraniad, a dweud y gwir, wrth y gwirfoddolwyr ledled Cymru sy'n chwarae rhan enfawr yn cadw ein hamgylchedd yn daclus ac yn dda i'r rhai sydd am ei fwynhau. Yn benodol, hoffwn roi teyrnged i nifer o bethau a ddigwyddodd yn fy etholaeth fy hun yr haf hwn. Roeddwn yn falch o allu cyfarfod â gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n cadw fy etholaeth fy hun yn lân a thaclus. Roedd yn wych fod gan Sir Drefaldwyn 50 o arwyr sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus bellach o dan arweiniad gwraig o'r enw Sue Newham, yr hyrwyddwr Cadwch Gymru'n Daclus yn lleol. Dyma'r nifer fwyaf y tu allan i Gaerdydd, sy'n ffaith i'w dathlu yn fy marn i. Wrth gwrs, mae yna bob amser angen mwy o wirfoddolwyr, yn anffodus.

I'm particularly also pleased that Keep Wales Tidy recently worked with Maesyrhandir primary school, Tesco and other local partners in Newtown to engage with local residents in an effort to transform the Maesyrhandir estate in my constituency. Before that project began in February this year, litter, fly-tipping and dog-fouling were all constant problems, and there was also graffiti in several areas of the estate. In February, activities began, using Tesco funding, which included bulb planting, graffiti removal, litter picking and the installation of raised beds at Maesyrhandir primary school, and this is the kind of community action that should be widely encouraged across Wales through Government support.

Rwy'n arbennig o falch hefyd fod Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn gweithio gydag ysgol gynradd Maesyrhandir, Tesco a phartneriaid lleol eraill yn y Drenewydd yn ddiweddar i ymgysylltu â thrigolion lleol mewn ymdrech i drawsnewid stad Maesyrhandir yn fy etholaeth. Cyn i'r prosiect ddechrau ym mis Chwefror eleni, roedd taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon a chŵn yn baeddu i gyd yn broblemau cyson, ac roedd graffiti hefyd mewn sawl rhan o'r stad. Ym mis Chwefror, dechreuodd y gweithgareddau, gan ddefnyddio cyllid Tesco, a oedd yn cynnwys plannu bylbiau, cael gwared ar graffiti, codi sbwriel a gosod gwelyau pridd wedi'u codi yn ysgol gynradd Maesyrhandir, a dyma'r math o weithredu cymunedol y dylid ei annog yn eang ledled Cymru drwy gefnogaeth y Llywodraeth.

Of course, these volunteers will all work in vain if the Government doesn't act, as it can do—the Government's got a large role to play here—and if it doesn't adequately resource local authorities and these kinds of community groups in three particular areas, I would say: (1) encouraging a more socially responsible attitude to our natural environment, (2) to prevent and take more robust enforcement action to police environmental crime, and (3) to eliminate the disparity in waste management strategies of local authorities.

Wrth gwrs, bydd gwaith y gwirfoddolwyr hyn i gyd yn ofer os nad yw'r Llywodraeth yn gweithredu, fel y gall wneud—mae gan y Llywodraeth rôl fawr i'w chwarae yma—ac os nad yw'n darparu digon o adnoddau i awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol o'r fath mewn tri maes penodol, ddywedwn i: (1) annog agwedd fwy cyfrifol yn gymdeithasol at ein hamgylchedd naturiol, (2) atal a chymryd camau gorfodi mwy cadarn i blismona troseddu amgylcheddol, a (3) cael gwared ar y gwahaniaethau rhwng strategaethau rheoli gwastraff awdurdodau lleol.

15:23

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:23

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I will.

Gwnaf.

15:23

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for taking the intervention. I agree wholeheartedly with what the Member has had to say about the work of Keep Wales Tidy in the context of Montgomeryshire and wider mid and west Wales, but does the Member agree with me that we should pay tribute to the work of the National Fallen Stock Company, which is a community interest company that operates and has contractors on the ground across Wales? I think, in my own area, of Mid Wales Incineration Ltd at Rhayader, F.M. Caine and Sons of Knighton, and, indeed, Tom Goddard of Camrose. They deliver a valuable service in terms of protecting our natural environment. Does the Member think that supporting that further from Welsh Government would be a more appropriate use of resources than the creation of a Minister for mid and west Wales?

Diolch yn fawr iawn am dderbyn yr ymyriad. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd yr Aelod am waith Cadwch Gymru'n Daclus yng nghyd-destun Sir Drefaldwyn a chanolbarth a gorllewin Cymru yn fwy eang, ond a yw'r Aelod yn cytuno â mi y dylem roi teyrnged i waith y Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol, sef cwmni budd cymunedol sy'n gweithredu, ac sydd â chontractwyr ar lawr gwlad ledled Cymru? Yn fy ardal fy hun, rwy'n meddwl am Mid Wales Incineration Ltd yn Rhaeadr, F.M. Caine and Sons yn Nhrefyclo, ac yn wir, Tom Goddard yng Nghamros. Maent yn darparu gwasanaeth gwerthfawr yn gwarchod ein hamgylchedd naturiol. A yw'r Aelod o'r farn y byddai cefnogaeth bellach i hynny gan Lywodraeth Cymru yn ddefnydd mwy priodol o adnoddau na chreu Gweinidog ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru?

15:24

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your long intervention, William Powell. I agree with the majority of what you said, apart from the very last part. I do think it's important that we do have a Minister for mid and west Wales, and that is a key commitment from the Welsh Conservatives on this side. But, other than that, William Powell, I would agree with what you have said.

Diolch i chi am eich ymyriad hir, William Powell. Cytunaf â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedoch, ar wahân i'r rhan olaf un. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cael Gweinidog ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru, ac mae hwnnw'n ymrwymiad allweddol gan y Ceidwadwyr Cymreig ar yr ochr hon. Ond ar wahân i hynny, William Powell, byddwn yn cytuno â'r hyn a ddywedoch.

A number of local authorities across Wales have radically overhauled their waste and recycling collection systems as a result of Welsh Government targets and, of course, in addition, the significant budget cuts that they've had to work towards as well. I am concerned at the suggestion that some local authorities in Wales intend to move to three- or four-weekly bag collections on the grounds that it will create so-called efficiency savings.

Mae nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi ailwampio eu systemau casglu gwastraff ac ailgylchu yn helaeth o ganlyniad i dargedau Llywodraeth Cymru a hefyd, wrth gwrs, oherwydd y toriadau sylweddol yn y gyllideb y maent wedi gorfod gweithio tuag atynt hefyd. Rwy'n pryderu ynglŷn â'r awgrym fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn bwriadu newid i gasgliadau gwastraff bob tair neu bedair wythnos ar y sail y bydd yn creu arbedion effeithlonrwydd honedig.

My view is that moving to a fortnightly collection has got benefits; I would accept that that's encouraged people to recycle and improve their recycling rate. I think three- or four-weekly collections will not encourage residents to recycle any more than they presently do. I don't see that it will also bring forward any significant additional efficiencies. Certainly, I think local authorities that particularly use bins for collection as well, if they do move to a three- or four-weekly collection, you will find that people will leave bags by the side of those bins and local authorities won't collect them. That will then lead to environmental crime, and, on top of that, what we'll see is local authorities having to go round and re-collect those bags when people make that complaint between those three- and four-weekly cycles. So, I think there's a role there for Government to provide guidance to councils as well.

Rwyf o'r farn fod manteision i newid i gasgliadau pob pythefnos; byddwn yn derbyn bod hynny wedi annog pobl i ailgylchu a gwella eu cyfradd ailgylchu. Nid wyf yn credu y bydd casgliadau bob tair neu bedair wythnos yn annog trigolion i ailgylchu mwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Nid welaf y bydd yn creu unrhyw arbedion effeithlonrwydd ychwanegol sylweddol chwaith. Yn sicr, rwy'n meddwl am awdurdodau lleol penodol sy'n defnyddio biniau i'w casglu, os newidiant i gasgliadau bob tair neu bedair wythnos, fe welwch y bydd pobl yn gadael bagiau wrth ochr y biniau ac ni fydd awdurdodau lleol yn eu casglu. Bydd hynny wedyn yn arwain at droseddu amgylcheddol, ac ar ben hynny, yr hyn a welwn fydd awdurdodau lleol yn gorfod mynd o gwmpas i ailgasglu'r bagiau pan fydd pobl yn cwyno rhwng y cylchoedd tair a phedair wythnos. Felly, rwy'n meddwl bod yna rôl i'r Llywodraeth ddarparu canllawiau i gynghorau hefyd.

For the record, I am a member of Powys County Council—I declare that interest—and the fact that my own local authority has taken the regrettable decision to close the Potters Yard recycling centre in Machynlleth earlier this year has resulted in justifiable concern from residents, and a potential increase in fly-tipping and a reduction in recycling rates. The nearest point now is 30 miles away for those residents. Earlier this year, I asked the Minister for Natural Resources about what the Welsh Government could do to allay the community's fears about these changes to waste management. I do think the Welsh Government has got a key role to play in working with local authorities and others to mitigate the negative social, economic and community impact of environmental crime.

Ar gyfer y cofnod, rwy'n aelod o Gyngor Sir Powys—rwy'n datgan y buddiant hwnnw—ac mae'r ffaith fod fy awdurdod lleol wedi gwneud y penderfyniad anffodus i gau canolfan ailgylchu iard Potters ym Machynlleth yn gynharach eleni wedi arwain at bryder y gellir ei gyfiawnhau gan drigolion, a chynnydd posibl mewn tipio anghyfreithlon a gostyngiad yn y cyfraddau ailgylchu. Mae'r safle agosaf 30 milltir i ffwrdd i'r trigolion hynny bellach. Yn gynharach eleni, gofynnais i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i leddfu pryderon y gymuned am y newidiadau hyn i'r trefniadau rheoli gwastraff. Rwy'n meddwl bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i weithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i liniaru effaith negyddol troseddu amgylcheddol yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn gymunedol.

15:26 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Rwyf wedi caniatáu dipyn o amser ychwanegol gan bod ymyriad William Powell braidd yn hir. Jocelyn Davies.

Thank you very much. I have allowed some additional time because William Powell's intervention was rather lengthy. Jocelyn Davies.

15:26 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. I think this is an important issue, and the one I think most often raised by the public with us when we talk to them. Certainly, littering and dog fouling are raised over and over again. They might seem small issues, but, of course, it does affect how people feel about the places that they live. And, as Janet Haworth said, dog fouling is a particular problem, and I ought to declare an interest as a dog owner, I think, Chair. But we'll all be aware of how unpleasant and dangerous it can be, and you can hardly blame the dogs. Public attitude, as Julie Morgan said, must change.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n credu bod hwn yn fater pwysig, a'r un sy'n cael ei ddwyn i'n sylw amlaf gan y cyhoedd pan fyddwn yn siarad â hwy. Yn sicr, mae taflu sbwriel a chŵn yn baeddu yn cael sylw dro ar ôl tro. Efallai eu bod yn ymddangos yn faterion bach, ond mae'n effeithio ar sut y mae pobl yn teimlo am y lleoedd y maent yn byw ynddynt. Ac fel y dywedodd Janet Haworth, mae cŵn yn baeddu yn broblem fawr, a dylwn ddatgan buddiant fel perchennog ci, rwy'n meddwl, Gadeirydd. Ond byddwn i gyd yn ymwybodol o ba mor annymunol a pheryglus y gall fod, a phrin y gallwch roi'r bai ar y cŵn. Mae'n rhaid i agwedd y cyhoedd newid, fel y dywedodd Julie Morgan.

I wonder whether making it a legal requirement for owners to be carrying bags with them when they're out with their dog would help to strengthen the law around this, and make it easier for local authorities to enforce the law. I think it is possible under the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014, although I'm not aware of any local authority in Wales that's taken that up. But it is encouraging to see that the number of fixed-penalty notices issued by local authorities is on the increase, because that does suggest that there's a more proactive approach being taken both to punish offenders and to act as a deterrent to others.

Tybed a fyddai ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i berchnogion gario bagiau gyda hwy pan fyddant allan gyda'u cŵn yn helpu i gryfhau'r gyfraith ar hyn, ac yn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol orfodi'r gyfraith. Rwy'n credu ei bod yn bosibl gwneud hynny o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, er nad wyf yn ymwybodol o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi manteisio ar hynny. Ond mae'n galonogol gweld bod nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddir gan awdurdodau lleol yn cynyddu, gan fod hynny'n awgrymu fod yna ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at gosbi troseddwyr ac i weithredu fel dull o atal pobl eraill.

The Tory proposal today is essentially about environmental crime, and I'd like to see the Welsh Government work with local authorities to explore increasing penalties on environmental crime, although I would like to remind the Conservatives that, if the Wales Bill is passed by Westminster as it's currently drafted, this might fall outside the competence of the Assembly.

Mae cynnig y Torïaid heddiw yn ei hanfod yn ymwneud â throseddu amgylcheddol, a hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i archwilio'r posibilrwydd o gynyddu cosbau am droseddau amgylcheddol, er yr hoffwn atgoffa'r Ceidwadwyr, os caiff Bil Cymru ei basio gan San Steffan fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, gallai hyn fod y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad.

In south-east Wales, it seems that we've had a rise in lucrative environmental crime. Earlier this year, a man was sentenced to eight months in prison for running an illegal waste dump in Nantyglo in Blaenau Gwent. The site was supposed to just be a storage place before the waste was moved elsewhere, but, of course, the owner kept adding to the waste, including asbestos and other harmful substances, until that pile of rubbish towered over the property's boundaries, and I know that Alun Davies has raised this in the Chamber here recently.

Yn ne-ddwyrain Cymru, mae'n ymddangos bod cynnydd wedi bod yn nifer y troseddau amgylcheddol proffidiol. Yn gynharach eleni, dedfrydwyd dyn i wyth mis o garchar am gynnal tomen gwastraff anghyfreithlon yn Nant-y-glo ym Mlaenau Gwent. Lle i storio yn unig oedd y safle i fod cyn i'r gwastraff gael ei symud i rywle arall, ond parhaodd y perchennog i ychwanegu at y gwastraff, gan gynnwys asbestos a sylweddau niweidiol eraill, nes i'r pentwr sbwriel ymgodi uwchlaw ffiniau'r eiddo, ac rwy'n gwybod bod Alun Davies wedi crybwyll hyn yn y Siambr yma yn ddiweddar.

Several months ago, I was invited to visit a site at the Pontypool polo grounds that was used by a recycling operator, contracted by local authorities to process plastic waste. After several years of taking public money, the operator, of course, has disappeared, leaving behind a mountain of plastic and glass. It was unbelievable to see—in fact, jaw-dropping—piles of plastic reaching far above our heads and covering a huge area. Ironically, at the same time as this mound of plastic was growing, the local authority concerned was winning awards for recycling. So, the plastic that we were washing, putting out, collected by the council and sorted and baled, and so on, is now lying on the floor in Pontypool.

Rai misoedd yn ôl, cefais wahoddiad i ymweld â safle ar feysydd polo Pont-y-pŵl a ddefnyddid gan weithredwr ailgylchu, wedi'i gontractio gan awdurdodau lleol i brosesu gwastraff plastig. Ar ôl sawl blwyddyn o gymryd arian cyhoeddus, mae'r gweithredwr wedi diflannu, gan adael mynydd o blastig a gwydr ar ei ôl. Roedd yn anhygoel gweld—yn rhyfeddol a dweud y gwir—y pentyrrau o blastig yn ymestyn uwch ein pennau dros ddarn enfawr o dir. Yn eironig, ar yr un pryd ag y tyfai'r twmpath hwn o blastig, roedd yr awdurdod lleol dan sylw yn ennill gwobrau am ailgylchu. Felly, mae'r plastig roeddem yn ei olchi, yn ei osod allan i'w gasglu a'i ddidoli a'i fwndelu, ac yn y blaen, gan y cyngor bellach yn gorwedd ar lawr ym Mhont-y-pŵl.

I think this raises real questions about a failure to regulate. This isn't just a waste, of course, of public money, but it's also squandering public trust, because most of the public—and, I'm sure, Assembly Members here—are diligent about recycling; you're washing out the milk cartons, and so on, and putting it out in the recycling bin. But if we can't trust that that waste that we leave on the side of the road is going to be properly processed, it becomes much harder to convince the public to put a bit of extra effort into recycling. Some communities in my area are up in arms as it is because of changes to their waste collection, and some of you will know about that—in Blaenau Gwent and Merthyr, particularly. And that's without the prospect, of course, of it all being a complete waste of time and money.

Rwy'n credu bod hyn yn codi cwestiynau go iawn ynglŷn â methiant i reoleiddio. Nid gwastraff arian cyhoeddus yn unig yw hyn, wrth gwrs, ond gwastraff ar ymddiriedaeth y cyhoedd hefyd, gan fod y mwyafrif o'r cyhoedd—ac Aelodau'r Cynulliad yma, rwy'n siŵr—yn ailgylchu'n ddiwyd; rydych yn golchi'r cartonau llaeth ac ati, ac yn eu rhoi yn y bin ailgylchu. Ond os na allwn ymddiried bod y gwastraff rydym yn ei adael ar ymyl y ffordd yn mynd i gael ei brosesu'n iawn, mae'n dod yn llawer anos argyhoeddi'r cyhoedd i wneud ychydig mwy o ymdrech i ailgylchu. Mae rhai cymunedau yn fy ardal i yn awr yn ddig oherwydd newidiadau i'w trefniadau casglu gwastraff, a bydd rhai ohonoch yn gwybod am hynny—ym Mlaenau Gwent a Merthyr, yn arbennig. Ac mae hynny heb y posibilrwydd fod y cyfan yn wastraff llwyr o ran amser ac arian.

So, all the plastic on this site that I visited has become so degraded by now, because it's been left outside for years, that it's no longer recyclable. So, it's going to landfill and the landowner, of course, is going to be facing the cost of that.

Felly, mae'r holl blastig ar y safle yr ymwelais ag ef wedi dirywio i'r fath raddau erbyn hyn, am ei fod wedi cael ei adael y tu allan ers blynyddoedd, fel nad yw bellach yn ailgylchadwy. Felly, mae'n mynd i safleoedd tirlenwi a'r tirfeddiannwr, wrth gwrs, sy'n mynd i wynebu'r gost am hynny.

Now, if local authorities choose to contract out waste removal services, surely there must be adequate checks in place to ensure that the conmen, who are willing to take public money and just pile up rubbish that they should be processing, are stopped before they can do any more harm to the environment.

Nawr, os yw awdurdodau lleol yn dewis rhoi gwasanaethau gwaredu gwastraff ar gontract allanol, yn sicr rhaid cael archwiliadau digonol ar waith i sicrhau bod y twyllwyr, sy'n barod i gymryd arian cyhoeddus a phentyrru sbwriel y dylent fod yn ei brosesu, yn cael eu hatal cyn y gallant wneud rhagor o niwed i'r amgylchedd.

As you know, we support the deposit scheme, which, I have to say, I am well old enough to remember. But that can change attitudes, I think, as Julie Morgan said, because we were creative with our approach to the environment when we put the 5p charge on carrier bags. But it's completely changed people's attitudes—

Fel y gwyddoch, rydym yn cefnogi'r cynllun dychwelyd blaendal ac rwy'n hen ddigon hen i'w gofio, mae'n rhaid i mi ddweud. Ond rwy'n meddwl y gall hynny newid agweddau, fel y dywedodd Julie Morgan, am ein bod yn greadigol o ran ein hagwedd at yr amgylchedd pan ddechreusom godi tâl o 5c am fagiau plastig. Ond mae wedi newid agweddau pobl yn llwyr—

15:31 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's very kind. Thank you very much for taking an intervention. I know the site that you describe. I wholly concur with the comments that you've made. The possible cost of removal could well exceed £1 million. It is a question of trust, as you particularly say. Do you think that any, as it were, moral suasion might be applied to those local authorities who actually paid to have such large quantities of waste deposited on that site, over so long a period?

Rydych yn garedig iawn. Diolch yn fawr am dderbyn ymyriad. Rwy'n gyfarwydd â'r safle a ddisgrifiwch. Cytunaf yn llwyr â'r sylwadau a wnaethoch. Gallai'r gost bosibl o'i symud fod yn fwy na £1 filiwn yn hawdd. Mae'n fater o ymddiriedaeth, fel y pwysleisiwch. A ydych yn credu y gellid dwyn perswâd moesol, fel petai, ar yr awdurdodau lleol sydd wedi talu i waredu cymaint o wastraff ar y safle hwnnw, dros gyfnod cyhyd o amser?

15:31 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, yes, for sure. I mean, I drove there—it took me 10 minutes to get there, so it would have taken the local authority official about 15 minutes to get there. And if they couldn't visit that site regularly, then there is something wrong.

Wel, ydw, yn sicr. Hynny yw, gyrrais yno—cymerodd 10 munud i mi gyrraedd yno, felly byddai wedi cymryd tua 15 munud i'r swyddog awdurdod lleol gyrraedd yno. Ac os na allent ymweld â'r safle yn rheolaidd, yna mae rhywbeth o'i le.

But, again, changing attitudes, I think, is important, and putting up with a mess like that is unacceptable. But we can change attitudes, I think, if we think outside of the box, as we did with the levy on carrier bags. I think bold moves are what are needed.

Ond unwaith eto, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig newid agweddau, ac mae dioddef llanast o'r fath yn annerbyniol. Ond gallwn newid agweddau, rwy'n meddwl, os meddyliwn y tu allan i'r bocs, fel y gwnaethom gyda'r ardoll ar fagiau plastig. Rwy'n meddwl bod angen camau mentrus.

15:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful for the opportunity to speak in this timely debate today. The issue of environmental crime is an important one, which, perhaps, does not get the attention it deserves, when compared to violent types of crime. Nonetheless, it is something that affects us all, and, if it is left without being tackled, is something that could have a very serious effect, particularly on future generations.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad yn y ddadl amserol hon heddiw. Mae troseddu amgylcheddol yn fater pwysig, nad yw'n cael y sylw y mae'n ei haeddu, o bosibl, o'i gymharu â mathau o droseddau treisgar. Serch hynny, mae'n rhywbeth sy'n effeithio ar bob un ohonom, ac os nad eir i'r afael ag ef, mae'n rhywbeth a allai gael effaith ddifrifol iawn, ar genedlaethau'r dyfodol yn enwedig.

Now, as we know, there are many different types of litter that blight our communities. A glance at the Welsh Government's website lists these as: smoking-related, confectionery-related, fast food, dog fouling, and chewing gum. There are also, of course, the related problems of graffiti and fly-posting. In addition, something that we continue to see in many parts of Wales is fly-tipping, as already mentioned, and that is a serious environmental crime. All of these need to be tackled in a joined up way by organisations such as local authorities, the police and appropriate voluntary groups. It's important that the Welsh Government supports these efforts, and I know it has a number of initiatives and policies in place to do so.

Nawr, fel y gwyddom, mae llawer o wahanol fathau o sbwriel yn difetha ein cymunedau. Mae cipolwg ar wefan Llywodraeth Cymru yn rhestru'r rhain fel: sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu, melysion, bwyd brys, baw cŵn, a gwm cnoi. Hefyd, wrth gwrs, ceir problemau cysylltiedig graffiti a gosod posteri yn anghyfreithlon. Yn ogystal, rhywbeth rydym yn parhau i'w weld mewn sawl rhan o Gymru yw tipio anghyfreithlon, fel y crybwyllwyd eisoes, ac mae honno'n drosedd amgylcheddol ddifrifol. Mae angen i sefydliadau fel awdurdodau lleol, yr heddlu a grwpiau gwirfoddol priodol fynd i'r afael â phob un o'r rhain mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae'n bwysig fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymdrechion hyn, a gwn fod ganddi nifer o fentrau a pholisïau ar waith ar gyfer gwneud hynny.

The fight against many of these forms of litter is linked to a number of already existing positive campaigns. For example, a lower level of smoking amongst members of the public should help to reduce the amount of smoking-related litter. Encouraging a healthier diet, by various means, amongst all age groups, should help to reduce the amount of confectionery and fast-food-related litter. Encouraging more responsible dog ownership should help to reduce the level of dog fouling. And, can I say, I think that my constituents of Caerphilly should be congratulated for the enthusiasm with which they report such instances.

Mae nifer o ymgyrchoedd cadarnhaol eisoes ar y gweill yn y frwydr yn erbyn llawer o'r mathau hyn o sbwriel. Er enghraifft, dylai llai o ysmygu ymhlith aelodau'r cyhoedd helpu i gyfyngu ar sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Dylai annog deiet iachach, drwy ddulliau amrywiol, ymhlith pob grŵp oedran, helpu i gyfyngu ar sbwriel melysion a sbwriel sy'n gysylltiedig â bwyd brys. Dylai annog perchnogaeth gyfrifol ar gŵn helpu i gyfyngu ar faw cŵn. Ac a gaf fi ddweud fy mod yn credu y dylid llongyfarch fy etholwyr yng Nghaerffili am eu brwdfrydedd yn rhoi gwybod am achosion o'r fath.

Encouraging more respect for the environment, and the public domain, ensuring that people do what they can to attain the Wales they want, in line with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, should help to discourage things like illegal graffiti and fly-posting. Of course, a punitive element of enforcement will also be necessary at times.

Dylai annog mwy o barch at yr amgylchedd, a'r parth cyhoeddus, gan sicrhau bod pobl yn gwneud yr hyn a allant i greu'r Gymru a ddymunant, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, helpu i atal pethau fel graffiti a gosod posteri yn anghyfreithlon. Wrth gwrs, bydd angen elfen gosbol o orfodaeth ar adegau hefyd.

One phenomenon that sadly continues to blight our communities is, as mentioned, fly-tipping. We all know it when we see it, and we all know the areas in our localities in which it tends to happen, and we all dislike and condemn it. It's vital that local authorities, the police and appropriate voluntary groups, are given all the support they can in order to tackle it.

Fel y crybwyllwyd, un ffenomen sy'n parhau i ddifetha ein cymunedau yn anffodus, yw tipio anghyfreithlon. Rydym i gyd yn gwybod beth ydyw pan fyddwn yn ei weld, ac mae pawb ohonom yn gwybod am y mannau yn ein hardaloedd lle y mae'n tueddu i ddigwydd, ac yn ei gasàu a'i gondemnio. Rhaid i awdurdodau lleol, yr heddlu a grwpiau gwirfoddol priodol, gael pob cefnogaeth bosibl i fynd i'r afael â'r broblem.

I would argue that the perpetrators are publicly named and shamed. In my local authority area of Caerphilly county borough, council officers are working hard to tackle this crime, but, inevitably, there is only so much that they can do. It's important to remember, however, that the blame for environmental crime, such as fly-tipping, always rests with the perpetrator above anyone else. Clearly, what we need to tackle environmental crime is a partnership approach between local authorities, the police and appropriate voluntary groups, with the Welsh Government in support through their environmental, public health, wellbeing and animal welfare policies.

Byddwn yn dadlau y dylid enwi a dwyn cywilydd ar droseddwyr yn gyhoeddus. Yn fy ardal awdurdod lleol, sef bwrdeistref sirol Caerffili, mae swyddogion y cyngor yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r drosedd hon, ond yn anochel, hyn a hyn yn unig y gallant ei wneud. Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, fod y bai am droseddu amgylcheddol megis tipio anghyfreithlon bob amser ar y sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn anad neb arall. Yn amlwg, yr hyn sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â throseddu amgylcheddol yw partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, yr heddlu a grwpiau gwirfoddol priodol, gyda Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi drwy ei pholisïau ar yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd, lles a lles anifeiliaid.

Our efforts should not be hampered by continuous UK Government cuts. However, it is important, nonetheless, that the organisations concerned involve local communities in their efforts. Keep Wales Tidy, for example, do a lot of good work in my constituency, and elsewhere in Wales. When people feel a sense of pride and ownership in their communities, and their public realm, then incidences of litter and low-level environmental crime will decrease. This is why I welcome Welsh Government initiatives such as Tidy Towns. Through our policies, such as the single-use carrier bag charge, and our positive approach towards recycling, we have done a lot in Wales to discourage people from littering. And I would say that society now frowns on it more than ever. There will always be, however, rogue individuals who feel that they do not need to obey the law. This is where I support working with local authorities, and the police, to ensure strict enforcement and penalties where the environment or public health are in danger. However, this must be coupled with a positive nudge approach to making our communities cleaner and safer. I'm confident that despite further public sector cuts down the line, we can do this, and do it right, and in partnership.

Ni ddylai ein hymdrechion gael eu llesteirio gan doriadau parhaus Llywodraeth y DU. Mae'n bwysig er hynny fod y sefydliadau dan sylw yn cynnwys cymunedau lleol yn eu hymdrechion. Mae Cadwch Gymru'n Daclus, er enghraifft, yn gwneud llawer o waith da yn fy etholaeth, ac mewn mannau eraill yng Nghymru. Pan fydd gan bobl ymdeimlad o falchder yn eu cymunedau a thir y cyhoedd, a pherchnogaeth arnynt, yna bydd nifer yr achosion o sbwriel a throseddu amgylcheddol yn gostwng. Dyma pam rwy'n croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru megis Trefi Taclus. Drwy ein polisïau, megis y tâl am fagiau siopa untro, a'n hymagwedd gadarnhaol tuag at ailgylchu, rydym wedi gwneud llawer yng Nghymru i annog pobl i beidio â thaflu sbwriel. A byddwn yn dweud bod cymdeithas bellach yn gwgu ar yr arfer yn fwy nag erioed. Fodd bynnag, bydd yna bob amser ddihirod sy'n teimlo nad oes angen iddynt ufuddhau i'r gyfraith. Dyma lle rwy'n cefnogi gweithio gydag awdurdodau lleol a'r heddlu er mwyn sicrhau gorfodaeth lem a chosbau lle y mae'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd mewn perygl. Fodd bynnag, rhaid i hyn ddigwydd gydag elfen o anogaeth gadarnhaol i wneud ein cymunedau yn lanach ac yn fwy diogel. Er gwaethaf toriadau pellach sydd i ddod i'r sector cyhoeddus, rwy'n hyderus y gallwn wneud hyn, a'i wneud yn iawn ac mewn partneriaeth.

15:37

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased to take part in this debate this afternoon, to stress the importance of keeping our communities clean and to look at ways in which we can develop a much more collaborative approach to tackling litter in our communities. Members are aware that the Pembrokeshire coastline in my constituency is very important for Wales, as it boosts the local economy and supports the national tourism industry. Therefore, it's absolutely essential that we do all that we can to maintain the local environment for local residents, and for visitors to enjoy for the future.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd cadw ein cymunedau yn lân ac i edrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu dull llawer mwy cydweithredol o fynd i'r afael â sbwriel yn ein cymunedau. Mae'r Aelodau yn ymwybodol fod arfordir Sir Benfro yn fy etholaeth yn bwysig iawn i Gymru, gan ei fod yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth cenedlaethol. Felly, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i gynnal yr amgylchedd lleol ar gyfer y trigolion lleol, ac i ymwelwyr ei fwynhau ar gyfer y dyfodol.

Locally, the staff and volunteers of Pembrokeshire national park work tirelessly to keep the landscape of Pembrokeshire clean and litter free. They work closely with stakeholders, such as the county council and local community groups, not only to keep the national park clean, but to develop important educational messages to encourage people to think about what sort of environment they leave behind when enjoying Pembrokeshire's local landscapes. Whilst littering is certainly on the agenda of local authorities across Wales, as others have said, there is clearly more that can be done, particularly in relation to our coasts. Therefore, perhaps the Minister will use this debate as an opportunity to update Members on the work of the Welsh Government in changing public attitudes towards littering and tell us what educational initiatives are in place to promote keeping our communities clean.

Yn lleol, mae staff a gwirfoddolwyr parc cenedlaethol sir Benfro yn gweithio'n ddiflino i gadw tirwedd Sir Benfro yn lân ac yn rhydd o sbwriel. Maent yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, megis y cyngor sir a grwpiau cymunedol lleol, nid yn unig i gadw'r parc cenedlaethol yn lân, ond i ddatblygu negeseuon addysgol pwysig i annog pobl i feddwl am y math o amgylchedd y maent yn ei adael ar ôl wrth fwynhau tirweddau lleol Sir Benfro. Er bod taflu sbwriel yn sicr ar agenda awdurdodau lleol ledled Cymru, fel y mae eraill wedi dweud, mae'n amlwg y gellid gwneud rhagor, yn enwedig mewn perthynas â'n harfordiroedd. Felly, efallai y bydd y Gweinidog yn defnyddio'r ddadl hon fel cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith Llywodraeth Cymru yn newid agweddau cyhoeddus tuag at sbwriel a dweud wrthym pa fentrau addysgol sydd ar waith i annog pobl i gadw ein cymunedau'n lân.

In Pembrokeshire, Keep Wales Tidy and the Pembrokeshire Coast National Park Authority have organised numerous litter picks throughout the calendar year. I've attended some of them in the past. There is perhaps some scope here for local groups to work with schools, and other local organisations, to not only clean our communities, but raise awareness amongst children and young people of the importance of keeping our environment clean for the future. I hope that all Governments, at all levels, are also promoting public participation in litter picks and beach cleans as a way of bringing together communities.

Yn Sir Benfro, mae Cadwch Gymru'n Daclus ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi trefnu nifer o ymgyrchoedd casglu sbwriel ar hyd y flwyddyn galendr. Rwyf wedi mynychu rhai ohonynt yn y gorffennol. Efallai fod rhywfaint o gyfle yma i grwpiau lleol weithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol eraill, nid yn unig i lanhau ein cymunedau, ond i godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd cadw ein hamgylchedd yn lân ar gyfer y dyfodol. Rwy'n gobeithio bod pob Llywodraeth, ar bob lefel, hefyd yn hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd mewn digwyddiadau casglu sbwriel a glanhau traethau fel ffordd o ddod â chymunedau at ei gilydd.

Of course, like the Member for Caerphilly said earlier, I support the work of the Welsh Government's Tidy Towns initiative, and I've seen first hand the effect of that funding in my own constituency, where the funding has been used to improve access in Thomas Parry Way woodland, by working with young people not in employment, education or training to install a bridge over a stream and work with the local community group to create an orchard and wild flower meadow. Funding from this initiative has also supported the Your Park project, which works with volunteers to tackle invasive species and fly-tipping in Pembrokeshire to create an area to be used by schoolchildren, disadvantaged groups and the wider community. These schemes have brought communities together, and it's important that the Welsh Government now builds on the work that has already been achieved by the Tidy Towns scheme, so that these community-led initiatives will be protected for the future.

Wrth gwrs, fel y dywedodd yr Aelod dros Gaerffili yn gynharach, rwy'n cefnogi gwaith menter Trefi Taclus Llywodraeth Cymru, ac rwyf wedi gweld effaith y cyllid hwnnw drosof fy hun yn fy etholaeth, lle y defnyddiwyd yr arian i wella mynediad yng nghoetir Ffordd Thomas Parry, drwy weithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i osod pont dros nant a gweithio gyda'r grŵp cymunedol lleol i greu perllan a dôl o flodau gwyllt. Mae cyllid o'r fenter hon hefyd wedi cefnogi prosiect Eich Parc, sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol a thipio anghyfreithlon yn Sir Benfro er mwyn creu ardal i'w defnyddio gan blant ysgol, grwpiau dan anfantais a'r gymuned ehangach. Mae'r cynlluniau hyn wedi dod â chymunedau at ei gilydd, ac mae'n bwysig fod Llywodraeth Cymru yn awr yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd eisoes gan y cynllun Trefi Taclus, er mwyn diogelu'r mentrau cymunedol hyn ar gyfer y dyfodol.

Litter is not only a blight on urban high streets, but on our beaches too, and of course, adverse weather like we've seen recently dramatically increase the amount of litter and debris found on our beaches. Therefore, perhaps the Minister, in his response, will tell us what the Welsh Government is doing to support communities affected by adverse weather in their clean-up operations, particularly in more rural areas.

Mae sbwriel yn bla ar y stryd fawr yn ein trefi, ac ar ein traethau hefyd, ac wrth gwrs, mae tywydd garw tebyg i'r hyn a welsom yn ddiweddar yn cynyddu'r sbwriel a'r gweddillion a welir ar ein traethau yn sylweddol. Felly, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym yn ei ymateb beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan y tywydd garw gyda'u gwaith glanhau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.

The Pembrokeshire beach strategy recognises the problem of littering and has raised concerns about the local authority's ability to effectively clean all of Pembrokeshire's beaches in the future. Indeed, the strategy notes that beaches with a blue flag will continue to be cleaned as normal, but other beaches may see a reduced cleaning schedule in the future. There will no doubt be some very serious effects of a less regular winter clean for some beaches and so I'd be grateful if the Minister could tell us what specific discussions he's had with local authorities about ensuring that the people who clean our beaches receive the support that they deserve.

Mae strategaeth traethau Sir Benfro yn cydnabod y broblem sbwriel, ac mae wedi mynegi pryderon ynghylch gallu'r awdurdod lleol i lanhau holl draethau Sir Benfro yn effeithiol yn y dyfodol. Yn wir, mae'r strategaeth yn nodi y bydd traethau baner las yn parhau i gael eu glanhau fel arfer, ond mae'n bosibl y cyfyngir ar drefniadau glanhau traethau eraill yn y dyfodol. Yn ddiau, bydd glanhau rhai traethau yn llai rheolaidd yn y gaeaf yn arwain at effeithiau difrifol iawn ac felly byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau penodol y mae wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch sicrhau bod y bobl sy'n glanhau ein traethau yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu.

The beach strategy also suggests undertaking an annual audit on the number of bins that are available in beaches and in car parks to ensure that people have the provisions to dispose of their rubbish. This is perhaps one way of identifying whether beaches have sufficient provision for litter, particularly over the summer months, when visitor numbers substantially increase. It would be interesting to see if this work is going on across Wales.

Mae'r strategaeth traethau hefyd yn awgrymu y dylid cynnal archwiliad blynyddol o nifer y biniau sydd ar gael ar y traethau ac mewn meysydd parcio i sicrhau bod darpariaeth ar gael i bobl allu cael gwared ar eu sbwriel. Efallai fod hon yn un ffordd o nodi a oes darpariaeth ddigonol ar gyfer sbwriel ar y traethau, yn enwedig dros fisoedd yr haf, pan fo nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n sylweddol. Byddai'n ddiddorol gweld a yw'r gwaith hwn yn digwydd ledled Cymru.

Dirprwy Lywydd dros dro, there are numerous challenges facing our communities in terms of protecting our local environment, whether it's litter on our high streets and beaches to dog fouling and fly-tipping. Local authorities are working hard to meet these challenges by teaming up with local volunteers and community groups, and whilst significant action is being taken to clean up our communities, there is still more to be done. In the event of extreme or adverse weather, the Welsh Government must be proactive in working with local authorities and their communities in their clean-up operations so that our communities are protected as efficiently as possible.

Ddirprwy Lywydd dros dro, mae yna nifer o heriau'n wynebu ein cymunedau mewn perthynas â gwarchod ein hamgylchedd lleol, boed yn sbwriel ar ein strydoedd mawr a'n traethau neu faw cŵn a thipio anghyfreithlon. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ymuno â gwirfoddolwyr lleol a grwpiau cymunedol, ac er bod camau sylweddol ar waith i lanhau ein cymunedau, mae rhagor i'w wneud eto. Mewn tywydd garw neu eithafol, rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol wrth weithio gydag awdurdodau lleol a'u cymunedau yn eu gwaith glanhau er mwyn diogelu ein cymunedau mewn modd mor effeithlon â phosibl.

15:42

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think there is general agreement, expressed perhaps a little differently in different parts of the Chamber, that a local environment has a profound impact on both quality of life and the wellbeing of people who happen to live in different communities. I wanted to draw attention, if I could, Chair, this afternoon, to the impact that the local environment has on poverty because we talk sometimes in terms of the environment as being something, which has just been outlined, in terms of beaches. But I believe that there is a more profound view of the local environment that affects people's view of themselves, of who they are and of their communities at a very personal level. All too often, we find that areas that have the most significant difficulties, in terms of the local environment, are also those areas that are the poorest and most vulnerable communities.

Credaf fod yna gytundeb cyffredinol, wedi'i fynegi ychydig yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r Siambr efallai, fod amgylchedd lleol yn effeithio'n fawr ar ansawdd bywyd a lles y bobl sy'n digwydd byw mewn gwahanol gymunedau. Os caf fi, roeddwn i eisiau tynnu sylw y prynhawn yma, Gadeirydd, at yr effaith y mae'r amgylchedd lleol yn ei chael ar dlodi gan ein bod yn siarad weithiau am yr amgylchedd, fel sydd newydd gael ei amlinellu, mewn perthynas â thraethau. Ond rwy'n credu bod yna safbwynt mwy dwys sy'n gweld yr amgylchedd lleol fel rhywbeth sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn gweld eu hunain, o ran pwy ydynt, a'u cymunedau ar lefel bersonol iawn. Yn rhy aml, gwelwn mai'r ardaloedd sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf sylweddol, o ran yr amgylchedd lleol, yw'r ardaloedd lle y ceir y cymunedau tlotaf a mwyaf agored i niwed hefyd.

The Conservatives will try to play games with the issues faced by people in my constituency and will try to ridicule and make fun of issues that are facing Blaenau Gwent, but I would say to them that people in Blaenau Gwent feel very deeply about the importance of the local environment and are deeply affected by some of the issues that they face. They are all too often aware of the Conservative Party doing very little to help, but much to create more difficulties in those communities.

Bydd y Ceidwadwyr yn ceisio chwarae gemau gyda'r problemau sy'n wynebu pobl yn fy etholaeth ym Mlaenau Gwent ac yn ceisio'u gwneud yn destun sbort, ond hoffwn ddweud wrthynt fod pobl Blaenau Gwent yn teimlo i'r byw am bwysigrwydd yr amgylchedd lleol ac mae rhai o'r problemau sy'n eu hwynebu yn effeithio'n fawr arnynt. Yn rhy aml, maent yn ymwybodol mai ychydig iawn y mae'r Blaid Geidwadol yn ei wneud i helpu, ond ei bod yn gwneud llawer i greu mwy o anawsterau yn y cymunedau hynny.

I hope that, when the Minister's responds to this debate, he'll be able to reflect on how he might be able to work with the Minister for tackling poverty to address these issues. All too often, we try to compartmentalise too many of these issues rather than look towards how we can create linkages between different policy areas.

Pan fydd y Gweinidog yn ymateb i'r ddadl hon, gobeithio y bydd yn gallu ystyried sut y gallai weithio gyda'r Gweinidog trechu tlodi i fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn rhy aml, rydym yn ceisio rhannu gormod o'r materion yn adrannau yn hytrach nag edrych i weld sut y gallwn greu cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi.

Many people in the debate this afternoon have spoken about how different community groups and community organisations have been able to work together to make improvements to the local community, but I would like the Minister to look at how the funding that is available, both within his department and the department headed by the Minister for tackling poverty, might be used to address issues that have been described very well this afternoon, but also not simply to place money in budgets in order to make statements that we've addressed something. What are the targets? What are the objectives? I'd like to see measurable targets and measureable objectives put in place so that we can really understand the impact that these organisations and our spending are having on improving the daily lives and wellbeing of people that I and many others here represent.

Mae llawer o bobl yn y ddadl y prynhawn yma wedi siarad ynglŷn â'r modd y mae gwahanol grwpiau a sefydliadau cymunedol wedi gallu gweithio gyda'i gilydd i wella'r gymuned leol, ond hoffwn i'r Gweinidog edrych i weld sut y gellid defnyddio'r arian sydd ar gael, yn ei adran ef ac yn adran y Gweinidog trechu tlodi, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a ddisgrifiwyd yn dda iawn y prynhawn yma, a gwneud mwy na rhyddhau arian i gyllidebau er mwyn gwneud datganiadau ein bod wedi mynd i'r afael â rhywbeth. Beth yw'r targedau? Beth yw'r amcanion? Hoffwn weld targedau mesuradwy ac amcanion mesuradwy yn cael eu rhoi ar waith fel y gallwn lwyr ddeall effaith y sefydliadau hyn a'n gwariant ar wella bywydau a lles pobl rwyf fi a llawer o bobl eraill yma yn eu cynrychioli.

The second issue I'd like to address in my remarks this afternoon is that which has already been raised by Jocelyn Davies. Adrian Lewis was convicted earlier this year for offences around the management of the waste site in Nantyglo, and I'm very grateful to the Minister for the time he's taken in writing to me and considering these matters. I raised these matters, as he is aware, during the debate last month on the Environment (Wales) Bill. Since then, the Minister has written to me outlining the powers that he believes exist already to enable Welsh Government to ensure that communities do not have to face and do not have to endure the difficulties that have been faced by my constituents in Nantyglo. I'd like to ask the Minister to look again at some of these powers and to look again and to reconsider existing powers available to him and to Natural Resources Wales—[Interruption.] No, I'm not giving way—to examine how NRW's powers can be strengthened in this matter, because one of the issues that I've faced in the two or three years that we've been dealing with this issue is that the powers are simply not there to protect the community, to protect local residents, to protect neighbours and to ensure that operators such as Adrian Lewis are compelled to obey the law. I pay tribute to the work of NRW. They've done an absolutely fantastic job over the last few years in putting the case together, but there are too many barriers and not enough powers available to them. The people of Nantyglo deserve the protection of the law, and we have a responsibility to ensure that the law provides that protection to them. Thank you.

Mae'r ail fater yr hoffwn roi sylw iddo yn fy sylwadau y prynhawn yma eisoes wedi'i grybwyll gan Jocelyn Davies. Cafwyd Adrian Lewis yn euog yn gynharach eleni am droseddau'n ymwneud â rheoli'r safle gwastraff yn Nant-y-glo, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am roi amser i ysgrifennu ataf ac i ystyried y materion hyn. Fel y gŵyr, tynnais sylw at y materion hyn yn ystod y ddadl y mis diwethaf ar Fil yr Amgylchedd (Cymru). Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu ataf yn amlinellu'r pwerau y mae'n credu eu bod eisoes yn bodoli ar gyfer galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes rhaid i gymunedau wynebu a dioddef yr anawsterau a wynebodd fy etholwyr yn Nant-y-glo. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog edrych eto ar rai o'r pwerau hyn ac edrych eto ac ailystyried y pwerau sydd ar gael iddo ar hyn o bryd, ac i Cyfoeth Naturiol Cymru—[Torri ar draws.] Na, nid wyf am ildio—i archwilio sut y gellid cryfhau pwerau CNC yn y mater hwn, am mai un o'r materion rwyf wedi'u hwynebu yn ystod y ddwy neu dair blynedd y buom yn ymdrin â'r mater hwn yw nad oes pwerau'n bodoli ar gyfer diogelu'r gymuned, ar gyfer diogelu trigolion lleol, ar gyfer diogelu cymdogion ac i sicrhau bod gweithredwyr fel Adrian Lewis dan orfodaeth i ufuddhau i'r gyfraith. Rwy'n rhoi teyrnged i waith CNC. Maent wedi gwneud gwaith cwbl wych dros y blynyddoedd diwethaf yn rhoi'r achos at ei gilydd, ond mae gormod o rwystrau ac nid oes digon o bwerau ar gael iddynt. Mae pobl Nant-y-glo yn haeddu diogelwch y gyfraith, ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod y gyfraith yn darparu diogelwch o'r fath iddynt. Diolch.

15:47 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

I call the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

15:47 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, acting Presiding Officer. I welcome this debate today. A clean, safe, accessible and attractive environment is an essential part of the Wales we want for our future generations. We are working with local authorities to prevent problems from occurring through education, awareness-raising and promoting change. Empowering people to protect their own surroundings helps us tackle environmental crime, and that is why we have provided over £22 million of Tidy Towns funding since 2008 to help people make their own places cleaner, safer and tidier—a Welsh Labour initiative.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Croesawaf y ddadl hon heddiw. Mae amgylchedd glân, diogel, hygyrch a deniadol yn rhan hanfodol o'r Gymru rydym yn awyddus i'w gweld ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i atal problemau rhag digwydd drwy addysgu, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo newid. Mae grymuso pobl i ddiogelu eu hamgylchedd eu hunain yn ein helpu i fynd i'r afael â throseddu amgylcheddol, a dyna pam rydym wedi darparu dros £22 miliwn o gyllid Trefi Taclus ers 2008 i helpu pobl i wneud eu lleoedd eu hunain yn fwy glân, yn fwy diogel ac yn fwy taclus—menter gan Lafur Cymru.

We're tackling the serious blight of fly-tipping. We've worked with the right stakeholders to develop a co-ordinated action that will deliver results. Our unique partnership approach means Wales is leading the fight against fly-tipping, and incidents reported to local authorities have fallen since their peak in 2007. As regards penalties or on-the-spot fines, there is already a suite of tools available to local authorities to deal with environmental crime. For example, through the Environmental Protection Act 1990, powers exist to issue fixed penalty notices of £75 for littering, and the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act of 2014 introduced new powers. We're also investigating fixed penalty notices for small-scale fly-tipping incidents.

Rydym yn mynd i'r afael â malltod difrifol tipio anghyfreithlon. Rydym wedi gweithio gyda'r rhanddeiliaid cywir i ddatblygu camau gweithredu cydgysylltiedig a fydd yn sicrhau canlyniadau. Mae ein dull partneriaeth unigryw yn golygu bod Cymru yn arwain y frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon, ac mae nifer yr achosion a gafodd eu dwyn i sylw awdurdodau lleol wedi gostwng er pan oedd ar ei huchaf yn 2007. O ran cosbau neu ddirwyon yn y fan a'r lle, mae yna gyfres o adnoddau ar gael eisoes i awdurdodau lleol eu defnyddio ar gyfer ymdrin â throseddu amgylcheddol. Er enghraifft, drwy Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ceir pwerau i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig o £75 am daflu sbwriel, ac mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi cyflwyno pwerau newydd. Rydym hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fach.

However, financial penalties are not the only thing; they're just one part of the picture. That is why we're working to prevent problems from occurring in the first place, and in response to today's point about local authorities exacerbating the situation, let me be very clear here: the responsibility for environmental crime always lies with the criminal, and I'll take no lectures from the party opposite in terms of the fact that it's the local authorities' problem here. It's the people who make the mess who have to pay the price. Local authorities have had a budget reduction from Welsh Government on the basis of the UK's £1.5 billion less in the Welsh economy. What do you expect for delivery of public services? We are—[Interruption.] We are going to be supporting—[Interruption.] I'm not taking interventions from these Members.

Fodd bynnag, nid cosbau ariannol yw'r unig beth; un rhan o'r darlun yn unig ydynt. Dyna pam rydym yn gweithio i atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac mewn ymateb i bwynt a wnaed heddiw ynghylch awdurdodau lleol yn gwaethygu'r sefyllfa, gadewch i mi fod yn glir iawn yma: y troseddwr sydd â'r cyfrifoldeb am droseddau amgylcheddol bob amser, ac nid wyf am wrando ar unrhyw bregethau gan y blaid gyferbyn yn dweud mai problem yr awdurdodau lleol yw hon. Y bobl sy'n achosi'r llanast sy'n gorfod talu'r pris. Torrwyd cyllidebau awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ar sail yr £1.5 biliwn yn llai a gafwyd o'r DU i economi Cymru. Beth ydych chi'n ei ddisgwyl o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus? Rydym yn—[Torri ar draws.] Rydym yn mynd i gefnogi—[Torri ar draws.] Nid wyf yn cymryd ymyriadau gan yr Aelodau hyn.

We are going to be accepting the debate today by the opposition party, but you really should reflect on the implications of your UK Government and George, who has put a budget forward, and the spending review—[Inaudible.]—has had a massive impact on all of our communities—

Rydym yn mynd i dderbyn y ddadl heddiw gan yr wrthblaid, ond yn wir, fe ddylech ystyried goblygiadau eich Llywodraeth yn y DU a George, sydd wedi cyflwyno cyllideb, ac mae'r adolygiad o wariant—[Anghlywadwy.]—wedi effeithio'n enfawr ar bob un o'n cymunedau—

15:49 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister is not taking any interventions.

Nid yw'r Gweinidog yn derbyn ymyriadau.

15:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. I'm not giving way to the Members.

Na, nid wyf am ildio i'r Aelodau.

We should not dilute this by seeking to blame our hard-pressed local authorities. We should be working with them. We are not aware of any link to increases in fly-tipping; in fact, as I've already said, the number of fly-tipping incidents are falling.

Ni ddylem wanhau hyn drwy geisio rhoi'r bai ar ein hawdurdodau lleol sydd dan bwysau. Dylem weithio gyda hwy. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gysylltiad â chynnydd yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon; yn wir, fel rwyf wedi dweud eisoes, mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yn gostwng.

Waste crime costs businesses around £569 million a year. Communities, human health and the environment can be badly affected, as many Members have alluded to. Last month, I put legislation before the Assembly to tackle illegal waste activity. This will strengthen Natural Resources Wales's powers and some of the powers will be available also to local authorities.

Mae troseddau gwastraff yn costio tua £569 miliwn y flwyddyn i fusnesau. Gall yr effaith ar gymunedau, iechyd pobl a'r amgylchedd fod yn wael, fel y mae nifer o'r Aelodau wedi sôn. Y mis diwethaf, cyflwynais ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad i fynd i'r afael â gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon. Bydd yn cryfhau pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd rhai o'r pwerau ar gael hefyd i awdurdodau lleol.

Turning to recycling, repairing and reusing, these are vital, and we are innovating and making a difference. Julie Morgan has alluded to some of those issues, too, and I've visited some of the very good projects in her constituency that she referred to.

Gan droi at ailgylchu, atgyweirio ac ailddefnyddio, mae'r rhain yn hanfodol, ac rydym yn arloesi ac yn gwneud gwahaniaeth. Cyfeiriodd Julie Morgan at rai o'r materion hynny hefyd, ac rwyf wedi ymweld â rhai o'r prosiectau da iawn y cyfeiriodd atynt yn ei hetholaeth.

We are the first UK nation to introduce statutory targets for local authority recycling and our carrier bag charges have reduced their use by 78 per cent since 2011. We have committed to setting up a new reuse alliance of waste prevention and we will continue to innovate, as the motion suggests. Our ambitious and successful programme supports local authorities to deliver the most comprehensive and highly performing recycling service of anywhere in the UK. We've increased our recycling rates more than anywhere else in the UK, and we are fourth best in Europe. Welsh local authorities are already meeting the 2020 European targets.

Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno targedau statudol ar gyfer ailgylchu gan awdurdodau lleol ac mae ein ffioedd am fagiau siopa untro wedi lleihau eu defnydd 78 y cant ers 2011. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu cynghrair ailddefnyddio newydd er atal gwastraff a byddwn yn parhau i arloesi, fel yr awgryma'r cynnig. Mae ein rhaglen uchelgeisiol a llwyddiannus yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth ailgylchu hynod o gynhwysfawr sy'n perfformio'n well nag unman arall yn y DU. Rydym wedi cynyddu ein cyfraddau ailgylchu yn fwy nag unrhyw ran arall o'r DU, ac rydym yn bedwerydd yn Ewrop ar hynny. Mae awdurdodau lleol Cymru eisoes yn cyrraedd targedau Ewropeaidd ar gyfer 2020.

I listened very carefully to comments made by Members today. I was particularly struck by the comments made by Alun Davies who I totally agree with on the fact that this isn't just about a littering issue—actually, this is about a societal change. It's about making sure that the wellbeing of our communities are considered across all aspects. That Member represents his constituents well and I concur with him that the opposition Members criticising Blaenau Gwent people is something that they should be very careful about. [Interruption.] But we will do no more—. I've recently commissioned bilingual campaigns to engage people and boost recycling even further, because we know behavioural change programmes deliver results. We're seeing that through experience.

Gwrandewais yn astud iawn ar y sylwadau a wnaeth yr Aelodau heddiw. Cefais fy nharo'n arbennig gan y sylwadau a wnaeth Alun Davies a chytunaf yn llwyr ag ef ynglŷn â'r ffaith nad yw hwn yn fater sy'n ymwneud yn unig â thaflu sbwriel—mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â newid cymdeithasol. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pob agwedd ar les ein cymunedau yn cael ei hystyried. Mae'r Aelod yn cynrychioli ei etholwyr yn dda ac rwy'n cytuno ag ef fod y modd y mae Aelodau'r wrthblaid yn beirniadu pobl Blaenau Gwent yn rhywbeth y dylent fod yn ofalus iawn yn ei gylch. [Torri ar draws.] Ond nid ydym yn mynd i wneud rhagor o —. Yn ddiweddar comisiynais ymgyrchoedd dwyieithog i ennyn a hybu diddordeb pobl mewn ailgylchu, oherwydd gwyddom fod rhaglenni newid ymddygiad yn sicrhau canlyniadau. Rydym yn gweld hynny drwy brofiad.

I'm keeping an open mind about the deposit-return scheme and I will continue to explore the feasibility of the scheme, looking at the issues of cost and implications in the round. We are liaising with Scotland on this particular issue and its experiences of such a scheme. We will build on past research and we also want to look at the impact on the existing work of local authorities.

Rwy'n cadw meddwl agored am y cynllun dychwelyd blaendal a byddaf yn parhau i edrych ar ei ymarferoldeb, gan ystyried y gost a'r goblygiadau yn eu cyfanrwydd. Rydym yn ymgysylltu â'r Alban ynglŷn â'r mater hwn a phrofiadau'r wlad honno o gynllun o'r fath. Byddwn yn adeiladu ar waith ymchwil yn y gorffennol ac rydym hefyd yn awyddus i edrych ar yr effaith ar y gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud eisoes.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 has set the benchmark. The law sets out the new ways of working so we can make better decisions, transform services, tackle root problems and avoid wasting money to achieve a better and lasting quality of life for us all. Wales is a cleaner and clever land and we are improving the wellbeing so that present needs are met without compromising our future generations.

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi gosod y meincnod. Mae'r gyfraith yn nodi ffyrdd newydd o weithio fel y gallwn wneud penderfyniadau gwell, trawsnewid gwasanaethau, mynd i'r afael â phroblemau yn y gwraidd ac osgoi gwastraffu arian er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bawb ohonom. Mae Cymru yn wlad lanach a chlyfrach ac rydym yn gwella lles er mwyn diwallu anghenion y presennol heb beryglu'r cenedlaethau sydd i ddod.

When I see the brilliant things already being done across Wales, in particular the work funded, as I mentioned earlier, on Keep Wales Tidy and the many volunteers working with that organisation, we should be incredibly proud of the work we have done and there is much more work to be done. I believe that we can secure a safe and prosperous future for this clever, green country. Thank you.

Pan fyddaf yn gweld y pethau gwych a wneir eisoes ledled Cymru, yn enwedig y gwaith a ariennir, fel y soniais yn gynharach, ar Cadwch Gymru'n Daclus a'r llu o wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r sefydliad hwnnw, dylem fod yn hynod o falch o'r gwaith rydym wedi'i wneud ac mae llawer mwy o waith i'w wneud o hyd. Rwy'n credu y gallwn sicrhau dyfodol diogel a ffyniannus i'r wlad werdd a chlyfar hon. Diolch.

15:53

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Nick Ramsay. Mae ganddo fe ddwy funud a hanner i ymateb i'r ddadl.

I call on Nick Ramsay. He has two and a half minutes to respond to the debate.

15:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Can I first of all say, Minister, you are always entertaining, and today you didn't disappoint? There's a mixture of fact and fiction in there; we welcome it all. I do quite agree with you that the primary responsibility for dealing with environmental crime does, indeed, lie with the criminal, not, actually, the UK Government. What a ridiculous attempt today, by Members of the Welsh Government, to try and blame the UK Government for its failings in the past in dealing with some of these issues in Wales. Who knows what they're up to? Perhaps they're trying to distract from today's comprehensive spending review. None of them have mentioned that. Maybe it wasn't quite as bad as you were hoping for for your constituents.

Diolch. A gaf fi ddweud yn gyntaf oll, Weinidog, eich bod bob amser yn ddifyr, ac ni wnaethoch ein siomi heddiw? Mae yna gymysgedd o ffaith a ffuglen i mewn yno; rydym yn croesawu'r cyfan. Rwy'n cytuno â chi mai'r troseddwr sy'n bennaf gyfrifol am ymdrin â throseddau amgylcheddol, yn wir, ac nid Llywodraeth y DU mewn gwirionedd. Am ymgais chwerthinllyd a welwyd heddiw, gan Aelodau o Lywodraeth Cymru, i geisio rhoi'r bai ar Lywodraeth y DU am ei methiannau yn y gorffennol i ymdrin â rhai o'r materion hyn yng Nghymru. Pwy a ŵyr beth y maent yn ei wneud? Efallai eu bod yn ceisio tynnu sylw oddi ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant heddiw. Nid oes yr un ohonynt wedi crybwyll hwnnw. Efallai nad oedd mor ddrwg ag y gobeithiech y byddai i'ch etholwyr.

Can I thank all the speakers who've taken part in today's debate—a true pavement politics debate that's focused on some of the very real problems that affect communities across Wales? I will be brief, Chair, mainly because I haven't got any time not to be [Laughter.]

A gaf fi ddiolch i'r holl siaradwyr a gymerodd ran yn y ddadl heddiw—trafodaeth wleidyddiaeth palmant go iawn sydd wedi canolbwyntio ar rai o'r problemau real iawn sy'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru? Byddaf yn gryno, Gadeirydd, yn bennaf oherwydd nad oes gennyf amser i beidio â bod [Chwerthin.]

The debate has ranged from Will Powell's Corona generation to Llyr Gruffydd's Llangattock litter pickers. If I can firstly deal with some of Llyr's comments. Llyr, you mentioned the possible benefits of a deposit refund scheme, mentioned by a number of Members in the Chamber and the experience in Germany. Yes, we agree with you that there are some extremely good results in other countries, particularly Germany and the United States, but that doesn't necessarily mean that they would be replicated in this country. That is why we are calling today for a pilot programme so we can see the pros and cons of that programme before we roll it out into all areas—not a million miles, I don't think, from the Minister's position.

Mae'r ddadl wedi amrywio o genhedlaeth Corona Will Powell i gasglwyr sbwriel Llangatwg Llyr Gruffydd. Os caf ymdrin yn gyntaf â rhai o sylwadau Llyr. Llyr, fe sonioch am fanteision posibl cynllun dychwelyd blaendal, a grybwyllwyd gan nifer o'r Aelodau yn y Siambr a phrofiad yr Almaen. Ydym, rydym yn cytuno â chi fod rhai canlyniadau eithriadol o dda mewn gwledydd eraill, yn enwedig yn yr Almaen a'r Unol Daleithiau, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y byddent yn cael eu hailadrodd yn y wlad hon. Dyna pam rydym yn galw heddiw am raglen beilot er mwyn i ni allu gweld manteision ac anfanteision y rhaglen honno cyn i ni ei chyflwyno ym mhob ardal—safbwynt nad wyf yn credu ei fod yn eithriadol o wahanol i un y Gweinidog.

Can I thank Janet Finch-Saunders for her praise of Monmouthshire County Council? Yes, there's a very low number of complaints in my area—I'm assured that that wasn't because they couldn't get through—just 81. I'm not going to go through other Members' comments because I haven't got time to take the interventions, but if I can just mention a couple: Julie Morgan, you are completely right—it's not often I say that. But I do agree that the Taff trail is a lovely bike ride and murals do help play a role in deterring graffiti. It's often small things like that that can make a big difference. Yes, community groups do play a very important role in making sure that these issues are dealt with out there on the ground. The Welsh Government can only do so much, but there is a role, as many Members have said, for the Welsh Government to play.

A gaf fi ddiolch i Janet Finch-Saunders am ei chanmoliaeth i Gyngor Sir Fynwy? Oes, mae yna nifer isel iawn o gwynion yn fy ardal—caf fy sicrhau nad oedd hynny'n deillio o'r ffaith nad oeddent yn gallu dod drwodd—dim ond 81. Nid wyf am fynd drwy sylwadau'r Aelodau eraill am nad oes gennyf amser i gymryd ymyriadau, ond os caf grybwyll un neu ddau: Julie Morgan, rydych yn iawn—nid wyf yn dweud hynny'n aml iawn. Ond rwy'n cytuno bod Taith Taf yn daith feicio hyfryd ac mae murluniau'n helpu i chwarae rôl drwy atal graffiti. Pethau bach felly, yn aml iawn, sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr. Ac yn wir, mae grwpiau cymunedol yn chwarae rôl bwysig iawn yn sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw ar lawr gwlad. Hyn a hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud ond mae yna rôl iddi ei chwarae, fel y dywedodd nifer o'r Aelodau.

I urge the Members here today to support this motion. Let's get on with the job of making Wales a little bit better for future generations.

Rwy'n annog yr Aelodau yma heddiw i gefnogi'r cynnig hwn. Gadewch i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o wneud Cymru ychydig bach yn well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

15:56 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio? A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Felly, fe ohirir pob pleidlais tan yr amser pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] Therefore, I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair.*

## 6. Dadl Plaid Cymru: Economi Gogledd Cymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn enw Paul Davies.*

## 6. Plaid Cymru Debate: The North Wales Economy

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of Paul Davies.*

15:56

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Item 6 is the Plaid Cymru debate on the north Wales economy, and I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Eitem 6 yw dadl Plaid Cymru ar economi gogledd Cymru, a galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5890 Elin Jones

Motion NDM5890 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales

1. Yn nodi'r angen i gryfhau perfformiad economi gogledd Cymru;

1. Notes the need to strengthen the performance of the north Wales economy.

2. Yn cydnabod yr angen i ddatblygu gogledd Cymru fel pwerdy economaidd ochr yn ochr â phwerdy gogledd Lloegr a gan gydweithio gydag ef er mwyn hyrwyddo gweithgarwch economaidd trawsffiniol;

2. Recognises the need to develop north Wales as an economic powerhouse alongside, and co-operating with, the northern powerhouse in England in order to promote cross-border economic activity.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddiad seilwaith i hyrwyddo'r economi, yn galw am raglen barhaus o welliannau i goridor yr A55 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi trydaneiddio rheilffordd arfordir gogledd Cymru; a

3. Recognises the importance of infrastructure investment to promote the economy, calls for a sustained programme of improvements to the A55 corridor, and calls on the Welsh Government to continue to support the electrification of the North Wales Coast Line.

4. Yn credu bod yn rhaid i fasnachfraint ddatganoledig nesaf Cymru barhau i gynnwys llwybrau i ogledd-orllewin Lloegr.

4. Believes that the next devolved Welsh rail franchise must continue to include routes to the north west of England.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:56

### Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy’n falch iawn o allu cyflwyno’r cynnig yma yn enw Elin Jones, cynnig rwy’n meddwl sy’n un pwysig iawn i bawb yn y gogledd, sydd isio gweld eu heconomi yn datblygu ac isio gweld rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ac ati. Ond rwy’n meddwl bod yr hyn y byddaf i a’m cyd-Aelodau yn ei ddweud yn berthnasol i unrhyw un sy’n credu yn yr egwyddor yna o rannu budd economaidd i bob rhan o Gymru—rhannu’r budd i bobl Cymru lle bynnag y maen nhw’n byw.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to introduce this motion in the name of Elin Jones, a motion which I believe to be very important in north Wales, which wants to see its economy developing and wants to see more opportunities for young people, and so on. But I do think that what I and my fellow Members will say will be relevant to anyone who believes in the principle of ensuring that economic benefits reach all parts of Wales—sharing the benefits with the people of Wales wherever they may live.

Rydym ni'n dweud yn y cynnig, yn syml iawn, fod angen cryfhau perfformiad economi'r gogledd a sicrhau ein bod ni'n meddwl am economi'r gogledd fel endid ynddo fo'i hun a bod yna ysgogiad o'r newydd i wneud hynny, sef datblygiad y 'northern powerhouse' yng ngogledd-orllewin Lloegr. Rwy'n cyffroi cymaint ag unrhyw un am y cyfle mae hynny'n ei gynrychioli i economi'r gogledd. Mae cynyddu masnach a chael cyd-ffocws ar dwf economaidd ar draws ffiniau yn rhywbeth sy'n digwydd ar hyd a lled y byd, wrth gwrs. Mae o mor berthnasol yng nghyd-destun gogledd Cymru a'r 'northern powerhouse' ag y mae o mewn rhannau eraill o Ewrop fel Malmö-Copenhagen, sy'n enghraifft dda arall o ddwy ganolfan economaidd lewyrchus mewn dwy wlad yn cydweithio er lles eu poblogaethau y naill ochr i'r ffin.

We state in our motion, very simply, that we need to strengthen the performance of the north Wales economy and ensure that we think of the north Wales economy as an entity in and of itself and that there should be a new impetus to do that, namely the development of the northern powerhouse in the north-west of England. I am as excited as anyone about the opportunity that that represents for the north Wales economy. Increasing trade and having a joint focus on economic growth across borders is something that happens across the world, of course. It is as relevant in the context of north Wales and the northern powerhouse as it is in other parts of Europe such as Malmö-Copenhagen, which is another good example of two prosperous economic centres in two nations collaborating for the benefit of their populations on either side of the border.

Felly, mae yna gyfleoedd gwych yma, ond mae yna sialensiau hefyd, a rhwystrau, hyd yn oed, os nad ydym ni'n ofalus. Beth allwn ni ddim ei wneud ydy aros am friwsion oddi ar fwrdd y 'northern powerhouse' yn Lloegr. Allwn ni ddim aros a rhyw obeithio y bydd yna fudd ymylol. Mae'n rhaid inni wynebu'r fenter yma—ac mae hi'n fenter gyffrous iawn, os gwnawn ni ei chael hi'n iawn—fel partner cyfartal.

So, there are excellent opportunities here, but there are also challenges, and even barriers if we aren't careful. What we cannot do is to wait for crumbs from the northern powerhouse table in England. We cannot wait and hope that there will be some peripheral benefits for north Wales. We must face this initiative—and it's a very exciting initiative, if we get it right—as an equal partner.

Mae isio cofio hefyd am y bartneriaeth economaidd y byddwn i'n licio ei gweld yn datblygu llawer mwy i'r gorllewin hefyd. Efallai bod y teigr i'r gorllewin ohonom ni wedi cael ei dawelu braidd gan flynyddoedd o lanast economaidd rhyngwladol, ond mae Gweriniaeth Iwerddon yn dechrau brathu eto o ddifri, ac mae yna gyfleoedd mawr inni yn y fan honno. Ond mae sôn am bwerdy economaidd yng ngogledd Cymru yn golygu peidio â meddwl y bydd pob un cyfle economaidd yn dod un ai o'r dwyrain, Iwerddon neu rywle arall. Mae'r syniad yma o ddatblygu economi'r gogledd fel endid ynddo fo'i hun yn golygu dathlu'r hunaniaeth glir ac unigryw sydd yna yn y rhanbarth, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'n treftadaeth ieithyddol, ein nodweddion gwledig ni a'n treftadaeth ddiwydiannol hefyd, o'r diwydiannau glo, llechi a chopr, ac, ie, y diwydiant awyrofod hefyd.

We must also bear in mind the economic partnership that I would like to see developing far more to the west also. Perhaps the tiger to the west of us has been rather calmed by years of international economic chaos, but the Republic of Ireland is starting to grow some teeth once again, and there are major opportunities there. But talking of an economic powerhouse in north Wales means not thinking that every economic opportunity will come either from the east, from Ireland or from elsewhere. This idea of developing the north Wales economy as an entity in and of itself means celebrating that clear and unique identity that exists within the region, which includes the Welsh language, our linguistic heritage, our rural characteristics, and our industrial heritage as a result of the coal, slate and copper industries, and, yes, the aerospace industry also.

Mae isio cofio am ein pobl ni hefyd; nid dim ond economi mewn termau ariannol ydy hyn. Mae isio darparu tai fforddiadwy a swyddi da i ganiatáu i'n pobl ifanc ni aros. Mae isio gwneud yn siŵr bod ad-drefnu llywodraeth leol yn gweithio i'r gogledd. Mae isio sicrhau bod ein sectorau addysg ni, o ysgolion i addysg bellach i addysg uwch, yn darparu ar gyfer ein pobl ifanc ni—a'n pobl hŷn ni, o ran hynny—ar bob lefel. Mae gogledd Cymru sy'n methu â chystadlu yng nghyd-destun y 'northern powerhouse', er enghraifft, am nad oes gennym reilffordd wedi'i drydaneiddio neu gysylltiadau ffyrdd neu ddigidol cadarn, mewn perygl o golli ar fuddsoddiad, ac mewn perygl, o ganlyniad, o weld ei hunaniaeth a'i nodweddion yn cael eu tanseilio hefyd.

We must also bear in mind our people, as we are discussing the economy not just in financial terms. We need to provide affordable homes and good jobs to allow our young people to stay in their areas. We must ensure that the reorganisation of local government works for the benefit of north Wales. We must ensure that our education sector, from schools to further education to higher education, do provide for our young people—and for our older people, for that matter—at all levels. A north Wales that can't compete in the context of the northern powerhouse, for example, because we don't have an electrified railway or robust road or digital links, is in danger of losing out on investment and is consequently at risk of seeing its identity and its characteristics also being undermined.

Mae'r cynnig heddiw hefyd yn rhoi sylw arbennig i isadeiledd a chysylltiadau trafnidiaeth. Mi wnaeth Plaid Cymru ddefnyddio ei chyfnod mewn Llywodraeth i ddod â budd a gwelliannau i'r gogledd, i wella cysylltedd i'r de, fel rhan o'r gwaith o adeiladu ein cenedl a'i heconomi. Rydym ni hefyd yn arwain y gwaith yn y gogledd rŵan i sicrhau bod gennym gysylltiadau cryf, modern i ardaloedd masnachu dros y ffin. Rwyf fi hefyd, yn fy rôl i fel llefarydd ar yr economi a thrafnidiaeth o fewn y blaid, yn ogystal â fel Aelod Cynulliad Ynys Môn, wrth gwrs, wedi rhoi cryn sylw i sicrhau bod ein cysylltiadau ni i'r gorllewin, yr A55, a'r cyswllt môr rhwng Caergybi ac Iwerddon, yn cael eu datblygu a'u cryfhau hefyd.

The motion today also covers on infrastructure and transport links. Plaid Cymru used its time in Government to bring benefits and improvements to north Wales, and to improve connectivity with south Wales as part of our nation building and building the economy. We are also leading the work in north Wales now to ensure that we have strong modern links to trading areas across the border. I have also, in my role as the economic and transport spokesperson within Plaid Cymru, as well as being Assembly Member for Anglesey, of course, given a great deal of attention to ensuring that our links with the west, the A55 link, and the sea link between Holyhead and Ireland, are also developed and strengthened.

Fe wna i droi at reilffyrdd yn benodol. Cyn sôn am drydaneiddio llinell y gogledd yn benodol, gair yn gyntaf am HS2. Mae Llywodraeth Prydain yn dadlau, wrth gwrs, mai prosiect Prydain-gyfan ydyw. Mae Plaid Cymru yn dadlau mai prosiect i Loegr ydyw, fel y mae, ac y dylai Cymru gael cyfran o'r arian sy'n cael ei fuddsoddi yn HS2 er mwyn cryfhau ein hisadeiledd ein hunain. Rwyf wedi clywed digon o ddadlau yn y Siambr hon y gallai gogledd Cymru elwa o HS2, ac fe allai. 'Gallai' yw'r gair, nid 'mi fydd' ar hyn o bryd. Cofiwch fod KPMG wedi ysgrifennu adroddiad yn dweud y gallai gogledd-orllewin Cymru fod ar ei cholled oherwydd HS2 fel y mae. Felly, y pwynt sydd gen i yw: yr unig ffordd y gallai'r gogledd elwa ydy os ydym ni wedi'n cysylltu yn effeithiol i HS2, drwy gael cyfran o'r gwariant arno. Ni allwn ddylanwadu ar a yw HS2 yn digwydd ai peidio, ond gallwn ni—ac mi ddylwn ni—fod yn tri dylanwadu ar ein cysylltedd iddo. Ac mae'n rhaid, yn hynny o beth, inni weld rheilffordd y gogledd yn cael ei thrydaneiddio.

I will turn to railways specifically. Before I turn to the electrification of the north Wales line, specifically, a few words to start on high speed 2. The UK Government argues, of course, that this is a UK-wide project. Plaid Cymru would argue that it is a project for England, as it currently stands, and that Wales should receive a percentage of the moneys invested in HS2 in order to strengthen our own infrastructure. I've heard plenty of debate in this Chamber that north Wales could benefit from HS2, and, yes, it could. The word, at present, is 'could' and not 'it will'. Don't forget that KPMG wrote a report saying that north-west Wales could actually lose out as a result of HS2 as it is currently planned. So, my point is that the only way in which north Wales could benefit is if we are effectively linked to HS2 by having a percentage of that expenditure. We cannot influence, of course, as to whether HS2 happens or not, but we can—and we should—try to influence our connectivity to it. In those terms, we must see the north Wales line electrified.

Mae'r achos yn cael ei wneud yn gryf iawn ar hyn o bryd mewn gwaith sy'n cael ei arwain gan fwrdd uchelgais economaidd y gogledd, dan gadeiryddiaeth arweinydd Plaid Cymru ar gyngor Conwy. Roedd cynhadledd lwyddiannus, bositif iawn ryw bythefnos yn ôl. Ond mae'n rhaid, rwy'n meddwl, adeiladu momentwm cenedlaethol dros hyn, fel y digwyddodd gyda'r lein o Lundain i Abertawe. Gofynnais i'r Gweinidog yn gynharach heddiw i sicrhau bod momentwm o'r newydd i'r frwydr yna, yn genedlaethol. Rwy'n barod iawn i gydweithio efo hi, fel rwy'n ei wneud gyda'r bwrdd uchelgais yn y gogledd, i fynd â'r neges i Lywodraeth Prydain yn y ffordd gryfaf posibl. Ar gyfer llinell y Great Western, mi wnaeth y Gweinidog trafnidiaeth ar y pryd, Ieuan Wyn Jones, osod ei stondin yn glir iawn, ac fe gafodd hynny ei ddilyn ymlaen gan Weinidogion Llafur yn y Llywodraeth yma. Mi oedd yna lobi drawsbleidiol, mi gofiaf, yn San Steffan, pan roedd Plaid Cymru'n cael ei chynrychioli gan Jocelyn Davies. Mae angen inni atgyfodi'r math yna o ysbryd trawsbleidiol, cenedlaethol, i sicrhau bod trydaneiddio'r gogledd yn digwydd yn y cyfnod rheoli nesaf, a hynny fel rhan o'r neges hollbwysig bod y gogledd, ac economi'r gogledd, yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth yn y cyd-destun Cymru-gyfan.

The case is made very strongly at present in work that is being led by the north Wales economic ambition board, chaired by the Plaid Cymru leader of Conwy council. There was a very successful and positive conference some fortnight ago on the issue. But we must build national momentum for this, as was the case for the line from London to Swansea. I asked the Minister earlier today to ensure that there could be renewed momentum for that battle at a national level. I am more than willing to work with her, as I do with the ambition board in north Wales, to take that message to the UK Government in the strongest possible terms. In respect of the Great Western line, the Minister for transport at the time, Ieuan Wyn Jones, did set out his stall most clearly, and that was taken forward by Labour Ministers in this Government. There was a cross-party lobby, as I recall, in Westminster, when Plaid Cymru was represented by Jocelyn Davies. We do need to revive that kind of cross-party, national spirit in order to ensure that electrification of the north Wales line happens during the next management period as part of that crucial message that north Wales and its economy should be considered a priority in the all-Wales context.

Mae'n cynnig ni hefyd yn cyfeirio at ein gobeithion ar gyfer y fasnachfraint nesaf. Mi fydd yna fasnachfraint gryfach y tro nesaf—rwy'n reit hyderus o hynny. Pwy bynnag sy'n llywodraethu, mae yna gytundeb trawsbleidiol yma ar hynny. Ond wrth i ddatganoli ganiatáu y cytundeb cryfach yna, mae yna berygl gwirioneddol, wrth gwrs, y gallai Llywodraeth Prydain ail-lunio map y fasnachfraint bresennol, a rhoi gwasanaethau sy'n rhedeg o Gymru i mewn i Loegr mewn masnachfreintiau eraill. Mae'n rhaid inni sefyll yn gadarn iawn yn erbyn newidiadau o'r fath. Mae yna resymau da iawn—hanesyddol, economaidd, cymdeithasol—pam ei bod hi'n gwneud perffaith synnwyr i gadw gwasanaethau i Loegr o fewn y fasnachfraint Gymreig.

Our motion also makes reference to our hopes for the next franchise. There will be a stronger franchise next time—I am quite confident of that. Whoever is in Government, there is a cross-party agreement in this place on that. But, as devolution allows that stronger franchise to be put in place, there is a very real risk, of course, that the UK Government could redesign the current franchise map and put services running from Wales into England in different franchises. We must stand firm against any such changes. There are very good reasons—historic, economic and social—as to why it makes perfect sense to retain those services to England within the Welsh franchise.

16:04 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:04 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly.

Yn sicr.

16:04 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. On the point of the renewal of the franchise, Rhun, do you agree with me that, given that a large part of the profit of the north-south line is actually the English side of the border, it is important that the new franchise recognises that and we don't lose funding for services on the Welsh side?

Diolch i chi am ildio. O ran y pwynt ar adnewyddu'r fasnachfraint, Rhun, a gytunwch â mi, o gofio bod rhan fawr o elw'r rheilffordd gogledd-de mewn gwirionedd ar ochr Lloegr i'r ffin, ei bod yn bwysig i'r fasnachfraint newydd gydnabod hynny ac nad ydym yn colli arian ar gyfer gwasanaethau ar ochr Cymru i'r ffin?

16:05 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What's very important to recognise, of course, is that, yes, we are talking about profitable routes, but it's important to remember that these routes are important for people living in Wales. The fact that the routes happen to run in England for many miles doesn't mean that they are somehow less important to the people of Wales, so that has got to be remembered in discussions on the next franchise maps.

Yr hyn sy'n bwysig iawn ei gydnabod, wrth gwrs, yw ein bod yn sôn am lwybrau proffidiol, ydym, ond mae'n bwysig cofio bod y llwybrau hyn yn bwysig i bobl sy'n byw yng Nghymru. Nid yw'r ffaith fod y llwybrau'n digwydd mynd drwy Loegr am filltiroedd lawer yn golygu eu bod yn llai pwysig i bobl Cymru rywsut, felly mae'n rhaid cofio hynny yn y trafodaethau ar fapiau'r fasnachfraint nesaf.

Felly, mae yna resymau da iawn pam fod y gwasanaethau yma yn cael eu cadw yng Nghymru. Fel rwyf yn ei ddweud, mae'n rhaid cofio bod y gwasanaethau hyn i feysydd awyr ac i ganolfannau masnach dros y ffin yn gwbl hanfodol i bobl Cymru.

Therefore, there are very good reasons as to why these services should be retained in Wales and within the Welsh franchise. And, as I say, we must bear in mind that these services to airports and to centres of trade over the border are entirely crucial to the people of Wales.

Let me turn to the amendments. The Liberal Democrat amendments: we support amendment 1, highlighting that electrification would help both passenger and rail freight transport. We support amendment 2 on protecting the rail links to Birmingham. We didn't mention those specifically in a north Wales context, but they are certainly essential. We don't support amendment 3, on welcoming the UK Government's supposed acknowledgement that north Wales is a central part of the northern powerhouse project. We want north Wales to benefit from it, but it isn't a central part of Government plans as things stand. We are not, for example, in the business of welcoming UK Government announcements when they are removing jobs from Porthmadog and Wrexham.

Gadewch i mi droi at y gwelliannau. Gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol: rydym yn cefnogi gwelliant 1, sy'n tynnu sylw at y ffaith y byddai trydaneiddio'n helpu trenau teithwyr a threnau cludo nwyddau. Rydym yn cefnogi gwelliant 2 ar ddiogelu'r cysylltiadau rheilffordd â Birmingham. Ni soniasom yn benodol am y rheini yng nghyd-destun gogledd Cymru, ond maent yn sicr yn hanfodol. Nid ydym yn cefnogi gwelliant 3, ar groesawu cydnabyddiaeth dybiedig Llywodraeth y DU fod gogledd Cymru yn rhan ganolog o brosiect pwerdy'r gogledd. Rydym am i ogledd Cymru gael budd ohono, ond nid yw'n rhan ganolog o gynlluniau'r Llywodraeth fel y mae pethau. Nid yw'n arferiad gennym groesawu cyhoeddiadau Llywodraeth y DU a hwythau'n cael gwared ar swyddi o Borthmadog a Wrecsam, er enghraifft.

We are more supportive of amendment 4, because we see there is a lack of a Welsh Government strategy here. Work is being done by local authorities, which has already been mentioned, and the Labour Government supports that work. But there isn't a Government strategy, as such, for the region. Perhaps that will change following today's debate. We don't support amendment 5. Every single Government Minister should be a Minister for north Wales. A named Minister might appeal to the Conservatives. I'm not after gimmicks. I'm after results. We need to ensure that north Wales is included nationally in all elements of the Government's work and not treated as a separate region in ministerial portfolios. We would support amendment 6, which notes with concern comments that were made by the chair of the North Wales Chamber of Commerce. We accept that the comments should be noted, even though devolution itself is not the problem.

Rydym yn fwy cefnogol i welliant 4, gan ein bod yn gweld nad oes strategaeth gan Lywodraeth Cymru yma. Mae awdurdodau lleol yn gwneud gwaith, sydd eisoes wedi'i grybwyll, ac mae'r Llywodraeth Lafur yn cefnogi'r gwaith hwnnw. Ond nid oes strategaeth gan y Llywodraeth ar gyfer y rhanbarth fel y cyfryw. Efallai y bydd hynny'n newid yn sgil y ddadl heddiw. Nid ydym yn cefnogi gwelliant 5. Dylai pob un o Weinidogion y Llywodraeth fod yn Weinidog dros ogledd Cymru. Efallai fod Gweinidog enwebedig yn apelio at y Ceidwadwyr. Nid wyf yn chwilio am gimics. Rwy'n chwilio am ganlyniadau. Mae angen i ni sicrhau bod gogledd Cymru yn cael ei gynnwys yn genedlaethol ym mhob elfen o waith y Llywodraeth ac na chaiff ei drin fel rhanbarth ar wahân ym mhortffolios y Gweinidogion. Rydym yn cefnogi gwelliant 6, sy'n nodi pryder ynghylch sylwadau a wnaed gan gadeirydd Siambr Fasnach Gogledd Cymru. Rydym yn derbyn y dylid nodi'r sylwadau, er nad datganoli ei hun yw'r broblem.

To conclude, the message, I think, from Plaid Cymru today is a very positive one. We say that Wales can be a cohesive nation—united in its diversity, proud of its regions. North Wales has made an enormous and valued contribution to the nation. It can and will again, but only with a clear Government strategy, and only if it's treated as an economic entity in its own right, and not as somewhere that should stand by for trickle-down economics to do it a favour. We have enormous talent and technological ingenuity. We are well located, looking east, west, south and internationally for economic growth potential. We have ambitious local political leadership through the north Wales economic ambition board, and we have business that's ready and willing to engage with future opportunities. Let's focus on our strengths, let Government see that potential, and let's make the north of Wales a real economic powerhouse.

I gloi, rwy'n meddwl bod y neges gan Blaid Cymru heddiw yn un gadarnhaol iawn. Rydym yn dweud y gall Cymru fod yn genedl gydlynus—yn unedig yn ei hamrywiaeth, yn falch o'i rhanbarthau. Mae gogledd Cymru wedi gwneud cyfraniad enfawr a gwerthfawr i'r genedl. Mae'n bosibl y gall wneud hynny eto ac y bydd yn gwneud hynny eto, ond ni all wneud hynny heb strategaeth glir gan y Llywodraeth, a heb gael ei drin fel endid economaidd yn ei hawl ei hun, ac nid fel rhywle a ddylai ddisgwyl i effaith economeg o'r brig i lawr ei ffafrio. Mae gennym dalent aruthrol a dyfeisgarwch technolegol. Mae gennym leoliad da, sy'n edrych tua'r dwyrain, y gorllewin, y de ac yn rhyngwladol am botensial twf economaidd. Mae gennym arweinyddiaeth wleidyddol leol uchelgeisiol gan fwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru, ac mae gennym fusnesau sy'n barod i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol. Gadewch i ni ganolbwyntio ar ein cryfderau, gadewch i'r Llywodraeth weld y potensial hwnnw, a gadewch i ni wneud gogledd Cymru yn bwerdy economaidd go iawn.

16:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the six amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1 and 2, tabled in his name.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn ei enw.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert at end of point 3:*

*'i wella'r potensial ar gyfer cludo teithwyr a nwyddau ar reilffyrdd.'*

*'to enhance potential for passenger and rail freight transport.'*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 4:*

*Add at end of point 4:*

*'a diogelu cysylltiadau rheilffordd â Birmingham.'*

*'and protect rail links to Birmingham.'*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:08 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy’n croesawu’r cyfle i drafod y mater pwysig hwn y prynhawn yma. Rwyf hefyd yn cynnig gwelliannau 1 a 2 ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Wrth ddweud hynny, rwy’n croesawu’r ffaith, hwyrach, fod y drafodaeth wedi symud ymlaen i ryw raddau o’r fan lle’r oeddem bum mlynedd yn ôl. Rwy’n cofio, fel arweinydd llywodraeth leol ar y pryd, fod yna bwysau arnom i beidio ymwneud ag awdurdodau ar draws y ffin. Felly, rwy’n croesawu’r ffaith, erbyn hyn, ein bod ni yn pwysleisio’r ffaith bod angen i gynghorau’r gogledd, a’r Cynulliad erbyn hyn, i drafod efo awdurdodau yng ngogledd-orllewin Lloegr. Yn y pen draw, wrth gwrs, mae yna nifer helaeth o’n poblogaeth erbyn hyn yn cymudo o rannau o’r gogledd-ddwyrain, a hyd yn oed o ardaloedd ar hyd yr arfordir, draw i Loegr, a’r ffordd arall.

Rwyf hefyd, wrth gwrs, yn cefnogi beth ddywedodd Rhun ap Iorwerth ynglŷn â’r ffaith mai pecyn yw hwn. Mae’n rhaid inni edrych ar dai fforddiadwy ac mae’n rhaid inni edrych ar safonau addysg a phethau felly fel rhan o’r pecyn hwn, ond nid oes gennyf ddigon o amser i drafod yr holl bethau hynny. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud, wrth edrych yn benodol ar gysylltiadau trafnidiaeth ydy, wrth gwrs, dweud bod angen inni edrych ar drafnidiaeth i Birmingham, nid jest i Lerpwl a Manceinion.

Rwy’n falch iawn eich bod chi’n derbyn y cynnig. Mae’r Gweinidog yn ymwybodol o’r ffaith bod yna berygl ddechrau’r flwyddyn y byddai’r trên cymudo rhwng Wrecsam a Birmingham, er enghraifft, yn cael ei dynnu allan o’r amserlen—y trên sydd â’r nifer fwyaf o deithwyr arno fo yn cymudo, yn fwy fyth na hyd yn oed Lerpwl a Manceinion ben bore. Rwyf hefyd yn credu, mae’n amlwg, fod yna drafodaethau yng ngweinyddiaeth trafnidiaeth Prydain sy’n edrych ar faint o’r llwybrau yma sy’n cael eu cynnwys yn y fasnachfraint. Fel y dywedodd yr Athro Stuart Cole rai misoedd yn ôl, mae yna berygl, nid yn unig ein bod ni’n creu anghyfleustra o ran teithwyr, ond hefyd ein bod ni’n creu ansicrwydd o ran pa mor ddeniadol ydy’r fasnachfraint yma yn y pen draw. Felly, rwy’n cytuno nad aros am friwsion y dylem ni.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to discuss this important matter this afternoon. I move amendments 1 and 2 on behalf of the Welsh Liberal Democrats. In doing so, I welcome the fact, perhaps, that the discussion has moved on to some extent from where we were five years ago. I recall, as a local government leader at the time, that there was pressure on us to not be involved with authorities on a cross-border basis. So, I welcome the fact that, by now, we are now emphasising the fact that there is a need for north Wales councils, and the Assembly, to have discussions with authorities in the north-west of England. Ultimately, of course, a large proportion of our population commutes from parts of the north-east, and even from coastal areas, to England, and vice versa.

I also, of course, support what Rhun ap Iorwerth said about the fact that this is a package. We have to look at affordable housing and we have to look at things such as education standards as part of this package, but we don’t have enough time to discuss all of those things this afternoon. What we are trying to do, in looking specifically at transport links, of course, is to say that we need to look at transport to Birmingham and not just to Liverpool and Manchester.

I am very pleased that you accept the proposal. The Minister is aware of the fact that there was a danger at the beginning of this year that the commuter train between Wrexham and Birmingham, for example, would be withdrawn from the timetable—the train that has the largest number of commuters, more so than the Liverpool and Manchester morning trains. I think that it’s obvious that there have been discussions within the transport ministry at a UK level, looking at how many of these routes are included within the franchise. As Professor Stuart Cole said a few months ago, there is a danger that we create not just inconvenience for travellers, but uncertainty in terms of how attractive this franchise is ultimately. So, I do agree that we shouldn’t be waiting for crumbs from the table.

Mae yna ofyn arnom ni, fel Llywodraeth, fel Cynulliad, i wneud yn sicr bod yna bwysau ar Lywodraeth Prydain i sicrhau bod gwella cysylltiadau rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr o bwys. Mi oedd y Gweinidog, Rhun a minnau yn yr uwchgynhadledd rai wythnosau yn ôl. Rwy'n meddwl ei bod hi'n amlwg erbyn hynny fod angen inni sicrhau bod lein y gogledd yn cael ei thrydaneiddio erbyn i HS2 gyrraedd Crewe, neu fe fyddwn ni'n colli cyfle. Er hynny, rwy'n meddwl bod angen hefyd inni ystyried beth a ddywedodd Peter Waterman, arbenigwr o'r diwydiant, a oedd yn dweud bod yna broblemau ymarferol, hyd yn oed, o ran y rheilffordd rhwng Crewe a Chaergybi. Mae yna, wrth gwrs, nifer o bontydd ar ochr Lloegr i'r ffin y bydd angen eu hailadeiladu, ond hefyd mae yna broblemau ynglŷn â thwneli yn ardal Conwy a hefyd dros bont Britannia ynglŷn ag edrych ar gyfundrefn draddodiadol o drydaneiddio uwchben y rheilffordd, felly, a hwyrach fod angen—. Nid oeddwn i, cyn imi fynd i'r gynhadledd, wedi sylweddoli, er enghraifft, fod y gyfundrefn drydanol yn ardal Glannau Merswy yn hollol wahanol i'r gyfundrefn ym Mhrydain. Felly, rwy'n meddwl bod yna angen inni edrych yn ymarferol ar y rhwystrau sydd yn ein hwynebu ni. A hefyd, wrth gwrs, mae yna angen inni wneud yn sicr bod Llywodraeth Prydain yn ymwybodol o hynny.

There is a requirement on us, as a Government and as Assembly, to ensure that pressure is brought to bear on the UK Government to ensure that improvements in transport links between the north-west of England and north Wales are seen as important. The Minister, Rhun and I were at the summit a few weeks ago, and I think it was clear from that summit that we need to ensure that the north Wales line is electrified by the time HS2 reaches Crewe, because otherwise we will lose that opportunity. Despite this, we also need to consider what Peter Waterman, an industry expert, has said, namely that there are practical problems in terms of the railway between Crewe and Holyhead. There are, of course, a number of bridges on the English side of the border that will need to be rebuilt, but there are also problems as regards tunnels in the Conwy area and over the Britannia bridge, in terms of looking at the traditional electrification system above the railway, so perhaps there is a need—. Before attending the summit, I hadn't realised, for example, that the electrification system in the Merseyside area was entirely different to the system in place on a UK-wide level. Therefore, I think that we need to look in practical terms at the barriers that we face. Also, of course, we need to ensure that the UK Government is aware of those issues.

Rwy'n meddwl hefyd ei bod hi'n amlwg, yn ystod y gynhadledd yna, fod yr achos busnes yn mynd i fod yn un anodd iawn o ran jest edrych ar sail economaidd. Y rheswm yr wyf i wedi gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau ein bod ni'n edrych ar gludo nwyddau ar y rheilffordd ydy: yn amlwg, mae yna brosiectau sydd wedi cael eu cyllido yng ngogledd Lloegr erbyn hyn, lle mae'r elw amgylcheddol yn rhan o'r ffactorau, a bydd yn bosibl inni fynd at Lywodraeth Llundain a dweud, 'Gwrandewch; os ydym ni'n sicrhau bod lorïau sydd ar hyn o bryd yn teithio o Dover i Gaergybi er mwyn mynd i Iwerddon yn cael eu rhoi ar y rheilffordd, mae yna elw i chi hefyd yn Lloegr. Nid jest elw i ni yn y gogledd-ddwyrain sydd yna'.

I think it was obvious from the summit that the business case is going to be a difficult one to make if we look solely at the economic reasons. The reason I have asked the Welsh Government to ensure that we look at freight transport on the railway is because, clearly, projects have now been funded in the north of England, where the environmental benefits were among the factors considered, and it would be possible for us to go to the Government in London and say, 'Listen, if we ensure that the freight carried by lorries travelling from Dover to Holyhead in order to reach Ireland are put on the railways, there will be a benefit for you in England as well. The benefit is not just for us in the north-east'.

Mae'n rhaid inni hefyd gyfeirio at y gwariant, y trafodaethau sy'n cymryd lle rhwng y Gweinidog a mi, ynglŷn â'r £10 miliwn yn y gogledd-ddwyrain. Hefyd, yn fyr, a gaf i ddweud ein bod ni'n cefnogi pob un o welliannau'r Ceidwadwyr heblaw'r galw am Weinidog dros ogledd Cymru, achos rwyf yn cytuno y dylai fod pob Gweinidog yma yn Weinidog dros ogledd Cymru? A hefyd, mae yna broblemau—

We also have to refer to the financial discussions taking place between the Minister and me, in terms of the £10 million in the north-east. Also, briefly, may I say that we will support all of the Conservative amendments, apart from the call for a Minister for north Wales, because I do agree that every Minister here should be a Minister for north Wales? There are also problems—

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yn gyflym.

Quickly.

16:14 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Mae yna broblemau hefyd o ran Deddf Cymru, lle nad oes ond 12 Gweinidog ar gael—

There are also problems in terms of the Wales Act, given that there are only 12 Ministers—

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Gorffennwch.

Finish, please.

16:14 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Felly, pa Weinidog yr ydym ni'n mynd i gael gwared arno er mwyn cael Gweinidog dros y gogledd?

So, which Minister are we going to get rid of in order to have a Minister for north Wales?

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood to move amendments 3, 4, 5 and 6, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 3, 4, 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU bod gogledd Cymru yn rhan ganolog o brosiect pwerdy'r gogledd.*

*Welcomes the UK Government's acknowledgement that north Wales is a central part of the northern powerhouse project.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth glir sy'n anelu at sicrhau bod gogledd Cymru yn elwa ar yr holl fanteision posibl y mae prosiect pwerdy'r gogledd yn eu cynnig.*

*Regrets the lack of a clear Welsh Government strategy aimed at ensuring north Wales reaps all possible benefits offered by the northern powerhouse project.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y byddai penodi Gweinidog Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer gogledd Cymru yn chwarae rôl hollbwysig o ran gwella perfformiad economaidd y rhanbarth.*

*Believes that the appointment of a Welsh Government Minister with designated responsibility for north Wales would play a critical role in improving the economic performance of the region.*

*Gwelliant 6—Paul Davies*

*Amendment 6—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi â phryder y sylwadau gan gadeirydd Siambr Fasnach Gogledd Cymru, a ddywedodd fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio gormod ar Gaerdydd.*

*Notes with concern the comments from the Chair of the North Wales Chamber of Commerce, who stated that the Welsh Government is too 'Cardiff-centric'.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3, 4, 5 a 6.*

*Amendments 3, 4, 5 and 6 moved.*

16:14 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We commend this motion and will only vote against it initially in order to vote on our own amendments.

Rydym yn cymeradwyo'r cynnig hwn ac ni fyddwn ond yn pleidleisio yn ei erbyn yn y lle cyntaf er mwyn pleidleisio ar ein gwelliannau ein hunain.

The performance of the north Wales economy must be strengthened as part of a cross-border economic region. As amendments 3 and 4 state, we must welcome,

Mae'n rhaid cryfhau perfformiad economi gogledd Cymru fel rhan o ranbarth economaidd trawsffiniol. Fel y mae gwelliannau 3 a 4 yn datgan, mae'n rhaid i ni groesawu,

'the UK Government's acknowledgement that north Wales is a central part of the northern powerhouse project',

'cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU bod gogledd Cymru yn rhan ganolog o brosiect pwerdy'r gogledd',

but regret,

ond rydym yn gresynu at y ffaith,

'the lack of a clear Welsh Government strategy aimed at ensuring north Wales reaps all possible benefits offered by the northern powerhouse project.'

'nad oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth glir sy'n anelu at sicrhau bod gogledd Cymru yn elwa ar yr holl holl fanteision posibl y mae prosiect pwerdy'r gogledd yn eu cynnig.'

As the Chancellor of the Exchequer stated,

‘Wales is a central part of the northern powerhouse…it is a single economic area’.

And, as the Welsh secretary, Stephen Crabb, told the Institute of Directors in north Wales this month, the northern powerhouse plan for the north of England is the best chance to bring transformational change to north Wales, and business leaders should be in the driving seat to ensure north Wales reaps the benefits of the northern powerhouse. He added that:

‘In North Wales, we have always looked east to Liverpool and Manchester for economic growth as much as we look south to Cardiff and Swansea…. But in the same way that the UK government has had the confidence to devolve powers from the centre down to Manchester, we need to see the same confidence in North Wales from politicians in Cardiff.’

It is the role of the business community in north Wales, he said, and their partners, he said,

‘to hold the feet of both the UK and Welsh Government to the fire so this part of the country can secure the world class infrastructure it deserves.’

As the North Wales economic ambition board states, ‘Team North Wales’ can help transform the economy by working together to smash down business barriers and give the region a strong voice. They say that collaboration in areas like infrastructure, education and supply chains will give north Wales strategic direction and present the area as ‘open for business’. But the timing was crucial, they said, with plans for Wylfa Newydd and the prison in Wrexham bringing huge economic opportunities. However, they had to hold their relaunch meeting in Cardiff this summer, after this Minister had reportedly rejected several invitations to attend the relaunch in the north. People in north Wales look down and see the scale of investment in the A465 Heads of the Valleys road, the Ebbw Vale line, proposals for the south Wales metro and the M4 relief road, and conclude that different sets of rules are being applied to different parts of Wales.

Fel y dywedodd Canghellor y Trysorlys,

‘Wales is a central part of the northern powerhouse…it is a single economic area’.

Ac fel y dywedodd Ysgrifennydd Cymru, Stephen Crabb, wrth Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng ngogledd Cymru y mis hwn, cynllun pwerdy’r gogledd ar gyfer gogledd Lloegr yw’r cyfle gorau i drawsnewid gogledd Cymru, a dylai arweinwyr busnes fod wrth y llyw er mwyn sicrhau bod y gogledd yn elwa ar fanteision pwerdy’r gogledd. Ychwanegodd:

‘In North Wales, we have always looked east to Liverpool and Manchester for economic growth as much as we look south to Cardiff and Swansea…. But in the same way that the UK government has had the confidence to devolve powers from the centre down to Manchester, we need to see the same confidence in North Wales from politicians in Cardiff. ’

Rôl y gymuned fusnes yng ngogledd Cymru a’u partneriaid, meddai, yw

‘to hold the feet of both the UK and Welsh Government to the fire so this part of the country can secure the world class infrastructure it deserves.’

Fel y dywed bwrdd uchelgais economaidd Gogledd Cymru, gall ‘Tîm Gogledd Cymru’ helpu i drawsnewid yr economi drwy weithio gyda’i gilydd i chwalu’r rhwystrau i fusnesau a rhoi llais cryf i’r rhanbarth. Maent yn dweud y bydd cydweithio mewn meysydd fel seilwaith, addysg a chadwyni cyflenwi yn rhoi cyfeiriad strategol i ogledd Cymru ac yn cyflwyno’r ardal fel un sy’n ‘agored i fusnes’. Ond dywedant fod yr amseru yn allweddol, gyda chynlluniau ar gyfer Wylfa Newydd a’r carchar yn Wrecsam yn creu cyfleoedd economaidd enfawr. Fodd bynnag, roedd yn rhaid iddynt gynnal eu cyfarfod ail-lansio yng Nghaerdydd yr haf hwn, ar ôl i’r Gweinidog wrthod sawl gwahoddiad i fynychu’r ail-lansio yn y gogledd, yn ôl y sôn. Mae pobl yng ngogledd Cymru yn edrych i lawr ac yn gweld maint y buddsoddiad yn yr A465 ar ffordd Blaenau’r Cymoedd, rheilffordd Glyn Ebwy, cynigion ar gyfer metro de Cymru a ffordd liniaru’r M4, ac yn dod i’r casgliad fod set wahanol o reolau ar waith ar gyfer gwahanol rannau o Gymru.

A consultation on a third Menai bridge crossing commissioned by the Welsh Government in 2007 came up with eight options to ease traffic backlog on the Britannia bridge, yet no action has been taken. It was the previous Welsh secretary, David Jones, who emphasised the need to develop a business case for the electrification of the north Wales coast railway line from Crewe to Holyhead, which had led to the north Wales economic ambition board taking this forward. The Welsh Government and Welsh Office have agreed to work together to support this essential electrification, improvements to the Wrexham to Bidston route and the Halton curve. However, it was this Minister who cut two key miles from dualling of the Wrexham to Saltney railway line whilst going ahead with a line redoubling in her own constituency. It is this Minister who is responsible for the concerns expressed by local mayors affected by roadworks at the Penmaenbach and Conwy tunnels about a 'total lack of communication' between the Welsh Government and local communities. Eight years after previous plans were rejected at public inquiry, it was this Minister who announced public information exhibitions for the A494 Deeside corridor improvement months before next May's election, when the consultation stage is not planned until after the election in autumn 2016. That is why our amendment 5 recognises that the appointment of a Welsh Government Minister with designated responsibility for north Wales will play a critical role in improving the economic performance of the region, and why our amendment 6 notes with concern the comments from the chair of the North Wales Chamber of Commerce who stated that the Welsh Government is too 'Cardiff-centric'. As he said, north Wales could be better served if it could secure its own form of devolution deal with the Welsh Government so it can respond much more quickly and in a more informed manner to ongoing developments within the region and across the border. Amen to that.

Cynigiodd ymgynghoriad ar drydedd bont dros y Fenai a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2007 wyth opsiwn ar gyfer lleddfu tagfeydd traffig ar bont Britannia, ac eto nid oes camau wedi'u cymryd. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cymru blaenorol, David Jones, yr angen i ddatblygu achos busnes ar gyfer trydaneiddio rheilffordd arfordir y gogledd o Crewe i Gaergybi, a dyna a oedd wedi peri i fwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru fwrw ymlaen â hyn. Mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gymreig wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i gefnogi'r gwaith trydaneiddio hanfodol hwn, gwelliannau i lwybr Wrecsam i Bidston a throad Halton. Fodd bynnag, y Gweinidog yma a dorrodd ddwy filltir allweddol oddi ar y gwaith deuoli ar reilffordd Wrecsam i Saltney er iddi fwrw ymlaen â gwaith deuoli rheilffordd yn ei hetholaeth ei hun. Dyma'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y pryderon a fynegwyd gan feiri lleol yr effeithir arnynt gan waith ffordd yn nhwneli Penmaen-bach a Chonwy ynghylch diffyg cyfathrebu llwyr rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau lleol. Wyth mlynedd wedi i gynlluniau blaenorol gael eu gwrthod mewn ymchwiliad cyhoeddus, dyma'r Gweinidog a gyhoeddodd arddangosfeydd gwybodaeth cyhoeddus ar waith gwella coridor yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy fisoedd cyn etholiad mis Mai nesaf, er na fwriedir cynnal y cyfnod ymgynghori tan ar ôl yr etholiad yn ystod hydref 2016. Dyna pam y mae ein gwelliant 5 yn cydnabod y bydd penodi Gweinidog Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb penodol am ogledd Cymru yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o wella perfformiad economaidd y rhanbarth, a pham y mae ein gwelliant 6 yn nodi â phryder y sylwadau gan gadeirydd Siambr Fasnach Gogledd Cymru a ddywedodd fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio gormod ar Gaerdydd. Fel y dywedodd, byddai gogledd Cymru yn cael gwasanaeth gwell pe gallai sicrhau ei ffurf ei hun ar gytundeb datganoli â Llywodraeth Cymru fel y gall ymateb yn llawer cyflymach ac mewn ffordd fwy gwybodus i ddatblygiadau parhaus yn y rhanbarth ac ar draws y ffin. Amen i hynny.

16:18

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n fraint imi gael siarad am y gogledd, rhanbarth y ces i fy alltudio iddo pan oeddwn tua mis oed, ac rwyf wedi parhau i fyw yno ers hynny. Ond nid wyf yn adnabod y darlun o'r gogledd a ddisgrifiwyd yn yr araith yna. Efallai y dylwn i ddatgan diddordeb, oherwydd rwy'n byw yn sir Conwy, ac rwy'n gadeirydd ac yn ganghellor Prifysgol Bangor, a alwyd pan es i yna yn brifysgol gogledd Cymru, a phrifysgol sydd yn denu miloedd o'i fyfyrwyr o ogledd-orllewin Lloegr.

It's a privilege to be discussing the north, an area that I was exiled to when I was around about a month old, and I have continued to live there since then. But I don't recognise the picture of north Wales described in that speech. Perhaps I should declare an interest, because I live in the county of Conwy, and I am chair and chancellor of Bangor University, which was called the university of north Wales when I was there, and a university that attracts thousands of its students from the north-west of England.

Mae tri phwynt rwyf am eu gwneud: yn gyntaf, a gaf i ofyn i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru stopio siarad byth a hefyd am ryw ffin? Nid oes yna ffin wedi bod rhwng gogledd Cymru a gogledd Lloegr ers o leiaf 1,500 o flynyddoedd. Roedd yr ymdrech ddiweddaraf i adeiladu'r ffin wedi dod o ochr Lloegr—neu ochr teyrnas Offa, fel yr oedd hi adeg hynny. Felly, dewch inni beidio â siarad am hynny, dewch inni siarad am fywyd cydffiniol, neu am y Mers, neu am y rhannau o Gymru sydd yn cysylltu â gorllewin a rhannau gwledig Lloegr. Yna, efallai y byddwn yn gallu gweld y materion yma'n gliriach.

There are three points that I want to make: first of all, may I ask Members of the National Assembly for Wales to stop continually talking about some kind of border? There has been no border between north Wales and the north of England for at least 1,500 years. The latest attempt to build that border came from the English side—or from the kingdom of Offa, as it was then. So, let us not talk about that, let us talk about coterminous life, or about the Marches, or those parts of Wales that link with the west of England and the rural parts of England. Perhaps then we can see these issues more clearly.

Y ddau bwynt rwyf am eu gwneud yn ogystal yw: rwyf am ganmol dau gynllun mawreddog sy'n digwydd bod yn etholaeth Dwyfor Meirionydd—etholaeth sydd yn y gorllewin ac yn y gogledd—sef y cynllun cynhyrfus ar gyfer porth gofod posibl ar safle maes awyr Llanbedr, a'r cynllun yr un mor gynhyrfus am y posibilrwydd o ddatblygu math newydd i'r Deyrnas Unedig o adweithydd niwclear yn Nhrawsfynydd. Mae'r ddau fater yma bellach o dan ystyriaeth ddifrifol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rwyf felly am fynegi fy niolchgarwch i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am ei pharodrwydd i ystyried y materion hyn.

The other two points that I want to make are: I want to praise two glorious schemes that happen to be in the Dwyfor Meirionnydd constituency—a constituency that is in the west and in the north—which is the exciting scheme for a possible space port on the Llanbedr airfield site, and the equally exciting scheme for the possibility of developing a new kind of nuclear reactor for the United Kingdom in Trawsfynydd. Both of these issues are now being seriously considered by the UK Government. Therefore, I want to express my thanks to the UK Government for its willingness to consider these issues.

Ynglŷn â'r porth gofod—

In terms of the space port—

[Assembly Member: 'Hear, hear.'] It's all right. It's all right.

[Aelod Cynulliad: 'Clywch, clywch.'] Mae'n iawn. Mae'n iawn.

Ynglŷn â'r porth awyr ofod, mae'r cynllun yma'n gynllun hynod. Mae o'n cyflwyno'r posibilrwydd o hediadau gan awyrennau is-gylchdro o gwmpas y ddaear a hynny ar lefel fasnachol, a hynny o ardal a gychwynnodd fel maes awyr milwrol ond sy'n ardal sydd hefyd â gofod awyr diogel ar wahân—ac mae hynny'n un o'r ystyriaethau pwysig. Rwy'n gobeithio y bydd yna gyhoeddiad buan o fewn y flwyddyn nesaf am gychwyniad ar y gwaith hwn er mwyn inni gael gweld y datblygiad posibl. Mae yna gysylltiad, yn hynny o beth, gyda'r prifysgolion a'r diwydiannau awyr ofod yng ngogledd-orllewin Lloegr.

In terms of the space port, this scheme is a wondrous scheme. It gives us the possibility of flights by suborbital craft around the globe at a commercial level, and from an area that was once a military airfield but is also an area that has a segregated safe airspace—and that is one of the important considerations. I hope that there will be an announcement early next year that this work can commence so that we can see possible developments. There is a link, in that regard, with the universities and the aerospace industries in the north-west of England.

Ac yna i ddod at ddyfodol Trawsfynydd, rwyf wedi ymrwymo, fel y gwyddoch, Ddirprwy Lywydd, i sicrhau parhad o gyflogaeth yn y diwydiant niwclear diogel a charbon isel yn y gogledd, ac yn yr ail safle lle mae yna ddiwydiant felly, sef yn Nhrawsfynydd. Mae'r gweithlu ac mae'r profiad a'r traddodiad o gynhyrchu ynni yn gryf yn y gogledd, ac mae Trawsfynydd yn haeddu ystyriaeth fuan yn y cynllun sydd yn barod yn tyfu ym meddwl yr Ysgrifennydd Gwladol ynni, Amber Rudd, yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn datblygu adweithyddion modiwlaidd bychan ar safleoedd addas. Yna, rwyf am orffen—[Torri ar draws.]

And then to come to the future of Trawsfynydd, I am committed, as you know, Deputy Presiding Officer, to ensuring the continuation of employment in the safe, low-carbon nuclear industry in north Wales, and in the second site where such an industry exists, namely Trawsfynydd. The workforce and the experience and the tradition of producing energy is strong in north Wales, and Trawsfynydd deserves early consideration in the scheme that is already developing in the thinking of the Secretary of State for energy in the UK Government, Amber Rudd, to develop small modular reactors on appropriate sites. I want to conclude—[Interruption.]

16:22

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:22

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course—I give way to my colleague from the Wye valley.

Wrth gwrs—ildiaf i fy nghyd-Aelod o ddyffryn Gwy.

16:22

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. Do you agree with me that one of the potential advantages of a nuclear station of the type that you've described at Trawsfynydd is, because of the inland location, it would be less vulnerable to the effects of climate change, such as sea-level rise?

Diolch i chi am ildio. A ydych yn cytuno â mi mai un o fanteision posibl gorsaf niwclear o'r math a ddisgrifiwch yn Nhrawsfynydd, oherwydd y lleoliad mewndirol, yw y byddai'n llai agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis lefel y môr yn codi?

16:23

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if the sea rose as high as Llyn Trawsfynydd, then we're all in trouble. [Laughter.]

Wel, pe bai'r môr yn codi cyn uched â Llyn Trawsfynydd, rydym i gyd mewn trafferth. [Chwerthin.]

Finally, I want to thank the Minister—this Minister—for the way in which the Welsh Government has dealt with the United Kingdom Government and discussions among officials on these matters.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog—ein Gweinidog yma—am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a thrafodaethau ymhlith swyddogion ar y materion hyn.

Rwyf eisiau diolch i'r Gweinidog am yr arweiniad y mae hi wedi dangos, yn arbennig dynodiad Eryri fel parth menter. Mae'n rhaid inni edrych, fel y dywedodd y Gweinidog yn gynharach, ar y parthau menter fel parthau datblygu at y dyfodol. A gaf i ei sicrhau hi bod ganddi gefnogaeth arweinydd Conwy ac arweinydd Gwynedd yn unrhyw ddatblygiad y mae'n rhagweld yn yr ardal yna? Rwy'n edrych ymlaen at sicrhau y bydd gennym, mewn gwirionedd, bwerdy yn y gogledd, oherwydd pwerdy ynni Cymru ydy'r gogledd yn barod.

I want to thank the Minister for the leadership she has shown, particularly the designation of Snowdonia as an enterprise zone. We must, as the Minister said earlier, look at the enterprise zones as zones for future development. May I assure her that she has the support of the leader of Conwy and Gwynedd councils in any development that she anticipates in that area? I look forward to ensuring that we will have a true north Wales powerhouse, because north Wales is already the energy powerhouse of Wales.

16:24

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say that I've agreed with very much of what the two speakers from Plaid have said today. Again, perhaps I ought to declare an interest in as much as I live within north Wales and of course I travel the roads and I use the services and do much else there. Perhaps I should remind this Chamber that, while we talk about the cuts that the Conservatives have been imposing on us since 1999, I'm perhaps a little bit older than a lot of people here, and I can remember the cuts that the Conservatives—[Interruption.] No, I won't, I've just started—the cuts that were imposed on the whole of Wales way before that. I was a member of a council that had to cut its budget constantly to meet the most horrendous effects of having the Conservatives in power.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i wedi cytuno â llawer iawn o'r hyn y mae'r ddau siaradwr ar ran Plaid Cymru wedi ei ddweud heddiw. Unwaith eto, efallai y dylwn ddatgan buddiant i'r graddau fy mod yn byw yng ngogledd Cymru ac wrth gwrs rwy'n teithio ar y ffyrdd ac rwy'n defnyddio'r gwasanaethau ac yn gwneud llawer o bethau eraill yno. Efallai y dylwn atgoffa'r Siambr hon, er ein bod yn siarad am y toriadau y mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn eu gorfodi arnom ers 1999, efallai fy mod ychydig yn hŷn na llawer o bobl yma, a gallaf gofio'r toriadau y gorfododd y Ceidwadwyr—[Torri ar draws.] Na, ni wnaf, newydd ddechrau rwyf fi—y toriadau a orfodwyd ar Gymru gyfan cyn hynny. Roeddwn yn aelod o gyngor y bu'n rhaid iddo dorri ei gyllideb yn gyson i fynd i'r afael ag effeithiau mwyaf erchyll cael y Ceidwadwyr mewn grym.

But I am pleased to be able to speak in this debate because I recently raised some of the issues that have been raised here in this Chamber, particularly around the need to look at developing the north Wales economy by promoting cross-border economic activity within the north-west of England. That would enable businesses in north Wales to take advantage of the proposed northern powerhouse. However, the commitment of the UK Government is almost invisible. Indeed, they seem to regard it as a competitor, rather than a collaborator, as the Welsh Government does see it.

Ond rwy'n falch o allu siarad yn y ddadl hon oherwydd fy mod, yn ddiweddar, wedi crybwyll rhai o'r materion a gafodd sylw yma yn y Siambr hon, yn enwedig ynglŷn â'r angen i edrych ar ddatblygu economi gogledd Cymru drwy hybu gweithgarwch economaidd ar draws y ffin yng ngogledd-orllewin Lloegr. Byddai hynny'n galluogi busnesau yng ngogledd Cymru i fanteisio ar y pwerdy gogleddol arfaethedig. Fodd bynnag, mae ymrwymiad Llywodraeth y DU bron yn anweledig. Yn wir, maent i'w gweld yn ystyried y rhanbarth fel cystadleuydd, yn hytrach na chydweithredwr, fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei weld.

I raised the need to strengthen transport links, including the electrification of the north Wales main line, which, again, others have raised here again, and I think that we more or less agree on how important it is. The First Minister has made clear his support and pointed to the work the Welsh Government is doing to press the case. Disappointingly, there's been no commitment in today's spending review for the north Wales electrification from the Conservative Government—fine words, no money. In contrast, though, you, Minister, are working hard with the north Wales economic ambition board, the Mersey Dee Alliance, and others, on a very clear strategy that will enable north Wales to take advantage of any opportunities that arise. I must ask how we, in this place, can further press the case for electrification and see what influence we can bring to bear on the Westminster Government and, generally, how we can work to promote the north Wales economy, working in partnership with the north Wales economic ambition board, as they are keen to work with others.

Tynnais sylw at yr angen i gryfhau cysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys trydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru, sydd, unwaith eto, wedi cael sylw gan eraill yma, a chredaf ein bod fwy neu lai yn cytuno ar ba mor bwysig yw hynny. Mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan ei gefnogaeth yn glir ac wedi tynnu sylw at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn pwyso dros hyn. Mae'n siomedig na wnaed unrhyw ymrwymiad yn yr adolygiad o wariant heddiw gan y Llywodraeth Geidwadol i'r gwaith trydaneiddio ar gyfer gogledd Cymru—geiriau gwych, dim arian. Ar y llaw arall fodd bynnag, rydych chi, Weinidog, yn gweithio'n galed gyda bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru, Cynghrair Mersi Dyfrdwy ac eraill ar strategaeth glir iawn a fydd yn galluogi gogledd Cymru i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd sy'n codi. Mae'n rhaid i mi ofyn sut y gallwn ni, yn y lle hwn, bwyso ymhellach dros drydaneiddio a gweld sut y gallwn ddylanwadu ar Lywodraeth San Steffan, ac yn gyffredinol, sut y gallwn weithio i hybu economi gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru, gan eu bod yn awyddus i weithio gydag eraill.

I must point to the £42 million-worth of work that is going on on the A55 to try to improve the traffic flow and safety. There are great difficulties there; they've been there since the day it was built. I think it is recognised there are limitations, physically, on what can be done on the A55. But, Minister, you at least are now trying to see that those improvements happen to improve the traffic flow. Perhaps you can also give an update on proposals to improve the Deeside corridor, following the recent consultation. Work is needed here to ease congestion on what really is an important gateway to north Wales.

Mae'n rhaid i mi dynnu sylw at y gwerth £42 miliwn o waith sy'n digwydd ar yr A55 i geisio gwella llif y traffig a diogelwch. Mae yna anawsterau mawr yno; maent wedi bod yno ers y diwrnod y cafodd y ffordd ei hadeiladu. Rwy'n credu ein bod yn cydnabod bod cyfyngiadau, yn ffisegol, ar yr hyn y gellir ei wneud ar yr A55. Ond Weinidog, o leiaf rydych yn awr yn ceisio sicrhau bod y gwelliannau hynny'n digwydd er mwyn gwella llif y traffig. Efallai y gallwch hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i wella coridor Glannau Dyfrdwy yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar. Mae angen gwaith yma i leddfu tagfeydd ar fynedfa bwysig iawn i ogledd Cymru.

Finally, can I just touch on the Deeside enterprise zone and Airbus? Although they're not in my constituency, the support given by the Welsh Government has been absolutely invaluable, safeguarding thousands of jobs, as well as providing skills training. That's benefited workers, yes, on the English side, and, like Dafydd Elis-Thomas, I think that we ought to stop regarding borders as being somehow Chinese walls between us, because they're not. It really has benefited my part of the economy and further north. What we need to do now is to ensure that workers in those areas can get to the Deeside enterprise zone, and others, and improve the economy in the whole region, including my own constituency of Delyn.

Yn olaf, a gaf fi gyffwrdd ar ardal fenter Glannau Dyfrdwy ac Airbus? Er nad ydynt yn fy etholaeth, mae'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn gwbl amhrisiadwy, yn diogelu miloedd o swyddi, yn ogystal â darparu hyfforddiant sgiliau. Mae hynny wedi bod o fudd i weithwyr ar ochr Lloegr, do, ac fel Dafydd Elis-Thomas, rwy'n meddwl y dylem roi'r gorau i ystyried ffiniau fel muriau Tsieineaidd rhyngom ni rywsut, gan nad dyna ydynt. Mae wedi bod o fudd gwirioneddol i fy rhan i o'r economi ac ymhellach i'r gogledd. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn awr yw sicrhau y gall gweithwyr yn yr ardaloedd hynny gyrraedd ardal fenter Glannau Dyfrdwy, ac ardaloedd eraill, a gwella'r economi yn y rhanbarth cyfan, gan gynnwys fy etholaeth i, sef Delyn.

So, let's not forget the work that's already being done to strengthen the north Wales economy in the face of savage Tory cutbacks to the Welsh Government's budget. [Interruption.] You may laugh; I don't. But we must recognise that there is a consistent need to continue to develop everything that we can do to improve the economy of north Wales.

Felly, gadewch i ni beidio ag anghofio'r gwaith a wnaed eisoes ar gryfhau economi gogledd Cymru yn wyneb toriadau Torïaidd ffyrnig i gyllideb Llywodraeth Cymru. [Torri ar draws.] Efallai eich bod chi'n chwerthin; nid wyf fi'n gwneud. Ond rhaid i ni gydnabod yr angen cyson i barhau i ddatblygu popeth y gallwn ei wneud i wella economi gogledd Cymru.

16:28

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i jest wneud cyfeiriad? Mae cryn dipyn o sôn wedi bod am drydaneiddio lein y gogledd, a bod yna gytundeb trawsbleidiol; wel, fel y dywedodd Sandy Mewies, nid oes unrhyw fath o addewid wedi deillio eto heddiw gan y Canghellor i'r math yna o gynllun ac, wrth gwrs, rwy'n credu y dylem ni hefyd atgoffa'n hunain y buodd Llafur mewn Llywodraeth am 12 mlynedd, ac mi ddaru nhw ychwaith ddim rhoi blaenoriaeth i'r lein yma. Y gwir amdani yw nad yw Cymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

May I just make one reference? There has been a great deal of talk about electrifying the north Wales line, and that there is cross-party agreement; well, as Sandy Mewies said, no promise has yet come from the Chancellor today for that kind of scheme and, of course, I think we should also remind ourselves that Labour was in Government for 12 years, and they, too, didn't give priority to this line. The truth is that Wales is not a priority for the United Kingdom Government.

Mae cryn dipyn o gyfeiriadau wedi bod at y 'northern powerhouse' a'i effaith llesol posib ar ein gogledd ni. Yn wir, fe gyfeiriwyd at eiriau Stephen Crabb, yn dweud mai pwerdy gogledd Lloegr yw

'our best chance to bring transformational change to North Wales'.

There have been many references to the northern powerhouse and its potential beneficial effect on our north. Indeed, there was reference to Stephen Crabb's words, saying that the northern powerhouse is

'our best chance to bring transformational change to North Wales'.

Wel, dyna brofi diffyg uchelgais y Toriaid ar ran y gogledd. Yr unig obaith, yn ôl Mr Crabb a'r Toriaid, ydy diolch am y briwsion sy'n syrthio o fwrdd trymlwythog Manceinion a'i hardal. Rwy'n meddwl ei bod yn werth inni gymryd gair o rybudd fan hyn. Pan benderfynodd y BBC symud 2,500 o'i staff o Lundain i MediaCityUK yn Salford Quays, roedd sôn mawr am y cyfleoedd a fyddai'n agor i gynhyrchwyr teledu y gogledd a hefyd i'r gweithwyr yn y diwydiant hwnnw. Hyd y gwn i, nid oes dim cytundebau wedi eu hennill oherwydd y symud hwnnw, a fawr o gyfleon gwaith chwaith i weithwyr y diwydiant yn y gogledd. Felly, rwy'n meddwl bod honno'n wers bwysig i ni gyd ddeall, ac i ni beidio meddwl bod yna ryw waredigaeth fawr yn y cynllun annelwig yma am y 'northern powerhouse'.

Well, that proves the lack of ambition for the north by the Tories. The only hope, according to Mr Crabb and the Tories, is to thank for the crumbs that come from the overladen table of Manchester and its surrounding area. I think it's worth us sounding a note of warning here. When the BBC decided to move 2,500 staff members from London to MediaCityUK in Salford Quays. There was a great deal of talk about the opportunities that would be opened up to television producers in the north and also to the workers in that industry. As far as I see it, no contracts have been won because of that move, and very few work opportunities for workers in the industry in the north. So, I think that is an important lesson for all of us to understand, so that we don't think that there is some kind of great salvation in this promise of a northern powerhouse.

Mae'n rhaid i ni greu ein momentwm ein hunain yn y gogledd ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos yr un 'commitment' gwario i'r gogledd ag a wneir i'r de-ddwyrain. Ac yn hyn o beth, mae bwrdd uchelgais y gogledd yn gwneud gwaith diddorol a phwysig i hyrwyddo cynlluniau pellgyrhaeddol eu dylanwad o dan arweiniad y cynghorydd Dilwyn Roberts, fel y cyfeiriwyd ato eisoes.

We need to create our own momentum in the north and the Welsh Government has to show the same spending commitment for the north as made to the south-east. And in this regard, the economic ambition board in the north is doing exciting and important work to put together far-reaching schemes under Councillor Dilwyn Roberts, as referred to earlier.

Felly, i ni, mae'n amlwg bod gan brifysgolion y gogledd—Glyndŵr, er gwaethaf ei phroblemau, a Bangor—rôl allweddol o ran hyrwyddo economi'r gogledd. Maen nhw'n ddiwydiannau pwysig ynddyn nhw eu hunain, wrth gwrs, ac yn ychwanegu'n sylweddol at gyflogaeth ac at ein GVA. Ond hefyd, wrth gwrs, mae ymchwil yn hanfodol, a hwnnw'n ymchwil o'r safon uchaf. Fe gafodd Prifysgol Bangor ganmoliaeth am ansawdd llawer iawn o'i hymchwil yn ddiweddar. Mae'n rhan o broject IDEAL ar y cyd â sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag ymchwil ar sut mae byw gyda nam gwybyddol a dementia. Mae grant sylweddol hefyd wedi ei ennill ym maes seicoleg ymddygiadol, ac fe dderbyniodd sefydliad ymchwil canser y brifysgol glod arbennig am ansawdd ei waith yn ddiweddar. Mae Bangor hefyd yn flaenllaw ym maes ymchwil amgylcheddol.

So, it's clear that universities in north Wales—Glyndŵr, despite its problems, and Bangor—have a key role in terms of promoting the north Wales economy. They're important industries in their own right and of course they add to employment and GVA. But also of course, research is crucial, and research of a high quality. Bangor was praised for the quality of a great deal of its research recently. It is part of the IDEAL project, on a joint basis with other institutions involved in research on how to live with cognitive impairments and dementia. A significant grant has been won in the field of behavioural psychology and the cancer research institute received particular praise for the quality of its work recently. Bangor is also at the forefront of environmental research.

Mae'r ymchwil ym maes iechyd sy'n digwydd ym Mangor yn sail wych, rwy'n credu, i greu ysgol feddygol yn y gogledd a fyddai'n denu arbenigwyr i ddarlithio, i wneud ymchwil ac i weithio yn y gwasanaeth iechyd. Byddai'n denu'r gorau ac yn codi safonau. Ac o gynyddu ymchwil iechyd, mae potensial i fanteisio ar y parc gwyddoniaeth sydd wedi ei sefydlu ar Ynys Môn, gyda'i gysylltiad agos â'r brifysgol, wrth gwrs, i ddenu cwmnïau ac i greu cwmnïau o'r newydd. Wedi'r cwbl, nod y parc ydy masnacheiddio projectau ymchwil a'u datblygu yn fusnesau a fydd yn tyfu'n gyflym.

The health research that happens in Bangor is an excellent basis for setting up a medical school in north Wales, which would draw in experts to teach, conduct research and work in the health service. It would draw in the best and would raise standards. In increasing health research, there is potential to take advantage of the science park that has been established on Anglesey, with its close links to the university, of course, to draw in companies and to create new companies. After all, the aim of the park is to commercialise research projects and to develop them into businesses that will grow quickly.

Fe wna i ddim cyfeirio at yr anhawster sydd yna yn gyffredinol yng Nghymru i ddenu arian ymchwil Undeb Ewropeaidd—Horizon 2020—ond mae'r gymhariaeth ag Iwerddon yn un, rwy'n credu, sy'n allweddol. Yn y rownd gyntaf, derbyniodd Cymru dim ond gwerth €30 miliwn o brojectau. Roedd Gweriniaeth Iwerddon, ar y llaw arall, wedi denu gwerth €127 miliwn, ac mae ganddyn nhw darged o €1.25 biliwn o brojectau erbyn 2020. Dyna ydy uchelgais go iawn, a dyna'r math o uchelgais sydd ei angen arnom ni yn y gogledd. Mae'r maes iechyd yn wasanaeth yn gyntaf, ond mae hefyd â photensial i fod yn sbardun i ymchwil blaengar sy'n troi hefyd yn fusnesau uwchdechnolegol sy'n gwerthu eu gwasanaeth i'r byd. Fe all fod yn gatalydd i greu swyddi da a chreu cyfoeth ar hyd a lled y gogledd.

I won't refer to the difficulties that exist in general in Wales in attracting research funding from the European Union—Horizon 2020—but the comparison with Ireland is one that I do think is key. In the first round, Wales received only €30 million worth of projects. The Republic of Ireland on the other hand drew in €127 million worth, and they have a target of €1.25 billion worth of projects by 2020. That's true ambition, and that's the kind of ambition that we need in north Wales. Health is a service first, but it also has potential to be a boost for important research that turns into high-tech businesses that sell their services to the world. It can be a catalyst for creating good jobs and creating wealth across north Wales.

16:33

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to spend a few minutes contributing to this debate, talking about the potential of renewable energy in north Wales, and, particularly, the unique role I think that community-owned energy can play. We know, of course, that there's a huge debate raging around energy in the UK at the moment, and it isn't just a debate about fossil fuels, renewable energy, dirty or clean or old over new—it's also a debate, of course, around centralised and decentralised energy. As we know here, the UK Government holds practically all the cards. London decides on consenting large energy projects in Wales. London decides on grid infrastructure, and, of course, they too hold all the financial incentives.

Hoffwn dreulio ychydig funudau o fy nghyfraniad at y ddadl hon yn siarad am botensial ynni adnewyddadwy yng ngogledd Cymru, ac yn arbennig, y rôl unigryw y credaf y gall ynni sy'n eiddo i'r gymuned ei chwarae. Gwyddom wrth gwrs fod yna ddadl enfawr yn rhuo ynghylch ynni yn y DU ar hyn o bryd, ac nid dadl am danwydd ffosil, ynni adnewyddadwy, brwnt neu lân neu hen yn hytrach na newydd yn unig yw hi—mae hi hefyd yn ddadl, wrth gwrs, ynghylch ynni canolog a datganoledig. Fel y gwyddom yma, Llywodraeth y DU sy'n dal y cardiau i gyd i bob pwrpas. Llundain sy'n penderfynu ar ganiatáu prosiectau ynni mawr yng Nghymru. Llundain sy'n penderfynu ar seilwaith grid, ac wrth gwrs, Llundain hefyd sy'n dal yr holl gymhellion ariannol.

But I believe passionately that it is a debate that we have to win, because more of the same isn't going to transform the Welsh economy, and the north Wales economy in this context. Carrying on as we are means that there's a potential for around 10,000 jobs in energy in Wales; that's less than 1 per cent of the Welsh workforce—a far cry from the 0.25 million who worked in coal many, many years ago.

Ond rwy'n credu'n gryf ei bod yn ddadl y mae'n rhaid i ni ei hennill, gan nad yw mwy o'r un peth yn mynd i drawsnewid economi Cymru, ac economi gogledd Cymru yn y cyd-destun hwn. Mae dal ati i wneud yr hyn a wnawn yn golygu bod yna botensial ar gyfer tua 10,000 o swyddi ym maes ynni yng Nghymru; mae hynny'n llai nag 1 y cant o weithlu Cymru—yn wahanol iawn i'r 0.25 miliwn a oedd yn gweithio yn y diwydiant glo lawer iawn o flynyddoedd yn ôl.

'More of the same' means that the technology isn't ours, the intellectual property isn't ours and the investment capital isn't ours. 'More of the same' effectively means others potentially exploiting our resources and repeating the mistakes and injustices of the past, as we've seen in coal, in slate and in water.

Mae 'mwy o'r un peth' yn golygu nad ni sydd pia'r dechnoleg, na'r eiddo deallusol, na'r cyfalaf buddsoddi. Mae 'mwy o'r un peth' i bob pwrpas yn golygu y gallai eraill fanteisio ar ein hadnoddau ac ailadrodd camgymeriadau ac anghyfiawnder y gorffennol, fel y gwelsom yn y diwydiant glo, y diwydiant llechi a'r diwydiant dŵr.

That's why I believe that one of the priorities of any Welsh Government today should be to fill the vacuum that exists at a municipal level in terms of energy. It is very much about who owns it, who runs it and how you can introduce more community ownership of energy to create a new engagement of people around wider issues then, be it energy policy, resilience, natural resources or climate change. Social enterprise, I think, has a big, big contribution to make as well—as well, of course, as broader economic development. Community energy is a key that can unlock a lot of our economic potential in north Wales. It's then about growing indigenous jobs, capacity, knowledge, structures and new ways of working from our communities upwards. As Rhun ap Iorwerth said in his opening remarks, it's just as much about people as it is about anything else. I think community energy can actually be the spark that ignites that process that helps transform people's mindsets and then develops that into other realms. The analogy of the economy being a leaking bucket, I think, with too much money flowing out of it has never been truer than maybe in energy in north Wales. We need to plug those holes and make sure that as many of those benefits as possible recirculate within the local economy for the good of our communities.

Dyna pam rwy'n credu y dylai unrhyw Lywodraeth Cymru heddiw ei gwneud yn flaenoriaeth i lenwi'r gwagle sy'n bodoli mewn perthynas ag ynni ar lefel gymunedol. Mae'n ymwneud i raddau helaeth â phwy sy'n berchen arno, pwy sy'n ei reoli a sut y gallwch gyflwyno mwy o gynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned er mwyn creu ymgysylltiad o'r newydd â phobl mewn perthynas â materion ehangach, boed yn bolisi ynni, cydnerthedd, adnoddau naturiol neu newid yn yr hinsawdd. Mae gan fentrau cymdeithasol gyfraniad mawr iawn i'w wneud hefyd yn fy marn i—yn ogystal â datblygiadau economaidd ehangach, wrth gwrs. Mae ynni cymunedol yn allwedd a all ddatgloi llawer o'n potensial economaidd yn y gogledd. Mae'n ymwneud felly â chreu swyddi, meithrin gallu a gwybodaeth, a datblygu strwythurau a ffyrdd newydd brodorol o weithio o'n cymunedau i fyny. Fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth yn ei sylwadau agoriadol, mae'n ymwneud lawn cymaint â phobl ag unrhyw beth arall. Rwy'n credu mewn gwirionedd y gall ynni cymunedol fod yn wreichionen i danio'r broses sy'n helpu i drawsnewid meddylfryd pobl a datblygu hynny wedyn i feysydd eraill. Credaf fod cymharu'r economi â bwced sy'n gollwng, gyda gormod o arian yn llifo allan ohono, yn fwy gwir nag erioed o bosibl yng nghyd-destun ynni yng ngogledd Cymru. Mae angen i ni gau'r tyllau a gwneud yn siŵr fod cymaint â phosibl o'r manteision hynny'n cylchredeg eto yn yr economi leol er lles ein cymunedau.

The days of the old hub-and-spoke model of energy should be numbered. We have to move away from the outdated model of large centralised energy generation that's then, rather ineffectively I have to say, transported across the country along an ageing, expensive, creaking, near-capacity national grid. New energy means more local energy generation closer to where it is consumed, interconnected through a spider's web of smart local grids, which is much more efficient, more resilient, less intrusive and less expensive. As somebody said, we need to see new energy do to old energy what the mobile phone has done to the telephone box. And, of course, we know in north Wales we have the potential to do that. It isn't a pipe dream; it's already happening, of course, in other countries. We're behind the game here in Wales. Germany has gone from having its big four energy companies to having more than 1 million entities feeding into its power grid—individual homes, schools, communities, small businesses, large businesses all seeing it as their business to generate their own energy but also then, of course, seeing the economic benefits of doing so—

Dylai dyddiau'r hen fodel prif ganolfan a lloerennau ar gyfer ynni fod wedi'u rhifo. Mae'n rhaid i ni symud oddi wrth y model hen ffasiwn o gynhyrchu llawer o ynni'n ganolog a'i gludo wedyn, yn aneffeithiol braidd, rhaid i mi ddweud, ar draws y wlad ar hyd hen grid cenedlaethol drud a bregus sydd bron â chyrraedd ei gapasiti. Mae ynni newydd yn golygu cynhyrchu ynni'n fwy lleol yn nes at ble y caiff ei ddefnyddio, wedi'i ryng-gysylltu drwy we pry cop o gridiau lleol clyfar, sy'n llawer mwy effeithlon, yn fwy gwydn, yn llai ymwthiol ac yn llai costus. Fel y dywedodd rhywun, mae angen i ni weld ynni newydd yn gwneud i hen ynni yr hyn a wnaeth y ffôn symudol i'r blwch ffôn. Ac wrth gwrs, yng ngogledd Cymru, gwyddom fod gennym botensial i wneud hynny. Nid yw'n freuddwyd gwrach; mae eisoes yn digwydd mewn gwledydd eraill, wrth gwrs. Rydym ar ei hôl hi yma yng Nghymru. Mae'r Almaen wedi datblygu o fod â phedwar cwmni ynni mawr i gael mwy nag 1 filiwn o endidau'n bwydo i'r grid pŵer—cartrefi, ysgolion, cymunedau, busnesau bach, busnesau mawr a phawb yn ystyried mai eu busnes yw cynhyrchu eu hynni eu hunain a gweld wedyn, wrth gwrs, y manteision economaidd sy'n deillio o wneud hynny—

16:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:37 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I will.

Gwnaf, fe ildiaf.

16:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful. I know it's a debate about north Wales, but it's not only happening elsewhere in the world; it's happening here in south Wales also. Awel Aman Tawe at the moment are selling shares in their community wind turbine. That's an example for all parts of Wales.

Rwy'n ddiolchgar iawn. Rwy'n gwybod mai dadl am ogledd Cymru yw hon, ond nid mewn mannau eraill o'r byd yn unig y mae'n digwydd; mae'n digwydd yma yn ne Cymru hefyd. Ar hyn o bryd, mae Awel Aman Tawe yn gwerthu cyfranddaliadau yn eu tyrbin gwynt cymunedol. Dyna esiampl i bob rhan o Gymru.

16:37

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wholeheartedly agree there are examples, but, of course, we need to mainstream that. That should be something that is replicated in all parts of Wales. So, when we talk, for example, about devolution of energy, it's not just a constitutional argument; it's as much an economic argument as it is anything else. We already, as we've heard, generate twice as much electricity as we use, but, of course, we don't own much of it; we don't enjoy the economic return, maybe, that we should from it. Getting community energy right at a scale can change that and it can seriously contribute to making Wales, and north Wales particularly, literally the powerhouse that we know it is, but also the economic powerhouse that we know it can be.

Cytunaf yn llwyr fod yna enghreifftiau, ond wrth gwrs, rhaid i ni brif ffrydio hynny. Dylai fod yn rhywbeth sy'n cael ei ailadrodd ym mhob rhan o Gymru. Felly, pan soniwn am ddatganoli ynni, er enghraifft, nid dadl gyfansoddiadol yn unig yw hi; mae'n ddadl economaidd lawn cymaint ag unrhyw beth arall. Fel y clywsom, rydym eisoes yn cynhyrchu ddwywaith cymaint o drydan nag a ddefnyddiwn, ond wrth gwrs, nid ydym yn berchen ar lawer ohono; efallai nad ydym yn mwynhau'r elw economaidd y dylem ei gael ohono. Gall ynni cymunedol ar raddfa fawr newid hynny a gall gyfrannu o ddifrif at wneud Cymru, a gogledd Cymru yn arbennig, yn llythrennol yn bwerdy fel y gwyddom ei fod, ond hefyd yn bwerdy economaidd y gwyddom y gall fod.

16:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

16:38

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much, Deputy Presiding officer. As a Government, we are committed to growing the economy across all parts of Wales and, in responding to this debate, I welcome the opportunity to set out some of the actions we are taking in north Wales. We are actively pursuing a wide range of activities aimed at developing a prosperous and resilient economy, such as the enterprise zones in Deeside, Snowdonia and Ynys Môn, investment in road and rail projects and supporting projects such as Wylfa Newydd. The £12 billion Wylfa Newydd new build project will be the single largest investment project in Wales over the next 10 years and is of significant importance to the economy, particularly of north-west Wales and, of course, further afield. We are committed to supporting the delivery of the new nuclear power station and are working to maximise benefits from the investment for the Welsh supply chain, which is an important aspect of this—how can we get companies in the supply chain in Wales involved so that they can have prosperity elsewhere in Wales in terms of jobs?

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i wella'r economi ar draws pob rhan o Gymru ac wrth ymateb i'r ddadl hon, rwy'n croesawu'r cyfle i amlinellu rhai o'r camau rydym yn eu cymryd yng ngogledd Cymru. Rydym wrthi'n cynnal ystod eang o weithgareddau ar gyfer datblygu economi ffyniannus a gwydn, megis y parthau menter yng Nglannau Dyfrdwy, Eryri ac Ynys Môn, yn buddsoddi mewn prosiectau ffyrdd a rheilffyrdd ac yn cefnogi prosiectau fel Wylfa Newydd. Prosiect adeiladu Wylfa Newydd, sy'n werth £12 biliwn, fydd y prosiect buddsoddi unigol mwyaf yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf ac mae'n bwysig iawn i'r economi, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru, a'r tu hwnt, wrth gwrs. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r orsaf ynni niwclear newydd ac yn gweithio i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r buddsoddiad i'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, sy'n agwedd bwysig ar hyn—sut y gallwn gael cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru i fod yn rhan o hyn er mwyn sicrhau ffyniant mewn mannau eraill yng Nghymru o ran swyddi?

The Deeside enterprise zone is associated with several anchor companies that are key employers and which have skills that are vital to the Welsh economy. The ambition is to help make Deeside a first-class environment for advanced manufacturing and technology, an area where recognised excellence is anchored in the fields of aerospace, which has been mentioned in the debate, automotive and process engineering, electronics, pharmaceuticals, construction, food, paper and packaging, and sustainable energy.

Mae ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn gysylltiedig â sawl cwmni angori sy'n gyflogwyr allweddol ac sy'n meddu ar sgiliau hanfodol i economi Cymru. Yr uchelgais yw helpu i wneud Glannau Dyfrdwy yn amgylchedd o'r radd flaenaf ar gyfer gweithgynhyrchu uwch ac uwch-dechnoleg, maes lle y caiff rhagoriaeth gydnabyddedig ei hangori ym meysydd awyrofod, sydd wedi cael sylw yn y ddadl, peirianneg fodurol a pheirianneg prosesu, electroneg, fferylliaeth, adeiladu, bwyd, papur a phecynnu, ac ynni cynaliadwy.

In addition to our superfast roll-out that continues in north Wales, so far, we've provided access to fast fibre broadband to over 170,000 households, premises and businesses in the area, investing in excess of £48 million. Whilst we're taking action to develop and support the economy in north Wales, we also recognise the importance of economic links with north-west England and continue to support the Mersey Dee Alliance to strengthen the cross-border relationships. Their work aligns with a number of our priorities including maximising the jobs, wealth and growth benefits of Deeside enterprise zone within the wider north Wales region; accessing significant employment in supply chain opportunities arising from Wirral Waters enterprise zone; and linkages with both the energy, environment and advanced manufacturing sector activities and engagement with key companies, including anchor companies within the cross-border area.

Yn ogystal â'r gwaith o gyflwyno band eang cyflym iawn sy'n parhau yng ngogledd Cymru, hyd yn hyn rydym wedi darparu mynediad at fand eang ffibr cyflym i fwy na 170,000 o gartrefi, safleoedd a busnesau yn yr ardal, gan fuddsoddi mwy na £48 miliwn. Wrth i ni roi camau ar waith i ddatblygu a chefnogi'r economi yng ngogledd Cymru, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau economaidd â gogledd-orllewin Lloegr ac yn parhau i gynorthwyo Cynghrair Mersi Dyfrdwy i gryfhau'r berthynas drawsffiniol. Mae eu gwaith yn cydweddu â nifer o'n blaenoriaethau gan gynnwys sicrhau cymaint â phosibl o swyddi, cyfoeth a manteision twf i ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn rhanbarth ehangach gogledd Cymru; sicrhau mynediad at gyflogaeth sylweddol yn y cyfleoedd sy'n codi o'r cadwyni cyflenwi sy'n deillio o ardal fenter Wirral Waters; a chysylltiadau â gweithgareddau'r sector ynni, yr amgylchedd a gweithgareddau gweithgynhyrchu uwch yn ogystal ag ymgysylltiad â chwmnïau allweddol, gan gynnwys cwmnïau angori yn yr ardal drawsffiniol.

A lot has been spoken about the northern powerhouse and I'm also very keen that north Wales has linked into the northern powerhouse, developing further the strong cross-border links between Wales and England and the associated benefits.

Mae llawer wedi cael ei ddweud am bwerdy'r gogledd ac rwy'n frwd iawn hefyd ynglŷn â'r ffaith fod y gogledd wedi cysylltu â phwerdy'r gogledd, gan ddatblygu ymhellach y cysylltiadau trawsffiniol cryf rhwng Cymru a Lloegr a'r manteision cysylltiedig hefyd.

A number of interventions have been announced towards realising the ambition of the northern powerhouse and to improve transport links. There's an opportunity for the people of north Wales to benefit from significant investments being made in the north of England. My officials are currently discussing how this could best be realised and are developing more formal working arrangements with Transport for the North, so that benefits of pan-regional working can be enhanced and extended. We expect to have a memorandum of understanding signed before Christmas with the group. Combined with other committed and proposed schemes, electrification would improve connectivity, efficiency and emissions for passengers and freight across north Wales.

Mae nifer o ymyriadau wedi'u cyhoeddi ar gyfer gwireddu uchelgais pwerdy'r gogledd a gwella cysylltiadau trafnidiaeth. Mae cyfle i bobl gogledd Cymru elwa o'r buddsoddiadau sylweddol a wneir yng ngogledd Lloegr. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion wrthi'n trafod sut y gellid gwireddu hyn yn y ffordd orau ac yn datblygu trefniadau gweithio mwy ffurfiol gyda Transport for the North, er mwyn gwella ac ymestyn gwaith ar lefel rhanbarth cyfan. Disgwyliwn gael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gyda'r grŵp cyn y Nadolig. Wedi'i gyfuno â chynlluniau eraill ymrwymedig ac arfaethedig, byddai trydaneiddio yn gwella cysylltedd, effeithlonrwydd ac allyriadau mewn perthynas â theithwyr a nwyddau ar draws gogledd Cymru.

Much has been said about the conference that was held in Llandudno on 12 November about sharing our ambition around rail modernisation, in particular electrification, and again, stakeholder commitment to support ahead of investment decisions by the transport department in 2016-17. Work has already begun on the £49 million Wrexham-Saltney redoubling scheme, which will improve journey speeds between north-east Wales and the north-west of England. The reintroduction of the Halton curve, which was identified as a priority by the ministerial taskforce under Lesley Griffiths, will allow direct services between Liverpool and north Wales. We're actively engaging with the UK Government to ensure priorities for north Wales are reflected in UK franchises, such as the West Coast, which delivers important services between London and north Wales.

Mae llawer wedi ei ddweud am y gynhadledd a gynhaliwyd yn Llandudno ar 12 Tachwedd ynglŷn â rhannu ein huchelgais ynghylch moderneiddio rheilffyrdd, yn enwedig trydaneiddio, ac unwaith eto, ymrwymiad rhanddeiliaid i gefnogi cyn penderfyniadau buddsoddi'r adran drafnidiaeth yn 2016-17. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar gynllun deuoli Wrecsam-Saltney sy'n werth £49 miliwn, ac a fydd yn gwella cyflymder teithio rhwng gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Bydd ailgyflwyno troad Halton, a nodwyd fel blaenoriaeth gan y tasglu gweinidogol dan Lesley Griffiths, yn caniatáu gwasanaethau uniongyrchol rhwng Lerpwl a gogledd Cymru. Rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn masnachfreintiau ar lefel y DU, megis rheilffordd arfordir y gorllewin, sy'n darparu gwasanaethau pwysig rhwng Llundain a gogledd Cymru.

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

16:42

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I may continue on this strand, as well as improvements to rail infrastructure and services, another vital element of supporting the north Wales economy is the road infrastructure.

Os caf barhau ar yr elfen hon, yn ogystal â gwelliannau i seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd, elfen hanfodol arall i gefnogi economi gogledd Cymru yw'r seilwaith ffyrdd.

16:42

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Like you, I welcome the investment in the Halton curve. It was an announcement that was very welcome indeed from the UK Chancellor. Can I just ask you, as well, whether you'd be able to provide an update to Members on the new train services, which are now running directly between north Wales and Manchester Airport, so that we can better promote these to the public, so that they get good use?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fel chithau, croesawaf y buddsoddiad yn nhroad Halton. Roedd yn gyhoeddiad i'w groesawu'n fawr iawn yn wir gan Ganghellor y DU. A gaf fi ofyn i chi, hefyd, a fyddech yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y gwasanaethau trên newydd, sydd bellach yn teithio'n uniongyrchol rhwng gogledd Cymru a Maes Awyr Manceinion, er mwyn i ni allu hyrwyddo'r rhain yn well i'r cyhoedd, fel eu bod yn cael defnydd da?

16:43

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I will certainly ensure that all the information that's available about services will be provided to Members.

Wel, byddaf yn siŵr o sicrhau y bydd yr holl wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â gwasanaethau yn cael ei darparu i'r Aelodau.

If I can turn now to some of the amendments, because they're quite pertinent at this point. If I deal with amendment 1, which we will be supporting, from Aled Roberts, we fundamentally agree with the amendment as it is proposed. We are particularly taken by the points that Aled Roberts made about freight in his discussions here, because it's important to recognise the importance of freight and to recognise freight on the rail. The links into the port and the links into Ireland with freight, I think, are particularly important. We'll need to do enhanced work within that area on the business case in terms of north Wales electrification.

Os caf droi yn awr at rai o'r gwelliannau, gan eu bod yn eithaf perthnasol yn y fan hon. Os caf drafod gwelliant 1, y byddwn yn ei gefnogi, gan Aled Roberts, rydym yn cytuno'n sylfaenol â'r gwelliant fel y'i cynigiwyd. Rydym yn hoff iawn o'r pwyntiau a wnaeth Aled Roberts ynghylch cludo nwyddau yn ei drafodaethau yma, gan ei bod yn bwysig cydnabod pwysigrwydd cludo nwyddau a chydnabod cludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Rwy'n credu bod y cysylltiadau â'r porthladd a'r cysylltiadau ag Iwerddon o ran cludo nwyddau yn arbennig o bwysig. Bydd angen i ni wneud gwaith ychwanegol ar hynny yn yr achos busnes ar drydaneiddio yng ngogledd Cymru.

Can I also place on record my thanks to Aled Roberts for his patience in the way that we've been dealing with the budget agreement with the Liberal Democrats on issues surrounding rail in north Wales? I think we've both found it a learning experience with Network Rail and I think it's important to recognise that not everything is perfect in terms of Network Rail, and there's a considerable amount of work to do.

A gaf fi hefyd gofnodi fy niolch i Aled Roberts am ei amynedd yn y modd y buom yn ymdrin â chytundeb y gyllideb gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol ar faterion yn ymwneud â'r rheilffyrdd yng ngogledd Cymru? Rwy'n meddwl ein bod ein dau wedi dysgu llawer o'r profiad gyda Network Rail ac rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod nad yw popeth yn berffaith o ran Network Rail, ac mae cryn dipyn o waith i'w wneud.

Also, I think he made a very valid point in amendment 2, which we're supporting, about the links to Birmingham and how they require absolute protection.

Hefyd, rwy'n meddwl ei fod wedi gwneud pwynt dilys iawn yng ngwelliant 2 am y cysylltiadau â Birmingham a sut y maent yn galw am eu diogelu'n llwyr, a byddwn yn cefnogi'r gwelliant.

With regard to the issues raised by Mark Isherwood in the amendments, we will be opposing amendment 3, because it's not clear that the UK Government considers north Wales a central part of the northern powerhouse, in my opinion. The Secretary of State for Wales recently described it as a competitor to Wales, and none of the initiatives announced so far involve funding for north Wales. I have some sympathy with the points that were raised by Rhun ap Iorwerth regarding HS2, as well, and who benefits from what in that regard.

O ran y materion a grybwyllodd Mark Isherwood yn y gwelliannau, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 3, gan nad yw'n glir fod Llywodraeth y DU yn ystyried gogledd Cymru yn rhan ganolog o bwerdy'r gogledd, yn fy marn i. Yn ddiweddar, disgrifiodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y pwerdy fel cystadleuaeth i Gymru, ac nid oes yr un o'r mentrau a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gogledd Cymru. Mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'r pwyntiau a grybwyllodd Rhun ap Iorwerth mewn perthynas â HS2 hefyd, a phwy sy'n elwa o beth mewn perthynas â hynny.

With regard to the fourth amendment, we'll be opposing that, because we've clearly set out our intention to work with the north Wales economic ambition board. Let me make it quite clear, as Councillor Dilwyn Roberts has made it quite clear: they chose to have the launch in Cardiff as an economic ambition board; it was nothing to do with my availability as a Minister.

O ran y pedwerydd gwelliant, byddwn yn gwrthwynebu hwnnw am ein bod wedi nodi'n glir ein bwriad i weithio gyda bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru. Gadewch i mi ddweud yn gwbl glir, fel y mae'r Cynghorydd Dilwyn Roberts wedi dweud yn gwbl glir: hwy fel bwrdd uchelgais economaidd a ddewisodd gynnal y lansiad yng Nghaerdydd; nid oedd â dim i'w wneud â fy ngallu i fel Gweinidog i'w fynychu.

If I now turn to amendment 5, we all have responsibility for north Wales; we are all Ministers for north Wales, west Wales and Wales as a whole, and long may that continue. I think that is particularly important.

Os caf droi at welliant 5, mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb am ogledd Cymru; mae pob un ohonom yn Weinidogion dros ogledd Cymru, gorllewin Cymru a Chymru gyfan, a hir y parhaed. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

We'll also be opposing amendment 6. The comments are actually out of date now, and I can tell you from the response we've been having in north Wales, particularly after the rail discussions and everything, business really does want to engage and does see us as wanting to engage as well.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 6. Mewn gwirionedd, mae'r sylwadau wedi dyddio bellach, a gallaf ddweud wrthych o'r ymateb a gawsom yng ngogledd Cymru, yn enwedig ar ôl y trafodaethau ar y rheilffyrdd a phopeth, mae busnesau'n awyddus iawn i gymryd rhan ac yn gweld ein bod ninnau yn awyddus i gymryd rhan hefyd.

If I look at some of the issues that have been raised as well on roads, we have the A55 as a constant subject of discussion, Deputy Presiding Officer, in this Chamber. But it is important to recognise it's carrying nearly 50,000 vehicles a day, so it is very important, and it was never designed for that purpose. So, it is important that, even how difficult it is—in terms of investment, there's £32 million to upgrade. We've got to carry on with this in terms of the road. Also, Sandy Mewies asked me for an update on the issues around her patch in terms of what we're doing on roads, because that's another important area that we have to be seen to be dealing with in the Flintshire area, going into Deeside—how we undertake these models. We make a commitment to investigate all the options about rail and road and, of course, we are looking at the Wrexham-Bidston frequency enhancements and all these issues. I'd be more than happy to update Members in due course.

Os edrychaf ar rai o'r materion a grybwyllwyd hefyd ynglŷn â'r ffyrdd, mae'r A55 yn bwnc trafodaeth yn gyson rhyngom yn y Siambr hon, Ddirprwy Lywydd. Ond mae'n bwysig cydnabod ei bod yn cario bron 50,000 o gerbydau y dydd, felly mae'n bwysig iawn, ac ni chafodd ei chynllunio at y diben hwnnw. Felly, er mor anodd yw hi—o ran buddsoddiad, mae'n bwysig fod £32 miliwn yn mynd ar ei huwchraddio. Mae'n rhaid i ni barhau gyda hyn o ran y ffordd. Hefyd, gofynnodd Sandy Mewies i mi am y wybodaeth ddiweddaraf ar y problemau yn ei hardal o ran yr hyn rydym yn ei wneud ar ffyrdd, gan fod hwnnw'n faes pwysig arall y mae'n rhaid i ni gael ein gweld yn ymdrin ag ef yn ardal Sir y Fflint, yn mynd tuag at Lannau Dyfrdwy—sut rydym yn cyflawni'r modelau hyn. Rydym yn ymrwymo i ymchwilio i'r holl opsiynau mewn perthynas â rheilffyrdd a ffyrdd ac wrth gwrs, rydym yn edrych ar wella amlder y gwasanaeth rhwng Wrecsam a Bidston a'r holl faterion hyn. Byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law.

In many ways, the debate has been excellent in terms of where there is consensus on some of the discussions here as well. But can I refer particularly to the comments made by Llyr on renewable energy? There is a big discussion to be had on renewable energy and what we need to do across Wales, not only in north Wales, and the opportunity for the economy. But he says about it being more localised—sometimes, I dream of the good old days of a central electricity generating board, when we seemed to have more order in what we did in the grid. So, can I say we will obviously be supporting the motion? But it's time, in my opinion, for the UK Government to step up to the plate on some of this work that we're doing and give the necessary commitments, especially on the electrification of the north Wales main line.

Mewn sawl ffordd, mae'r ddadl wedi bod yn rhagorol o ran lle y ceir consensws ar rai o'r trafodaethau yma hefyd. Ond a gaf fi gyfeirio'n benodol at y sylwadau a wnaeth Llyr ar ynni adnewyddadwy? Mae yna drafodaeth fawr i'w chael ar ynni adnewyddadwy a'r hyn sydd angen ei wneud ledled Cymru nid yn unig yng ngogledd Cymru, a'r cyfle i'r economi. Ond mae'n sôn am ei wneud yn fwy lleol—weithiau, rwy'n breuddwydio am hen ddyddiau da y bwrdd cynhyrchu trydan canolog, pan oedd hi'n ymddangos fel pe bai gennym fwy o drefn ar yr hyn a wnaem yn y grid. Felly, a gaf fi ddweud y byddwn yn amlwg yn cefnogi'r cynnig? Ond yn fy marn i, mae'n bryd i Lywodraeth y DU ysgwyddo'i chyfrifoldeb dros beth o'r gwaith rydym yn ei wneud a rhoi'r ymrwymiadau angenrheidiol, yn enwedig ar drydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru.

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rhun ap Iorwerth to reply.

Rhun ap Iorwerth i ymateb.

16:47 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth yma heddiw, gyda llawer o sylwadau adeiladol.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to everyone who has participated in this afternoon's debate. We've had many constructive comments.

I will begin by responding to Mark Isherwood. To say that north Wales is already a central part of the northern powerhouse is to completely miss the point about the work that needs to be done in north Wales—the positive work—in order to put us in a position where we can take advantage of the northern powerhouse. The people of Wales, frankly, don't want somebody standing here whingeing on their behalf. They don't want somebody standing up –

Dechreuaf drwy ymateb i Mark Isherwood. Mae dweud bod gogledd Cymru eisoes yn rhan ganolog o bwerdy'r gogledd yn methu'r pwynt yn llwyr o ran y gwaith sydd angen ei wneud yng ngogledd Cymru—y gwaith cadarnhaol—er mwyn ein rhoi mewn sefyllfa lle y gallwn fanteisio ar bwerdy'r gogledd. A dweud y gwir, nid yw pobl Cymru eisiau rhywun i sefyll yma i swnian ar eu rhan. Nid ydynt am i rywun sefyll drostynt—

*Mark Isherwood a gododd—*

*Mark Isherwood rose—*

16:47 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I haven't got the time; you've had your whinge. They don't want five minutes of complaints; they'd rather have 10 minutes of good ideas on what can be done to position north Wales.

Nid oes gennyf amser; rydych wedi gwneud eich swnian. Nid ydynt eisiau pum munud o gwynion; byddai'n well ganddynt 10 munud o syniadau da ynglŷn â beth y gellir ei wneud i hybu gogledd Cymru.

Responding to Aled Roberts.

Ymateb i Aled Roberts

Rydych chi'n hollol iawn, wrth gwrs, Aled Roberts, bod isio a bod yna newid wedi bod yn yr agwedd tuag at gymudo dros y ffin. Beth sydd isio inni beidio â gwneud, wrth gwrs, ydy disgyn i'r trap o fod yn fodlon ar fod yn 'dormitory' braf i bobl sy'n gweithio dros y ffin.

You're quite right, of course, Aled Roberts, that there has been a change in attitude towards commuting over the border. What we mustn't do, of course, is to fall into the trap of being willing to be a dormitory for people working over the border.

O ran Dafydd Elis-Thomas, nid wyf i'n licio anghytuno â chi yn rhy aml, ond mae yna ffin, wrth gwrs. Mae'r gair 'ffin' yn y gair 'cydffiniol' hyd yn oed. Mae yna ffin all olygu treth incwm gwahanol mewn ychydig flynyddoedd ar wahanol ochrau i'r ffin, gwahanol drethi busnes ac ati. Beth sy'n bwysig, a'r nodyn cadarnhaol allan o heddiw i mi, ydy ein bod ni'n gweithio ar ffyrdd o sicrhau nad yw'r ffin yna yn rhwystr o gwbl i gydweithredu a chydffocws sydd o fudd i'r boblogaeth ar ddwy ochr y ffin honno.

In terms of Dafydd Elis-Thomas, I don't like to disagree with you too often, but there is a border, of course. The Welsh word 'ffin' meaning 'border' is in the word 'cydffiniol' meaning coterminous. There is a border that can mean a difference in income tax in a few years between different sides of the border, different business rates and so on. What's important, on a positive note from today for me, is that we work on ways of ensuring that that border isn't any sort of barrier to collaboration and a joint focus that will benefit the population on both sides of that border.

The Minister's quite right to list a number of projects that Welsh Government is very supportive of, but it's bringing everything together strategically, I think, to put the north in a position to benefit from the opportunities of the northern powerhouse or elsewhere that we need to do.

Mae'r Gweinidog yn hollol gywir i restru nifer o brosiectau y mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn iddynt, ond rwy'n credu mai'r hyn sydd angen i ni ei wneud yw dod â phopeth at ei gilydd yn strategol, er mwyn rhoi'r gogledd mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd pwerdy'r gogledd neu fannau eraill.

Gadewch inni edrych yn bositif ar beth allwn ni ei wneud—beth allwn ni yng ngogledd Cymru ei wneud i fanteisio ar bob cyfle am fwrlwm economaidd. Mae pobl y gogledd yn gallu teimlo, ydyn, eu bod nhw ymhell iawn o benderfyniadau sy'n cael eu cymryd yng Nghaerdydd. Felly, gadewch i'r Llywodraeth yma brofi, a gadewch i bob un ohonom ni brofi, bod ein hymroddiad ni i'r gogledd, fel gweddill Cymru, yn llwyr.

Let us look positively at what we can do—what we in north Wales can do to take advantage of each and every opportunity for economic prosperity. The people of north Wales can feel that they are very far removed from decisions taken in Cardiff. So, let the Government here prove—and let each and every one of us prove that we are committed to north Wales, as we absolutely are to of the rest of Wales.

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Newid Hinsawdd

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies, a gwelliant 6 yn enw Elin Jones.*

## 7. Welsh Liberal Democrats Debate: Climate Change

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies, and amendment 6 in the name of Elin Jones.*

16:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 7 is the Welsh Liberal Democrat debate on climate change, and I call on William Powell to move the motion.

Eitem 7 yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y newid yn yr hinsawdd, a galwaf ar William Powell i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5889 Aled Roberts

Motion NDM5889 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cytundeb byd-eang ar gytuniad newid hinsawdd yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2015 ym Mharis, i sicrhau bod yr amcan y cytunwyd arno yn rhyngwladol o gyfyngu ar gyfartaledd y cynnydd mewn tymheredd byd-eang i lai na dwy radd Celsius yn aros o fewn cyrraedd; a

1. Recognises the importance of securing global agreement on a climate change treaty at the 2015 UN Climate Change Conference in Paris, to ensure that the internationally agreed objective of limiting average global temperature increases to below two degrees Celsius is kept within reach.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain gydag uchelgais drwy osod targed ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) ar gyfer gostyngiad o 100 y cant mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

2. Calls on the Welsh Government to lead with ambition by setting a target for a 100 per cent reduction in greenhouse gases by 2050 within the Environment (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:49

### William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. With the UN climate change conference in Paris on the horizon, recognition is growing that climate change is one of the biggest threats that our generation faces and that Governments across the world must do all that they can to tackle it. Political will is building to secure a global climate treaty next month that will keep the internationally agreed objective of limiting the global temperature increase to below 2 degrees Celsius within reach.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gyda chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y newid yn yr hinsawdd ym Mharis ar y gorwel, ceir sylweddoliad cynyddol mai newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu ein cenhedlaeth ni a bod yn rhaid i Lywodraethau ar draws y byd wneud popeth yn eu gallu i'w wrthsefyll. Ceir ewyllys wleidyddol gynyddol i sicrhau cytundeb hinsawdd byd-eang y mis nesaf a fydd yn cadw'r amcan y cytunwyd arno yn rhyngwladol i gyfyngu'r cynnydd byd-eang yn y tymheredd i lai na dwy radd Celsius o fewn cyrraedd.

We have tabled this debate today to give us a platform to discuss the opportunities that this conference offers for Wales, and to call on the Welsh Government to lead with ambition, to send a strong message as we enter these global negotiations that we are ready and willing to play our full part.

Rydym wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw er mwyn rhoi llwyfan i ni drafod y cyfleoedd y mae'r gynhadledd hon yn eu cynnig i Gymru, ac i alw ar Lywodraeth Cymru i arwain gydag uchelgais, er mwyn anfon neges gref wrth i ni gychwyn y trafodaethau byd-eang ein bod yn barod i chwarae ein rhan yn llawn.

Over the past decade and more, we have seen tremendous progress in reducing global poverty, with 1 billion fewer people living in extreme poverty than was the case just a few years ago. But climate change threatens to undo the excellent work of all organisations that have played such a prominent part in achieving this, with a report by the World Bank Group highlighting that, unless we tackle climate change, more than 100 million people may be pushed into poverty in the coming 15 years. Extreme weather conditions are causing havoc, seeing millions of people displaced, destroying crops and threatening and undermining food security. Rising global temperatures are increasing the spread of disease, with malaria projected to strike over 200 million people in 2015. Closer to home, we have seen four out of the five wettest years on record since the year 2000, with 5 million households in the UK now at risk of flooding. The time to act is now if we are to stop climate change from reversing the gains against poverty and from destroying our rich environment and its biodiversity.

Dros y degawd diwethaf a mwy, rydym wedi gweld cynnydd aruthrol ar leihau tlodi byd-eang, gydag 1 biliwn yn llai o bobl yn byw mewn tlodi eithafol nag a oedd ychydig flynyddoedd yn ôl yn unig. Ond mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth dadwneud gwaith ardderchog yr holl sefydliadau a chwaraeodd ran mor flaenllaw yn cyflawni hyn, gydag adroddiad gan Grŵp Banc y Byd yn amlygu y gallai mwy na 100 miliwn o bobl gael eu gwthio i dlodi yn ystod y 15 mlynedd nesaf oni bai ein bod yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae tywydd garw eithafol yn achosi distryw, ac yn peri i filiynau o bobl gael eu dadleoli, yn dinistrio cnydau ac yn bygwth ac yn tanseilio diogelwch y cyflenwad bwyd. Mae tymheredd byd-eang sy'n codi yn cynyddu lledaeniad clefydau, a rhagfynegir y bydd dros 200 miliwn o bobl yn cael malaria yn 2015. Yn nes adref, cawsom bedair o'r pum mlynedd wlypaf a gofnodwyd ers y flwyddyn 2000, gyda 5 miliwn o gartrefi yn y DU bellach yn wynebu perygl llifogydd. Nawr yw'r amser i weithredu os ydym am atal newid yn yr hinsawdd rhag gwrthdroi yr hyn a enillwyd yn y frwydr yn erbyn tlodi a rhag dinistrio ein hamgylchedd cyfoethog a'i fioamrywiaeth.

We are seeing positive moves here in Wales, with some welcome principles within the future generations Act and the Environment Bill, which will set the legislative framework for climate change mitigation. However, since the publication of the Environment (Wales) Bill, our party has been calling for more ambitious targets on climate change, reflected in our motion today and, indeed, in our amendments to the Bill, which will be heard tomorrow at committee stage.

Rydym yn gweld symudiadau cadarnhaol yma yng Nghymru, gydag egwyddorion i'w croesawu yn Neddf cenedlaethau'r dyfodol a Bil yr Amgylchedd a fydd yn gosod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, ers cyhoeddi Bil yr Amgylchedd (Cymru), mae ein plaid wedi bod yn galw am dargedau mwy uchelgeisiol ar y newid yn yr hinsawdd, ac adlewyrchir hynny yn ein cynnig heddiw ac yn wir, yn ein gwelliannau i'r Bil, a glywir yfory ar y cam pwyllgor.

The need for this ambition is clear: between 2012 and 2013, greenhouse gas emissions in Wales rose by 10 per cent, significantly higher than other UK nations. In fact, we have only seen a decrease of 12 per cent below base levels, compared to a 32 per cent decrease in England and the 35 per cent that has been achieved in Scotland. Ahead of Paris, developed and developing countries have been submitting their emissions pledges for post 2020, but the United Nations has warned that current pledges would see warming of around 2.7 degrees Celsius. This is well above the 2 degrees Celsius that the Tyndall Centre describes as, and I quote, the boundary

Mae'r angen am uchelgais o'r fath yn glir: rhwng 2012 a 2013, cafwyd cynnydd o 10 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, cynnydd sydd gryn dipyn yn uwch na gwledydd eraill y DU. Yn wir, gostyngiad o 12 y cant yn unig islaw'r lefelau sylfaenol a welsom, o gymharu â gostyngiad o 32 y cant yn Lloegr a'r 35 y cant a gyflawnwyd yn yr Alban. Cyn Paris, mae gwledydd datblygedig ac a gwledydd sy'n datblygu wedi bod yn cyflwyno eu haddewidion ar gyfer lefelau allyriadau ar ôl 2020, ond mae'r Cenhedloedd Unedig wedi rhybuddio y byddai cydymffurfio â'r addewidion presennol yn arwain at gynhesu o tua 2.7 gradd Celsius, sydd gryn dipyn yn uwch na'r ddwy radd Celsius a ddisgrifiodd Canolfan Tyndall fel y terfyn, a dyfynnaf

'between dangerous and "extremely dangerous"'.

'between dangerous and "extremely dangerous"'.

So, we need to be more ambitious with our ambitions and our pledges.

Felly, mae angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol gyda'n huchelgeisiau a'n haddewidion.

The Climate Change Act 2008 set a target of reducing our emissions by 80 per cent by 2050, for the UK to play its part in the 2 degrees Celsius limit in global temperature rises. This is the target that the Welsh Government is proposing for Wales, but this target fails to recognise that, since 2008, climate scientists have warned that progress to limit global warming to this level is simply too slow, and that climate change is happening with greater speed than was ever previously conceived. More than 2,000 academics from over 80 countries have called on world leaders to limit warming to a 1.5 degree Celsius rise.

Gosododd Deddf Newid Hinsawdd 2008 darged i leihau ein hallyriadau 80 y cant erbyn 2050 er mwyn i'r DU chwarae ei rhan yn y gwaith o gyfyngu ar y cynnydd yn y tymheredd byd-eang i ddwy radd Celsius. Dyma'r targed y mae Llywodraeth Cymru yn ei argymell ar gyfer Cymru, ond nid yw'r targed hwn yn cydnabod y ffaith fod gwyddonwyr hinsawdd wedi rhybuddio ers 2008 fod cynnydd ar gyfyngu cynhesu byd-eang i'r lefel hon yn rhy araf, a bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd yn gyflymach nag a ddychmygwyd o'r blaen. Mae mwy na 2,000 o academyddion o dros 80 o wledydd wedi galw ar arweinwyr gwledydd y byd i gyfyngu cynhesu i gynnydd o 1.5 gradd Celsius yn y tymheredd.

Chief executive officers from 78 companies, collectively worth over $2 trillion, have recognised their role in global efforts to reduce greenhouse gas emissions. It is now time for the Welsh Government to recognise the role that we must play here in Wales—a leading role. The UK's 80 per cent target is based on, and I quote,

Mae prif swyddogion gweithredol 78 o gwmnïau, sydd gyda'i gilydd yn werth mwy na $2 triliwn, wedi cydnabod eu rôl yn yr ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'n bryd bellach i Lywodraeth Cymru gydnabod y rôl y mae'n rhaid i ni ei chwarae yma yng Nghymru—rôl arweiniol. Mae targed y DU o 80 y cant yn seiliedig ar, ac rwy'n dyfynnu,

'a minimum-contribution approach for the UK'.

'a minimum-contribution approach for the UK''.

Surely we can do better than that. With the second-largest per capita greenhouse gas emissions since the beginning of the industrial revolution, and the largest contribution to climate warming on a per capita basis, we need to do better than that. The UK, like other developed countries, is more responsible for historical emissions than other developing nations around the world. We need to realise that. Therefore, we have a responsibility to set the most ambitious targets than almost anywhere else on our planet. That is why we are calling for an ambitious target of reducing our emissions by 100 per cent by 2050 within the Environment (Wales) Bill. This does not mean no carbon emissions. It means that we have to absorb as much carbon as we emit. This will mean greater investment in energy efficiency, decarbonisation of the power sector, major forestation plans and the development of carbon capture and storage. Along with this will come jobs, green growth and economic prosperity. I'd to like to read a quote to you. It goes as follows:

'Does bosibl na allwn wneud yn well na hynny. Gydag allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen ar eu lefel ail uchaf ers dechrau'r chwyldro diwydiannol, a chyfraniad y pen at gynhesu'r hinsawdd ar ei lefel uchaf, mae angen i ni wneud yn well na hynny. Mae'r DU, fel gwledydd datblygedig eraill, yn fwy cyfrifol am allyriadau hanesyddol na gwledydd eraill sy'n datblygu o amgylch y byd. Mae angen i ni sylweddoli hynny. Felly, mae gennym gyfrifoldeb i osod targedau mwy uchelgeisiol na bron unrhyw le arall ar ein planed. Dyna pam y galwn am darged uchelgeisiol i leihau ein hallyriadau 100 y cant erbyn 2050 ym Mil yr Amgylchedd (Cymru). Nid yw hynny'n golygu na cheir allyriadau carbon. Mae'n golygu bod yn rhaid i ni amsugno cymaint o garbon ag y byddwn yn ei allyrru. Bydd yn golygu mwy o fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni, datgarboneiddio'r sector ynni, cynlluniau coedwigo mawr a datblygu prosesau dal a storio carbon. Daw swyddi, twf gwyrdd a ffyniant economaidd yn sgil hyn. Hoffwn ddarllen dyfyniad i chi. Dyma fe:

'The Intergovernmental Panel on Climate Change has made clear that if the world is going to hold warming below two degrees…global emissions need to peak in around 2020, and then decline rapidly to reach net zero emissions by the second half of this century. The weaker the action now, the more rapid and costly the reductions will need to be later.'

'Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi datgan os yw'r byd yn mynd i gadw cynhesu o dan 2C… rhaid i allyriadau byd-eang gyrraedd eu brig tua 2020, ac yna gostwng yn gyflym i gyrraedd gostyngiad o 100 y cant mewn allyriadau erbyn ail hanner y ganrif hon. Po wannaf yw'r camau nawr, mwyaf cyflym - a drud - fydd angen i'r gostyngiadau fod yn ddiweddarach.'

This is a quote from the 2015 Labour Party manifesto. Indeed, only this week, Ed Miliband called on the UK, on the Radio 4 'Today' programme, to become the first country in the world to enshrine in law a target of reducing carbon emissions to zero. He said that Britain should show leadership by building on the existing 80 per cent target within the Climate Change Act, because, and I quote:

Dyma ddyfyniad o faniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer 2015. Yn wir, yr wythnos hon, galwodd Ed Miliband, ar raglen 'Today' Radio 4, ar y DU i fod y wlad gyntaf yn y byd i ymgorffori mewn cyfraith darged ar gyfer sicrhau gostyngiad o 100 y cant ar allyriadau carbon. Dywedodd y dylai Prydain ddangos arweiniad drwy adeiladu ar y targed presennol o 80 y cant yn y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, oherwydd, a dyfynnaf:

'It just makes logical sense for the backstop to be zero, not simply 80%. The 80% target is fine but in the end we are going to have to get to zero',

'It just makes logical sense for the backstop to be zero, not simply 80%. The 80% target is fine but in the end we are going to have to get to zero',

and that we might as well look to do that right away. Well, we have the perfect opportunity before us with the Environment (Wales) Bill, which will lay the legal framework on climate change for Wales for decades to come, to be ambitious in our aims and to address these questions. If ever there was a time, it is now. Just this week, we saw more than 50 Labour-run councils in England pledge to reduce their emissions by 100 per cent by 2050, with Lisa Nandy, the shadow Secretary of State for Energy and Climate Change, stating that, and I quote,

a waeth i ni ystyried gwneud hynny ar unwaith. Wel, mae gennym gyfle perffaith gyda Bil yr Amgylchedd (Cymru), a fydd yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cymru am ddegawdau i ddod, i fod yn uchelgeisiol yn ein hamcanion ac i ateb y cwestiynau hyn. Ni fu adeg well i wneud hynny nag yn awr. Yr wythnos hon yn unig, gwelsom fwy na 50 o gynghorau dan arweiniad Llafur yn addo lleihau eu hallyriadau 100 y cant erbyn 2050, gyda Lisa Nandy, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Ynni a Newid Hinsawdd, yn nodi, a dyfynnaf,

'Where Labour is in power we will push for a clean energy boom even if the Government will not.'

'Where Labour is in power we will push for a clean energy boom even if the Government will not.'

Well, Labour are in power here in Wales, but the poverty of ambition of this Welsh Government is, I would argue, holding us back. Where we have a real opportunity to enshrine an ambitious and binding target in law, Labour's actions—well, the jury's still out. Let's ensure that Wales shows the leadership that we need for successful agreement in Paris to solve the climate crisis by supporting this motion today and voting against the Welsh Government amendment.

Wel, mae Llafur mewn grym yma yng Nghymru, ond byddwn yn dadlau fod diffyg uchelgais y Llywodraeth hon yng Nghymru yn ein dal yn ôl. Lle y mae gennym gyfle gwirioneddol i ymgorffori targed uchelgeisiol sy'n rhwymo mewn cyfraith, mae camau gweithredu Llafur—wel, amser a ddengys. Gadewch i ni sicrhau bod Cymru yn dangos yr arweiniad sydd ei angen arnom ar gyfer cael cytundeb llwyddiannus ym Mharis i ddatrys yr argyfwng hinsawdd drwy gefnogi'r cynnig hwn heddiw a phleidleisio yn erbyn gwelliant Llywodraeth Cymru.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the six amendments to the motion. I call on the Minister for Natural Resources to move formally amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt, yn ffurfiol.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:57

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Formally.

Yn ffurfiol

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Janet Haworth to move amendments 2, 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Janet Haworth i gynnig gwelliannau 2, 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau newid hinsawdd ar gyfer 2020.*

*Regrets that the Welsh Government is not on track to meet its Climate Change 2020 targets.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu ei gwaith cynllunio economi carbon isel ar gyfer Cymru, i ddarparu swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol.*

*Calls on the Welsh Government to accelerate its low-carbon economy planning for Wales, to provide green jobs for the future.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd monitro allyriadau carbon blynyddol.*

*Recognises the importance of monitoring annual carbon emissions.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r rôl y gall ôl-osod eiddo hŷn ei chwarae o ran bodloni'r targedau lleihau allyriadau carbon.*

*Notes the role retrofitting of older properties can play in meeting carbon reduction targets.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 3, 4 a 5.*

*Amendments 2, 3, 4 and 5 moved.*

16:57

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to move our amendments in the name of Paul Davies in this debate. We all understand the essential need to gain global agreement on climate change at the forthcoming meeting in Paris. I'm a great believer that our actions individually, as Wales or the UK, will not have any consequences unless we can encourage and cajole other nations around the world to sign up to cutting their emissions and changing their practices. Here in Wales, we need to lead by example, and I agree that in many ways under this Welsh Government we are making some positive strides towards reaching our targets. However, Indonesia is destroying its rainforests and has a problem with uncontrolled burning of that resource. This results in a release of methane and carbon into the Earth's atmosphere. So far, in 2015, Indonesia has been responsible for releasing more of these chemicals into the atmosphere than the whole of the USA, one of the worst polluters.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gynnig ein gwelliannau yn enw Paul Davies yn y ddadl hon. Rydym i gyd yn deall yr angen allweddol i sicrhau cytundeb byd-eang ar newid yn yr hinsawdd yn y cyfarfod sydd ar fin digwydd ym Mharis. Rwy'n credu'n gryf na sicrheir canlyniadau i'n gweithredoedd fel gwledydd unigol, fel Cymru neu'r DU, oni bai ein bod yn gallu annog a dwyn perswâd ar wledydd eraill ledled y byd i ymrwymo i leihau eu hallyriadau a newid eu harferion. Yma yng Nghymru, mae angen i ni arwain drwy esiampl, ac rwy'n cytuno ein bod mewn sawl ffordd yn rhoi rhai camau cadarnhaol ar waith o dan y Llywodraeth hon tuag at gyrraedd ein targedau. Fodd bynnag, mae Indonesia yn dinistrio ei fforestydd glaw ac mae ganddi broblem o ran y modd y caiff yr adnodd hwnnw ei losgi heb reolaeth. Mae hyn yn arwain at ryddhau methan a charbon i atmosffer y Ddaear. Hyd yn hyn, yn 2015, mae Indonesia wedi bod yn gyfrifol am ryddhau mwy o'r cemegau hyn i'r atmosffer na'r UDA yn gyfan, gwlad sy'n un o'r llygrwyr gwaethaf.

While there are many reasons for climate change, it is recognised that there are man-made contributions towards it. It is these that we have the power to change. I am sure that, here in Wales, we will do our best to meet the targets set, and our debate held earlier this afternoon came up with some innovative suggestions. Looking at the motion, we are unable to support it without our amendments being made to it. We certainly agree with point 1, but have concerns about the viability of achieving 100 per cent reduction in greenhouse gases by 2050. I can understand why the Government have amended this point, but feel that we should abstain on their amendment, as they have only agreed to delete this point and not make any suggestions as to what they would suggest instead.

Er bod llawer o resymau dros newid yn yr hinsawdd, cydnabyddir bod pobl yn cyfrannu tuag ato, a dyna'r pethau y mae gennym bŵer i'w newid. Yma yng Nghymru, rwy'n sicr y byddwn yn gwneud ein gorau i gyrraedd y targedau a osodwyd, a nododd ein dadl yn gynharach y prynhawn yma rai awgrymiadau arloesol. O edrych ar y cynnig, ni allwn ei gefnogi heb ein gwelliannau iddo. Rydym yn sicr yn cytuno â phwynt 1, ond mae gennym bryderon ynghylch ymarferoldeb sicrhau gostyngiad o 100 y cant mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Gallaf ddeall pam y mae'r Llywodraeth wedi diwygio'r pwynt hwn, ond teimlwn y dylem ymatal ar eu gwelliant, gan iddynt gytuno i ddileu'r pwynt hwn heb wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â'r hyn y byddent yn ei awgrymu yn lle hynny.

16:59

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you take an intervention on that?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?

16:59

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:59

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member. Just as a point of clarification, can I ask why it is that you haven't deleted out any of the motion as tabled if you have concerns about it, and why you've only added to it?

Diolch i'r Aelod. Er eglurder yn unig, a gaf fi ofyn pam nad ydych wedi dileu unrhyw ran o'r cynnig fel y'i cyflwynwyd os oes gennych bryderon am y peth, a pham nad ydych ond wedi ychwanegu ato?

17:00

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I can finish, perhaps that point will be clarified.

Os caf fi orffen, efallai y daw'r pwynt hwnnw'n eglur.

Minister, on 8 October this year, the World Wildlife Fund Cymru stated:

Weinidog, ar 8 Hydref eleni, dywedodd Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd Cymru:

‘The Welsh Government risks failing to meet key climate change targets unless it scales up energy efficiency measures in Welsh homes during the next five years’.

‘Mae Llywodraeth Cymru mewn perygl o beidio â chyrraedd targedau allweddol ar y newid yn yr hinsawdd oni fydd yn cynyddu’r mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd nesaf’.

They went on to say that although,

Aeth rhagddi i ddweud, er bod,

‘Welsh Government is currently on track in terms of meeting its target of cutting emissions from homes by 3% annually but continuing to meet the target each year until 2020 is heavily dependent on UK Government action on grid decarbonisation.’

‘Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd o ran cyrraedd ei tharged i dorri allyriadau o gartrefi 3% bob blwyddyn, ond bod parhau i gyrraedd y targed bob blwyddyn hyd 2020 yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar weithredu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatgarboneiddio’r grid.’

Minister, your Government needs to scale up action on home energy efficiency. It is also worth noting that only 8 per cent of emission reduction in Wales between 2007 and 2014 was a result of flagship Welsh Government schemes Nest and Arbed, with the rest from UK schemes. It is for these reasons we are so keen to see retrofitting in homes promoted and explored further. This is especially true in older properties—those that are more likely to be less energy efficient. If we can safely target and improve older properties, without changing their character or damaging their structure, then we can help to maintain Wales on the right path to meeting the 2020 targets.

Weinidog, mae angen i’ch Llywodraeth wneud llawer mwy o waith ar effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Mae hefyd yn werth nodi mai 8 y cant yn unig o’r gostyngiad mewn allyriadau yng Nghymru rhwng 2007 a 2014 a ddeilliodd o gynlluniau blaenllaw Llywodraeth Cymru, Nyth ac Arbed, gyda’r gweddill yn deillio o gynlluniau ar gyfer y DU. Dyma pam ein bod mor awyddus i weld gwaith ôl-osod mewn cartrefi yn cael ei hyrwyddo a’i archwilio ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir am eiddo hŷn—eiddo sy’n fwy tebygol o fod yn llai effeithlon o ran ei ddefnydd o ynni. Os gallwn dargedu a gwella eiddo hŷn yn ddiogel, heb newid eu cymeriad neu niweidio eu strwythur, yna gallwn helpu i gadw Cymru ar y llwybr cywir i gyrraedd y targedau ar gyfer 2020.

We will support the Plaid Cymru amendment about retrofitting, but would retain the caveat that in strengthening building regulations, we would not wish to see more and more regulation in an already regulated industry.

Byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru ar ôl-osod, ond byddai’n cadw’r cafeat, wrth gryfhau’r rheoliadau adeiladu, na fyddem yn dymuno gweld mwy a mwy o reoleiddio mewn diwydiant a reoleiddir yn barod.

Whilst the Welsh Government are on track at the moment with their home emissions, the same cannot be said of other targets for 2020, and this is reflected in the first amendment that we have tabled. It was highlighted in October 2014 in this Chamber that, despite all the good words, Wales is still lagging behind Scotland and England on cutting emissions from source—emissions that have risen 5 per cent in the latest figures—and also have only reduced emissions from energy consumed in Wales by 2 per cent. In comparison to the other UK nations, Wales has reduced its emissions by 8.5 percentage points less than the UK average since the base year. As the Stop Climate Chaos group states, this is far from the trajectory needed to reach the 40 per cent target by 2020.

Er bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd o ran eu hallyriadau cartref, ni ellir dweud yr un peth am dargedau eraill ar gyfer 2020, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y gwelliant cyntaf a gyflwynwyd gennym. Er gwaethaf yr holl eiriau da, nodwyd yn y Siambr hon ym mis Hydref 2014 fod Cymru yn dal i lusgo ar ôl yr Alban a Lloegr o ran lleihau allyriadau o ffynhonnell—allyriadau sydd wedi codi 5 y cant yn y ffigurau diweddaraf—a 2 y cant yn unig o leihad a gafwyd mewn allyriadau ynni a ddefnyddiwyd yng Nghymru. O gymharu â gwledydd eraill y DU, mae’r gostyngiad yn allyriadau Cymru 8.5 pwynt canran islaw gostyngiad cyfartalog y DU ers y flwyddyn sylfaen. Fel y mae’r grŵp Atal Anrhefn Hinsawdd yn nodi, mae’n bell o fod ar y trywydd angenrheidiol i gyrraedd y targed o 40 y cant erbyn 2020.

Despite the problems that the Welsh Government is facing in meeting its climate change targets, it has also cut its climate change budget by 6.2 per cent. This is despite the First Minister already stating in June 2014 that it would be a challenge to meet its current target.

Er gwaethaf y problemau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran cyflawni ei thargedau newid yn yr hinsawdd, mae hefyd wedi torri 6.2 y cant oddi ar ei chyllideb newid yn yr hinsawdd. Gwnaeth hyn er bod Prif Weinidog Cymru eisoes wedi nodi ym Mehefin 2014 y byddai’n her iddi gyrraedd ei tharged cyfredol.

17:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Llyr Gruffydd to move amendment 6, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliant 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau rheoliadau adeiladu ac uwchraddio ei rhaglen ôl-osod yn sylweddol er mwyn torri allyriadau, helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chreu swyddi.*

*Calls on the Welsh Government to strengthen building regulations and significantly upscale its retrofitting programme in order to cut emissions, help tackle fuel poverty and create jobs.*

*Cynigiwyd gwelliant 6.*

*Amendment 6 moved.*

17:03

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Rwy'n cyflwyno'r cynnig yn enw Elin Jones.

Thank you very much. I move the amendment in the name of Elin Jones.

Rwyf i yn gresynu rywfaint; mi oedd cyfraniad yr Aelod o Ogledd Cymru bron iawn yn defnyddio rhai o'r dadleuon rŷm ni'n eu clywed gan bobl sy'n gwadu bod newid hinsawdd yn digwydd—hynny yw, mae'r ffaith bod gwledydd eraill yn llygru'n waeth na ni yn golygu felly nad oes rhaid inni gyflawni'r ddyletswydd foesol sydd arnom ni i wneud mwy yn y maes hwnnw. Mae hynny'n siom fawr i mi, oherwydd, tra bod cyfraniad Cymru fel gwlad i allyriadau carbon global yn gymharol fach, os edrychwch chi ar y cyfraniad y pen, wel, y gwir yw ein bod ni ryw 40 y cant yn uwch na'r cyfartaledd global, sy'n gwbl annerbyniol ac felly, i mi, mae'n cyfiawnhau'n llwyr yr angen inni wneud mwy i fynd i'r afael â'r broblem yma. Fel y clywsom ni, nid yw'r allyriadau hynny ond wedi disgyn ryw 12 y cant ers 1990 o'u cymharu â gostyngiad o tua 30 y cant ar draws y Deyrnas Unedig. Felly, mae angen newid gêr, a waeth inni heb â thrio swnio fel petaem ni'n gwneud esgusodion dros beidio â gwneud hynny. Mae'n rhaid inni gyflymu'r broses o leihau allyriadau fel hyn yng Nghymru am resymau moesol, fel yr oeddwn i'n dweud, i gyfrannu i'r ymdrech global, ond hefyd oherwydd dyletswyddau cyfreithiol, oherwydd mae'r lle yma ar hyn o bryd yn deddfu er mwyn gosod targedau statudol yn eu lle, ac rŷm ni yn mawr groesawu hynny.

I do regret slightly that the contribution by the Member for North Wales almost used some of the arguments that we hear from the climate change deniers—that is, the fact that other countries are worse polluters than us means that we don't have to deliver on the moral duty that we have to do more in that area. That is a great disappointment to be, because while the contribution of Wales as a nation to global carbon emissions is relatively small, if you look at the per capita contribution, then the truth is that we are some 40 per cent higher than the global average, which is entirely unacceptable and therefore, to me, that justifies entirely the need for us to do more to tackle this problem. As we heard, those emissions have only fallen some 12 per cent since 1990 as compared to a reduction of some 30 per cent across the UK. So, we do need a change of gear, and there's no point in trying to sound as if we're making excuses for not doing that. We must hasten the process of reducing emissions such as this in Wales for moral reasons, as I said, to contribute to the global effort, but also because of our legal duties, because this place is currently legislating to set statutory targets in place and we warmly welcome that.

Felly, lle rŷm ni'n cychwyn? Wel, rŷm ni'n gwybod bod gennym ni rai cynlluniau yma yng Nghymru, megis Arbed a Nyth, sy'n brojectau digon teilwng, yn eithaf llwyddiannus, ond mae pawb hefyd yn cydnabod bod 'scale' y rhaglenni hynny'n ddiffygiol ac nad ydyn nhw'n cael yr effaith trawsnewidiol sydd ei angen arnom ni fan hyn yng Nghymru. Rhaid inni gael rhaglen effeithlonrwydd ynni genedlaethol sy'n fwy cynhwysfawr, sy'n fwy uchelgeisiol, sy'n gwbl glir o ran ei hamcanion polisi, sydd yn cyflwyno rhaglen a fydd â thargedau clir, a cherrig milltir diamwys. Ac, wrth gwrs, mi fyddai hynny yn cychwyn yn rhannol gyda'r angen i gryfhau'r rheoliadau effeithlonrwydd ynni ar dai newydd.

So, where do we start? Well, we know that we do have some schemes here in Wales, such as Arbed and Nest, that are very worthy projects and are relatively successful, but everyone also acknowledges that the scale of those programmes is deficient and that they are not having the transformational impact that we need here in Wales. We must have a national energy efficiency programme that is more comprehensive and more ambitious, that is entirely clear in terms of its policy objectives, and that introduces a programme that has clear targets and unambiguous milestones. That, of course, would partially start with the need to strengthen the energy efficiency regulations for new builds.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn mynnu bod pob adeilad newydd yn agos at sero carbon erbyn 2020. Felly, ni ddylai ddod fel unrhyw syrpréis i unrhyw un fod yn rhaid tynhau'r rheolau yn y maes yna. Fel rhan o'r symudiad yna, wrth gwrs, mi roedd nifer ohonom ni yn siomedig na fuodd y Llywodraeth bresennol yma ychydig yn fwy dewr: ar ôl ymgynghori ar 20 y cant a 40 y cant, penderfynu mai dim ond 8 y cant y byddan nhw yn ei osod yn darged. Mi oedd hynny yn methu cyfle, yn fy marn i, inni yma yng Nghymru arwain yn y maes yma, i ddatblygu sgiliau penodol yn y sector yna a'r arbenigedd y byddem ni wedyn yn gallu ei werthu i eraill pan fyddent yn dala lan â ni. Ond nawr, wrth gwrs, mae i'r gwrthwyneb, ac mae'r 'trajectory' yn llawer mwy serth hefyd pan mae'n dod i gwrdd â'n goblygiadau ni. Mae'r methiant yna i fynnu safonau uwch yn cloi aneffeithlonrwydd ynni i mewn i'r tai newydd yna am weddill eu hoes. Felly, mae'n rhaid inni beidio bod ofn gwneud y penderfyniadau sydd angen eu gwneud.

The European Union insists that all new buildings are close zero carbon by 2020. So, it should come as no surprise to anyone that we must tighten regulations in that area. As part of that shift, of course, many of us were disappointed that the current Government wasn't a little braver: after consulting on the 20 per cent and the 40 per cent, it settled on setting a target of just 8 per cent. In my opinion, that was an opportunity missed for us, here in Wales, to lead in that area, to develop specific skills in that sector and the expertise that we could then sell to others when they caught up with us. But of course, now, it's entirely to the contrary and the trajectory is far steeper when it comes to meeting our obligations. That failure to insist on higher standards does lock energy inefficiency into those new homes for the rest of their lives. We must not fear taking the necessary decisions in this area.

Nawr, mae biliau trydan wedi cynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai 'retrofit-io' tai i raddfa ynni C o ran effeithlonrwydd erbyn 2035, yn ôl ymchwil gan Verco a Cambridge Econometrics, yn torri cyfartaledd o dros £400 y flwyddyn oddi ar filiau ynni cartrefi. Mi fyddai hynny yn gyfraniad pwysig i daclo tlodi tanwydd, yn enwedig ar y diwrnod pan rŷm ni'n dysgu bod y niferoedd o bobl sydd wedi marw oherwydd oerfel y gaeaf wedi cynyddu'n sylweddol iawn yn y flwyddyn ddiwethaf, a byddwn i'n dadlau bod hynny yn rheswm arall inni fynd i'r afael â hyn, oherwydd mae yna gostau i wasanaethau y tu hwnt i gost darparu'r budd yma. Byddai, er enghraifft, arbedion i'r gwasanaeth iechyd o fedru taclo tlodi tanwydd, ac yn y blaen, drwy raglen 'retrofit-io'. Rŷm ni hefyd yn gwybod bod yna fuddion economaidd eraill. Mi roedd y Sefydliad Materion Cymreig yn ddiweddar yn dweud y byddai dyblu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni cartrefi yn y Cynulliad nesaf yn creu neu'n cefnogi 9,000 o swyddi, ac mae gwaith Cambridge Econometrics yr oeddwn i'n sôn amdano yn gynharach yn rhagweld y byddai 108,000 o swyddi ar draws y Deyrnas Unedig yn dod o waith 'retrofit-io'. Wel, rwyf am i Gymru hawlio ei siâr yn hynny o beth.

Now, electricity bills have increased substantially over the past few years. Retrofitting homes to the C energy rating by 2035, according to research by Verco and Cambridge Econometrics, would cut, on average, over £400 per annum from home energy bills. That would be an important contribution to tackling fuel poverty, particularly on the day when we learn that the numbers of people who have died because of the cold in winter have increased significantly over the past year, and I would argue that that is another reason for tackling this, because there are costs to services beyond the cost of providing these benefits. For example, there would be savings for the health service from tackling fuel poverty, and so on, through a retrofitting programme. We also know that there are other economic benefits. The Institute of Welsh Affairs recently stated that doubling the investment in the energy efficiency of homes in the next Assembly would create or support 9,000 jobs, and the work of Cambridge Econometrics, which I mentioned earlier, anticipated that 108,000 jobs could be created across the UK through retrofitting. Well, I want to Wales to claim its share of that.

Felly, mi fyddwn i yn eich annog chi i gyd i gefnogi gwelliant Plaid Cymru oherwydd mae'n rhaid inni gyflwyno mesuriadau sydd yn llawer mwy uchelgeisiol na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd, ac sydd yn trawsnewid y modd rŷm ni'n mynd i'r afael â newid hinsawdd, yn lle swnio ychydig bach fel petaem ni'n gwneud esgusodion fel mae'r Aelodau ochr draw, yn anffodus, wedi'i wneud.

So, I would encourage you all to support the Plaid Cymru amendment because we must introduce measures that are far more ambitious than those that we currently have and are truly transformative in the way that we tackle climate change, rather than sounding a little as though we were making excuses, as, unfortunately, Members on the other side of the Chamber have been doing.

17:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The International Energy Agency states that decarbonisation of the power sector should be one of the top priorities in securing a below-2-degrees world—i.e., keeping global warming to below 2 degrees C. So, renewable energy will have a clear role to play in ensuring that we can realise the opportunities and meet the obligations of any agreement that is reached in Paris. By 2050, the UK will inevitably be using electricity more widely than at present, with a larger population, more electric cars and trains, and greater use of electric heat pumps. Even with improved energy efficiency, the level of demand for electricity will remain significant and could increase. We are therefore pleased that, in Government in Westminster, despite Conservative resistance, our then energy Secretary Ed Davey secured the power to set a decarbonisation target, a binding cap on carbon emissions from the power sector by 2030. This is essential to give investors the confidence in low-carbon energy, and to keep generation costs low, keeping bills low too. It will help to ensure, whether we have an 80 per cent target or a more ambitious zero-carbon target, that we have the capacity to meet that target and to ensure that Wales and the UK play their role in delivering any agreement that may emerge from Paris.

Mae'r Asiantaeth Ynni Rhyngwladol yn nodi y dylai datgarboneiddio'r sector pŵer fod yn un o'r prif flaenoriaethau i sicrhau nad yw'r byd yn cynhesu mwy na dwy radd Celsius. Felly, bydd gan ynni adnewyddadwy ran amlwg i'w chwarae yn sicrhau y gallwn wireddu'r cyfleoedd a chyflawni ymrwymiadau unrhyw gytundeb a geir ym Mharis. Erbyn 2050, bydd y DU yn anochel yn defnyddio trydan yn ehangach nag ar hyn o bryd, gyda phoblogaeth fwy o faint, mwy o geir a threnau trydan a mwy o ddefnydd ar bympiau gwres trydan. Hyd yn oed gyda defnydd mwy effeithlon o ynni, bydd lefel y galw am drydan yn aros yn sylweddol a gallai gynyddu. Felly, rydym yn falch fod ein Hysgrifennydd ynni ar y pryd, Ed Davey, pan oedd yn y Llywodraeth yn San Steffan, er gwaethaf gwrthwynebiad y Ceidwadwyr, wedi sicrhau pŵer i bennu targed datgarboneiddio, cap gorfodol ar allyriadau carbon o'r sector ynni erbyn 2030. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi hyder i fuddsoddwyr mewn ynni carbon isel, ac i gadw costau cynhyrchu'n isel, a chadw biliau'n isel hefyd. Pa un a oes gennym darged o 80 y cant neu darged di-garbon mwy uchelgeisiol, bydd yn helpu i sicrhau bod gennym y gallu i gyrraedd y targed hwnnw ac i sicrhau bod Cymru a'r DU yn chwarae eu rhan yn cyflawni unrhyw gytundeb a allai ddeillio o Baris.

It was therefore hugely disappointing to see the omission of the Swansea tidal lagoon from the new energy Secretary's statement last week on energy strategy. The lagoon has the potential to create thousands of jobs in the Swansea area, making Wales a world leader in this technology and helping to decarbonise our power sector. It is an immense opportunity and the Liberal Democrats have worked hard in Government to ensure the scheme became a reality, which is now in jeopardy under Tory leadership. In fact, in Government we set up the world's first Green Investment Bank and low-carbon energy market, helping to almost treble renewable energy electricity generation in the UK from 6.5 per cent in 2010 to 17.8 per cent in 2014, making the UK the world leader in offshore wind and tidal power.

Felly roedd hi'n siomedig iawn gweld bod morlyn llanw Abertawe wedi'i hepgor o ddatganiad yr Ysgrifennydd ynni newydd ar y strategaeth ynni yr wythnos diwethaf. Mae potensial gan y morlyn i greu miloedd o swyddi yn ardal Abertawe, gan sicrhau bod Cymru yn arwain y byd yn y dechnoleg hon a helpu i ddatgarboneiddio ein sector pŵer. Mae'n gyfle enfawr ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gweithio'n galed yn y Llywodraeth i sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu, ac mae bellach mewn perygl o dan arweiniad y Torïaid. Yn wir, pan oeddem yn y Llywodraeth aethom ati i sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd a marchnad ynni carbon isel gyntaf y byd, gan helpu i sicrhau bod cynhyrchiant trydan o ynni cynaliadwy yn y DU bron yn treblu, o 6.5 y cant yn 2010 i 17.8 y cant yn 2014, gan roi'r DU ar y blaen yn fyd-eang ym maes ynni gwynt ar y môr ac ynni'r llanw.

Alongside the omission of the Swansea bay lagoon in the Minister's speech last week, in just a few months since the general election, the new Conservative Government has enacted a series of policies that ultimately dismantle much of the work on green policy that we carried out in Government. It's therefore interesting to see the Conservative amendments to our debate today, regretting that the Welsh Government is not on track to meet its climate change targets and calling on the Welsh Government to accelerate its low-carbon economy planning.

Ochr yn ochr â'r diffyg cyfeiriad at forlyn bae Abertawe yn araith y Gweinidog yr wythnos diwethaf, mewn ychydig fisoedd yn unig ers yr etholiad cyffredinol, mae'r Llywodraeth Geidwadol newydd wedi cyflwyno cyfres o bolisïau sydd, yn y pen draw, yn datgymalu llawer o'r gwaith a wnaethom yn y Llywodraeth ar bolisi gwyrdd. Felly, mae'n ddiddorol gweld gwelliannau'r Ceidwadwyr i'n dadl heddiw, yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau newid yn yr hinsawdd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu ei chynlluniau ar gyfer economi carbon isel.

We'll be supporting these amendments, but cannot ignore the hypocrisy of the Tories in tabling them. The Tory UK Government's actions in stifling the renewables sector will cost thousands of jobs, jeopardising the green energy sector's future in the UK and our ability to meet any agreement reached in Paris. In just a few months, the Conservatives have: ended tax breaks for clean cars; abandoned zero carbon housing targets; announced plans to privatise the Green Investment Bank; removed the climate change levy exemption for companies that source renewable energy; and, scrapped subsidies for onshore wind and solar—the two cheapest forms of clean energy that help produce 5 per cent of the UK's total electricity.

Byddwn yn cefnogi'r gwelliannau hyn, ond ni allwn anwybyddu rhagrith y Torïaid yn eu cyflwyno. Bydd gweithredoedd Llywodraeth Dorïaidd y DU i fygu'r sector ynni adnewyddadwy yn costio miloedd o swyddi, gan beryglu dyfodol y sector ynni gwyrdd yn y DU yn ogystal â'n gallu i gyflawni unrhyw gytundeb a geir ym Mharis. Mewn ychydig fisoedd yn unig, mae'r Ceidwadwyr: wedi rhoi diwedd ar ostyngiadau treth ar geir glân; wedi troi cefn ar dargedau tai di-garbon; wedi cyhoeddi cynlluniau i breifateiddio'r Banc Buddsoddi Gwyrdd; wedi cael gwared ar esemptiad yr ardoll newid yn yr hinsawdd ar gyfer cwmnïau sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy; ac wedi diddymu cymorthdaliadau ar gyfer ynni gwynt ar y tir ac ynni solar—y ddwy ffurf rataf ar ynni glân sy'n helpu i gynhyrchu 5 y cant o gyfanswm trydan y DU.

The chief executive of the UK Green Building Council has described the abolition of rules on zero carbon housing as the death knell for the zero carbon homes policy. A United Nations scientist, Professor Jacqueline McGlade, has said that the UK appears to have abandoned its leadership on climate change and that the policy of cuts to renewables whilst offering new tax breaks for oil and gas has sent a worrying signal to the UN climate talks in Paris. And, the energy Secretary herself has admitted that the UK does not have the right policies to meet its decarbonisation targets, after a leaked letter revealed that the UK is predicted to fall short of its EU obligation for 15 per cent of energy to be from renewables by 2020.

Mae prif weithredwr Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU wedi disgrifio camau i ddiddymu rheolau ar dai di-garbon fel diwedd ar y polisi cartrefi di-garbon. Mae gwyddonydd gyda'r Cenhedloedd Unedig, yr Athro Jacqueline McGlade, wedi dweud ei bod hi'n ymddangos bod y DU wedi rhoi'r gorau i arwain ar newid yn yr hinsawdd a bod polisi o doriadau i ynni adnewyddadwy tra'n cynnig gostyngiadau newydd i drethi ar gyfer olew a nwy wedi anfon neges sy'n peri gofid i drafodaethau'r Cenhedloedd Unedig ar newid yn yr hinsawdd ym Mharis. Ac mae'r Ysgrifennydd ynni ei hun wedi cyfaddef nad oes gan y DU y polisïau cywir ar gyfer cyrraedd ei thargedau datgarboneiddio, ar ôl i lythyr a ddatgelwyd yn answyddogol nodi y rhagwelir y bydd y DU yn methu â chyrraedd ei hymrwymiad UE i sicrhau bod 15 y cant o'i hynni'n dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020.

These are highly worrying messages, just days before the most significant global conference on climate change that there has ever been, undermining the UK's clout in these vital discussions. Where the Tory Government is failing us, we urge the Welsh Government to step in. That is why we tabled this motion today, calling for ambition in our targets for Wales and we hope that Members will support us.

Mae'r rhain yn negeseuon sy'n peri pryder mawr, ychydig ddyddiau'n unig cyn y gynhadledd fyd-eang fwyaf arwyddocaol ar newid yn yr hinsawdd a fu erioed, ac maent yn tanseilio grym y DU yn y trafodaethau hollbwysig hyn. Lle y mae'r Llywodraeth Dorïaidd yn gwneud cam â ni, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gamu i mewn. Dyna pam rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, yn galw am uchelgais yn ein targedau ar gyfer Cymru ac rydym yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn ein cefnogi.

17:12

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I feel Peter Black's pain. There's no point in repeating the issues that he's raised and the disappointing response of the UK Government to our obligations to tackle climate change, which mainly affects people in the developing world. They'll also be felt by us, but obviously the greatest impact is on people in the developing world. We, as the developed world, have a duty to try and prevent the catastrophic change in the climate that will simply wipe out whole communities around the world.

Rwy'n teimlo poen Peter Black. Nid oes diben ailadrodd y materion y mae wedi'u crybwyll ac ymateb siomedig Llywodraeth y DU i'n rhwymedigaethau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sy'n effeithio'n bennaf ar bobl mewn gwledydd datblygol. Rydym ninnau hefyd yn mynd i'w teimlo, ond yn amlwg, bydd yr effaith fwyaf ar bobl mewn gwledydd datblygol. Mae dyletswydd arnom, fel gwledydd datblygedig, i geisio atal y newid trychinebus yn yr hinsawdd a fydd yn dileu cymunedau cyfan o amgylch y byd.

I'm particularly interested in highlighting the leadership role of industrial leaders around the world in grasping the importance of climate change. Just looking at the Accenture report that has come out, by business leaders, in advance of the Paris conference, it is really notable that over half of the business leaders involved around the world see opportunities for growth and innovation as a result of the climate challenge, and believe that investing in business solutions is essential to competitive advantage. Amongst the leaders of the world's largest companies, over two thirds of the world's biggest companies have this view. What they're asking for is a long-term agreement in Paris and legislative and fiscal measures to increase investment in green energy, green housing and generally ways in which we can reduce our carbon emissions, as well as stimulating the research and development that's essential to go with it. They want stable long-term measures to encourage long-term planning. That is why the Chancellor of the Exchequer's position on this is so disappointing. They really have torn up all the green wash in the last few 12 months. His comprehensive review statement gives us little cause for comfort. His emphasis has been on reducing household energy bills, without any of the measures that need to go with it to tackle climate change.

Rwy'n arbennig o awyddus i dynnu sylw at rôl arweiniol arweinwyr diwydiannol o amgylch y byd i ddirnad pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd. Wrth edrych ar adroddiad Accenture a gyhoeddwyd gan arweinwyr busnes cyn y gynhadledd ym Mharis, mae'n amlwg iawn fod dros hanner yr arweinwyr busnes sy'n rhan ohono ar draws y byd yn gweld cyfleoedd ar gyfer twf ac arloesedd o ganlyniad i her yr hinsawdd, ac yn credu bod buddsoddi mewn atebion busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau mantais gystadleuol. Dyma yw barn dros ddwy ran o dair o arweinwyr cwmnïau mwyaf y byd. Gofynnant am gytundeb hirdymor ym Mharis a mesurau deddfwriaethol a chyllidol i gynyddu buddsoddiad mewn ynni gwyrdd, tai gwyrdd a ffyrdd i'n galluogi i leihau ein hallyriadau carbon yn gyffredinol, yn ogystal ag ysgogi'r gwaith ymchwil a datblygu sy'n hanfodol i'w cefnogi. Maent eisiau mesurau hirdymor sefydlog i annog cynllunio hirdymor. Dyna pam y mae safbwynt Canghellor y Trysorlys ar hyn mor siomedig. Maent wedi mynd ati go iawn i chwalu'r elfen werdd yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid yw ei ddatganiad ar yr adolygiad cynhwysfawr yn rhoi fawr o gysur i ni. Mae ei bwyslais wedi bod ar leihau biliau ynni'r cartref, heb ddim o'r mesurau sydd eu hangen gyda hynny er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

It was interesting to see Robert Peston tweeting during the Chancellor's speech, saying, 'Where is all the money going to come from?' for the goodies that Osborne was apparently promising, and that the numbers don't add up, and he was speculating that there might be an increase in the fuel duty. It's disappointing, really, that that hasn't happened, as that would be some sort of balancing act to try and get people moving away from the harmful behaviours that are causing so many carbon emissions.

Roedd yn ddiddorol gweld Robert Peston yn trydar yn ystod araith y Canghellor, gan ofyn, 'Where is all the money going to come from?' am y rhoddion roedd Osborne i'w gweld yn eu haddo, ac nad oedd y ffigurau'n gwneud synnwyr, a dyfalai y byddai'r dreth ar danwydd yn codi. Mae'n siomedig nad yw hynny wedi digwydd mewn gwirionedd, gan y byddai'n rhyw fath o ymdrech i sicrhau cydbwysedd er mwyn ceisio cael pobl i newid y patrymau ymddygiad niweidiol sy'n achosi cymaint o allyriadau carbon.

I think the other problem is that the big six energy companies and the big six national house builders have also completely not got this message across, which comes from the world's industrial leaders, and haven't understood that there's money to be made by being innovative and being ahead of the game. We really do have neanderthal companies dominating both our housing industry and our energy companies, who simply haven't gripped the need for diversifying the mix of our energy sources.

Rwy'n meddwl mai'r broblem arall yw bod y chwe chwmni ynni mawr a'r chwe chwmni adeiladu tai cenedlaethol mawr hefyd wedi methu'n llwyr â chyfleu'r neges hon, sy'n dod gan arweinwyr diwydiannol y byd, ac nad ydynt wedi deall bod yna arian i'w ennill drwy fod yn arloesol ac yn flaengar yn hyn o beth. Mae gennym gwmnïau neanderthalaidd yn tra-arglwyddiaethu yn ein diwydiant tai a'n cwmnïau ynni nad ydynt wedi deall yr angen i arallgyfeirio cymysgedd ein ffynonellau ynni.

So, what can we do about this? It's important to see leadership in the public sector. Acting now will deliver savings at a time of pressure on public sector finances and help create jobs by supporting green growth and reducing our exposure to climate risks. The groundbreaking Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is beginning to be reflected in the annual reports of public bodies, who are thinking hard about the ways in which they can reduce their carbon emissions, and that's extremely welcome, but we can do more. And, as amendments 4, 5 and 6 point out, there are plenty of things that we as a Government in Wales can be doing to ensure that that happens. I'm particularly keen on amendment 6, and I do hope that, as we have the powers to amend the building regulations now—we don't have to wait for the Wales Act and how that will pan out, we can now revise Part L of the building regulations to stop the building industry from building even more draughty homes that we will then have to add to our retrofitting programme, as mentioned in amendment 5. My feeling is that—

Felly, beth y gallwn ni ei wneud ynglŷn â hyn? Mae'n bwysig gweld arweiniad yn y sector cyhoeddus. Bydd gweithredu yn awr yn sicrhau arbedion ar adeg o bwysau ar gyllid y sector cyhoeddus ac yn helpu i greu swyddi drwy gefnogi twf gwyrdd a lleihau'r peryglon a wynebwn yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, deddf sy'n torri tir newydd, yn dechrau cael ei hadlewyrchu yn adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus, sy'n meddwl yn ddwys am ffyrdd o leihau eu hallyriadau carbon, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr, ond gallwn wneud rhagor. Ac fel y mae gwelliannau 4, 5 a 6 yn nodi, mae digon o bethau y gallwn ni fel Llywodraeth Cymru eu gwneud i sicrhau bod hynny'n digwydd. Rwy'n arbennig o hoff o welliant 6, a chan fod y pwerau i newid y rheoliadau adeiladu gennym yn awr—nid oes raid i ni aros am Ddeddf Cymru a'r hyn fydd yn deillio ohoni—rwy'n gobeithio y gallwn ddiwygio Rhan L y rheoliadau adeiladu yn awr i atal y diwydiant adeiladu rhag adeiladu rhagor eto o gartrefi drafftiog y bydd yn rhaid i ni eu hychwanegu wedyn at ein rhaglen ôl-osod, fel y crybwyllwyd yng ngwelliant 5. Fy nheimlad i yw bod—

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish please.

Gorffennwch os gwelwch yn dda.

17:17 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—we really do have to grip this now and ensure that people have the ability to—

[Yn parhau.]—gwir angen i ni fynd i'r afael â hyn yn awr a sicrhau bod gan bobl y gallu i—

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish.

Gorffennwch.

17:17 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—reduce their energy bills and actually create money out of their homes.

[Yn parhau.]—leihau eu biliau ynni a chreu arian o'u cartrefi mewn gwirionedd.

17:17 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ochr yn ochr, wrth gwrs, â thargedau uchelgeisiol ar allyriadau, mae gwarchod bioamrywiaeth yn hanfodol i ni fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a hefyd er mwyn inni ddiogelu a mwynhau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn yr un modd yn y dyfodol. Yn anffodus, wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd y nod o atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2010, sef eu huchelgais nhw ar un adeg. Ac, yn wir, mae adroddiad diweddar gan Oxfam yn datgan bod Cymru wedi colli tua 55 y cant o ran bioamrywiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn asesiad syfrdanol, nid yn unig o ran lles ein hafanau gwyllt, ond hefyd y ffaith ei fod yn hanfodol i ni ddiogelu bioamrywiaeth i wella iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl yma yng Nghymru. Mae'r amgylchedd naturiol yn ein bwydo, yn darparu gwasanaethau hanfodol fel aer glân a dŵr, a gall hefyd ddarparu gofod ar gyfer ymarfer corff a gweithgareddau i'n cadw ni'n iach. Mae rhai hefyd yn amcangyfrif bod yna werth o £35 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig o'r fath adnoddau naturiol.

In parallel, of course, with ambitious targets on emissions, conserving biodiversity is crucial for us to get to grips with climate change, and also for us to protect and enjoy wildlife and the countryside in the same way in the future. Unfortunately, of course, the Welsh Government has failed to achieve its aim of halting the decline in biodiversity by 2010, which was its ambition at one time. Indeed, a recent report by Oxfam states that Wales has lost around 55 per cent in terms of biodiversity over the past few years. This is a shocking assessment, not only in terms of our wild havens, but also the fact that it is crucial for us to safeguard biodiversity to improve the health, wellbeing and quality of life of people here in Wales. The natural environment feeds us, it provides vital services such as clean air and water, and can also provide space for exercise and activities to keep us healthy. Some estimate that such natural resources are worth £35 billion to the UK economy.

O ran y gynhadledd fydd ar y gweill yr wythnos nesaf ym Mharis, mae yna gysylltiad rhwng colli bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd. Mae'n rhaid hefyd deall hyn a'i gymryd i ystyriaeth wrth i ni ddatblygu targedau ar fioamrywiaeth. Er enghraifft, mae yna lawer o gynefinoedd bioamrywiol, fel mawndiroedd, sydd yn cynnal symiau sylweddol o garbon. Wrth i'r cynefinoedd hyn ddirywio, maent yn rhyddhau carbon. Mae'n rhaid inni felly warchod y cynefinoedd yma, ac, wrth wneud hynny, byddan nhw'n helpu ni i gyrraedd ein targedau allyriadau a gwella ein bioamrywiaeth yn yr un modd.

In terms of the conference next week in Paris, there is a link between biodiversity loss and climate change. We must understand this and take it into account as we develop targets on biodiversity. For example, there are many biodiverse habitats, such as peatlands, which hold significant amounts of carbon. As these habitats deteriorate, they release carbon. We must therefore protect these habitats, and, in doing so, they will help us reach our emissions targets and enhance our biodiversity at the same time.

Mae cynnydd o ran bioamrywiaeth hefyd yn dibynnu ar ymdrechion byd-eang, fel y mae nifer o siaradwyr y prynhawn yma wedi ei ddatgan. Hefyd, bydd yn rhaid i ni fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yma o achos y rhesymau mae rhai wedi eu crybwyll eisoes.

Improvement in terms biodiversity also depends on global efforts, as many of the speakers this afternoon have stated. Also, we will need to tackle climate change here, because of the reasons that others have already mentioned.

Mae gennym erbyn hyn, wrth gwrs, bŵer dros lawer o'r ffactorau sydd tu ôl i'n colli bioamrywiaeth—colli cynefin, darnio a diraddio, a hefyd bod yna lwyth maetholion gormodol a defnydd anghynaliadwy o ecosystemau.

We do, by now, have power over many of the factors behind our biodiversity loss—habitat loss, fragmentation and degradation, and also excessive nutrient loading and unsustainable use of ecosystems.

Specific biodiversity targets, in our view, would also help us to reach the overarching goal of a resilient Wales in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and targets outlined by the European Union. That is why we've tabled an amendment to the Environment (Wales) Bill with a specific target on biodiversity to work in tandem with the proposed climate targets, and to reflect Wales's international biodiversity commitments. Given that previous targets were not met, legislating through the environment Bill could help ensure that future targets are not missed and that the Welsh Government is held to account by this National Assembly.

Yn ein barn ni, byddai targedau bioamrywiaeth penodol hefyd yn ein helpu i gyrraedd nod trosfwaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer Cymru gydnerth, a'r targedau a amlinellwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Dyna pam rydym wedi cyflwyno gwelliant i Fil yr Amgylchedd (Cymru) gyda tharged penodol ar fioamrywiaeth i weithio ar y cyd â'r targedau hinsawdd arfaethedig, ac i adlewyrchu ymrwymiadau bioamrywiaeth rhyngwladol Cymru. O ystyried na chyrhaeddwyd y targedau blaenorol, gallai deddfu drwy Fil yr amgylchedd helpu i sicrhau y cyrhaeddir targedau yn y dyfodol a bod Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

I want to turn now briefly to the deposit-return scheme. Many contributions today have focused on the big picture ahead of the climate change conference in Paris, but it is also crucial that we look at the steps that we can take in our everyday lives to protect our environment and become more resource-efficient. Keep Wales Tidy and the Marine Conservation Society are advocating the introduction of a deposit-return scheme, mentioned in an earlier debate today. This system would see customers pay a small cash deposit when they buy a bottled drink, and get the money back when they return the item to a collection point—a system I'm sure that many of us recall from our earlier years. Litter surveys of coasts show that nearly 20 per cent of the litter on Welsh beaches is made up of these drinks containers, be they plastic bottles, metal drink cans, or glass bottles. And this would also help to tackle that. It also fits well with the European Commission's circular economy strategy, which aims to transform Europe into a more resource-efficient economy.

Hoffwn droi yn fyr yn awr at y cynllun dychwelyd blaendal. Mae llawer o'r cyfraniadau heddiw wedi canolbwyntio ar y darlun mawr cyn y gynhadledd ar newid yn yr hinsawdd ym Mharis, ond mae'n rhaid i ni edrych hefyd ar y camau y gallwn eu rhoi ar waith yn ein bywydau bob dydd i ddiogelu ein hamgylchedd a dod i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Mae Cadwch Gymru'n Daclus a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn argymell cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal, a grybwyllwyd mewn dadl yn gynharach heddiw. Byddai'r system hon yn ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid dalu blaendal bach pan fyddant yn prynu diod potel, ac yn cael yr arian yn ôl pan fyddant yn dychwelyd yr eitem i bwynt casglu— system y bydd llawer ohonom yn ei chofio yn nyddiau ein hieuenctid, rwy'n siŵr. Dengys arolygon o sbwriel ar yr arfordir mai'r cynwysyddion diodydd hyn yw bron 20 y cant o'r sbwriel ar draethau Cymru, boed yn boteli plastig, yn ganiau diod metel, neu'n boteli gwydr. A byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â hynny hefyd. Mae'n cyd-fynd yn dda â strategaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar yr economi gylchol, sy'n anelu i drawsnewid Ewrop yn economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon.

Alongside targets, it is these practical steps that will help to protect our environment and tackle climate change. In our view, the measures in the environment Bill simply don't go far enough. We need a stronger commitment on zero emissions, on decarbonisation of the power sector, improving energy efficiency, protecting our diversity, and a recognition of the steps that we can take in our day-to-day lives to play a part in this. These are the measures that we need to see in the environment Bill, and these issues must be the focus of our ambition. We hope that Members will support the motion so that Wales can lead by example as we enter the global climate discussions next week.

Ochr yn ochr â thargedau, y camau ymarferol hyn sy'n mynd i helpu i ddiogelu ein hamgylchedd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn ein barn ni, nid yw'r mesurau ym Mil yr amgylchedd yn mynd yn agos digon pell. Mae arnom angen ymrwymiad cryfach i sicrhau gostyngiad o 100 y cant mewn allyriadau, i ddatgarboneiddio'r sector ynni, i wella effeithlonrwydd ynni, i ddiogelu ein hamrywiaeth, ac i gydnabod y camau y gallwn eu rhoi ar waith yn ein bywydau o ddydd i ddydd i chwarae rhan yn hyn. Dyma'r mesurau y mae angen i ni eu gweld ym Mil yr amgylchedd, a rhaid i ni ganolbwyntio ein huchelgais ar y materion hyn. Rydym yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig er mwyn i Gymru allu arwain drwy esiampl wrth i ni gychwyn ar y trafodaethau ar yr hinsawdd fyd-eang yr wythnos nesaf.

17:23 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it's important to start all of our contributions with an absolutely clear and unequivocal statement of both belief and intent—that climate change is taking place, and that it is a direct consequence of human activity. It is astonishing that anybody who expects to be taken seriously as a political leader in this Chamber or elsewhere would actually doubt what science is telling us. It is not simply unbelievable, it is irresponsible, and it leads us in a direction of international tragedy, a tragedy that is affecting poor and vulnerable people across the world today, and will be affecting all of us tomorrow. We have to take responsibility for those actions, and we must take responsibility for demonstrating the leadership of recognising what is happening to our planet in front of us.

Credaf ei bod yn bwysig i ni ddechrau ein holl gyfraniadau â datganiad cwbl glir a diamwys ynghylch ein cred a'n bwriad—mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd, ac mae'n deillio'n uniongyrchol o weithgarwch dynol. Mae'n rhyfeddol y byddai unrhyw un sy'n disgwyl cael ei gymryd o ddifrif fel arweinydd gwleidyddol yn y Siambr hon neu yn unrhyw le arall yn amau'r hyn y mae gwyddoniaeth yn ei ddweud wrthym mewn gwirionedd. Mae'n anghredadwy, mae'n anghyfrifol, ac mae'n ein harwain i gyfeiriad trasiedi ryngwladol, trasiedi sy'n effeithio ar bobl dlawd a bregus ar draws y byd heddiw, ac a fydd yn effeithio ar bob un ohonom yfory. Mae'n rhaid i ni ysgwyddo cyfrifoldeb am y gweithredoedd hyn, a rhaid i ni ysgwyddo cyfrifoldeb am ddangos arweiniad wrth gydnabod yr hyn sy'n digwydd i'n planed o flaen ein trwynau.

I'm very pleased that the Liberal Democrats have brought this motion to us this afternoon, in advance of what we're expecting from Paris next week. I was with Ed Davey in Warsaw at a similar conference, and I will pay tribute to the leadership of the Liberal Democrats—I know you don't like it, but I will pay tribute to the leadership of the Liberal Democrats in the coalition Government, which did ensure that climate change stayed on the political agenda. We're seeing the result now of climate change disappearing from the UK political agenda, and I think that is something that all of us need to regret.

Rwy'n falch iawn bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r cynnig hwn i ni y prynhawn yma, cyn yr hyn a ddisgwyliwn o Baris yr wythnos nesaf. Roeddwn gydag Ed Davey yn Warsaw mewn cynhadledd debyg, ac rwyf am roi teyrnged i arweinwyr y Democratiaid Rhyddfrydol—rwy'n gwybod nad ydych yn ei hoffi, ond rwyf am roi teyrnged i arweinwyr y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth glymblaid, a sicrhaodd fod newid yn yr hinsawdd yn aros ar yr agenda wleidyddol. Bellach, rydym yn gweld canlyniadau diflaniad newid yn yr hinsawdd oddi ar agenda wleidyddol y DU, ac rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y dylai pob un ohonom resynu yn ei gylch.

What do we expect from Paris next week? We do need to have a high-level global vision—an agreement to limit temperature rises to under 2 per cent of pre-industrial levels. We need a commitment to the development of a low-carbon economy, and a mechanism to review and to increase global ambition beyond Paris. We need transparency and accountability, and we need climate finance that will ensure that the poorest countries in the world are helped and supported in ensuring that they can put in position and in place all of the means and the mechanisms to limit the increases in global temperature. And we also need to recognise, as my friend Jenny Randerson said—Jenny Randerson; Jenny Rathbone. I'm looking at the Liberals—[Laughter.] Jenny Rathbone. Sorry. I'm looking across the way. She said it as well, to be fair. We recognise the place—[Interruption.]—I'll carry on—of business and industry in ensuring that there is international global leadership taking place throughout the world today.

Beth rydym yn ei ddisgwyl o Baris yr wythnos nesaf? Mae angen i ni gael gweledigaeth fyd-eang ar lefel uchel—cytundeb i gyfyngu cynnydd yn y tymheredd i lai na 2 y cant o'r lefelau cyn-ddiwydiannol. Mae arnom angen ymrwymiad i ddatblygu economi carbon isel, a system ar gyfer adolygu a gwella uchelgais yn fyd-eang y tu hwnt i Baris. Mae angen tryloywder ac atebolrwydd, ac mae angen cyllid hinsawdd a fydd yn sicrhau bod gwledydd tlotaf y byd yn cael eu helpu a'u cynorthwyo i sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r holl ddulliau a'r systemau ar waith ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn y tymheredd byd-eang. Ac mae angen i ni gydnabod hefyd, fel y dywedodd fy ffrind Jenny Randerson—Jenny Randerson; Jenny Rathbone. Rwy'n edrych ar y Rhyddfrydwyr—[Chwerthin.] Jenny Rathbone. Mae'n ddrwg gennyf. Rwy'n edrych ar draws y llawr. Fe ddywedodd hi hyn hefyd, a bod yn deg. Rydym yn cydnabod lle—[Torri ar draws.]—fe af ymlaen—busnes a diwydiant i sicrhau bod arweiniad byd-eang rhyngwladol yn digwydd ledled y byd heddiw.

But what contribution can Wales make, and what can we do to ensure that we are able to play our part on the international stage? I want Wales to be an exemplar of what can be achieved by subnational Governments working together to ensure that we not only combat climate change but also change people's lives. And we can do that, using the examples that were given by Aled Roberts but also by demonstrating that we can put in place the sorts of high-level policies that will ensure that we meet the ambitions that we set for ourselves. We have already put in place the future generations Act, which will create a framework for our work in the future, but let me say this: putting something on the statute book does not absolve us of the responsibility for taking forward policies and programmes that will deliver the reality of that ambition and that vision. It is not good enough and it isn't sufficient to simply say, 'We've passed that piece of legislation, it's on the statute book, and therefore we can walk away from the demands that it makes upon us.' Let me say this: we have examples like the deep place study in Tredegar where we bring together sustainability with social policy, with the environmental policy and with economic policy. If we can do one thing in this place here today and in the future, it is to develop a green economy focusing upon sustainable jobs and promoting the sustainable growth to deliver what we want to see for our people. We can deliver, as a Government and as a public authority, things that the market itself will not deliver, and we have a responsibility to do that here, and we have a responsibility to make sure that that happens throughout Welsh public life.

Ond pa gyfraniad y gall Cymru ei wneud, a beth y gallwn ei wneud i sicrhau ein bod yn gallu chwarae ein rhan ar y llwyfan rhyngwladol? Rwyf am i Gymru fod yn esiampl o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy Lywodraethau is-genedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nid yn unig ein bod yn brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ond ein bod hefyd yn newid bywydau pobl. A gallwn wneud hynny, gan ddefnyddio'r enghreifftiau a roddwyd gan Aled Roberts, ond hefyd drwy ddangos ein bod yn gallu gweithredu'r mathau o bolisïau lefel uchel a fydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r uchelgeisiau a osodwn i ni ein hunain. Rydym eisoes wedi rhoi Deddf cenedlaethau'r dyfodol ar waith, deddf a fydd yn creu fframwaith i'n gwaith yn y dyfodol, ond gadewch i mi ddweud hyn: nid yw rhoi rhywbeth ar y llyfr statud yn ein rhyddhau o'r cyfrifoldeb dros fwrw ymlaen â pholisïau a rhaglenni a fydd yn gwireddu'r uchelgais hwnnw a'r weledigaeth honno. Nid yw'n ddigon da ac nid yw'n ddigon i ni ddweud yn syml, 'Rydym wedi pasio'r ddeddfwriaeth honno, mae ar y llyfr statud, ac felly gallwn droi cefn ar yr hyn y mae'n galw arnom i'w wneud.' Gadewch i mi ddweud hyn: mae gennym enghreifftiau fel yr astudiaeth ddofn yn Nhredegar lle y down â chynaliadwyedd a pholisi cymdeithasol, polisi amgylcheddol a pholisi economaidd at ei gilydd. Os gallwn wneud un peth yn y lle hwn yma heddiw ac yn y dyfodol, gallwn ddatblygu economi werdd sy'n canolbwyntio ar swyddi cynaliadwy a hyrwyddo twf cynaliadwy i gyflawni'r hyn rydym am ei weld ar gyfer ein pobl. Fel Llywodraeth ac fel awdurdod cyhoeddus, gallwn gyflawni pethau na fydd y farchnad ei hun yn eu cyflawni, ac mae gennym gyfrifoldeb i wneud hynny yma, ac mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod hynny'n digwydd ym mywyd cyhoeddus Cymru drwyddo draw.

We do need meaningful targets. I won't come between the Welsh Government and the Liberal Democrats on the argument about what sort of targets, but those targets need to be meaningful and directly measuring the achievements of the Welsh Government, not simply looking at targets that do not measure the actions of Welsh Government.

Mae angen targedau ystyrlon arnom. Ni ddof rhwng Llywodraeth Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y ddadl am y math o dargedau, ond mae angen i'r targedau hynny fod yn ystyrlon a mesur llwyddiannau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, nid edrych yn unig ar dargedau nad ydynt yn mesur camau gweithredu Llywodraeth Cymru.

Finally, the future generations commissioner is now in place. Climate change must be a central core role for that commissioner in taking forward the demands of the future generations Act and, in doing so, this place, the Government—

Yn olaf, mae gennym gomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol bellach. Rhaid i newid yn yr hinsawdd fod yn rôl gwbl ganolog i'r comisiynydd ar gyfer bwrw ymlaen â gofynion Deddf cenedlaethau'r dyfodol ac wrth wneud hynny, bydd y lle hwn, y Llywodraeth—

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

17:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and the public sector in Wales will provide the leadership that I think everybody in Wales wants to see.

[Yn parhau.]—a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn darparu arweiniad y credaf fod pawb yng Nghymru am ei weld.

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

17:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm grateful for the opportunity to contribute today. My aim in relation to Paris is clear. I want to see an ambitious, legally binding global agreement underpinned by transparency and accountability. I will be supporting the collective UK position to achieve this and taking an active part in Paris in a number of ways. One key way is that we will be showcasing Wales's achievements in areas such as waste and energy efficiency and, crucially, highlighting the pioneering legislation we've brought forward through the wellbeing of future generations Act and the environment Bill, which have already gained international recognition.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu heddiw. Mae fy nod mewn perthynas â Pharis yn glir. Rwyf am weld cytundeb byd-eang uchelgeisiol, sy'n rhwymo mewn cyfraith ac wedi'i seilio ar dryloywder ac atebolrwydd. Byddaf yn cefnogi safbwynt cyfunol y DU ar gyfer cyflawni hyn ac yn cymryd rhan weithredol ym Mharis mewn nifer o ffyrdd. Un ffordd allweddol yw y byddwn yn arddangos llwyddiannau Cymru mewn meysydd fel gwastraff ac effeithlonrwydd ynni ac yn hollbwysig, yn tynnu sylw at y ddeddfwriaeth arloesol rydym wedi'i chyflwyno ar ffurf Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol a Bil yr amgylchedd, sydd eisoes wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol.

As vice-president of the Network of Regional Governments for Sustainable Development and a founder signatory to key state and regional government declarations, I will also be stressing the key leadership role that state and regional Governments are playing, which, for the first time, will be highlighted as part of the main UN summit. I therefore fully support point 1 of the motion and would underline its importance to Wales's future, economically, socially and in environmental policy.

Fel is-lywydd y Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy ac un o'r llofnodwyr cyntaf i gefnogi datganiadau llywodraethau gwladwriaethol a rhanbarthol, byddaf hefyd yn pwysleisio'r rôl arweiniol allweddol y mae llywodraethau gwladwriaethol a rhanbarthol yn ei chwarae, a gaiff sylw, am y tro cyntaf, yn rhan o brif uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig. Felly, rwy'n cefnogi pwynt 1 y cynnig yn llawn ac yn tanlinellu ei bwysigrwydd i ddyfodol Cymru, yn economaidd, yn gymdeithasol ac mewn polisi amgylcheddol.

I oppose point 2 of the motion since the appropriate place to discuss the issue is in the context of the environment Bill currently progressing through the Assembly. I listened carefully to the contribution made by the Member; I do fully understand his principal point, but I would therefore not want to pre-empt the debate on the relevant provisions that are set out during the scrutiny process and the passage of the Bill. I would stress, however, that the legislation we have brought forward will give us one of the most progressive and comprehensive statutory frameworks on climate change in the world, which includes being one of the first state or region Governments to bring forward legislation for carbon budgeting.

Rwy'n gwrthwynebu pwynt 2 y cynnig gan mai'r lle priodol i drafod y mater yw yng nghyd-destun Bil yr amgylchedd sydd ar ei daith drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Gwrandewais yn ofalus ar gyfraniad yr Aelod; rwy'n deall ei brif bwynt yn iawn, ond oherwydd hynny ni fyddwn am achub y blaen ar y ddadl ar y darpariaethau perthnasol a bennir yn ystod y broses graffu a thaith y Bil. Hoffwn bwysleisio, fodd bynnag, y bydd y ddeddfwriaeth rydym wedi'i chyflwyno yn rhoi i ni un o'r fframweithiau statudol mwyaf blaengar a chynhwysfawr ar newid yn yr hinsawdd yn y byd, sy'n cynnwys bod yn un o'r Llywodraethau gwladwriaethol neu ranbarthol cyntaf i gyflwyno deddfwriaeth ar gyllidebu carbon.

Therefore, on the amendments, amendment 1, I will be supporting for the reasons I've just outlined. I oppose amendment 2, because the figures, again, show that we have exceeded our 3 per cent annual emissions target, reducing emissions in devolved areas by 10 per cent against the baseline, compared to the aim of 6 per cent by the last reporting year. We are on track to do so again for this next reporting period. In terms of our 40 per cent target for all Welsh emissions, we have been open with the fact that we need to do more and accelerate progress. But equally, as this target includes all Welsh emissions, we have always been clear that there are significant dependencies on non-devolved areas, like the UK Government's energy policy. I know Peter Black alluded to the difficulties that is creating in his contribution. The overall picture is therefore not the one put forward by the amendment, as we are exceeding one of our two headline targets. Therefore, we'll be opposing that amendment.

Felly, ar y gwelliannau, byddaf yn cefnogi gwelliant 1 am y rhesymau rwyf newydd eu hamlinellu. Rwy'n gwrthwynebu gwelliant 2, oherwydd bod y ffigurau, unwaith eto, yn dangos ein bod wedi rhagori ar ein targed allyriadau blynyddol o 3 y cant, gan leihau allyriadau mewn meysydd datganoledig o 10 y cant yn erbyn y llinell sylfaen, o gymharu â'r nod o 6 y cant erbyn y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Rydym ar y trywydd iawn i wneud hynny eto ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf. O ran ein targed o 40 y cant ar gyfer holl allyriadau Cymru, rydym wedi bod yn agored ynglŷn â'r ffaith fod angen i ni wneud mwy a chyflymu cynnydd. Ond yn yr un modd, gan fod y targed hwn yn cynnwys holl allyriadau Cymru, rydym bob amser wedi dweud yn glir fod yna ddibyniaeth sylweddol ar feysydd heb eu datganoli, megis polisi ynni Llywodraeth y DU. Rwy'n gwybod bod Peter Black wedi cyfeirio at yr anawsterau y mae hwnnw yn eu creu yn ei gyfraniad. Nid yr hyn a gyflwynwyd gan y gwelliant felly yw'r darlun cyffredinol, gan ein bod yn rhagori ar un o'n dau brif darged. Felly, byddwn yn gwrthwynebu'r gwelliant hwnnw.

I support amendment 3 since, as I set out in my statement on climate change, I've already expressed our commitment to accelerate progress on climate change and realise the benefits of green growth. My recent consultation, Green Growth Wales, is a prime example of action we are taking. The provisions in the environment Bill are also key to this aim, and as I put in place a carbon reduction framework, that will provide a clear pathway for investment.

Rwy'n cefnogi gwelliant 3 oherwydd, fel y nodais yn fy natganiad ar newid yn yr hinsawdd, rwyf eisoes wedi mynegi ein hymrwymiad i gyflymu cynnydd ar newid yn yr hinsawdd a gwireddu manteision twf gwyrdd. Mae fy ymgynghoriad diweddar, Twf Gwyrdd Cymru, yn enghraifft wych o'r camau rydym yn eu cymryd. Mae'r darpariaethau ym Mil yr amgylchedd hefyd yn allweddol i'r nod hwn, ac wrth i mi roi fframwaith lleihau carbon ar waith, bydd hwnnw'n darparu llwybr clir ar gyfer buddsoddi.

Amendment 4. We recognise the importance of monitoring annual emissions through the greenhouse gas inventory, and have an established track record in doing so. We will be supporting that. However, again, I would emphasise that, in order to tackle climate change, it is the overall trend that is most important and that's the key reason why we've taken a carbon budgeting approach in the environment Bill.

Gwelliant 4. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd monitro allyriadau blynyddol drwy'r rhestr nwyon tŷ gwydr, ac mae gennym hanes da o wneud hynny. Byddwn yn cefnogi hynny. Fodd bynnag, unwaith eto, er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, byddwn yn pwysleisio mai'r duedd gyffredinol sydd bwysicaf a dyna'r rheswm allweddol pam ein bod wedi mabwysiadu dull o gyllidebu carbon ym Mil yr amgylchedd.

With regard to amendment 5, the Welsh Government's energy efficiency strategy consultation demonstrates that we are committed to upscaling and retrofitting and recognise the importance it makes in reducing emissions. I therefore will also be supporting that amendment.

O ran gwelliant 5, mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth effeithlonrwydd ynni yn dangos ein bod wedi ymrwymo i uwchraddio ac ôl-osod ac yn cydnabod pwysigrwydd hyn er mwyn lleihau allyriadau. Felly byddaf yn cefnogi'r gwelliant hwnnw hefyd.

Finally, I support amendment 6. As a Government, we have already committed to reviewing building regulations in 2016, as a key step towards delivering EU objectives. Therefore, Jenny, in her contribution, was absolutely right about making sure that we have homes fit for the future. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 helps and supports us in making those decisions. Therefore, Deputy Presiding Officer, I'm very grateful for the opportunity to outline our commitment from Welsh Government in the Paris event and look forward to supporting the amendments I made reference to in this debate.

Yn olaf, rwy'n cefnogi gwelliant 6. Fel Llywodraeth, rydym eisoes wedi ymrwymo i adolygu rheoliadau adeiladu yn 2016 fel cam allweddol tuag at gyflawni amcanion yr UE. Felly, roedd Jenny yn llygad ei lle, yn ei chyfraniad, o ran sicrhau bod gennym gartrefi addas ar gyfer y dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn helpu ac yn ein cefnogi wrth i ni wneud y penderfyniadau hynny. Felly, Ddirprwy Lywydd, rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i amlinellu ein hymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn y digwyddiad ym Mharis ac yn edrych ymlaen at gefnogi'r gwelliannau y cyfeiriais atynt yn y ddadl hon.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott to reply.

Eluned Parrott i ymateb.

17:33

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I sometimes wonder whether future generations will look at us and other politicians and ask, 'Why did those people, when they knew the risks we were facing, sit in their parliaments and do nothing?' We are well beyond the point of credible denial here; we are, sadly, already beyond the point where permanent damage can be avoided; we are already at the point where limiting the scale of the catastrophe is probably the best that can be hoped for. Now, I'm not sure if the forthcoming conference in Paris represents our last real chance to take action globally, but I feel that we are chasing after a train as it is pulling away from the platform in front of us. There is, right now, an absolute need for a successful global agreement, but that is no reason for us in this place not to play our fullest part.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weithiau rwy'n meddwl tybed a fydd cenedlaethau'r dyfodol yn edrych arnom ni a gwleidyddion eraill ac yn gofyn, 'A hwythau'n gwybod am y risgiau rydym yn eu hwynebu, pam yr eisteddodd y bobl hyn yn eu seneddau a gwneud dim?' Rydym ymhell y tu hwnt i'r pwynt lle y gellir gwadu'n gredadwy yma; yn anffodus, rydym eisoes y tu hwnt i'r pwynt lle y gellir osgoi niwed parhaol; rydym eisoes yn y man, yn ôl pob tebyg, lle na ellir gobeithio am well na chyfyngu ar faint y trychineb. Nawr, nid wyf yn siŵr ai'r gynhadledd sydd ar fin digwydd ym Mharis yw ein cyfle go iawn olaf i weithredu'n fyd-eang, ond rwy'n teimlo ein bod yn rhedeg ar ôl y trên wrth iddo dynnu i ffwrdd o'r platfform o'n blaenau. Ar hyn o bryd, mae yna angen absoliwt am gytundeb byd-eang llwyddiannus, ond nid yw hynny'n rheswm i ni yn y lle hwn beidio â chwarae ein rhan yn y modd llawnaf posibl.

There was a definite loss of momentum after Copenhagen, but this conference, I think, offers a renewed opportunity. Political will is growing over the urgency of a universal commitment to tackling climate change, and I'm delighted that the Minister will be there to represent Wales. But I hope that the Minister's words will truly be representative of the passion that we've heard in this place today.

Yn bendant, gwelwyd colli momentwm ar ôl Copenhagen, ond rwy'n credu bod y gynhadledd hon yn cynnig cyfle o'r newydd. Mae'r ewyllys wleidyddol yn tyfu ynglŷn â'r brys i sicrhau ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac rwy'n falch y bydd y Gweinidog yno i gynrychioli Cymru. Ond rwy'n gobeithio y bydd geiriau'r Gweinidog yn wirioneddol gynrychioliadol o'r angerdd a glywsom yn y lle hwn heddiw.

Today, we have, I think, an opportunity for Wales to take a lead within the UK by sending a strong message that we will be part of that fight by committing to zero emissions by 2050. After all, let's face it, with a 22 per cent cut to the UK department for environment's budget today and the slashing of feed-in tariffs confirmed, and no mention of any major green infrastructure projects, like, for example, the tidal lagoon, in the Chancellor's statement today, I think that lead is clearly not going to be coming from London any time soon. But we must be ambitious in Wales and for Wales in the face of this. It isn't an opportunity to throw our hands up in horror. In the 2014 climate change annual report, the Welsh Government set out the importance of the role that sub-national Governments like Wales's can play in contributing towards international efforts on climate change. It states:

Heddiw, rwy'n credu bod gennym gyfle i Gymru arwain y ffordd yn y DU drwy anfon neges gref y byddwn yn rhan o'r frwydr honno drwy ymrwymo i ostyngiad o 100 y cant mewn allyriadau erbyn 2050. Wedi'r cyfan, gadewch i ni wynebu'r peth, gyda thoriad o 22 y cant i gyllideb adran amgylchedd y DU heddiw, a'r cadarnhad fod y tariffau cyflenwi trydan wedi'u torri, a'r ffaith na soniwyd am unrhyw brosiectau seilwaith gwyrdd mawr, megis y morlyn llanw, er enghraifft, yn natganiad y Canghellor heddiw, credaf ei bod hi'n amlwg nad yw Llundain yn mynd i roi unrhyw arweiniad yn y dyfodol agos. Ond rhaid i ni fod yn uchelgeisiol yng Nghymru a thros Gymru yn wyneb hyn. Nid yw'n gyfle i guddio ein llygaid mewn arswyd. Yn yr adroddiad blynyddol ar newid yn yr hinsawdd ar gyfer 2014, nododd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y rôl y gall Llywodraethau is-genedlaethol fel un Cymru ei chwarae yn cyfrannu at ymdrechion rhyngwladol ar newid yn yr hinsawdd. Mae'n datgan:

'The innovation and leadership being shown by subnational governments is crucial in demonstrating that it is possible to tackle the challenge of climate change and in building momentum to an ambitious global agreement in Paris in 2015'.

'Mae'r arloesedd a'r arweinyddiaeth sy'n cael eu dangos gan lywodraethau is-genedlaethol yn hanfodol i ddangos ei bod yn bosibl i fynd i'r afael â her newid hinsawdd ac adeiladu momentwm tuag at gytundeb byd-eang uchelgeisiol ym Mharis yn 2015'.

We want to see proof of that innovation and leadership from the Welsh Government.

Rydym am weld prawf o'r arloesedd hwnnw ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Turning to the amendments today, I'd like to thank Llyr Huws Gruffydd for his contribution today. We will be supporting the Plaid amendment, which we feel is very positive and practical, and we thank you for your comments today. Energy efficiency can make a significant contribution to strategic aims on climate change, creating jobs, boosting growth, reducing the cost of importing fossil fuels, improving health and tackling fuel poverty—among the many, many benefits that it brings. As both yourselves and the Conservatives have rightly pointed out today, in Wales, we do have a poor and inefficient housing stock, and improvements in the heat performance of buildings through renovation and retrofitting can be hugely beneficial in keeping Wales on track with our emissions targets, as well as the social benefits that they bring.

Gan droi at y gwelliannau heddiw, hoffwn ddiolch i Llyr Huws Gruffydd am ei gyfraniad heddiw. Byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru: teimlwn ei fod yn gadarnhaol ac yn ymarferol iawn, a diolch i chi am eich sylwadau heddiw. Gall effeithlonrwydd ynni gyfrannu'n sylweddol at nodau strategol ar gyfer newid yn yr hinsawdd, gan greu swyddi, hybu twf, lleihau'r gost o fewnforio tanwydd ffosil, gwella iechyd a mynd i'r afael â thlodi tanwydd—ymhlith y llu o fanteision a ddaw yn ei sgil. Fel rydych chi a'r Ceidwadwyr wedi dweud yn gywir ddigon heddiw, mae gennym stoc dai wael ac aneffeithlon yng Nghymru, a gall gwelliannau ym mherfformiad adeiladau o ran gwresogi drwy adnewyddu ac ôl-osod fod yn hynod fuddiol wrth gadw Cymru ar y trywydd iawn gyda'n targedau allyriadau, yn ogystal â'r manteision cymdeithasol y maent yn eu cynnig.

We will be supporting the Tory amendments today, and we do thank you for the constructive nature of the amendments.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Torïaid heddiw, a diolch i chi am natur adeiladol y gwelliannau.

Turning to the other contributors, as I say, in opening, William Powell highlighted the urgency of climate change and the opportunity that we think is offered by the environment Bill. We look forward to seeing the committee providing that scrutiny. William also asked you to show leadership as we enter those Paris discussions.

Gan droi at y cyfranwyr eraill, fel y dywedaf, wrth agor amlygodd William Powell y brys sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a'r cyfle y mae Bil yr amgylchedd yn ei gynnig yn ein barn ni. Edrychwn ymlaen at weld y pwyllgor yn darparu craffu o'r fath. Hefyd, gofynnodd William i chi ddangos arweiniad wrth i ni ddechrau ar y trafodaethau ym Mharis.

Peter Black talked about the important role that renewable energy can play in meeting our climate change targets and the destruction being wreaked upon the sector at the moment by the Tory Government's systematic unravelling of the strong progress that we feel has been made more recently in terms of renewable energy production.

Jenny Rathbone talked about the potential for job creation. Of course, one of the great excuses for not doing anything that it will cost us money and that it will be economically difficult, but the truth is that there is a possibility—there is an opportunity to create jobs, to create wealth and to be leaders in this field right now. But the flipside of that is that the economic damage that could potentially be done by a do-nothing approach is absolutely devastating.

Aled Roberts talked about the important inter-linkage between climate change and biodiversity loss and the need for strong targets, as well, on biodiversity to protect our wildlife and work in tandem with those climate change targets. He also talked about the deposit-return scheme, and I think that that is an interesting idea that we could look into, and also the role of personal responsibility and making personal changes as our own personal commitment to this agenda.

Alun Davies, we thank you for your tribute to our leader today. At this point in time, we're not fussy; we'll take it where we can get it. We thank you for your support too. But you are absolutely right that there is an imperative here, and there is an urgency here that we cannot let slip us by.

Minister, I am very glad that you want to see real progress in Paris, but in the environment Bill, we want to see the Welsh Government demonstrate its commitment. Challenge yourself, Minister. How far can you go? There are non-devolved areas, of course, but that's no reason not to be ambitious with the tools that you have in your pocket right now. It is far better, here, to narrowly miss an ambitious target than lazily hit an easy one. It sends a signal, it gets more done and it is a more positive approach. If nothing else convinces you: it is a challenge, it is throwing down a gauntlet to the UK Government's lacklustre approach back in London.

Like Cassandra, our climate scientists are telling us what the future catastrophe is going to look like and they are being ignored. They may as well be screaming into the abyss at this point, and you can feel that the frustration is tangible. The World Bank president, Jim Yong Kim, neatly summed up the necessity of success in Paris, stating:

'International action on climate change must reflect our new understanding of what is at stake: the fate of hundreds of millions of people who live in extreme poverty today and the wellbeing of more than 100 million more who could be pushed into it. By doing the right thing, we will also push forward the cause of justice—we can preserve the planet for future generations and end extreme poverty. The two together will be humankind's greatest achievement.'

Soniodd Peter Black am y rôl bwysig y gall ynni adnewyddadwy ei chwarae o ran cyrraedd ein targedau ar newid yn yr hinsawdd a'r distryw i'r sector ar hyn o bryd yn sgil y modd y mae'r Llywodraeth Doriaidd yn mynd ati'n systematig i ddadwneud y cynnydd cadarn a wnaed yn fwy diweddar, yn ein barn ni, ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Soniodd Jenny Rathbone am y potensial i greu swyddi. Wrth gwrs, un o'r esgusodion mawr dros beidio â gwneud unrhyw beth yw y bydd yn costio i ni ac y bydd yn anodd yn economaidd, ond y gwir yw bod yna bosibilrwydd—mae yna gyfle i greu swyddi, i greu cyfoeth ac i fod yn arweinwyr yn y maes hwn ar hyn o bryd. Ond yr ochr arall i'r geiniog yw bod y niwed economaidd y gellid ei gyflawni drwy wneud dim yn gwbl ddinistriol.

Soniodd Aled Roberts am y rhyng-gysylltiad pwysig rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth a'r angen am dargedau cadarn hefyd ar fioamrywiaeth i ddiogelu ein bywyd gwyllt ac i weithio ochr yn ochr â'r targedau ar newid yn yr hinsawdd. Soniodd hefyd am y cynllun dychwelyd blaendal, ac rwy'n meddwl bod hwnnw'n syniad diddorol y gallem edrych arno, a hefyd rôl cyfrifoldeb personol a gwneud newidiadau personol fel ein hymrwymiad personol i'r agenda hon.

Alun Davies, diolch i chi am eich teyrnged i'n harweinydd heddiw. Ar hyn o bryd, nid ydym yn ffyslyd; fe'i cymerwn lle bynnag y gallwn ei gael. Diolch i chi am eich cefnogaeth hefyd. Ond rydych yn llygad eich lle fod yna reidrwydd yma, ac mae yna frys yma na allwn adael iddo lithro heibio i ni.

Weinidog, rwy'n falch iawn eich bod eisiau gweld cynnydd gwirioneddol ym Mharis, ond ym Mil yr amgylchedd, rydym am weld Llywodraeth Cymru yn dangos ei hymrwymiad. Heriwch eich hun, Weinidog. Pa mor bell y gallwch fynd? Mae yna feysydd sydd heb eu datganoli, wrth gwrs, ond nid yw hynny'n rheswm dros beidio â bod yn uchelgeisiol gyda'r adnoddau sydd gennych wrth law ar hyn o bryd. Yn hyn o beth, mae methu â chyrraedd targed uchelgeisiol o drwch blewyn yn llawer gwell na chyrraedd targed hawdd mewn ffordd ddiog. Mae'n cyfleu neges, mae'n sicrhau bod mwy yn cael ei wneud ac mae'n agwedd fwy cadarnhaol. Os nad oes dim arall yn eich argyhoeddi: mae'n her, mae'n herio dull difflach Llywodraeth y DU o weithredu draw yn Llundain.

Fel Cassandra, mae ein gwyddonwyr hinsawdd yn dweud wrthym sut olwg fydd ar y trychineb yn y dyfodol a chânt eu hanwybyddu. Waeth iddynt sgrechian yn y tywyllwch ar y pwynt hwn, a gallwch deimlo'r rhwystredigaeth amlwg. Crynhodd llywydd Banc y Byd, Jim Yong Kim, yr angen i lwyddo ym Mharis yn daclus, gan ddatgan:

'International action on climate change must reflect our new understanding of what is at stake: the fate of hundreds of millions of people who live in extreme poverty today and the wellbeing of more than 100 million more who could be pushed into it. By doing the right thing, we will also push forward the cause of justice—we can preserve the planet for future generations and end extreme poverty. The two together will be humankind's greatest achievement.'

Or it could be humankind's greatest tragedy.

Neu gallai fod yn drasiedi fwyaf y ddynoliaeth.

I hope that you will, today, be able to support not only the words of our motion, but also the imperative behind it thereafter.

Rwy'n gobeithio heddiw y byddwch yn gallu cefnogi, nid yn unig y geiriau yn ein cynnig, ond hefyd y rheidrwydd sy'n sail drosto.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:40

# 8. Cyfnod Pleidleisio

# 8. Voting Time

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will vote first on the motion to annul the Tuberculosis (Wales) (Amendment) Order 2015. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Llyr Gruffydd. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. In accordance with Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the motion, which falls.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly pleidleisiwn yn gyntaf ar y cynnig i ddirymu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Llyr Gruffydd. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.20, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnig, sy'n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NNDM5872

Result of the vote on motion NNDM5872

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We'll now vote on the Welsh Conservatives' debate, and I call for a vote on the motion, tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37, there voted against 15. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid, pleidleisiodd 15 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 37, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5888

Result of the vote on motion NDM5888

17:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we'll vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 41, there voted against 11. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 41 o blaid, pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5890

Result of the vote on motion NDM5890

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the Welsh Liberal Democrats' debate. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5, there voted against 47. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid, pleidleisiodd 47 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 5, Yn erbyn 47, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 5, Against 47, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5889

Result of the vote on motion NDM5889

17:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 15, there were 11 abstentions. Therefore, amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 15 yn erbyn, roedd 11 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 15, Ymatal 11.*

*Amendment agreed: For 26, Against 15, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5889

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5889

17:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I exercise my casting vote against the amendment, which falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant, sy'n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd y gwelliant : O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5889

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5889

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51, no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5889

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5889

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52, no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5889 | Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5889

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52, no votes against. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 5.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5889 | Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5889

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 6, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52, no votes against. Therefore, amendment 6 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 6.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5889 | Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5889

17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5889 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5889 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cytundeb byd-eang ar gytuniad newid hinsawdd yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2015 ym Mharis, i sicrhau bod yr amcan y cytunwyd arno yn rhyngwladol o gyfyngu ar gyfartaledd y cynnydd mewn tymheredd byd-eang i lai na dwy radd Celsius yn aros o fewn cyrraedd.

1. Recognises the importance of securing global agreement on a climate change treaty at the 2015 UN Climate Change Conference in Paris, to ensure that the internationally agreed objective of limiting average global temperature increases to below two degrees Celsius is kept within reach.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu ei gwaith cynllunio economi carbon isel ar gyfer Cymru, i ddarparu swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

2. Calls on the Welsh Government to accelerate its low-carbon economy planning for Wales, to provide green jobs for the future.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd monitro allyriadau carbon blynyddol.

3. Recognises the importance of monitoring annual carbon emissions.

4. Yn nodi'r rôl y gall ôl-osod eiddo hŷn ei chwarae o ran bodloni'r targedau lleihau allyriadau carbon.

4. Notes the role retrofitting of older properties can play in meeting carbon reduction targets.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau rheoliadau adeiladu ac uwchraddio ei rhaglen ôl-osod yn sylweddol er mwyn torri allyriadau, helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chreu swyddi.

5. Calls on the Welsh Government to strengthen building regulations and significantly upscale its retrofitting programme in order to cut emissions, help tackle fuel poverty and create jobs.

17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52, no votes against. Therefore the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion as amended agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5889 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5889 as amended

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would ask all Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r holl Aelodau sy'n gadael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn ddistaw.

17:45

# 9. Dadl Fer: Pentecostiaeth yng Nghymru: Pam Ddylai Cymru Wneud Mwy i Ddathlu ei Threftadaeth Gyfoethog Pentecostaidd

# 9. Short Debate: Welsh Pentecostalism: Why Wales Should Do More to Celebrate its Rich Pentecostal Heritage

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 9 is the short debate, and I call on Darren Millar to speak on the topic he has chosen.

Eitem 9 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Darren Millar i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

17:45

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I've agreed to give one minute of my time each to Russell George AM and to Christine Chapman.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi cytuno i roi munud yr un o fy amser i Russell George AC ac i Christine Chapman.

I'm very grateful for the opportunity to lead this short debate in the Senedd on the topic of Welsh Pentecostalism. This year and next, Pentecostalism in Wales is celebrating some centenary celebrations. In doing so, this branch of Welsh Christianity confirms its place as one of the most significant parts of our Welsh religious heritage. But Welsh Pentecostalism has not just had an impact here in Wales; its influence has been keenly felt worldwide. As Pentecostal history continues to grow and Christianity continues to grow, so too does the importance of our Welsh Pentecostal heritage. Before going any further, I should put on the record that earlier this year, I was ordained as a minister by the Assemblies of God denomination, the largest of the Pentecostal denominations worldwide, and that one of my staff members, Tim Rowlands, is also a minister of the Assemblies of God denomination. So, you can call us both 'Reverend' from now on if you want.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i arwain y ddadl fer hon yn y Senedd ar bwnc Pentecostiaeth Cymru. Eleni a'r flwyddyn nesaf, mae Pentecostiaeth yng Nghymru yn dathlu ei chanmlwyddiant. Wrth iddi wneud hynny, mae'r gangen hon o Gristnogaeth Gymreig yn cadarnhau ei lle fel un o'r rhannau mwyaf arwyddocaol o'n treftadaeth grefyddol yng Nghymru. Ond nid yng Nghymru yn unig y mae Pentecostiaeth Cymru wedi cael effaith; teimlwyd ei dylanwad yn gryf ledled y byd. Wrth i hanes Pentecostiaeth barhau i dyfu ac wrth i Gristnogaeth barhau i dyfu, mae pwysigrwydd ein treftadaeth Bentecostaidd Gymreig yn parhau i dyfu hefyd. Cyn mynd ymhellach, dylwn gofnodi fy mod wedi fy ordeinio'n weinidog yn gynharach eleni gan enwad Cynulliadau Duw, y mwyaf o'r enwadau Pentecostaidd ledled y byd, a bod aelod o fy staff, Tim Rowlands, hefyd yn weinidog yn enwad Cynulliadau Duw. Felly, gallwch ein galw ni'n dau'n 'Barchedig' o hyn ymlaen os dymunwch.

For those who are unfamiliar with the term 'Pentecostalism', perhaps I should attempt to define it. Pentecostalism is a stream of mainstream Christianity that is Protestant, evangelical, relational and experiential. In more accessible terms, Pentecostals believe: firstly, that salvation comes only through grace and faith in Jesus Christ rather than by our own human efforts; secondly, that they have a faith that is good news and worth sharing with others; thirdly, that everyone can know God and can have a personal relationship with him; and fourthly, that all Christians can experience God through the baptism in the Holy Spirit, which empowers believers to live the Christian life for themselves. Of course, it is this distinctive that sets Pentecostals apart from other streams of Christianity. It is perhaps because of these beliefs that congregations in Pentecostal churches are generally very lively and exuberant in their worship, and that they reach out so effectively in mission and care for their local communities.

I'r rhai sy'n anghyfarwydd â'r term 'Pentecostiaeth', efallai y dylwn geisio ei ddiffinio. Ffrwd o Gristnogaeth prif ffrwd yw Pentecostiaeth sy'n Brotestannaidd, yn efengylaidd, ac yn seiliedig ar berthynas a phrofiad. Mewn termau mwy hygyrch, mae Pentecostiaid yn credu: yn gyntaf, mai drwy ras a ffydd yn Iesu Grist yn unig y daw iachawdwriaeth yn hytrach na thrwy ein hymdrechion dynol ein hunain; yn ail, fod ganddynt ffydd sy'n newyddion da ac yn werth ei rhannu gydag eraill; yn drydydd, y gall pawb adnabod Duw a chael perthynas bersonol gydag ef; ac yn bedwerydd, y gall pob Cristion brofi Duw drwy fedydd yn yr Ysbryd Glân, sy'n grymuso credinwyr i fyw'r bywyd Cristnogol eu hunain. Wrth gwrs, y nodwedd hon sy'n gwneud Pentecostiaid yn wahanol i fathau eraill o Gristnogion. Oherwydd y credoau hyn efallai, mae cynulleidfaoedd mewn eglwysi Pentecostaidd yn gyffredinol yn fywiog iawn ac yn afieithus o ran eu dull o addoli, a dyna pam y maent yn estyn allan mor effeithiol yn eu cenhadaeth a'u gofal am eu cymunedau lleol.

Pentecostalism is so called because it associates itself with the events recorded in the book of Acts of the Apostles, where on the day of Pentecost, some 10 days after Jesus's ascension into heaven, around 120 disciples experienced an infilling of the Holy Spirit, which fuelled their ministry and birthed the worldwide church that we see today. While the American Azusa Street revival in Los Angeles in 1906 is generally considered as the origin of the modern Pentecostal movement, many would argue, myself included, that the 1904 Welsh revival was the catalyst that prepared the way for Pentecostalism to take the world by storm. Interestingly, from its beginnings, Pentecostalism has always been inclusive regarding the role of the women in the church, with some very high-profile women minister such as Maria Woodworth-Etter and Aimee Semple McPherson. Importantly, because of the pioneering role of William J. Seymour, the African-American minister who led the meetings of Azuza Street, Pentecostalism has also managed to successfully build bridges across numerous racial divides. But early Pentecostalism was not embraced by all. Those who experienced the baptism in the Holy Spirit were often rejected by the churches they attended, and it is this that caused new denominations to emerge. Thankfully, these divisions did not last long, and now many people in other denominations, including Catholics, Anglicans, Presbyterians and Baptists have all embraced the Pentecostal experience for themselves. Such people are often referred to as 'charismatics', and from its humble beginnings, Pentecostalism now represents the fastest-growing form of Christianity in the world. One piece of research estimates that one in four of all Christians worldwide are Pentecostal or charismatic, representing 8 per cent of the global population.

Fe'i gelwir yn Bentecostiaeth oherwydd ei bod yn ymgysylltu â digwyddiadau a gofnodwyd yn llyfr Actau'r Apostolion, pan brofodd tua 120 o ddisgyblion yr Ysbryd Glân yn eu llenwi ar ddydd y Pentecost, tua 10 diwrnod ar ôl i'r Iesu esgyn i'r nefoedd, a thaniodd hynny eu gweinidogaeth a rhoi genedigaeth i'r eglwys fyd-eang a welwn heddiw. Er bod diwygiad Americanaidd Azusa Street yn Los Angeles yn 1906 yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel tarddiad y mudiad Pentecostaidd modern, byddai llawer yn dadlau, gan fy nghynnwys i, mai diwygiad 1904 yng Nghymru oedd y catalydd a baratodd y ffordd i Bentecostiaeth ledaenu drwy'r byd. Yn ddiddorol, o'i dechreuad, mae Pentecostiaeth bob amser wedi bod yn gynhwysol o ran rôl menywod yn yr eglwys, gyda rhai gweinidogion benywaidd â phroffil uchel megis Maria Woodworth-Etter ac Aimee Semple McPherson. Yn bwysig, oherwydd rôl arloesol William J. Seymour, y gweinidog Affricanaidd-Americanaidd a arweiniodd gyfarfodydd Azuza Street, mae Pentecostiaeth hefyd wedi llwyddo i adeiladu pontydd ar draws nifer o raniadau hiliol. Ond ni chafodd Pentecostiaeth gynnar ei chroesawu gan bawb. Câi'r rhai a brofodd fedydd yn yr Ysbryd Glân eu gwrthod yn aml gan yr eglwysi a fynychent, a dyna a achosodd i enwadau newydd ddatblygu. Diolch byth, ni pharhaodd y rhaniadau hyn yn hir, ac erbyn hyn mae llawer o bobl mewn enwadau eraill, gan gynnwys Pabyddion, Anglicaniaid, Presbyteriaid a Bedyddwyr i gyd wedi cofleidio'r profiad Pentecostaidd drostynt eu hunain. Mae pobl o'r fath yn aml yn cael eu galw'n 'garismatics', ac o'i dechreuad tawel, Pentecostiaeth bellach yw'r ffurf ar Gristnogaeth sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Mae un darn o waith ymchwil yn amcangyfrif bod un o bob pedwar o'r holl Gristnogion ledled y byd yn Bentecostiaid neu'n garismatig, sef 8 y cant o boblogaeth y byd.

As recently as August this year, Cardinal Kurt Koch, president of the Pontifical Council for Promoting Christian Unity, stated that engaging with Pentecostalism was especially important, as Pentecostalism has become, and I quote,

Mor ddiweddar â mis Awst eleni, dywedodd y Cardinal Kurt Koch, llywydd y Cyngor Pontifficaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol, fod ymgysylltu â Phentecostiaeth yn arbennig o bwysig, gan mai Pentecostiaeth bellach yw, a dyfynnaf,

'the second-largest reality in Christianity after the Catholic Church.'

'the second-largest reality in Christianity after the Catholic Church.'

What is fascinating is the part that Wales has to play in this exponential growth, and the role it has played in the past. The influence of the 1904 Welsh revival cannot be underestimated. As a forerunner to global Pentecostalism, the work and ministry of Evan Roberts was significant. Born in 1878 in Loughor, near Swansea, Evan Roberts spent his early adult years as a coal miner. But it was while studying for the ministry in September 1904, at a chapel service in Blaenannerch, that a supernatural experience changed his life. Following this, on Halloween of 1904, at Moriah Chapel in Loughor, Evan Roberts began to hold a series of meetings that ignited a spiritual awakening that spread the length and breadth of the country. Within just two years of those meetings, it's estimated that 100,000 people were added to the churches and chapels of Wales. Chapels were filled from morning until night, marriages were restored, families were reconciled, long-standing debts were settled, the crime rate plummeted and, in some parts of Wales, judges wore white gloves because there were no cases to try. It's even reported that pit ponies refused to work as the swear words that used to command them were abandoned by the miners whose conversions caused them to abandon their foul language. One legacy of the revival that continues to feature strongly in our modern culture is the singing of hymns at national rugby matches.

Yr hyn sy'n hynod ddiddorol yw'r rhan sydd gan Gymru i'w chwarae yn y twf esbonyddol hwn, a'r rhan y mae wedi'i chwarae yn y gorffennol. Ni ellir diystyru dylanwad diwygiad 1904 yng Nghymru. Fel rhagflaenydd i Bentecostiaeth fyd-eang, mae gwaith a gweinidogaeth Evan Roberts yn arwyddocaol. Fe'i ganed yn 1878 yng Nghasllwchwr, ger Abertawe, a threuliodd Evan Roberts ei flynyddoedd cynnar fel oedolyn yn gweithio mewn pwll glo. Ond tra oedd yn astudio ar gyfer y weinidogaeth ym mis Medi 1904 mewn gwasanaeth mewn capel ym Mlaenannerch, cafodd brofiad goruwchnaturiol a newidiodd ei fywyd. Yn dilyn hyn, ar nos Calan Gaeaf 1904, yng Nghapel Moriah yng Nghasllwchwr, dechreuodd Evan Roberts gynnal cyfres o gyfarfodydd a gynheuodd ddeffroad ysbrydol a ledaenodd ar hyd a lled y wlad. Ymhen dwy flynedd yn unig wedi'r cyfarfodydd hynny, amcangyfrifir bod 100,000 o bobl wedi'u hychwanegu at gynulleidfaoedd eglwysi a chapeli Cymru. Roedd y capeli wedi'u llenwi o fore tan nos, adferwyd priodasau, a chafwyd cymod mewn teuluoedd, cafodd dyledion hirsefydlog eu setlo, plymiodd cyfraddau troseddu ac mewn rhai rhannau o Gymru, gwisgai farnwyr fenig gwynion am nad oedd unrhyw achosion i'w profi. Nodwyd hyd yn oed fod merlod pwll glo yn gwrthod gweithio am fod y glowyr a arferai regi wrth roi gorchmynion iddynt wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio iaith anweddus. Un o'r pethau a etifeddwyd yn sgil y diwygiad sy'n parhau i ymddangos yn gryf yn ein diwylliant cyfoes yw canu emynau mewn gemau rygbi cenedlaethol.

Reports of the awakening in Wales soon spread across the world, both in printed form and by a new wave of converts who became passionate Welsh missionaries. From India to Madagascar, and from China to Patagonia, the stories of Welsh revival burned wherever they were carried, and Evan Roberts himself inspired those who became leaders in the Azusa Street movement, encouraging them in correspondence to seek a similar awakening for themselves. They did, and it led to the Pentecostal revival that has now reached every continent on Earth.

Yn fuan, lledaenodd adroddiadau am y deffroad yng Nghymru ar draws y byd, ar ffurf deunydd wedi'i argraffu a chan don newydd o bobl a oedd wedi cael troëdigaeth a ddaeth yn genhadon angerddol o Gymru. O India i Fadagascar, ac o Tsieina i Batagonia, roedd straeon am yr adfywiad yng Nghymru yn tanio lle bynnag y caent eu cario, ac ysbrydolodd Evan Roberts ei hun y rhai a ddaeth yn arweinwyr ym mudiad Azusa Street, gan eu hannog mewn gohebiaeth i geisio deffroad tebyg iddynt eu hunain. Gwnaethant hynny, ac arweiniodd at y diwygiad Pentecostaidd sydd bellach wedi cyrraedd pob cyfandir ar y Ddaear.

Two of the children of the revival in Wales, as converts are often called, would become pioneers of the worldwide Pentecostal movement. Christmas Day 1904 saw the conversion of Daniel Powell Williams, or D.P. Williams as he is more often known, and this turning point in his life took place under the Ministry of Evan Roberts at Pisgah chapel in Loughor. Following his conversion, D.P. Williams experienced his own personal Pentecost in 1909, and in January of the following year, he joined a small church in Pen-y-groes, south Wales, which was opened by a group of people who'd been impacted by the 1904 revival. Under D.P. Williams's leadership, in the January of that year, the Apostolic Church in Wales denomination—. In January 1916, rather, the Apostolic Church in Wales denomination was formed, with its headquarters based in Pen-y-groes, which also became home to the first Pentecostal college in the UK. Today, with its headquarters now in London, the Apostolic Church, with more than 15 million members, will be celebrating its hundredth anniversary next year.

Daeth dau o blant y diwygiad—fel y gelwir pobl sydd wedi cael troëdigaeth yn aml—yng Nghymru yn arloeswyr y mudiad Pentecostaidd ledled y byd. Ar ddydd Nadolig 1904 cafodd Daniel Powell Williams, neu D.P. Williams, fel y câi ei alw, droëdigaeth, a digwyddodd y trobwynt hwn yn ei fywyd o dan Weinidogaeth Evan Roberts yng Nghapel Pisgah yng Nghasllwchwr. Yn dilyn ei dröedigaeth, profodd D.P. Williams ei Bentecost personol yn 1909, ac ym mis Ionawr y flwyddyn ganlynol, ymunodd ag eglwys fechan ym Mhen-y-groes, de Cymru, a agorwyd gan grŵp o bobl a ddaethai dan ddylanwad diwygiad 1904. O dan arweinyddiaeth D.P. Williams, ym mis Ionawr y flwyddyn honno, ffurfiwyd enwad yr Eglwys Apostolaidd yng Nghymru—. Ym mis Ionawr 1916 yn hytrach, ffurfiwyd enwad yr Eglwys Apostolaidd yng Nghymru, gyda'i bencadlys ym Mhen-y-groes, sydd hefyd yn gartref i'r coleg Pentecostaidd cyntaf yn y DU. Heddiw, gyda'i bencadlys bellach yn Llundain, bydd yr Eglwys Apostolaidd, gyda mwy na 15 miliwn o aelodau, yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed y flwyddyn nesaf.

A fortnight before the conversion of D.P. Williams, on 20 November 1904, two brothers from Nantyffyllon, Maesteg, Stephen and George Jeffreys, attended a service in Siloh chapel, during which they were both converted. George was just 15 years old at the time and in very poor health. Few could have predicted that he would become, as that prince of Welsh preachers Dr Martyn Lloyd-Jones has reckoned, the most outstanding British evangelist of the twentieth century. George was baptised in the Holy Spirit in 1910, during a meeting in Sunderland, and soon gained a reputation as a popular evangelist and preacher. After participating in an international Pentecostal convention in Sunderland in 1913, he took up an invitation to preach in Monaghan, Northern Ireland, and it was during these meetings, in January 1915, 100 years ago this year, at the Temperance Hall in Monaghan, that George Jeffreys formed the Elim Evangelistic Band. A year later, at the site of a former laundry in Hunter Street, Belfast, the first Elim church was opened, and a place for washing clothes became a place for washing souls. Under George's leadership, the fledgling Elim movement went from strength to strength, with new churches being established in most major cities in the UK, including Cardiff City Temple here in the capital. Elim is now in its centenary year. It's a denomination of almost 600 churches in the UK, and 9,000 churches worldwide, operating over 40 different nations, founding hospitals, orphanages and schools.

Bythefnos cyn troëdigaeth D.P. Williams, ar 20 Tachwedd 1904, mynychodd dau frawd o Nantyffyllon, Maesteg, Stephen a George Jeffreys, wasanaeth yng nghapel Siloh, a chafodd y ddau droëdigaeth. 15 oed oedd George ar y pryd ac roedd ei iechyd yn wael iawn. Ychydig o bobl a allai fod wedi rhagweld y byddai'n dod, fel y barnai'r tywysog hwnnw o blith pregethwyr Cymru, Dr Martyn Lloyd-Jones, yn efengylwr mwyaf eithriadol yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain. Bedyddiwyd George yn yr Ysbryd Glân yn 1910 yn ystod cyfarfod yn Sunderland, ac yn fuan magodd enw da fel efengylydd a phregethwr poblogaidd. Ar ôl cymryd rhan mewn confensiwn Pentecostaidd rhyngwladol yn Sunderland yn 1913, derbyniodd wahoddiad i bregethu yn Monaghan, Gogledd Iwerddon, ac yn ystod y cyfarfodydd hyn, ym mis Ionawr 1915, ganrif yn ôl i eleni, yn y Neuadd Ddirwest yn Monaghan, ffurfiodd George Jeffreys yr Elim Evangelistic Band. Flwyddyn yn ddiweddarach, ar hen safle siop olchi dillad ar Stryd Hunter, Belfast, agorwyd yr eglwys Elim gyntaf, a daeth lle ar gyfer golchi dillad yn lle i olchi eneidiau. O dan arweinyddiaeth George, aeth yr egin fudiad Elim o nerth i nerth, gydag eglwysi newydd yn cael eu sefydlu yn y rhan fwyaf o ddinasoedd mawr y DU, gan gynnwys Eglwys City Temple Caerdydd yma yn y brifddinas. Mae'n ganmlwyddiant ar Elim eleni bellach. Mae'n enwad sy'n cynnwys bron i 600 o eglwysi yn y DU, a 9,000 o eglwysi ledled y byd, ac mae'n gweithio mewn 40 o wledydd gwahanol, gan sefydlu ysbytai, cartrefi plant amddifad ac ysgolion.

Stephen, George's brother, went on to become a highly successful evangelist with the Assemblies of God denomination, of which I'm a member. That was formed in 1924. It now has more than 67 million members around the world. So, the three main Pentecostal denominations in the UK all trace a link back to Wales and, as such, we should be doing much more, I believe, to celebrate and profile this rich and unique part of our Christian heritage, including through the Welsh Government's faith tourism action plan and any other work that is being carried forward from that. After all, it's a heritage that draws thousands of visitors to our shore every year, many of whom see Wales as something of a spiritual fatherland. But, regrettably, this heritage is sometimes overlooked. Just a few years ago, Pisgah chapel faced demolition, in spite of its association with Evan Roberts, who oversaw its construction, and its being the place where D.P. Williams was converted. And the Bible College of Wales in Swansea, which was established by Rees Howells, and where Pentecostal evangelist Reinhard Bonnke trained for the ministry, was closed, and it faced a very uncertain future. But, thankfully, as a result of the generosity of Cornerstone Community Church in Singapore, both of these important parts of our Chris0tian heritage have now been rescued and restored. A heritage centre has been established also at the Bible College of Wales, which was officially opened by Edwina Hart on behalf of the Welsh Government earlier this year. Its collection includes a commemorative item of the 1904 revival that was kindly donated by the Deputy Presiding Officer.

Aeth Stephen, brawd George, ymlaen i fod yn efengylwr hynod lwyddiannus gydag enwad Cynulliadau Duw rwyf i'n aelod ohono. Fe'i ffurfiwyd yn 1924. Mae gan yr enwad fwy na 67 miliwn o aelodau ledled y byd erbyn hyn. Felly, mae cysylltiad rhwng y tri phrif enwad Pentecostaidd yn y DU a Chymru ac fel y cyfryw, dylem fod yn gwneud llawer mwy, yn fy marn i, i ddathlu a phroffilio'r rhan gyfoethog ac unigryw hon o'n treftadaeth Gristnogol, gan gynnwys drwy gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar dwristiaeth ffydd ac unrhyw waith arall sy'n deillio o hynny. Wedi'r cyfan, mae'n dreftadaeth sy'n denu miloedd o ymwelwyr yma bob blwyddyn, a llawer ohonynt yn gweld Cymru fel rhyw lun ar famwlad ysbrydol. Ond yn anffodus, caiff y dreftadaeth hon ei hesgeuluso weithiau. Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd capel Pisgah yn wynebu cynlluniau i'w ddymchwel, er gwaethaf ei gysylltiad ag Evan Roberts, a fu'n goruchwylio'r gwaith o'i adeiladu, a dyma'r fan lle y cafodd D.P. Williams ei droëdigaeth. A chaewyd Coleg Beibl Cymru yn Abertawe, a sefydlwyd gan Rees Howells a lle yr hyfforddwyd yr efengylydd Pentecostaidd Reinhard Bonnke ar gyfer y weinidogaeth, ac wynebai ddyfodol ansicr iawn. Ond diolch byth, o ganlyniad i haelioni Eglwys Gymunedol Cornerstone yn Singapore, mae'r ddwy ran bwysig hon o'n treftadaeth Gristnogol bellach wedi'u hachub a'u hadfer. Sefydlwyd canolfan dreftadaeth hefyd yng Ngholeg Beibl Cymru, a agorwyd yn swyddogol gan Edwina Hart ar ran Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni. Mae ei gasgliad yn cynnwys eitem yn coffáu diwygiad 1904 a oedd yn rhodd garedig gan y Dirprwy Lywydd.

But the story doesn't stop there. Here in Wales, Pentecostal churches continue to do great work, with churches running volunteer projects for young people, supporting older people and reaching out to help the vulnerable. There can be no doubt that, without them, many people would be much worse off. Just last week I held a number of meetings with the leader of the Assemblies of God in Great Britain, the Reverend John Partington, to discuss how as a denomination they can improve their impact and engagement in Wales. It was a positive discussion with a sense of purpose for the future. Here in Wales, of course, there are some excellent examples of Pentecostal churches that are adding value to their local communities. From Hope Church in Newtown, led by the AOG area leader in Wales, the Reverend Alan Hewitt, which my colleague and fellow Assembly Member Russell George attends, to North Coast Church in Tywyn, led by the Reverend James Buckley, where I fellowship. Communities of Pentecostal believers are making a real difference and we should do much, much more here as legislators in the Assembly to acknowledge them.

Ond ni ddaw'r stori i ben yn y fan honno. Yma yng Nghymru, mae eglwysi Pentecostaidd yn parhau i wneud gwaith gwych, gydag eglwysi'n cynnal prosiectau gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc, yn cefnogi pobl hŷn ac yn ymestyn allan i helpu pobl agored i niwed. Hebddynt, ni all fod unrhyw amheuaeth y byddai llawer o bobl yn llawer gwaeth eu byd. Yr wythnos diwethaf cynhaliais nifer o gyfarfodydd gydag arweinydd Cynulliadau Duw ym Mhrydain Fawr, y Parchedig John Partington, i drafod sut y gallant wella eu heffaith a'u hymgysylltiad fel enwad yng Nghymru. Roedd yn drafodaeth gadarnhaol gydag ymdeimlad o bwrpas ar gyfer y dyfodol. Yma yng Nghymru, wrth gwrs, ceir rhai enghreifftiau ardderchog o eglwysi Pentecostaidd sy'n ychwanegu gwerth i'w cymunedau lleol. O Eglwys Hope yn y Drenewydd, o dan arweiniad arweinydd ardal Cynulliadau Duw yng Nghymru, y Parchedig Alan Hewitt, y mae fy nghydweithiwr a'm cyd-Aelod Cynulliad Russell George yn ei mynychu, Eglwys North Coast yn Nhywyn, dan arweiniad y Parchedig James Buckley, lle rwy'n gymrodor, mae cymunedau o gredinwyr Pentecostaidd yn gwneud gwahaniaeth go iawn a dylem wneud llawer iawn mwy yma fel deddfwyr yn y Cynulliad i'w cydnabod.

Indeed, I was very pleased to host a visit to North Coast Church in Tywyn with Carl Sargeant, when he was the Minister for Communities and Local Government, and he saw for himself the tremendous work that that church is doing with young people, parents and older people.

Yn wir, pleser mawr i mi oedd cynnal ymweliad ag Eglwys North Coast yn Nhywyn gyda Carl Sargeant, pan oedd yn Weinidog Cymunedau a Llywodraeth Leol, a gwelodd drosto'i hun y gwaith aruthrol y mae'r eglwys honno yn ei wneud gyda phobl ifanc, rhieni a phobl hŷn.

To summarise, then, Wales has a very rich Pentecostal heritage that has had an enormous impact on Christianity here in the UK and around the world. We need to do more to protect and commemorate and to celebrate this heritage, and we certainly need to promote it, particularly amongst the hundreds of millions of Pentecostal Christians around the world. We also need to do more to engage with Pentecostal churches and groups in our own constituencies, and to acknowledge the ongoing and positive contribution that they make to the Wales of today. Thank you for listening.

I grynhoi, felly, mae gan Gymru dreftadaeth Bentecostaidd gyfoethog iawn sydd wedi cael effaith enfawr ar Gristnogaeth yma yn y DU a ledled y byd. Mae angen i ni wneud mwy i'w diogelu a'i choffáu, ac i ddathlu'r dreftadaeth hon, ac yn sicr mae angen i ni ei hyrwyddo, yn enwedig ymhlith y cannoedd o filiynau o Gristnogion Pentecostaidd ledled y byd. Mae angen i ni wneud mwy hefyd i ymgysylltu ag eglwysi a grwpiau Pentecostaidd yn ein hetholaethau ein hunain, a chydnabod eu cyfraniad parhaus a chadarnhaol i Gymru heddiw. Diolch i chi am wrando.

17:57 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Darren Millar for allowing me a minute of his time. As one of the largest Pentecostal churches in Wales is located in my own constituency, it's right I should mention Hope Church in Newtown, and I also declare an interest as a proud member of that church. The church was formed in the 1950s following a few Christians meeting together in the early 1950s. The numbers have grown since, and there are now over 300 adults attending the church, and that doesn't include children. The church is currently building a new £3 million-plus project, a church fit for purpose, and of course the church is an unusual organisation in that it often exists, of course, for its non-members. As part of that building project, Hope Church undertook a community valuation that valued the current projects at over £290,000 every year to the community. Some of the current projects and activities that take place include: a midweek group for children, for young people, for adults, for the elderly; the church has a five-day-a-week day nursery; a counselling service with trained people; a money management course; delivery of Christmas meals on Christmas Day for over 100 people; street pastors that go out on a Saturday night into the early hours of Sunday morning, supporting the police; not to mention a 40-bed nursing home the church built a few years ago to support the community. I could go on if I had more than a minute, but I should say that all this, of course, started in Newtown with just a few people meeting together in the 1950s.

Diolch i Darren Millar am ganiatáu munud o'i amser i mi. Gan fod un o'r eglwysi Pentecostaidd mwyaf yng Nghymru wedi'i lleoli yn fy etholaeth, mae'n weddus i mi sôn am Eglwys Hope yn y Drenewydd, ac rwyf hefyd yn datgan buddiant fel aelod balch o'r eglwys honno. Cafodd yr eglwys ei ffurfio yn y 1950au ar ôl i rai Cristnogion fod yn cyfarfod â'i gilydd yn ystod y 1950au cynnar. Mae'r niferoedd wedi tyfu ers hynny, ac erbyn hyn mae dros 300 o oedolion yn mynychu'r eglwys, ac nid yw hynny'n cynnwys plant. Ar hyn o bryd mae'r eglwys yn adeiladu prosiect newydd sy'n werth £3 miliwn a mwy, eglwys sy'n addas at y diben, ac wrth gwrs mae'r eglwys yn sefydliad anarferol gan ei bod yn aml yn bodoli, wrth gwrs, i rai nad ydynt yn aelodau ohoni. Fel rhan o'r prosiect adeiladu, cynhaliodd Eglwys Hope brisiad cymunedol sy'n prisio gwerth y prosiectau cyfredol i'r gymuned bob blwyddyn ar £290,000. Mae rhai o'r prosiectau a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn cynnwys: grwpiau yn ystod yr wythnos ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion a'r henoed; mae gan yr eglwys feithrinfa a gynhelir ar bum diwrnod yr wythnos; gwasanaeth cwnsela gyda phobl wedi'u hyfforddi; cwrs rheoli arian; darpariaeth prydau bwyd Nadolig ar Ddydd Nadolig i dros 100 o bobl; bugeiliaid stryd sy'n mynd allan ar nos Sadwrn hyd oriau mân fore Sul, i gefnogi'r heddlu; heb sôn am gartref nyrsio yn cynnwys 40 gwely a adeiladwyd gan yr eglwys ychydig flynyddoedd yn ôl i gefnogi'r gymuned. Gallwn fynd ymlaen pe bai gennyf fwy na munud, ond dylwn ddweud bod hyn i gyd, wrth gwrs, wedi dechrau yn y Drenewydd gydag ond ychydig o bobl yn cyfarfod â'i gilydd yn y 1950au.

17:59 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, may I thank Darren for bringing forward this debate? I would like to pay tribute to his keen interest in this subject. He does raise a very important aspect of Welsh heritage.

Yn gyntaf oll, a gaf fi ddiolch i Darren am gyflwyno'r ddadl hon? Hoffwn roi teyrnged i'w ddiddordeb brwd yn y pwnc. Mae'n tynnu sylw at agwedd bwysig iawn ar dreftadaeth Cymru.

Pentecostalism is a part of Wales's nonconformist history. I appreciate the emphasis we've placed on the physical structures of nonconformity in Wales, however I do think we sometimes overlook the less visible heritage that nonconformity has played in the life of Wales.

Mae Pentecostiaeth yn rhan o hanes anghydffurfiol Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi'r pwyslais rydym wedi'i roi ar strwythurau ffisegol Anghydffurfiaeth yng Nghymru, ond rwy'n meddwl weithiau ein bod yn esgeuluso'r dreftadaeth lai gweladwy y mae Anghydffurfiaeth wedi'i roi i fywyd Cymru.

On the Sunday that the 1851 census took place, over half the population in Wales were recorded as present in the pews and two out of three were nonconformists. Nonconformity offered experiences that were not always available in formal education. Wales as a musical nation has its roots in nonconformity. It gave confidence and skills to people in the last century. We're still seeing its effects today, even though religious adherence has declined.

Ar y dydd Sul y cynhaliwyd cyfrifiad 1851, cofnodwyd bod dros hanner y boblogaeth yng Nghymru yn bresennol yn y cynulleidfaoedd ac roedd dau o bob tri o'r rhain yn anghydffurfwyr. Roedd Anghydffurfiaeth yn cynnig profiadau nad oeddent bob amser i'w cael mewn addysg ffurfiol. Mae gwreiddiau Cymru fel cenedl gerddorol yn seiliedig ar Anghydffurfiaeth. Rhoddodd hyder a sgiliau i bobl yn y ganrif ddiwethaf. Rydym yn dal i weld ei heffeithiau heddiw, er bod ymlyniad crefyddol wedi dirywio.

Interestingly, and to finish, one woman writing about her youth in a chapel in Maesteg said that, at chapel, they learned to understand narrative, to dispute and deconstruct the text, to disagree, yet act with formality and restraint—from hymns came poetry, from sermons came speech, from textual study came awareness of language. That, I believe, is a great legacy for all of us here in Wales.

Yn ddiddorol, ac i orffen, dywedodd un fenyw a oedd yn ysgrifennu am ei hieuenctid mewn capel ym Maesteg eu bod wedi dysgu deall naratif yn y capel, yn ogystal â sut i ddadlau a dadelfennu testun, a sut i anghytuno, ond i weithredu gyda ffurfioldeb ac ymatal er hynny—o emynau, daeth barddoniaeth, o bregethau, daeth lleferydd, o astudiaeth destunol, daeth ymwybyddiaeth o iaith. Mae hynny, yn fy marn i, yn etifeddiaeth wych i bob un ohonom yma yng Nghymru.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to reply—Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ateb—Ken Skates.

18:00

## Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased to respond to this short debate today as there are clearly very strong links between the Pentecostal movement and Wales. There is, therefore, I believe, great potential to do more to promote the Welsh ties. The Evangelical Alliance Wales will be celebrating those links in the coming months with events to commemorate the centenaries that the Reverend Darren Millar spoke of. Visit Wales will be more than happy to promote any events that are taking place, in particular to the travel trade. May I suggest that, given that 2017 has been designated the Year of Legends, we also look to see if there are further opportunities to tell the story of Evan Roberts, the Welsh revival of 1904 and its links to the Pentecostal church during that year?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o ymateb i'r ddadl fer hon heddiw gan ei bod yn amlwg fod cysylltiadau cryf iawn rhwng y mudiad Pentecostaidd a Chymru. Felly rwy'n credu bod yna botensial mawr i wneud mwy i hyrwyddo'r cysylltiadau Cymreig. Bydd Cynghrair Efengylaidd Cymru yn dathlu'r cysylltiadau hyn yn ystod y misoedd nesaf gyda digwyddiadau i goffáu'r canmlwyddiant y soniodd y Parchedig Darren Millar amdano. Bydd Croeso Cymru yn fwy na hapus i hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal, yn enwedig i'r fasnach deithio. O gofio bod 2017 wedi cael ei dynodi'n Flwyddyn y Chwedlau, a gaf fi awgrymu ein bod yn edrych i weld hefyd a oes yna gyfleoedd pellach i adrodd hanes Evan Roberts, diwygiad Cymreig 1904 a'i gysylltiadau â'r eglwys Bentecostaidd yn ystod y flwyddyn honno?

We know that visitors to Wales are increasingly interested in visiting historical attractions. For overseas visitors, visiting historical sites is often the No. 1 reason for coming to Wales. Some of our places of worship are amongst the most popular visitor attractions, if you like, in Wales. St David's cathedral attracts over 200,000 visitors a year, making it one of the top-10 most visited free attractions in Wales. Our tourism strategy recognises this by focusing on Wales's heritage as an area of competitive advantage. Wales has an intriguing religious heritage, from humble mountain-top chapels to historic abbeys and cathedrals. Each one has a story to tell and represents a rich seam of our history. They are an important part of our heritage and are possibly under exploited.

Gwyddom fod gan ymwelwyr â Chymru ddiddordeb cynyddol mewn ymweld ag atyniadau hanesyddol. I ymwelwyr tramor, ymweld â safleoedd hanesyddol yw'r prif reswm yn aml dros ddod i Gymru. Mae rhai o'n mannau addoli ymysg yr atyniadau mwyaf poblogaidd i ymwelwyr, os mynnwch, yng Nghymru. Mae Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yn denu dros 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan ei gwneud yn un o'r 10 atyniad rhad ac am ddim uchaf yng Nghymru o ran nifer ymwelwyr. Mae ein strategaeth dwristiaeth yn cydnabod hyn drwy ganolbwyntio ar dreftadaeth Cymru fel maes sy'n cynnig mantais gystadleuol. Mae gan Gymru dreftadaeth grefyddol ddiddorol, o gapeli mynyddig diymhongar i abatai hanesyddol ac eglwysi cadeiriol. Mae gan bob un stori i'w hadrodd ac mae'n wythïen gyfoethog yn ein hanes. Maent yn rhan bwysig o'n treftadaeth ac mae'n bosibl nad ydym wedi manteisio'n llawn arnynt.

We are making good progress in delivering the faith tourism action plan. As I mentioned during OAQs earlier today, we have developed a new toolkit aimed at non-conformist chapels, to encourage them to open their premises to visitors. That will be launched in the new year. It will address key concerns around theft and insurance, and will also offer practical advice on marketing, interpretation and signage. The toolkit is currently being tested with congregations around Wales. In fact, a workshop was held just last week with Saron chapel congregation in Bridgend. A further workshop is planned for west Wales before Christmas. There is also an opportunity over the next few months to trial the toolkit with congregations from the Pentecostal churches.

Rydym yn gwneud cynnydd da ar gyflawni'r cynllun gweithredu ar dwristiaeth ffydd. Fel y soniais yn ystod y cwestiynau yn gynharach heddiw, rydym wedi datblygu pecyn cymorth newydd ar gyfer capeli anghydffurfiol, i'w hannog i agor eu safleoedd i ymwelwyr. Bydd hynny'n cael ei lansio yn y flwyddyn newydd. Bydd yn rhoi sylw i bryderon allweddol yn ymwneud â lladrad ac yswiriant, a bydd hefyd yn cynnig cyngor ymarferol ar farchnata, dehongli ac arwyddion. Mae'r pecyn cymorth yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gyda chynulleidfaoedd ledled Cymru. Yn wir, cynhaliwyd gweithdy yr wythnos diwethaf gyda chynulleidfa capel Saron ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gweithdy pellach wedi'i gynllunio ar gyfer gorllewin Cymru cyn y Nadolig. Mae yna gyfle hefyd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i dreialu'r pecyn cymorth gyda chynulleidfaoedd yr eglwysi Pentecostaidd.

Work is already under way on developing and promoting pilgrimage trails in Wales. Following the successful launch of the north Wales pilgrim's trail, the faith tourism working group is also looking at the potential to develop pilgrimage trails in other parts of Wales. We've provided funding to Sanctaidd to develop a section of the Cistercian way in south-east Wales as a pilot project. That pilot route will start at Caerleon, crossing south Wales to Margam. The work involves waymarking the route and preparing downloadable maps to help walkers navigate it. The website has also been improved and redesigned to make it more visitor friendly. That will be launched in March.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar ddatblygu a hyrwyddo llwybrau pererindod yng Nghymru. Yn dilyn lansiad llwyddiannus llwybr pererinion gogledd Cymru, mae'r gweithgor twristiaeth ffydd hefyd yn edrych ar botensial datblygu llwybrau pererindod mewn rhannau eraill o Gymru. Rydym wedi darparu cyllid i Sanctaidd i ddatblygu rhan o'r ffordd Sistersaidd yn ne-ddwyrain Cymru fel prosiect peilot. Bydd y llwybr peilot hwnnw'n dechrau yng Nghaerllion, gan groesi de Cymru i Fargam. Mae'r gwaith yn cynnwys mynegbyst ar y llwybr a pharatoi mapiau y gellir eu lawrlwytho i helpu cerddwyr i'w ddilyn. Hefyd, mae'r wefan wedi cael ei gwella a'i hail-ddylunio i'w gwneud yn haws i ymwelwyr ei defnyddio. Caiff ei lansio ym mis Mawrth.

I think it's essential that we continue to promote faith tourism. New content on faith tourism has been created on the Visit Wales website, including four articles identifying the must-see sacred places to visit in each of the four regions of Wales. More articles have been written and will appear over the coming months. Visit Wales's main brochure for 2015, 'Wales View', included a feature on faith tourism, featuring the writer and historian, the Rev Lionel Fanthorpe. There's also an accompanying online video.

Rwy'n credu ei bod yn hanfodol i ni barhau i hyrwyddo twristiaeth ffydd. Crëwyd cynnwys newydd ar dwristiaeth ffydd ar wefan Croeso Cymru, gan gynnwys pedair erthygl yn nodi'r lleoedd cysegredig sy'n rhaid eu gweld ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru. Ysgrifennwyd mwy o erthyglau a byddant yn ymddangos dros y misoedd nesaf. Roedd prif lyfryn Croeso Cymru ar gyfer 2015, 'Golwg ar Gymru', yn cynnwys erthygl ar dwristiaeth ffydd, gyda'r awdur a'r hanesydd, y Parch Lionel Fanthorpe. Hefyd, ceir fideo ar-lein i fynd gyda'r erthygl.

Again, as I mentioned earlier today during oral questions, an audit of the most significant religious sites and sacred places to visit in Wales has recently been completed by Visit Wales, and this will be used to inform tourism and marketing's promotional work. It will also, as I mentioned, be made available to local authorities and local businesses for use in their own marketing plans.

Unwaith eto, fel y soniais yn gynharach heddiw yn ystod y cwestiynau llafar, yn ddiweddar cwblhaodd Croeso Cymru yr archwiliad mwyaf sylweddol o safleoedd crefyddol a mannau sanctaidd i ymweld â hwy yng Nghymru, a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith ar dwristiaeth a hyrwyddo marchnata. Fel y soniais, bydd hefyd ar gael i awdurdodau lleol a busnesau lleol ei ddefnyddio yn eu cynlluniau marchnata eu hunain.

In addition, the Open Doors event run by Cadw in September was incredibly successful from a faith tourism perspective. A total of 132 faith buildings participated in the event and that represented 40 per cent of all of the venues.

Yn ogystal, roedd y digwyddiad Drysau Agored a gynhaliwyd gan Cadw ym mis Medi yn hynod lwyddiannus o safbwynt twristiaeth ffydd. Cymerodd cyfanswm o 132 o adeiladau ffydd ran yn y digwyddiad sef 40 y cant o'r holl leoliadau.

We recognise the importance of Wales's religious buildings to national heritage and are committed to helping safeguard our historic and religious buildings. This includes listing buildings and, wherever possible, providing grants for repair and conservation. The purpose of the strategic action plan for places of worship is to strengthen support for conservation and to encourage positive action to secure sustainable futures for cherished buildings. In acknowledgement of the importance of religious buildings and, indeed, that there are too many buildings being managed by too few people, we've been working with the sector to develop and implement a strategic action plan for places of worship that will help address the challenges facing them. Further consultation on the strategic action plan took place over the summer, and the plan was recently finalised as a result. I have now agreed the final plan, and am looking forward to launching it in the coming weeks.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol Cymru i dreftadaeth genedlaethol ac yn ymrwymo i helpu i ddiogelu ein hadeiladau hanesyddol a chrefyddol. Mae hyn yn cynnwys rhestru adeiladau a lle bynnag y bo'n bosibl, darparu grantiau ar gyfer atgyweirio a chadwraeth. Diben y cynllun gweithredu strategol ar gyfer mannau addoli yw cryfhau cefnogaeth i gadwraeth ac annog camau cadarnhaol i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer adeiladau sy'n annwyl i ni. I gydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol ac yn wir, i dynnu sylw at y ffaith fod gormod o adeiladau yn cael eu rheoli gan nifer rhy fach o bobl, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu strategol ar gyfer mannau addoli a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y cynllun gweithredu strategol dros yr haf, a chwblhawyd y cynllun yn ddiweddar o ganlyniad i hynny. Rwyf wedi cytuno ar y cynllun terfynol yn awr, ac rwy'n edrych ymlaen at ei lansio yn ystod yr wythnosau nesaf.

18:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr iawn. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:06.*

*The meeting ended at 18:06.*